



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# **BIL CYLLID LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)**

**Memorandwm Esboniadol**  
yn ymgorffori'r  
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a  
Nodiadau Esboniadol

**Gorffennaf 2024**

# **Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

## **Memorandwm Esboniadol i'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi ei baratoi gan Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru a'i osod gerbron Senedd Cymru.

Cafodd ei baratoi a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Tachwedd 2023, a gosodir yn awr Femorandwm diwygiedig yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

## **Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i byddai darpariaethau Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), a gyflwynir gennyf i ar 20 Tachwedd 2023, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

## **Rebecca Evans AS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet  
Yr Aelod o'r Senedd sy'n gyfrifol am y Bil

2 Gorffennaf 2024

# CYNNWYS

Datganiad yr Aelod	1
--------------------	---

## RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

1. Disgrifiad	3
2. Cymhwysedd Deddfwriaethol	5
3. Diben y Ddeddfwriaeth a'r Effaith y Bwriedir iddi ei Chael	6
4. Ymgynghoriad	29
5. Y Pŵer i Wneud Is-ddeddfwriaeth	34

## RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Crynodeb o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol	48
7. Strwythur yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, Egwyddorion a Chafeatau	53
8. Opsiynau, Costau a Manteision	55
9. Aseiad Effaith Integredig	110
10. Aseu'r Gystadleuaeth	119
11. Adolygu ar ôl gweithredu	121
12. Aseiad Fforddiadwyedd	122

## ATODIADAU

<b>ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol</b>	129
<b>ATODIAD 2 – Mynegai o Ofynion y Rheolau Sefydlog</b>	149
<b>ATODIAD 3 – Tabl tarddiadau</b>	155
<b>ATODIAD 4 – Atodlen o ddiwygiadau</b>	157

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) ('y Bil') yn cyfrannu at ddiwygio'r system ardrethi annomestig a'r system dreth gyngor yng Nghymru.

1.2 I grynhoi, mae'r Bil yn cynnig y dylid gwneud y canlynol mewn perthynas â'r system ardrethi annomestig:

- cynnal ailbrisiadau bob tair blynedd a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r flwyddyn ailbrizio a'r bwch rhwng blynyddoedd ailbrizio drwy reoliadau;
- rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn rhoi neu amrywio rhyddhadau neu eu tynnu'n ôl;
- cryfhau'r amodau cymhwystra ar gyfer rhyddhad elusennol i hereditamentau heb eu meddiannu;
- ehangu'r diffiniad o adeilad newydd at ddibenion cyflwyno hysbysiadau cwblhau gan awdurdodau lleol;
- dileu cyfyngiad amser ar ddyfarnu ac amrywio rhyddhad dewisol gan awdurdodau lleol;
- rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn rhoi neu amrywio esemptiadau neu eu tynnu'n ôl;
- rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn pennu lluosyddion gwahaniaethol yn seiliedig ar y disgrifiad o hereditament, ei werth ardrethol neu ei leoliad ar y rhestr leol, neu werth ardrethol hereditament ar y rhestr ganolog;
- gosod dyletswydd ar dalwyr ardrethi i ddarparu mathau penodol o wybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brizio a gwneud darpariaeth ar gyfer y gyfundrefn gydymffurfio gysylltiedig; a
- gwneud darpariaeth ynghylch gwrthweithio manteision sy'n deillio o drefniadau osgoi trethi artiffisial.

1.3 Ac mewn perthynas â system y dreth gyngor mae'n cynnig y dylid gwneud y canlynol:

- rhoi hyblygrwydd i'r cyfeirbwynt ar gyfer 100% yn y strwythur bandio gael ei newid i fand gwahanol neu ddisgrifiad gwahanol o fand;
- rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â disgowntiau a phersonau i'w diystyru;
- gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud un Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cenedlaethol drwy reoliadau a galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch y ffordd y dylid cymhwyso'r cynllun;

- sefydlu cylch ailbrizio pum mlynedd a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r flwyddyn ailbrizio a'r bwlch rhwng ailbrisiadau, yn ogystal â diwygio dyddiad cyhoeddi rhestrau drafft drwy orchymyn; a
- dileu'r gofyniad presennol i gyhoeddi gwybodaeth mewn papurau newydd ac, yn ei le, gyflwyno gofyniad i gyhoeddi hysbysiad o daliadau'r dreth gyngor ar wefan yr awdurdod lleol a rhoi trefniadau amgen addas ar waith er mwyn sicrhau bod gwybodaeth o'r fath ar gael i ddinasyddion sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio cyfleusterau ar-lein.

## **2. Cymhwysedd Deddfwriaethol**

- 2.1 Mae gan Senedd Cymru ('y Senedd') gymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) ('y Bil') yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

### **3. Diben y Ddeddfwriaeth a'r Effaith y Bwriedir iddi ei Chael**

#### **Y cyd-destun**

- 3.1 Mae llywodraeth leol effeithiol yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau lleol a chenedlaethol i gymunedau yng Nghymru. Mae'n amlwg na ellir darparu'r gwasanaethau hyn heb gyllid ac mae angen i system gyllido gadarn fod wrth wraidd y ddarpariaeth. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan lywodraeth leol yn rhai y mae pob un ohonom yn cael budd ohonynt ac maent ymhlith y gwasanaethau mwyaf hanfodol ac uniongyrchol rydym yn eu cael. Maent yn cynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol, tai, cynnal a chadw'r amgylchedd a ffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus, llyfrgelloedd, cyfleusterau chwaraeon a thwristiaeth, cynllunio a hwyluso datblygiad economaidd.
- 3.2 Mae'r gwasanaethau y mae cyllid llywodraeth leol yn ei gwneud yn bosibl eu darparu yn hanfodol i gynnal cyfleoedd mewn bywyd, ansawdd bywyd a gwriad ein cymdeithas a'r amgylchedd. Maent yn defnyddio cyfran sylweddol iawn o gyfanswm y gwariant cyhoeddus yng Nghymru. Yn ogystal â'r 22 o brif awdurdodau lleol (y cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol), mae llywodraeth leol yng Nghymru yn cynnwys Gwasanaethau Tân ac Achub, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Chynghorau Cymuned a Thref. Ar hyn o bryd, gyda'i gilydd, maent yn defnyddio mwy na £10 biliwn bob blwyddyn i ddarparu'r gwasanaethau hyn a chefnogi swyddogaethau eraill megis bargeinion dinesig a thwf a phartneriaethau rhanbarthol eraill.
- 3.3 Mae'r system drethu leol yn effeithio ar bob eiddo sydd ym mherchnogaeth aelwyd neu dalwr ardrethi, neu a feddiannir gan aelwyd neu dalwr ardrethi, naill ai drwy greu atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor neu ardrethi annomestig, neu drwy ddarparu rhyddhad rhag atebolrwydd drwy un o'r cynlluniau cymorth, neu'r ddau. Mae trethi lleol yn aml yn sianeli gwariant sylweddol i aelwydydd, busnesau a thalwyr ardrethi eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod y cyfraniadau ariannol a wneir i lywodraeth leol yn cael eu hystyried yn rhai teg a'u bod yn cael eu cyfrifo ar sail amgylchiadau cyfredol a bod y broses yn dryloyw ac yn ddibynadwy.

#### **Cefndir y Bil**

- 3.4 Bu cydnabyddiaeth ers amser maith fod angen bwrw ymlaen â gwaith i ddiwygio trethi lleol yng Nghymru. Yn ystod tymor diwethaf y Senedd, gwnaeth Llywodraeth Cymru sawl ymrwymiad i adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer cyllid llywodraeth leol – gan gydnabod bod gwelliannau i'w gwneud a syniadau mwy radical i'w hystyried. Er mwyn sicrhau bod unrhyw gynigion ar gyfer newid yn cael eu llywio'n briodol gan asesiad trylwyr o'r trefniadau rydym wedi bod yn gweithredu o'u mewn, a'r opsiynau amgen, dechreuwyd rhaglen ymchwil gynhwysfawr yn 2017 a arweiniodd at gyhoeddi [Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r Canfyddiadau](#) ym mis Chwefror 2021.

- 3.5 Mae system cyllid llywodraeth leol yn gofyn i lywodraeth ganol a llywodraeth leol weithio mewn partneriaeth, a'r naill a'r llall yn cymryd cyfrifoldeb am wneud a chyfarwyddo cyfraniadau mawr. Yng Nghymru, darperir tua 70% o gyllid llywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru drwy gyllid grant, gyda'r gweddill, tua 30%, yn cael ei gasglu gan lywodraeth leol o fewn fframweithiau ar gyfer trethi lleol. Mae llywodraeth leol hefyd yn casglu ffioedd a thaliadau am weithgareddau penodol.
- 3.6 Mae angen ystyried y system gyllid yn ei chyfanrwydd, gan gydnabod y bydd lefel y cyfraniadau gan un rhan yn effeithio ar anghenion cyllido rhan arall. Er bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cynyddu hyd yr eithaf ar lefel y cyllid y mae'n ei roi i lywodraeth leol ar gyfer darparu gwasanaethau hanfodol, mae'r swm sydd ar gael yn y pen draw yn deillio o gydbwysedd gofalus rhwng ein blaenoriaethau gwario a'r cyfyngiadau a wynebwn o ganlyniad i sefyllfa economaidd Cymru yn y DU a thu hwnt. Yn hollbwysig, rydym hefyd yn cydnabod y cyfraniadau y mae pobl, busnesau a thalwyr ardrethi eraill yng Nghymru yn eu gwneud drwy drethi a gesglir gan Lywodraeth y DU, y byddent, yn gywir ddigon, yn disgwyl eu gweld yn cael eu bwydo drwodd i helpu i ddarparu eu gwasanaethau cyhoeddus yn lleol. Yn y cyd-destun hwn, gyda'i gilydd, byddai trethdalwyr yn disgwyl i gyfraniad llywodraeth ganol yng Nghymru fod yn ddigon mawr i osgoi'r angen i'w cyfraniadau drwy drethi lleol fod yn uwch nag mewn rhannau eraill o'r DU.
- 3.7 Yn y cyd-destun hwn, roedd y rhaglen ymchwil a gynhaliwyd yn ystod tymor diwethaf y Senedd yn canolbwyntio'n bennaf ar drethi lleol gan mai'r rhain yw'r elfennau yn y trefniadau cyllidol y mae gennym bwerau i'w haddasu. Dangosodd y gwaith faint o'r fframweithiau cyfreithiol sy'n cwmpasu'r trethi hyn yng Nghymru sy'n dyddio o'r cyfnod cyn datganoli, gyda rhannau o'r system bellach yn amharu ar allu Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i wneud newidiadau sy'n diwallu ein hanghenion.
- 3.8 Ystyriodd y rhaglen ymchwil fathau amgen o drethi lleol megis treth gwerth tir leol, trethi lleol sy'n seiliedig ar incwm, neu foderneiddio'r systemau presennol ar gyfer ardrethi annomestig a'r dreth gyngor. Esboniodd fod trethi ar dir ac eiddo yn wahanol i drethi ar incwm ac, felly, nad ydynt yn arwain at yr un canlyniad, ac na allant wneud hynny. Bydd dewis i'w wneud yn y dyfodol o ran a fyddwn yn parhau i godi refeniw lleol yn seiliedig ar eiddo neu ar fesurau eraill o gyfoeth a'r gallu i dalu. Nid yw'n ddewis y gallwn ei wneud ar hyn o bryd oherwydd, fel yr esbonia'r gwaith, mae llawer o risgiau a rhwystrau yn gysylltiedig â rhaglen ddiwygio radical sy'n golygu bod angen asesu'r opsiynau sydd ar gael yn fanwl gydag ymgysylltiad gan bob rhanddeiliad er mwyn sicrhau – fel y'i pwysleisir – fod unrhyw ddulliau gweithredu amgen yn amlwg well, nid dim ond yn wahanol.
- 3.9 Mae hefyd yn hanfodol cydnabod, er bod cymhwysedd i wneud deddfwriaeth mewn perthynas â threthi lleol wedi'i ddatganoli, ein bod yn dibynnu ar Asiantaeth y Swyddfa Brisiol ar hyn o bryd i weinyddu agweddau ar y system yng Nghymru. Mae'n cyflawni swyddogaethau tebyg ar gyfer Lloegr. Mae hyn yn arwain at arbedion maint rydym yn cael budd ohonynt, oherwydd nodweddion tebyg a natur gydgysylltiedig y systemau trethu lleol yn y ddwy



wlad, ond mae'n gosod cyfyngiadau gweithredol ar y graddau rydym wedi gallu gwneud pethau yn wahanol yng Nghymru. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisió wrthi'n cynnal prosiect sylweddol i drawsnewid ei systemau sy'n golygu y gallai fod mwy o gyfleoedd i benderfyniadau gael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r prosesau prisio a chefnogi'r gwaith o gyflawni ein rhaglen ddiwygio. Fodd bynnag, byddai angen inni naill ai gytuno i ddefnyddio adnoddau at ddibenion gwahanol neu drosglwyddo adnoddau digonol i Gymru, petai angen i'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisió newid yn sylweddol er mwyn i welliannau allu cael eu gwneud i'n system drethu leol (systemau trethu lleol).

- 3.10 Yn seiliedig ar yr ymchwil helaeth a'r profiad o weithredu'r systemau trethu lleol presennol ers dros 20 mlynedd, mae Llywodraeth Cymru wedi meithrin dealltwriaeth glir o'r ffordd y mae deddfwriaeth sylfaenol bresennol sy'n cwmpasu ardrethi annomestig a'r dreth gyngor, ac sy'n dyddio o'r cyfnod cyn datganoli, yn cyfyngu ar ein gallu i wneud addasiadau amserol er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r cymorth cywir gael ei ddarparu i aelwydydd, busnesau a thalwyr ardrethi eraill yng nghyd-destun ein blaenoriaethau.
- 3.11 Mae cyfyngiadau'r system wedi'u dangos yn gliriach fyth ers i'r rhaglen ymchwil ddod i ben wrth inni barhau i weithio i gefnogi aelwydydd a busnesau yn ystod pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw. O ganlyniad, mae'n amlwg bod angen newid y fframwaith deddfwriaethol sylfaenol ar gyfer trethi lleol yng Nghymru.
- 3.12 Mae angen cyflawni newid cyn gynted â phosibl er mwyn i addasiadau i drethu lleol allu cael eu gwneud mewn ffordd sy'n ymateb yn fwy effeithiol i bryderon dybryd a pharhaus sy'n deillio o ansefydlogrwydd economaidd, anghydraddoldeb ac argyfwng newid yn yr hinsawdd. Mae Llywodraeth Cymru am wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi cydnerthedd cymunedol, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd hwn, yr ymddengys y bydd yn parhau am beth amser eto.

### **Diben cyffredinol y Bil**

- 3.13 Bydd darpariaethau'r Bil hwn yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddiwygio ardrethi annomestig a'r dreth gyngor yng Nghymru, gan fynd i'r afael â llawer o gyfyngiadau'r trefniadau presennol. Mae ardrethi annomestig yn cynhyrchu mwy na £1 biliwn ac mae'r dreth gyngor yn cynhyrchu £2 biliwn o'r £10 biliwn a gaiff ei wario bob blwyddyn i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yng Nghymru.
- 3.14 Gan gadw trethi lleol o'r maint a'r arwyddocâd hwn mewn cof, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio i addasu'r system er mwyn cyflawni newid yn raddol mewn ffordd sy'n sicrhau gwelliannau amlwg i drethdalwyr cyn gynted â phosibl, ac mae'r gwaith hwnnw'n dal i fynd rhagddo. Mae angen gwneud newidiadau er mwyn cefnogi'r rhai sy'n wynebu heriau sylweddol mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym y mae effeithiau anrhagweladwy ac uniongyrchol iawn wedi deillio ohono. Mae'n amlwg bellach bod angen newid deddfwriaeth sylfaenol fel bod mwy o gyfle i dargedu cymorth a chynnal

system decach o drethi lleol dros y tymor canolig. Bydd hyn yn sicrhau y gall Llywodraeth Cymru fod yn fwy ymatebol, gan weithio ochr yn ochr â llywodraeth leol, sy'n chwarae rhan allweddol wrth gasglu a rheoli trethi lleol y maent yn ddemocrataidd atebol amdanynt.

- 3.15 Mae'r darpariaethau yn y Bil hwn wedi'u llunio'n ofalus er mwyn cynyddu gallu Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i gyflwyno'r trefniadau tecaf posibl yng nghyd-destun systemau sefydledig ardrethi annomestig a'r dreth gyngor. Mae pob newid wedi'i dargedu er mwyn i wahaniaethau cadarnhaol allu cael eu cyflawni y gwyddom, yn seiliedig ar y cefndir a amlinellwyd uchod, y byddant naill ai'n sicrhau gwelliannau penodol neu'n ei gwneud hi'n bosibl i welliannau gael eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau sy'n datblygu.
- 3.16 Mae'r Bil yn darparu pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth mewn sawl maes. Y rheswm dros hyn yw bod angen y gallu i wneud newidiadau mewn modd amserol er mwyn addasu'r systemau mewn ymateb i flaenoriaethau, amgylchiadau a phwysau sy'n newid. Bydd y pwerau arfaethedig yn lleihau'r angen am fesurau anneddfwriaethol brys, megis y rhai sydd wedi'u defnyddio i dargedu cymorth yn ystod y blynyddoedd diwethaf mewn ymateb i bandemig Covid-19. Yn bwysig ddigon, byddant yn lleihau ein dibyniaeth ar ddarpariaethau y bu'n rhaid eu ceisio yn aml ym Miliâu Senedd y DU er mwyn cyflawni newidiadau ar gyfer Cymru o fewn deddfwriaeth sylfaenol gyfredol. Ers 2011, bu'n rhaid inni ddefnyddio Biliau Llywodraeth y DU ar o leiaf 13 o achlysuron er mwyn gwneud newidiadau angenrheidiol i'r system ardrethi annomestig a system y dreth gyngor yng Nghymru.
- 3.17 Ym mhob achos lle mae pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth wedi'u cynnig, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried a allai darpariaethau o sylwedd gael eu nodi'n briodol ar wyneb y Bil. Daethpwyd i'r casgliad – er y gallai manylion gael ei hoptimeiddio ar gyfer yr amgylchiadau cyfredol – eu bod yn annhebygol o sefyll prawf amser ac y byddent yn arwain at ddiffyg hyblygrwydd a nodweddiad anaddas sydd wedi deillio o'r ddeddfwriaeth gyfredol ac y mae ein gwaith diwygio yn ceisio mynd i'r afael â nhw, ymhlith pethau eraill. Mae hyn hefyd yn golygu mai Senedd Cymru fydd yn craffu ar y ddeddfwriaeth berthnasol yn hytrach na Senedd y DU. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y fath bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, gan gydbwyso'r angen am ddulliau gwell o wneud deddfwriaeth fwy ymatebol sy'n haws i'w haddasu â'r cyfle i graffu'n fanylach ar ddeddfwriaeth yng Nghymru.
- 3.18 Ar y cyfan, bydd y newidiadau rydym yn eu cynnig yn sicrhau bod y fframwaith ar gyfer trethi lleol:
- yn cyd-fynd yn agosach â newidiadau yn amodau'r farchnad;
  - yn ymateb i'r cyd-destun sy'n datblygu ar gyfer trethdalwyr, a'r effeithiau dilynol ar gymunedau; ac
  - wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion Cymru drwy gael ei sefydlu a'i gynnal o fewn pwerau a strwythurau datganoledig.

## Rhan 1: Ardrethi annomestig

### Y cefndir

- 3.19 Ers dros 30 mlynedd, mae'r system ardrethi annomestig yn fath pwysig o drethiant lleol. Mae'r fframwaith cyfreithiol a sefydlodd y system yn 1988 yn dyddio o'r cyfnod cyn datganoli, ond dyma yw sail y rhan fwyaf o bwerau Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau i bolisiau. Mae'r pwerau hyn i lunio polisiau wedi bod yn cael eu cymhwyso ers datganoli ym 1999. Fodd bynnag, cafodd ardrethi annomestig eu gwahanu'n ariannol yn ddiweddarach, yn 2015; roedd hyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru bellach yn atebol ar sail gyllidol am yr holl refeniw a gaiff ei godi drwy'r ardrethi hyn a'r risgiau cyllidebol sy'n gysylltiedig ag amrywiadau blynyddol.
- 3.20 Mae'r system bresennol yn gweithredu ar y sail bod ardrethi annomestig yn cael eu codi ar feddianwyr neu, o dan rai amgylchiadau, berchenogion hereditamentau annomestig (a elwir yn dalwyr ardrethi). Mae hereditamentau yn unedau eiddo ag asesiad prisio – gan gynnwys adeiladau brics a morter yn ogystal â seilwaith trafniadaeth a chyfleustodau mawr (e.e. meysydd awyr, rhwydweithiau telathrebu a seilwaith ar gyfer cyflenwi nwy, trydan a dŵr). Nid busnes yw pob talwr ardrethi ac mae'n amlwg nad oes angen eiddo masnachol ar bob busnes i weithredu.
- 3.21 Mae gan y sylfaen drethu ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru fwy na 125,000 o hereditamentau mewn pedwar prif gategori, ac mae'r niferoedd a'r gwerthoedd ardrethol ar 1 Ebrill 2023 fel a ganlyn.

Categori	Hereditamentau	Gwerth ardrethol
Diwydiannol	34,000	£670m
Siopau	30,000	£610m
Swyddfeydd	20,000	£280m
Eraill	44,000	£900m
<b>Cyfanswm</b>	<b>128,000</b>	<b>£2.46bn</b>

*Nodyn: Mae'r refeniw net a godir o ardrethi annomestig (tua £1.1bn bob blwyddyn) yn adlewyrchu'r swm a gyfrifir drwy gymhwyso'r lluosydd ardrethi annomestig (0.535 yn 2023-24) at werth ardrethol hereditamentau unigol ac yna unrhyw ryddhadau y mae'r talwr ardrethi yn gymwys i'w cael. Dyma pam mae'r refeniw a godir yn llai na chyfanswm gwerth ardrethol hereditamentau wedi'u lluosu â 0.535 (lluosydd 2023-24).*

- 3.22 Mae'r rhan fwyaf o'r hereditamentau o fewn ystodau gwerth is, ac mae gan fwy na'u hanner werth ardrethol is na £6,000. Mae hyn yn bwysig wrth ystyried sut y dylai'r system ardrethi annomestig yng Nghymru fod wedi'i chyflunio.
- 3.23 Mae i'r system ardrethi annomestig bresennol lawer o fanteision, gan gynnwys y canlynol:
- mae ei chyfradd dreth yn un gyfrannol ac (ar y cyfan) mae'n ffrwd refeniw ddibynadwy sy'n parhau i godi lefelau da o refeniw yn naturiol ar gyfer gwasanaethau lleol;

- mae'n gweithredu fel cronfa genedlaethol sy'n dosbarthu'r swm a godir ymhlith awdurdodau lleol mwyn caniatáu ar gyfer yr amrywiant mawr yn eu gallu i godi trethi, gan sicrhau tegwch cyffredinol;
- mae ganddi rywfaint o hyblygrwydd i roi cymorth sylweddol i'r rhai sy'n llai abl i fodloni eu rhwymedigaethau, megis meddianwyr eiddo bach a rhai sectorau yn ystod cyfnodau economaidd anodd;
- mae'n cryfhau'r berthynas leol rhwng awdurdodau lleol a chymunedau busnes, gan gynnal gwybodaeth leol o'r amgylchedd busnes a hwyluso'r ffordd i greu cysylltiadau â pholisïau economaidd ehangach awdurdodau lleol;
- mae'n dreth leol hynod effeithlon sy'n cyflawni cyfraddau casglu o fwy na 97% yn gyson o un flwyddyn i'r llall, gyda chostau gweinyddu isel (llai nag 1% o'r swm a godir); ac
- mae'n hirhoedlog ac yn fwy anodd ei hosgoi na mathau eraill o dreth.

3.24 Ar 29 Mawrth 2022, gwnaeth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol [ddatganiad](#) yn nodi cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio'r system ardrethi annomestig yn ystod tymor y Senedd gyffredol. Nod uniongyrchol Llywodraeth Cymru yw cynnal buddiannau'r system bresennol, gan gyflawni newidiadau a fydd yn gwella'r system gyffredinol ac yn ymateb i heriau sy'n dod i'r amlwg. Mae angen newid deddfwriaeth sylfaenol i wella'r system er mwyn ei gwneud yn haws i ymateb i newidiadau yn economi Cymru. Ni chafodd y trefniadau presennol eu cyflunio i gyd-fynd â'n heconomi na'n blaenoriaethau.

3.25 Mae nifer o ddulliau ysgogi ar gael i Lywodraeth Cymru i newid y ffordd y mae'r system ardrethi annomestig yn gweithredu, ond caiff ystod a chwmpas y dulliau ysgogi hyn eu cyfyngu oherwydd mai prin yw'r cyfleoedd i wneud deddfwriaeth o fewn y fframwaith presennol a'r cyfyngiadau gweithredol. O ganlyniad, mae gallu Llywodraeth Cymru i gymryd camau i gefnogi talwyr ardrethi sy'n wynebu heriau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gyfyngedig, ac mae wedi dibynnu ar bwerau disgresiwn i ddarparu cymorth wedi'i dargedu lle nad oes digon o le o fewn y fframwaith deddfwriaethol i ystyried ei ddarparu ar sail statudol heb deddfwriaeth sylfaenol. Mae deddfwriaeth Llywodraeth y DU hefyd wedi'i defnyddio mewn sawl achos i'w gwneud yn bosibl i gymorth newydd gael ei ddarparu pan fyddai gwahaniaeth yn amseriad cyfleoedd deddfwriaethol sylfaenol fel arall yn rhoi talwyr ardrethi yng Nghymru o dan anfantais gymharol.

3.26 Bwriedir i'r agenda ddiwygio, y mae'r Bil hwn yn gwneud cyfraniad sylweddol at ei chyflawni, ymdrin â'r cyfyngiadau hyn, gan gynnig cyfleoedd i Lywodraeth Cymru addasu ac adnewyddu'r system i Gymru, gan fwrw ati'n benodol i ddylunio elfennau sy'n adlewyrchu ein sylfaen drethu. Mae'r newidiadau hyn yn ein symud tuag at gyflawni ein huchelgais i gyflwyno system ardrethi annomestig newydd i Gymru. Ein huchelgais yw cyflwyno system sy'n gwneud y canlynol:

- adlewyrchu natur yr economi yng Nghymru yn well, ac yn ystyried newidiadau;

- caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud yng Nghymru ac i Gymru fod yn atebol am y penderfyniadau hynny, gan feithrin y sectorau a'r busnesau rydym am iddynt dyfu;
- golygu bod talwyr ardrethi yn gwneud cyfraniad teg at y gwasanaethau a gânt;
- ariannu gwasanaethau y mae busnesau a'u cyflogeion yn dibynnu arnynt; a
- chysylltu busnesau a thalwyr ardrethi eraill â chymunedau.

3.27 Bydd cyflawni'r newidiadau hyn yn cyfrannu mewn sawl ffordd at ein hymrwymiaadau yn y [Rhaflen Lywodraethu](#), ac ymrwymiaadau blaenorol y [Cytundeb Cydweithio](#). Byddant yn rhoi mwy o gyfleoedd i Gymru deilwra ei system ardrethi annomestig er mwyn diwallu ein hanghenion a chyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer creu economi gryfach a gwyrddach. Bydd y ffyrdd y bydd y diwygiadau yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu busnesau a sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn cyfrannu at gynnal cyfleoedd cyflogaeth yn ein cymunedau - gan eu gwneud yn lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt.

3.28 Mae cyflawni'r uchelgais hon yn gyflym yn arbennig o bwysig ar hyn o bryd pan fo pris nwyddau a gwasanaethau a chostau ynni yn cael effaith andwyol ar fusnesau a'u cyflogeion ledled Cymru. Mae'r uchelgais hon hefyd yn ategu ac yn cyd-fynd â'n cynlluniau ar gyfer economi Cymru fel y'u nodir yn ein [Cynllun Gweithredu ar yr Economi](#) a'n [Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi](#) sy'n canolbwyntio ar ddatblygu economi sylfaenol sy'n adlewyrchu gwerthoedd partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg.

### **Diben y darpariaethau a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael**

3.29 Yn benodol, er mwyn sicrhau bod ein system ardrethi annomestig yn decach ac yn fwy addas i ddiwallu anghenion a chyflawni blaenoriaethau ar gyfer datblygu busnes yng Nghymru, diben y Bil yw gwneud newidiadau yn y meysydd canlynol.

### Rhestrau ardrethu

#### *Rhestrau ardrethu lleol a chanolog: ailbrisiadau amlach*

3.30 Mae atebolrwydd o ran ardrethi annomestig yn seiliedig ar werthoedd ardrethol hereditamentau sydd, yn gyffredinol, yn adlewyrchu gwerthoedd rhentu blynyddol. Caiff gwerthoedd ardrethol eu pennu'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac maent yn ymddangos ar restrau ardrethi annomestig. Mae sawl rhestr leol sy'n cynnwys manylion eiddo ar gyfer pob ardal awdurdod lleol, gyda'r gwaith o weinyddu a chasglu referniw yn cael ei wneud gan yr awdurdod lleol. At hynny, mae rhestr ganolog ar gyfer mathau penodol o eiddo sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol (e.e. cyfleustodau), gyda'r gwaith o weinyddu a chasglu referniw yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru.

3.31 Ar hyn o bryd, y cyfnod diofyn ar gyfer cynnal ymarferion ailbrisio hereditamentau at ddibenion ardrethi annomestig yng Nghymru yw bob pum

mlynedd a chynhaliwyd yr ailbrisiad mwyaf diweddar ar 1 Ebrill 2023. Mae pob un o wledydd y DU yn ystyried cylchoedd ailbrisiu byrrach er mwyn gwella tegwch y system ardrethi annomestig a'i hymatebolrwydd i newidiadau economaidd.

- 3.32 Gan gydnabod yr achos o blaid cylch mwy cyflym ac ymatebol, yn ogystal â'r awydd ymhlith rhanddeiliaid i gynnal ailbrisiadau yn fwy aml na phob pum mlynedd, bydd y Bil hwn yn cynyddu'r amllder i bob tair blynedd. Mae hyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng gwella tegwch drwy sicrhau bod atebolrwydd yn ymateb i newidiadau economaidd, a sefydlogrwydd i dalwyr ardrethi. Un o effeithiau hyn yw y bydd yr ailbrisiad nesaf yn cael ei gynnal ar 1 Ebrill 2026, yn hytrach nag ar 1 Ebrill 2028.

#### *Pŵer i ddiwygio'r flwyddyn ailbrisiu*

- 3.33 Rhwng 1990 a 2010, cynhaliwyd ailbrisiadau bob pum mlynedd. Oherwydd cyd-destun economaidd heriol dechrau'r 2010au, symudwyd yr ailbrisiad y bwriadwyd ei gynnal yn 2015 i 2017, er mwyn rhoi sicrwydd i dalwyr ardrethi am eu hatebolrwydd wrth i'r economi adfer. Yn dilyn ailbrisiad 2017, penderfynwyd cynnal yr ailbrisiad nesaf yn gynt, ar 1 Ebrill 2021 yn lle 1 Ebrill 2022. Yn dilyn hynny, fe'i symudwyd i 1 Ebrill 2023 er mwyn ystyried effaith pandemig y coronafeirws. Roedd angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer rhai o'r newidiadau hyn ac fe'u cyflawnwyd drwy ofyn am ddarpariaethau i Gymru mewn deddfwriaeth sylfaenol a wnaed gan Senedd DU.
- 3.34 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, yn yr hir dymor, y gall fod uchelgais ar gyfer cylchoedd byrrach na'r cylchoedd bob tair blynedd a gynigiwyd. Os bydd modd cyflawni hyn yn ymarferol, mae'n bosibl y byddwn yn cynnig y dylid pennu dyddiad ailbrisiu amgen neu newid amllder cylchoedd yn y dyfodol. Byddai'r angen i wneud newidiadau pellach i ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn cyflawni hyn yn gosod cryn gyfyngiadau ar ein gallu i roi newidiadau o'r fath ar waith yn brydlon yn y dyfodol, yn enwedig pan fydd angen ymateb yn gyflym i amodau economaidd newidiol neu lle byddai penderfyniadau yn arwain at achos o wyro o'r cylchoedd ailbrisiu sydd wedi'u mabwysiadu mewn rhannau eraill o'r DU. Felly, bydd y Bil hwn yn dileu'r angen am ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn pennu dyddiad ailbrisiu amgen neu newid amllder cylchoedd diofyn. Yn hytrach, cynigir y dylai newidiadau o'r fath gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau y byddai'r Senedd yn craffu arnynt.

#### Rhyddhadau

##### *Pwerau i roi ac amrywio rhyddhadau, ac i'w tynnu'n ôl*

- 3.35 Mae rhyddhadau ardrethi annomestig wedi cynyddu o ran maint a chymhlethdod dros amser. Caiff rhyddhadau eu darparu i fusnesau, sefydliadau nid-er-elw ac elusennau cymwys. Mae mwy na hanner yr hereditamentau yn y sylfaen drethu yn cael rhyddhad llawn neu rannol ac mae Llywodraeth Cymru yn gwario tua £240 miliwn bob blwyddyn ar amrywiaeth eang o gynlluniau rhyddhad parhaol. Yn ogystal, mae rhyddhad

wedi'i dargedu'n fwy penodol ac sy'n cynnwys cyfyngiadau amser i'r sector manwerthu, y sector hamdden a'r sector lletygarwch wedi chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi busnesau drwy gydol pandemig y coronafeirws a'r heriau economaidd mwy diweddar.

- 3.36 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o'r holl gynlluniau rhyddhad ardrethi annomestig er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben a'u bod yn cynnig cymorth yn y ffordd fwyaf effeithiol. Bydd yr adolygiad yn ystyried yr amrywiaeth o ryddhadau, lefel y cymorth, sut y caiff rhyddhadau eu targedu ac am ba hyd y maent yn para. Gallai canlyniad yr adolygiad hwn a blaenoriaethau polisi presennol Llywodraeth Cymru a'i blaenoriaethau polisi yn y dyfodol arwain at gynigion i ychwanegu, diwygio neu ddileu rhyddhadau ardrethi annomestig.
- 3.37 Mae'r graddau y gall Gweinidogion Cymru ddiwygio'r ystod o ryddhadau sydd ar gael, drwy reoliadau, yn anghyson. Mae'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r rhan fwyaf o'r cynlluniau rhyddhadau presennol wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol, ac mae rhai gofynion i Lywodraeth Cymru ddiffinio rhai paramedrau penodol mewn rheoliadau er mwyn rhoi effaith i ryddhadau. Fel arfer, bydd angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer newidiadau mwy sylweddol, fel atgyfnerthu neu ddiwygio cwrpas rhyddhadau sy'n bodoli eisoes, dileu rhyddhadau neu greu rhai newydd. Mae hyn yn cyfyngu'n sylweddol ar allu Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r system ardrethi annomestig yn effeithiol i gefnogi blaenoriaethau polisi presennol neu newydd. Gellir creu rhyddhadau penodol, ac maent wedi'u creu, drwy is-ddeddfwriaeth tra bod rhai cynlluniau dros dro yn cael eu gweithredu o dan bwerau disgrisiwn cyffredinol awdurdodau bilio.
- 3.38 Rydym yn awyddus i sicrhau bod y system ardrethi annomestig yn addas ar gyfer y dyfodol yn y maes pwysig hwn, ac felly bydd y Bil hwn yn dileu'r angen am ddeddfwriaeth sylfaenol i roi neu amrywio rhyddhadau neu eu tynnu'n ôl ac yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn lle hynny. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i gynnig newidiadau i'w hystyried gan y Senedd er mwyn i'r un mwyaf priodol gael ei roi ar waith yn dilyn yr adolygiad, ac ystyried trefniadau yn rheolaidd a sicrhau eu bod yn parhau i gyd-fynd ag amcanion polisi ehangach ar sail ymatebol a pharhaus.

*Hereditamentau heb eu meddiannu: rhyddhad ardrethi elusennol*

- 3.39 Rydym wedi bod yn datblygu ac yn gweithredu cyfres eang o fesurau i fynd i'r afael ag achosion o osgoi ardrethi annomestig yn dilyn [ymgyngoriad](#) yn 2018.
- 3.40 Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth yn caniatáu i elusen neu ymddiriedolwr sy'n berchen ar hereditament heb ei feddiannau neu'n prydlesu hereditament heb ei feddiannu, i geisio rhyddhad llawn rhag yr atebolrwydd i dalu ardrethi os ymddengys, y tro nesaf y caiff ei ddefnyddio, y caiff yr hereditament ei ddefnyddio at ddibenion elusennol. Os na chaiff yr hereditament ei ddefnyddio at ddiben elusennol yn y dyfodol, bydd y trefniadau hyn eisoes wedi bod o fudd i'r perchennog neu'r lesddeiliad pan oedd yn wag. Felly, mae'r trefniant

wedi'i ddefnyddio fel dull o osgoi ardrethi annomestig. Ychydig iawn o achosion presennol y disgwylir iddynt fod yn ddilys ac, os oes gan elusennau dilys ddiddordeb dilys mewn hereditament, dylent allu dangos tystiolaeth ar gyfer amodau cryfach o ran rhyddhad.

- 3.41 Er mwyn i'r system allu parhau i gefnogi'r lleiafrif o achosion gwirioneddol sy'n gwneud defnydd cyfreithlon o'r rhyddhad, bydd y Bil yn cyflwyno amodau cymhwysra ychwanegol. Bydd awdurdodau bilio yn rhoi rhyddhad os byddant yn fodlon bod yr hereditament heb ei feddiannu am reswm sy'n ymwneud â dibenion elusennol yr elusen honno ac y bydd y defnydd nesaf o'r hereditament yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau bilio i edrych y tu hwnt i statws elusennol sefydliad ac i ystyried a yw nodau'r elusen, y defnydd y bwriada ei wneud o'r hereditament a'r rheswm pam nad yw wedi'i feddiannu, yn gydnaws.
- 3.42 Bydd hefyd yn ofynnol i elusen sy'n ceisio rhyddhad roi copi o'i gyfrifon ac adroddiad blynyddol diweddaraf i'r awdurdod bilio (lle y bo'n gymwys). Bydd y gofynion hyn yn darparu tystiolaeth bellach bod y talwr ardrethi yn elusen weithredol a'i fod wedi'i gynllunio i fod yn gydnaws â'r gofynion presennol a nodir yn y gyfraith elusennau. Ni fydd darparu tystiolaeth mewn perthynas â'r amodau hyn, felly, yn gosod baich gweinyddol anghymesur ar drethdalwyr mewn achosion dilys. Dylai pob elusen fod yn ymwybodol eisoes o'r gofynion sy'n berthnasol iddynt a dylent allu dangos tystiolaeth o'u cydymffurfiaeth.
- 3.43 Yn achos clybiau chwaraeon amatur cymunedol, bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bilio eu bodloni eu hunain y bydd y defnydd nesaf o'r hereditament yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion y clwb (neu ddau neu fwy o glybiau) cyn darparu rhyddhad. Ni ddisgwylir i hyn gael effaith ymarferol, gan fod awdurdodau bilio wedi dweud eu bod eisoes mewn sefyllfa well i'w bodloni eu hunain bod achosion o'r fath yn ddilys, nag y maent o ran statws elusennol.
- 3.44 Mae'r mater hwn yn fater ar wahân i ddarparu rhyddhad gorfodol rhag ardrethi annomestig pan fydd eiddo wedi'i feddiannu gan elusen. Nid oes unrhyw gynigion i newid y trefniadau cyffredinol ar gyfer rhyddhad elusennol i eiddo wedi'i feddiannu.

#### Hysbysiadau cwblhau

- 3.45 Ar hyn o bryd, caiff hysbysiad cwblhau ei gyflwyno gan awdurdod lleol mewn perthynas ag adeilad newydd. Mae'n ffordd o bennu'r dyddiad cwblhau ar gyfer yr adeilad hwnnw. Mae awdurdodau lleol yn rhoi copiâu o hysbysiadau cwblhau a gyflwynir ganddynt i Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n galluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gwblhau prisiad a rhestru'r adeilad ar gyfer ardrethi annomestig.
- 3.46 Nodwyd bwlch yn y weithdrefn hysbysiadau cwblhau, mewn perthynas ag adeiladau a gafodd eu dileu'n ddiweddar o'r rhestr ardrethu gan nad oes modd eu meddiannu am gyfnod dros dro (e.e. er mwyn eu hadnewyddu). Ar hyn o bryd, nid yw'r weithdrefn bresennol ar gyfer adeiladau newydd yn



gymwys i eiddo a restrwyd yn flaenorol pan fydd modd eu meddiannu eto, a all oedi'r broses o'u dychwelyd i'r rhestr ardrethu.

- 3.47 Mae'r Bil hwn yn diwygio cwmpas y weithdrefn hysbysiadau cwblhau er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno hysbysiad cwblhau mewn perthynas ag adeilad a gafodd ei ddileu dros dro o restr ardrethu ac y mae gwaith addasu, megis gwaith adnewyddu, wedi'i wneud arno, er nad yw'n adeilad newydd ei hun. Byddai hyn yn caniatáu iddo gael ei ychwanegu at restr neu ei ddychwelyd at restr, gan ddefnyddio'r un broses ag ar gyfer adeiladau newydd, gan gau'r bwch a nodwyd yn y weithdrefn. Bwriedir defnyddio'r un weithdrefn hefyd pan gaiff rhan o adeilad ei hychwanegu at adeilad presennol (e.e. fel estyniad neu er mwyn creu llawr newydd).

### Rhyddhad dewisol

- 3.48 Mae'r paramedrau y gall awdurdodau lleol ddyfarnu neu newid pob cynllun rhyddhad dewisol (h.y. anorfodol) o'u mewn, gan gynnwys y rheini a sefydlwyd i roi cynlluniau a ariennir yn ganolog ar waith, wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol. Mae gan awdurdodau lleol bwerau eang i ddyfarnu rhyddhad yn ôl disgrisiwn, yn amodol ar gyfyngiad amser gweddilliol. Ar hyn o bryd, ni allant ddyfarnu na newid penderfyniadau rhyddhad dewisol fwy na chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r penderfyniad yn ymwneud â hi. Bydd y Bil hwn yn dileu'r cyfyngiad hwn er mwyn rhoi disgrisiwn llawn i awdurdodau lleol ddefnyddio rhyddhadau heb y cyfyngiad amser o chwe mis. Ni fydd y newid yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y caiff y gyfraith ei newid o'i mewn.

### Esemptiadau

- 3.49 Mewn achosion penodol, pan ystyrir na ddylai math o hereditament fod yn atebol i dalu ardrethi annomestig ar sail hirdymor na pharhaol ac y byddai'n anodd ei brisio neu pe na byddai unrhyw fantais yn deillio o'i brisio, gellir ystyried bod esemptiad yn fwy priodol na rhyddhad llawn rhag talu'r swm a godir. Nodir amrywiaeth o esemptiadau rhag talu ardrethi annomestig mewn deddfwriaeth sylfaenol bresennol. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer cyfyngedig i ragnodi esemptiadau mewn rheoliadau nad yw'n rhoi fawr ddim hyblygrwydd ymarferol. Bydd y Bil hwn yn dileu'r angen am ddeddfwriaeth sylfaenol i roi neu amrywio esemptiadau neu eu tynnu'n ôl ac yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn lle hynny. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb rhwng rhyddhadau ac esemptiadau o ran y graddau y gall newidiadau gael eu gwneud gan reoliadau.

### Lluosyddion ardrethi annomestig

- 3.50 Penderfynir ar atebolrwydd o ran ardrethi annomestig drwy gyfuno gwerth ardrethol hereditament â lluosydd a gyfrifir bob blwyddyn gan Weinidogion Cymru (sef y lluosydd diofyn). Mae'r lluosydd yn gweithredu fel elfen allweddol wrth bennu atebolrwydd talwyr ardrethi, gan ei fod yn berthnasol i'r sylfaen drethu gyfan. Mae'n ddarostyngedig i chwyddiant blynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, oni fydd Gweinidogion Cymru yn ei bennu, drwy

reoliadau, ar lefel arall drwy ragnodi ffigur amgen i'w ddefnyddio yn lle'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud rheoliadau o dan y pŵer hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf er mwyn rhewi'r lluosydd.

- 3.51 Ar hyn o bryd, mae lluosydd unigol yn berthnasol i bob hereditament yng Nghymru, y gall Gweinidogion Cymru ei osod ar unrhyw lefel, drwy reoliadau. Fodd bynnag, byddai'n ofynnol i ddeddfwriaeth sylfaenol osod lluosyddion gwahanol ar gyfer gwahanol rannau o'r sylfaen drethu. Mae gan awdurdodau lleol bwerau i bennu atodiad at y lluosydd fel mecanwaith ariannu. Defnyddiwyd y bwerau hyn yn Llundain mewn perthynas â chyllid Crossrail ond ni chawsant eu defnyddio erioed gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mewn rhannau eraill o'r DU, ceir lluosyddion haenog, lle mae hereditamentau â gwerth ardrethol islaw lefel ragnodedig yn destun lluosydd is na'r rheini uwchlaw'r trothwy. Ar hyn o bryd, mae lluosyddion haenog yn gweithredu mewn ffordd niwtral o ran refeniw, gyda lluosydd is ar gyfer rhai hereditamentau yn cael ei ategu gan gyfradd uwch ar gyfer rhai eraill.
- 3.52 Bydd y Bil hwn yn ei gwneud yn bosibl i luosyddion gwahaniaethol gael eu pennu drwy gyfeirio at y lluosydd diofyn a'u cymhwysu at ddisgrifiadau penodedig o hereditamentau ar sail y paramedrau a nodir isod. Caiff gwerth unrhyw luosyddion gwahaniaethol a ddiffinnir ar sail y paramedrau hyn ei ragnodi mewn rheoliadau.
- Gwerth ardrethol hereditament mewn rhestr ardrethu leol neu ganolog. Yn Lloegr a'r Alban, mae busnesau bach (fel y'u diffinnir ar sail eu gwerth ardrethol) yn destun lluosydd is. Ar hyn o bryd, ni all Llywodraeth Cymru gefnogi busnesau bach yn y fath fodd.
  - Disgrifiad o hereditament (e.e. mewn perthynas â'r defnydd a wneir ohono) ar restr ardrethu leol. Yng nghyd-destun uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru gryfach, decach a gwyrddach, mae'n bosibl y byddai'n ddymunol pennu lluosydd ar gyfer sectorau penodol, er mwyn cefnogi amcanion polisi ehangach. Er enghraifft, gallai 'lluosydd sector-benodol' is fod yn un ffordd bosibl o ddefnyddio'r system ardrethi annomestig i gefnogi buddsoddiad mewn sector penodol, heb fod angen cynllun rhyddhad wedi'i dargedu.
  - Lleoliad daearyddol hereditament ar restr ardrethu leol. Gall fod yn ddymunol i Weinidogion Cymru bennu gwahanol lluosydd ar gyfer lleoliadau daearyddol penodol, yn gysylltiedig ag amcanion ehangach y llywodraeth.
- 3.53 Mae gan hereditamentau a ddangosir yn y rhestr ardrethu ganolog nodweddion gwahanol i'r rhai a ddangosir mewn rhestri ardrethu lleol ac mae'r ddwy restr yn wahanol o ran eu strwythur a'u cynnwys. Mae hyn yn tanlinellu'r gwahaniaeth yng nghwmpas y pŵer i osod lluosyddion gwahaniaethol, o ran rhestrau ardrethu lleol a chanolog. Rhaid i restrau ardrethu lleol gynnwys gwerth ardrethol pob hereditament, ei gyfeiriad a disgrifiad ohono (sydd, yn ymarferol, yn adlewyrchu'r prif gategori defnydd). Nid oes gan gyfeiriad

hereditament a'r disgrifiad ohono a ddangosir yn y rhestr ardrethu ganolog yr un perthnasedd â'r bwriad y tu ôl i'r darpariaethau hyn. Mae hereditamentau rhestrau canolog yn croesi nifer o ffiniau awdurdodau lleol (er enghraifft, rhwydweithiau ceblau a phiblinellau helaeth) ac ni ellir eu cyfyngu i leoliad penodol. Y cyfeiriad a ddangosir ar gyfer hereditament mewn rhestr ganolog yw'r ganolfan weinyddol ar gyfer y talwr ardrethi, sydd y tu allan i Gymru mewn sawl achos. Mae'r disgrifiad a ddangosir ar gyfer hereditament yn y rhestr ganolog yn cyfeirio at y disgrifiad o'r trethdalwr a ragnodir mewn rheoliadau ac nid yw'n adlewyrchu ei ddefnydd yn uniongyrchol.

- 3.54 Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig newidiadau penodol i luosyddion ar hyn o bryd. Bwriedir i'r pwerau roi mwy o hyblygrwydd i addasu'r ardrethi annomestig o ran anghenion yn y dyfodol wedi'u halinio ag amcanion polisi ehangach.

### Darparu gwybodaeth

- 3.55 Mae angen gwella'r llif gwybodaeth er mwyn sicrhau y gall Asiantaeth y Swyddfa Brisio gynnal ailbrisiadau mwy rheolaidd a gwella cywirdeb rhestrau ardrethu. Mae gwell gwybodaeth o fudd i dalwyr ardrethi ac awdurdodau lleol drwy sicrhau bod biliau yn gywir a gwella tegwch yn y system. Gall gwelliannau hefyd leihau nifer yr apeliadau a'r risg o newidiadau wedi'u hôl-ddyddio i filiau.
- 3.56 Mae rhwymedigaeth statudol ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio i greu a chynnal rhestrau ardrethi annomestig, ac mae angen gwybodaeth arni ar fathau penodol o eiddo, rhenti a chyfrifon er mwyn cynnal prisiadau. Mae pwerau cyfyngedig yn bodoli ar hyn o bryd sy'n golygu y gellir rhoi hysbysiad gwybodaeth i dalwyr ardrethi er mwyn ceisio cael gwybodaeth. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ofyniad gorfodol i dalwyr ardrethi hysbysu Asiantaeth y Swyddfa Brisio am newidiadau i'r wybodaeth hon, hyd yn oed lle y gallai newid gwerth ardrethol hereditament. Yn ymarferol, gall hyn olygu na fydd meddianwyr eiddo tebyg yn cael eu trethu'n gyfartal ac na chaiff swm o dreth sydd wedi'i ddiwygio'n briodol ei gasglu. Mae llawer o dalwyr ardrethi eisoes yn darparu gwybodaeth, pan fydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn gofyn iddynt wneud hynny, er mwyn sicrhau bod prisiadau'n gywir.
- 3.57 Bydd y Bil yn gosod dyletswydd ar dalwyr ardrethi hereditamentau (neu'r sawl a fyddai'n talu ardrethi petai'r hereditament wedi'i gynnwys ar restr ardrethu) i ddarparu mathau penodol o wybodaeth at y dibenion hyn i Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae'r wybodaeth sydd ei hangen yn cynnwys manylion y talwr ardrethi (megis ei enw a'i fanylion cyswllt), pa hereditament y mae wedi bod yn ei feddiannu, sut mae'n cael ei ddefnyddio a manylion unrhyw brydles, trwydded neu gytundeb arall sy'n ymwneud â'r defnydd o'r hereditament. Ar gyfer hereditamentau heb eu meddiannu, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o wybodaeth ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio am yr hereditament ei hun, y defnydd bwriadedig ohono a sut y disgwylir iddo gael ei feddiannu.

- 3.58 Byddai angen hefyd i dalwyr ardrethi roi gwybod i Asiantaeth y Swyddfa Brisio os gwneir rhai newidiadau ffisegol penodol i'r hereditament – er enghraifft, ar ôl adeiladu estyniad. Bydd yr hyn sydd ei angen i nodi hereditament neu dalwr ardrethi yn amrywio rhwng hereditamentau. Er enghraifft, bydd angen mwy o fanylion am fannau a rennir. Gall fod angen i nifer bach o dalwyr ardrethi, sy'n meddiannu rhai mathau arbenigol o hereditament, ddarparu gwybodaeth am eu masnach, eu cyfrifon a'u costau (lle y bo'n berthnasol i'w gwerth ardrethol). Gall y rhwymedigaeth hon fod yn berthnasol, er enghraifft, i rwydweithiau cyfleustodau, tafarnau a gorsafoedd petrol. Ar y cyfan, bydd natur y wybodaeth sydd ei hangen yn debyg i'r wybodaeth y gofynnir amdani fel rhan o broses casglu gwybodaeth bresennol Asiantaeth y Swyddfa Brisio ('Ffurflenni Dychwelyd Gwybodaeth'). At hynny, bydd yn ofynnol i dalwyr ardrethi gadarnhau bob blwyddyn fod y wybodaeth a ddelir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn dal i fod yn gywir.
- 3.59 Bydd hyn yn sicrhau bod tystiolaeth brisio yn cael ei diweddarau'n barhaus drwy hunanddatgan, gan leihau'r angen i ôl-ddyddio biliau a rhoi mwy o sicrwydd i dalwyr ardrethi o ran y gyfradd sy'n ddyledus. Bydd y ddyletswydd yn cefnogi'r cynnig i symud i ymarferion ailbrisio mwy rheolaidd, gan alluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i ddarparu ailbrisiadau ar gyfer talwyr ardrethi yng Nghymru ar yr un pryd ag y mae'n gwneud i Loegr.
- 3.60 Bydd hyn yn newid y modd y mae talwyr ardrethi yn ymgysylltu ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio a chaiff ei roi ar waith mewn ffordd sy'n deg ac yn hawdd cydymffurfio â hi. Gan weithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y caiff anghenion talwyr ardrethi â phortffolios mawr, y rhai sy'n ymgysylltu â'r broses gan ddefnyddio asiant a chwsmeriaid unigol ag eiddo unigol nad oes ganddynt gymaint o brofiad o ymgysylltu ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio, yn cael eu diwallu. Caiff gwasanaeth ei ddatblygu:
- sy'n syml ac yn hawdd i bob talwr ardrethi ei defnyddio, gan greu'r baich ychwanegol lleiaf posibl;
  - nad yw'n cosbi'r rheini a all wynebu anawsterau dilys wrth gydymffurfio, ond sy'n annog pob talwr ardrethi i gydymffurfio;
  - sy'n caniatáu trugaredd o ran gwallau go iawn, ond sy'n cymryd camau gorfodi yn erbyn y rheini sy'n mynd ati'n fwriadol i wrthod cydymffurfio neu sy'n darparu gwybodaeth ffug gan wybod eu bod yn gwneud hynny; ac
  - sy'n ymarferol ac yn gosteffeithiol i dalwyr ardrethi ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio.
- 3.61 Bydd y ddyletswydd yn dod i rym dim ond pan fydd yn amlwg y gellir disgwyl yn rhesymol i dalwyr ardrethi gydymffurfio â hi drwy'r gwasanaeth a ddarperir; bydd hyn yn cynnwys trefniadau ar gyfer y rhai na allant gael mynediad at gyfleuster ar-lein. Caiff ei hategu gan gyfundrefn gydymffurfio gymesur, er mwyn helpu i sicrhau bod talwyr ardrethi yn cyflawni eu rhwymedigaethau. Disgwylir y bydd y mwyafrif o dalwyr ardrethi yn gwneud pob ymdrech i gydymffurfio, ond gall Asiantaeth y Swyddfa Brisio roi cosbau sifil am fethu â ddarparu'r wybodaeth ofynnol, pan na fydd mesurau eraill i annog cydymffurfiaeth yn effeithiol. Caiff trosedd ei chyflawni os bydd unigolyn yn

gwneud datganiad anwir wrth honni ei fod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd. Mewn achosion o'r fath, gallai'r unigolyn gael ei garcharu am hyd at dri mis neu gael cosb (neu'r ddau). Fel arall, gellir gosod cosb sifil. Yn ymarferol, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn disgwyl mynd ar drywydd y gosb sifil yn y lle cyntaf.

- 3.62 Bwriedir i'r gyfundrefn gosbau gynnig rhywfaint o gyfle i ddangos trugaredd, lle y bo'n briodol, ond gan weithredu hefyd fel atalydd i'r rheini nad ydynt yn cydymffurfio'n fwiadol. Bydd hyn yn fwy cydnaws â'r broses o weithredu trethi eraill â chyfundrefnau cydymffurfio. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn bwriadu llunio datganiad polisi sy'n nodi sut y bydd yn pennu lefel y gosb y bydd yn ei rhoi. Wrth arfer ei disgresiwn, bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn defnyddio arfer presennol CThEF ar gyfer lliniaru sancsiynau a dull CThEF o ystyried a oes gan berson esgus rhesymol dros beidio â chydymffurfio.
- 3.63 Rhagwelir y daw'r ddyletswydd i rym ar ddechrau'r rhestr ardrethu nesaf neu'n fuan wedyn. Gan weithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio a thalwyr ardrethi, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y gellir disgwyl yn rhesymol i dalwyr ardrethi ddeall a chydymffurfio â'u dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth, cyn dechrau'r gyfundrefn gydymffurfio gysylltiedig. Disgwylir i hyn ddigwydd cyn dechrau'r rhestr ardrethu nesaf, ar ôl cychwyn y dyletswyddau hysbysu.
- 3.64 Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn rhannu gwybodaeth am feddianwyr a hereditamentau fel mater o drefn ag awdurdodau lleol er mwyn helpu i sicrhau biliau ardrethi annomestig cywir ac amserol. Felly, rhagwelir y bydd y trefniadau hyn o fudd i awdurdodau lleol ac y byddant yn meddu ar wybodaeth filio gywirach o ganlyniad.

#### Gwrthweithio osgoi trethi

- 3.65 Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i leihau'r cyfleoedd i osgoi atebolrwydd o ran ardrethi annomestig. Er nad yw osgoi yn anghyfreithlon, mae'n ymddygiad sy'n creu trefniadau artiffisial er mwyn sicrhau manteision treth. Mae'n bwysig na chaiff ymdrechion y mwyafrif sylweddol i dalu'r hyn sy'n ddyledus eu tanseilio gan leiafrif sy'n benderfynol o gamfanteisio ar y system neu ei chamddefnyddio. Rydym wedi bod yn datblygu ac yn gweithredu cyfres eang o fesurau i fynd i'r afael ag achosion o osgoi, yn dilyn ymgynghoriad yn 2018. Yn y gorffennol, aseswyd bod achosion o osgoi drwy ddulliau amrywiol yn arwain at o leiaf £10 miliwn i £20 miliwn y flwyddyn o refeniw coll i wasanaethau llywodraeth leol hanfodol.
- 3.66 Tynnodd ein hymgyngghoriad yn 2018 ac ymchwiliadau dilynol sylw at yr angen i allu addasu i ddulliau osgoi newidiol, gan fod dulliau osgoi a chyfraith achosion berthnasol yn datblygu'n barhaus. Mae natur osgoi treth yn golygu unwaith yr ymdrinnir ag un dull, y bydd dulliau ac ymddygiadau newydd yn aml yn dod i'r amlwg. Mae Llywodraeth Cymru yn ymateb yn rheolaidd i ymddygiadau penodol.

- 3.67 Mae rheolau cyffredinol yn erbyn osgoi trethi yn rhan gyffredin o systemau trethiant a gallant fod ar sawl ffurf wahanol. Yn y DU, mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn gweithredu rheol yn erbyn camddefnyddio, mae Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno Rheol Gyffredinol yn Erbyn Osgoi Trethi ar gyfer ei threthi datganoledig ac un sy'n benodol ar gyfer ardrethi annomestig, ac mae Awdurdod Cyllid Cymru yn goruchwyllo Rheol Gyffredinol yn Erbyn Osgoi Trethi ar gyfer y trethi datganoledig yng Nghymru (Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi). Nid oes darpariaethau gwrth-osgoi cyffredinol yn bodoli ar hyn o bryd mewn perthynas ag ardrethi annomestig yng Nghymru.
- 3.68 Bydd y Bil hwn yn cyflwyno math o Reol Gyffredinol yn Erbyn Osgoi Trethi ar gyfer ardrethi annomestig er mwyn ein galluogi i ymateb i ymddygiadau osgoi a'u gwrthweithio. Bydd hyn yn golygu y bydd modd mynd i'r afael ag ymddygiadau osgoi ardrethi annomestig penodol a ddisgrifir mewn rheoliadau, gan gynnwys ymddygiadau nad ydynt yn cael eu defnyddio neu nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd, ond a allai ddod i'r amlwg neu gael eu nodi yn y dyfodol. Gallai rheoliadau ddarparu ar gyfer cyfundrefn cosbau sifil.
- 3.69 Y bwriad yw galluogi Gweinidogion Cymru i fynd i'r afael ag ymddygiadau osgoi penodol a nodir, mewn modd amserol, er mwyn eu hatal rhag parhau yn y dyfodol. Ni fydd yn bosibl gwrthweithio osgoi a ddigwyddodd cyn i reoliadau ddod i rym sy'n disgrifio'r ymddygiad osgoi yn union. Bydd angen ymgynghori ar y broses o ddatblygu'r rheoliadau hynny. Felly, bydd rhanddeiliaid yn cael y cyfle i gyflwyno sylwadau a gellir disgwyl yn rhesymol iddynt wybod bod ymddygiad penodol wedi'i nodi a'i fod yn debygol o gael ei wrthweithio yn y dyfodol, cyn i reoliadau gael eu gwneud. Darperir ar gyfer hawl i apelio hefyd.
- 3.70 Mae'n bwysig bod rheoliadau yn erbyn osgoi trethi yn gallu darparu ar gyfer cymryd camau gorfodi ar ffurf cosbau sifil, lle y bo'n briodol, er mwyn sicrhau bod dull gwirioneddol o atal ymddygiadau osgoi parhaus penodol. Bwriedir i'r gyfundrefn orfodi sicrhau y caiff unigolyn y nodir ei fod wedi bod yn defnyddio ymddygiad osgoi penodol, gyfle i roi'r gorau i'r ymddygiad hwnnw a thalu'r swm sy'n ddyledus. Os bydd yn methu â thalu swm sy'n ddyledus, dim ond bryd hynny y bydd yn agored i gosb sifil hefyd.

## **Rhan 2: Y Dreth gyngor**

### **Y cefndir**

- 3.71 Mae mwy nag 1.4 miliwn o anheddau trethadwy yng Nghymru sy'n atebol i dalu'r dreth gyngor, sy'n daladwy fel arfer gan unrhyw un dros 18 oed sy'n berchen ar gartref neu'n rhentu cartref. Ar hyn o bryd, caiff pob eiddo ei osod mewn un o naw band ar sail gwerthoedd eiddo ac amodau'r farchnad dai ar 1 Ebrill 2003. Y rheswm am hyn yw, y tro diwethaf i sylfaen y dreth gyngor gael ei diweddarau a'i hailbrisio, i'r newidiadau ddod i rym ar 1 Ebrill 2005. Cymru yw'r unig ran o'r DU sydd erioed wedi diweddarau ei sylfaen drethu ers i'r dreth gyngor gael ei chyflwyno, sy'n golygu bod biliau treth gyngor yn Lloegr a'r Alban yn seiliedig ar brisiadau yn 1991 (mae Gogledd Iwerddon yn gweithredu system wahanol o ardrethi domestig). Ychwanegodd Cymru fand

gwerth uchaf hefyd fel rhan o'r ymarfer ailbrisio yn 2005. Asiantaeth y Swyddfa Brisio yw'r corff annibynnol sydd â'r dasg o gynnal y rhestr brisio a gosod pob eiddo mewn band. Mae gan bob un o'r naw band gyfradd dreth sy'n gymharol â'r bandiau eraill a bennir gan gymarebau sy'n cael eu llunio gan Weinidogion Cymru, ond awdurdodau lleol fydd yn gosod y dreth gyngor ei hun.

- 3.72 Mae system y dreth gyngor wedi sefyll prawf amser ers iddi gael ei chyflwyno yn 1993. Fel rhan o'n hymchwil yn ystod tymor diwethaf y Senedd, ystyriwyd a ddylai trethi lleol fod yn seiliedig ar eiddo, tri neu incymau, neu gyfuniad o'r rhain. Ar hyn o bryd, mae'r dreth gyngor yn seiliedig ar elfennau ar bob un o'r tri. Mae'r bandiau yn adlewyrchu gwerth eiddo a thir yn hytrach nag incymau am resymau da. Gall lefelau osgoi trethi fod yn uwch yn achos trethi incwm, am ei bod yn haws i rai ffynonellau o incwm gael eu cuddio neu eu symud gan y rhai sydd â'r gallu i wneud hynny, tra bod eiddo yn ased sefydlog i ardal leol. Yn y DU, caiff ein hincymau eu trethu gan sefydliadau eraill at ddibenion gwahanol. Yn ein barn ni, mae meddiannu eiddo yn ddangosydd cyffredinol da o gyfoeth pobl o'u cymharu â'i gilydd, yn ogystal â bod yn ddangosydd pendant a syml y gellir ei fesur yn lleol. Mae'r cartrefi rydym yn byw ynddynt hefyd yn ddangosydd o faint aelwyd ac, felly, y galw cymharol am wasanaethau.
- 3.73 Cydnabyddir nad yw system y dreth gyngor yn berffaith, am fod llawer o resymau dros faint a lleoliad yr eiddo rydym yn dewis fod yn berchen arno neu ei rentu. Fodd bynnag, mae i'r system elfennau pwysig sy'n ystyried incwm, megis y disgownt un oedolyn a chymorth i aelwydydd incwm isel. Felly, am y tro, credwn fod y dull hwn o weithredu yn sicrhau'r cydbwysedd cywir heb danseilio sefydlogrwydd na thegwch. Er mai hwn yw'r asesiad presennol, byddwn yn parhau i ystyried dulliau amgen o ymdrin â'r dreth gyngor i'w hystyried yn y tymor hwy, megis treth gwerth tir leol neu systemau heb fandiau cymesur.
- 3.74 Manteision penodol system y dreth gyngor a nodwyd gan y rhaglen ymchwil a gynhaliwyd yn ystod tymor diwethaf y Senedd, ac rydym yn ymrwymedig i'w cadw nes i unrhyw ddadl dros newid mwy radical gael ei chyflwyno, yw ei bod:
- yn dreth leol hynod effeithlon sy'n cyflawni cyfraddau casglu o tua 97% yng Nghymru yn gyson o flwyddyn i flwyddyn, gyda chostau gweinyddu isel (llai nag 1% o'r swm a godir);
  - yn gymharol hawdd ei deall gan drethdalwyr oherwydd ei strwythur a'i hirhoedledd, ac mae'n fwy anodd ei hosgoi na threthi eraill;
  - yn ffrwd refeniw sy'n parhau i godi lefelau da o refeniw yn naturiol oherwydd twf blynyddol yn y sylfaen drethu o ganlyniad i dwf yn y boblogaeth ac adeiladu tai;
  - yn cynnig cryn dipyn o hyblygrwydd i awdurdodau lleol wrth bennu blaenoriaethau cyllidebol, gan alluogi atebolrwydd uniongyrchol ac ymgysylltu â dinasgyddion ynglŷn â'r defnydd o arian cyhoeddus;
  - yn un o swyddogaethau gweinyddol allweddol awdurdodau lleol, sy'n rhoi gwybodaeth hanfodol am amgylchiadau economaidd-gymdeithasol, a swyddi o ansawdd uchel yn y sector cyhoeddus ledled y wlad; ac

- yn diogelu aelwydydd incwm isel ac yn rhoi cymorth sylweddol i bobl sydd â llai o allu i fodloni eu hatebolrwydd i dalu.
- 3.75 Fodd bynnag, nododd y gwaith ymchwil hefyd fod y strwythur sylfaenol o fandiau yn anraddoledig ac y gellid ei ddylunio'n wahanol wrth gynnal ymarfer ailbriso er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn agosach ag amodau presennol y farchnad. Mae'r system bresennol yn gosod mwy o faich treth ar aelwydydd â lefelau isel o gyfoeth ac mae angen sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn well ag amgylchiadau sy'n newid. Roedd y mwyafrif o'r bobl (57%) a ymatebodd i arolwg ym mis Gorffennaf 2022, a gynhaliwyd i asesu agweddau'r cyhoedd at y dreth gyngor, yn anghytuno bod y system bresennol yn deg. Hefyd, mae profiad wedi dangos, er bod y system yn rhoi rhywfaint o ddiogelwch i aelwydydd incwm isel a'r rhai sy'n llai abl i fodloni eu rhwymedigaethau, nid yw'r trefniadau yn ddigon hyblyg.
- 3.76 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddiwygio system y dreth gyngor er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion hysbys hyn. Dengys y sylfaen dystiolaeth mai diwygio a diweddarau'r dreth gyngor yw un o'r camau mwyaf buddiol y gall Llywodraeth Cymru ei gymryd i leihau anghydraddoldebau o ran cyfoeth yng Nghymru.
- 3.77 Mae ymrwymiad clir i ddiwygio'r dreth gyngor er mwyn creu system decach a mwy graddoledig wedi'i gynnwys yn ein [Rhaflen Lywodraethu, a'r Cytundeb Cydweithio blaenorol](#), a bydd diwygiadau yn y maes hwn yn cyfrannu at gyflawni ymrwymadau yn y dogfennau hyn yn ehangach. Byddant y diwygiadau hefyd yn cefnogi ein dyfodol cyfansoddiadol drwy gynnal cysylltiad cadarnhaol rhwng pobl a'r gwasanaethau lleol y mae'r dreth gyngor yn cyfrannu at eu hariannu, gan sicrhau sefydlogrwydd cynhenid drwy ymrwymiad i ymarferion ailbriso eiddo parhaus.

### **Diben y darpariaethau a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael**

- 3.78 Mae angen y Bil hwn i gyflawni diwygiadau penodol yn y meysydd canlynol.

#### Newidiadau i fandiau prisio

- 3.79 Yn y ddeddfwriaeth bresennol, mae Band D wedi'i bennu fel y "cyfeirbwynt" a ddefnyddir i bennu cyfran y dreth gyngor mewn perthynas â phob band arall. Er mwyn sicrhau bod system y dreth gyngor yn decach ac yn fwy graddoledig gyda'r baich treth wedi'i ddsbarthu'n ehangach yng nghyd-destun cylchoedd ailbriso pum mlynedd, yn y dyfodol byddai'n fuddiol pe gellid pennu'n cyfeirbwynt ar gyfer 100% ar rywbeth gwahanol i fand D os bydd angen a/neu newid y disgrifiadau o fandiau (er enghraifft o'r llythrennau A, B, C i'r rhifau 1,2,3 ac ati). Mae'r Bil yn darparu ar gyfer gwneud newidiadau o'r fath.
- 3.80 Er mwyn rhoi hyblygrwydd i sicrhau bod y system yn parhau i fod yn glir ac yn hawdd ei deall yn y dyfodol, mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru allu newid labeli unrhyw strwythur bandio a ddatblygir fel rhan o ymarfer ailbriso yn y dyfodol.



## Newidiadau i'r dreth gyngor sy'n daladwy

### *Disgowntiau*

- 3.81 Mae llawer o'r trefniadau ar gyfer disgowntiau, diystyriadau ac esemptiadau ar gyfer y dreth gyngor wedi bodoli ers i'r dreth gael ei chyflwyno yn 1993. Mae angen inni sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol i uchelgeisiau polisi ac yn helpu i greu system decach. Mae premiymau'r dreth gyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn nodweddiadol fwy diweddar ar y system, sydd i'w defnyddio yn ôl disgrisiwn awdurdod lleol.
- 3.82 Mae gan y system set o reolau sy'n ystyried gallu aelwyd i dalu'r dreth gyngor ac sy'n cydnabod y dylai rhai pobl neu dai fod wedi'u heithrio rhag ei thalu. Mae'r rheolau hyn yn lleihau anghydraddoldeb cyfoeth i raddau ac yn creu ffynhonnell sefydlog a dibynadwy o gyllid i wasanaethau. Mae'r dreth gyngor yn seiliedig ar fand priso eiddo (50%) ac ar feddiannaeth yr eiddo (50%) gan dybio ei fod yn cael ei feddiannu gan ddau oedolyn. Os mai dim ond un oedolyn atebol sy'n byw yn yr eiddo, caiff y bil ei leihau 25%. Wrth gyfrifo faint o bobl sy'n byw mewn eiddo, ni chaiff rhai pobl eu cyfrif – er enghraifft rhywun sydd â nam meddyliol difrifol. Cyfeirir atynt fel diystyriadau ac maent yn cydnabod y ffaith ei bod yn bosibl na all pobl benodol gyfrannu at incwm yr aelwyd. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y bydd aelwyd dau oedolyn lle mae un o'r oedolion wedi'i ddiystyru am ryw reswm (e.e. am fod ganddo nam meddyliol difrifol, neu am ei fod yn berson ifanc sydd wedi gadael gofal, neu am ei fod yn fyfyrwr neu'n weithiwr gofal) yn gymwys i gael y disgownt o 25%. Os caiff pob un o'r oedolion sy'n byw mewn eiddo eu diystyru, bydd disgownt o 50% yn gymwys. Mae gostyngiadau sy'n seiliedig ar incwm hefyd ar gael i aelwydydd cymwys.
- 3.83 Mae adolygiad o'r amrywiaeth o ddisgowntiau, diystyriadau, esemptiadau a phremiymau yn mynd rhagddo i wella a moderneiddio'r system er mwyn sicrhau ei bod yn cyfrannu at gyflawni ein nod o wneud y dreth gyngor yn decach. Efallai y bydd newidiadau mewn un rhan o'r system yn gofyn am newidiadau i ddisgowntiau a diystyriadau eraill ac mae'r cydgysylltiadau rhwng y gwahanol feini prawf yn cael eu hystyried yn ofalus. Mae'r fframwaith presennol ar gyfer disgowntiau a diystyriadau, sydd wedi bodoli i raddau helaeth ers 1993 ac yr ychwanegwyd ato'n raddol, wedi mynd yn gymhleth ac yn aml mae'n anodd i aelwydydd ei ddeall ac i ymarferwyr ei weinyddu. Hefyd, cyfyngir ar ein gallu i newid rhai o'r rheolau, drwy is-ddeddfwriaeth, sy'n amharu ar allu Llywodraeth Cymru i ymateb i newidiadau yn yr economi neu mewn cymdeithas yn y dyfodol.
- 3.84 Bydd darpariaethau yn y Bil hwn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i newid y disgowntiau a'r diystyriadau statudol presennol yn y dyfodol drwy roi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn i newidiadau allu cael eu rhoi ar waith yn gyflymach ac mewn ffordd fwy ymatebol. Gallai is-ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno gyda chynigion i'w hystyried gan y Senedd, er enghraifft:
- gosod y swm neu'r cyfrifiad a'r amodau ar gyfer y disgowntiau statudol;

- ychwanegu categorïau newydd o ddisgownt a chyfraddau sy'n wahanol i'r canrannau presennol, sef 25% neu 50%;
- dileu'r cysylltiad rhwng y disgownt un oedolyn a'r disgownt eiddo gwag, fel na fydd yn rhaid i'r disgownt eiddo gwag fod ddwywaith canran y disgownt un oedolyn. Byddai hyn, er enghraifft, yn ei gwneud yn bosibl i gyfraddau disgownt gwahanol gael eu pennu ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol;
- dileu'r disgownt "eiddo gwag" o dan amgylchiadau penodol; neu
- roi pwerau i Weinidogion Cymru ganiatáu i awdurdodau lleol ddatgymhwyso neu leihau disgowntiau mewn rhai amgylchiadau.

3.85 Bydd hyn yn newid y ddeddfwriaeth hynod gyfyngol bresennol sy'n gymwys yn y maes hwn ac yn cefnogi ymdrechion i wneud y system yn decach, lleihau cymhlethdod a sicrhau mwy o gysondeb â'n nodau. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir y bydd y disgownt person sengl ar gael o hyd ac y bydd yn parhau ar 25%.

### *Symiau llai*

- 3.86 Ers cyflwyno ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2013-14, rydym wedi parhau i ddiogelu aelwydydd sy'n agored i niwed ac aelwydydd incwm isel drwy barhau â hawliadau llawn i gymorth. Rydym yn rhoi £244 miliwn i awdurdodau lleol bob blwyddyn er mwyn iddynt weithredu'r cynllun prawf modd. Mae'r cynllun yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at fynd i'r afael â thlodi ledled Cymru ac yn helpu i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed rhag mynd i anawsterau ariannol, yn arbennig o ganlyniad i newidiadau i'r system les annatganoledig. Mae'r cynllun wedi dod yn bwysicach fyth yn ystod yr argyfwng costau byw.
- 3.87 Cafodd tua 261,000 o aelwydydd yng Nghymru ostyngiadau yn y dreth gyngor yn 2022-23, yr oedd cyfanswm eu gwerth cofnodedig yn cyfateb i £287 miliwn. Ym mis Mawrth 2023:
- cafodd 103,000 o aelwydydd pensiynwyr ostyngiad;
  - cafodd 158,000 o aelwydydd o oedran gweithio ostyngiad;
  - ni thalwyd unrhyw dreth gyngor o gwbl gan 211,000 o aelwydydd;
  - roedd 85% o aelwydydd a gafodd ostyngiad yn byw mewn eiddo ym Mandiau A i C; ac
  - roedd 36% o aelwydydd a gafodd ostyngiad yn cael Credyd Cynhwysol.
- 3.88 Ddegawd ar ôl i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gael ei roi ar waith, rydym yn manteisio ar y cyfle i'w adolygu'n fanwl. Mae'n bosibl y bydd ein nod o wneud system ehangach y dreth gyngor yn fwy graddoledig i bobl â llai o gyfoeth, yn helpu i leihau'r pwysau ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda system fwy graddoledig, oherwydd yr amrywiaeth eang iawn o amgylchiadau a geir yn yr 1.5 miliwn o aelwydydd sy'n atebol i dalu'r dreth gyngor, rydym yn disgwyl y bydd angen parhau i ddarparu cynllun er mwyn helpu aelwydydd incwm isel i dalu eu biliau treth gyngor. Felly, rydym yn manteisio ar y cyfle i wella dyluniad, prosesau gweinyddu a deddfwriaeth y cynllun yn ystod tymor y Senedd hon a mynd i'r

afael â rhai o'i heriau hysbys sy'n gysylltiedig â nifer yr aelwydydd sy'n cael cymorth, ei ryngwyneb â Chredyd Cynhwysol a'i ddyluniad a'i hyblygrwydd.

- 3.89 Mae'n amlwg bod dull gweithredu cymharol gyson wedi'i fabwysiadu yn y meysydd lle y gellir arfer disgresiwn lleol yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Felly, er mwyn lleihau cymhlethdod gweithredu a hwyluso'r broses weinyddu, rydym wedi cytuno â llywodraeth leol y byddai'n fuddiol ymgorffori'r hyblygrwydd hwn yn y cynllun cenedlaethol presennol. Er mwyn gwneud hyn, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i greu un System Gostyngiadau'r Dreth Gyngor genedlaethol drwy reoliadau gyda'r gallu i wneud newidiadau yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn hwyluso gwell cymorth i aelwydydd incwm isel a'i gwneud yn bosibl i'r cynllun gael ei addasu er mwyn ymateb i ofynion sy'n dod i'r amlwg.

### Cyfathrebu electronig

- 3.90 Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi manylion sy'n ymwneud â'r dreth gyngor mewn papurau newydd lleol.
- 3.91 Gwnaed y darpariaethau hyn yn 1992 pan mai'r prif ddull o gyfathrebu â dinasyddion oedd drwy hysbysiadau mewn papurau newydd. Ystyrir bellach bod y system hon wedi dyddio a'i bod wedi cael ei gadael ar ôl wrth i dechnolegau ddatblygu. Nid yw'r system bresennol yn rhoi unrhyw adborth i awdurdodau lleol ac mae'n anwybyddu'r ffaith bod y gynulleidfa yn symud i ffwrdd oddi wrth bapurau newydd print ac yn defnyddio cyfryngau digidol amrywiol.
- 3.92 Mae awdurdodau lleol bellach yn gwario tua £1,500 ar gyfer pob cyhoeddiad ac, felly, ledled Cymru gallai gyfateb i wariant blynyddol o £33k o leiaf. Byddai symud i gyhoeddiadau digidol yn helpu i foderneiddio arferion gwaith.
- 3.93 Bydd y Bil yn dileu'r gofyniad presennol i gyhoeddi gwybodaeth mewn papurau newydd ac, yn ei le, gyflwyno gofyniad i gyhoeddi hysbysiad o daliadau'r dreth gyngor ar wefan yr awdurdod lleol a rhoi trefniadau amgen addas ar waith er bod sicrhau y gall dinasyddion sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio cyfleusterau ar-lein gael gafael ar wybodaeth o'r fath.

### Prisio anheddau

- 3.94 Ar hyn o bryd, gellir rhoi ymarferion ailbrisio ar gyfer y dreth gyngor yng Nghymru ar waith yn ôl disgresiwn y Gweinidogion gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth, a chynhaliwyd yr ailbrisiad mwyaf diweddar ar 1 Ebrill 2005. Byddai cylchoedd ailbrisio statudol a rheolaidd yn sicrhau bod system y dreth gyngor yn decach ac yn fwy ymatebol i newidiadau economaidd.
- 3.95 Gan gydnabod yr achos o blaid cylchoedd statudol a rheolaidd, yn ogystal â'r awydd ymhlith rhanddeiliaid i weld ailbrisiadau yn cael eu cynnal yn amlach, bydd y Bil hwn yn cyflwyno ymarferion ailbrisio statudol bob pum mlynedd ar gyfer y dreth gyngor. Mae hyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng gwella tegwch, gan sicrhau bod atebolrwydd yn ymateb i newidiadau economaidd, a darparu

sefydlogrwydd i aelwydydd ac awdurdodau lleol. O ganlyniad i hyn, bydd cylch statudol o ailbrisiadau at ddibenion y dreth gyngor yn cael effaith o 1 Ebrill 2028 ymlaen.

- 3.96 Mae datblygiadau technolegol a'r cynnydd yn nifer y ffynonellau data am eiddo, ardaloedd lleol a marchnadoedd eiddo, yn golygu bod cynnal ailbrisiadau mwy rheolaidd bellach yn fwy dichonadwy a chosteffeithiol nag erioed o'r blaen. Er enghraifft, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi bod yn gweithio i foderneiddio ei dulliau prisio, sy'n golygu ei bod yn dibynnu llai ar brisiadau â llaw ac yn defnyddio'r methodolegau modelu digidol diweddaraf a thechnegau arfarnu torfol ystadegol arloesol.
- 3.97 Bydd ailbrisiadau rheolaidd treigl yn diogelu tegwch yn y system yn barhaus drwy sicrhau bod y baich treth yn cael ei rannu'n deg yn rheolaidd, yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf. Maent yn rhoi cyfle i'r cyhoedd ryngweithio'n aml â'r broses, gan helpu i sicrhau tryloywder a sicrhau bod prisiadau eiddo yn gyfredol. Byddant hefyd yn rhoi eglurder a sicrwydd i drethdalwyr ac awdurdodau lleol, gan greu disgwyliad y bydd y dreth gyngor yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Byddant hefyd yn egluro'r gofynion gweithredol yn y dyfodol ar gyfer sefydliadau fel asiantaethau cynghori, Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru.
- 3.98 Mae llawer wedi nodi, gan mai system drethu â bandiau yw'r dreth gyngor, fod angen i'w chylchoedd ailbrisio fod yn llai mynych o'i chymharu â system sy'n seiliedig ar werthoedd penodol, gan fod mod darparu i ryw raddau ar gyfer newidiadau i werth eiddo o fewn ystod band. Mewn theori, petai gwerth pob eiddo yn newid i'r un graddau dros gyfnod penodol o amser, ni fyddai angen cynnal ailbrisiad, gan y byddai'r prisiadau wedi symud i'r un cyfeiriad yr un mor gyflym. Fodd bynnag, nid felly y mae ymhlith ardaloedd lleol yng Nghymru neu lle mae eiddo wedi newid yn ffisegol (e.e. drwy gael ei ymestyn) a dangosodd yr ailbrisiad diwethaf yn 2005 fod bandiau eiddo yn dyddio cymaint nes eu bod yn cyflwyno annhegwch. Dangosir yr annhegwch hwn yn glir gan astudiaethau a gynhaliwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a Phrifysgol Sheffield yn ystod tymor y Senedd hon a thymor y Senedd flaenorol, ac mae hyn yn dod yn fwy amlwg wrth i amser fynd heibio.
- 3.99 Mae sawl opsiwn ar gyfer amllder cylchoedd ac mae awgrymiadau rhanddeiliaid yn amrywio o bob blwyddyn i bob 10 mlynedd. Gellir ystyried bod 10 mlynedd yn gylch rhy hir o gofio mai nod ailbrisiadau rheolaidd yw creu treth gyfredol a theg. Yn y tymor byr, nid ystyrir bod modd cynnal ailbrisiad blynyddol gan y byddai'n golygu newid i ragamcanion o'r farchnad, yn hytrach na phrisiadau sy'n seiliedig ar werthiannau go iawn. Rydym wedi dewis cylch pum mlynedd i'w roi ar waith gan y Bil hwn am ein bod o'r farn bod hyn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng y manteision sy'n deillio o ailbrisiadau a'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â nhw – yn enwedig mewn perthynas â'r broses apelio a datrys anghydfodau ynghylch prisiadau eiddo.
- 3.100 Mae'r anfanteision posibl i ailbrisiadau amlach yn cynnwys pan gynhelir cylch yn ystod cyfnodau o fywiogrwydd neu grebachu anarferol yn y farchnad oherwydd grymoedd economaidd. Rydym wedi gweld digwyddiadau fel hyn

o'r blaen megis dirwasgiadau a phandemig byd-eang. At hynny, gall fod rhesymau gweithredol pam y gallai fod angen ailystyried ailbrisiad arfaethedig, gan gynnwys rhesymau sy'n gysylltiedig â seilwaith TG. Mae risgiau i ymarfer ailbrisiad unrhyw bryd ac mae llywodraethau wedi aildrefnu neu wedi gohirio ailbrisiadau ar gyfer trethi lleol o'r blaen lle mae rhesymeg glir a derbyniol dros wneud hynny. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru amrywio amseriad a/neu hyd cylch ailbrisiad er mwyn cynnwys yr hyblygrwydd pwysig hwn.

- 3.101 Hefyd, er mwyn sicrhau y gall y system gael ei gweinyddu'n effeithiol o dan amgylchiadau nas rhagwelwyd, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru bennu'r dyddiad, mewn gorchymyn, ar gyfer cyhoeddi rhestrau prisio arfaethedig. Ar hyn o bryd, mae'r dyddiad wedi'i bennu ar 1 Medi cyn i newidiadau gael eu rhoi ar waith yn y mis Ebrill canlynol. Gallai hyn ei gwneud hi'n anodd cyflawni uchelgeisiau polisi mewn perthynas â chylchoedd ailbrisiad byrrach - gan gynnwys rhoi canlyniad ymarferion ailbrisiad ar waith yn brydlon ar gyfer trethdalwyr.

### **Gwaith arall sy'n mynd rhagddo i gefnogi diwygiadau ond nad yw'n gofyn am newidiadau drwy'r Bil hwn**

- 3.102 Mae gwaith arall sy'n mynd rhagddo i ategu'r diwygiadau hyn yn cynnwys datblygu systemau a fydd yn sicrhau mwy o dryloywder ac yn gwella gallu trethdalwyr i ryngweithio â'r dreth gyngor. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau gwell er mwyn i bobl allu gweld eu band treth gyngor a chyfathrebu ag Asiantaeth y Swyddfa Brisiad yn ei gylch ac Un Gwasanaeth Gwybodaeth, a gynhelir gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn gwella gwybodaeth am y dreth gyngor a chymorth cysylltiedig yng Nghymru ac yn ei dwyn ynghyd.
- 3.103 Mae gwelliannau i arferion casglu, mesurau gorfodi a'r ffordd y caiff ôl-ddyledion treth gyngor eu rheoli hefyd yn cael eu gwneud yn dilyn y gwerthusiad o ymyriadau a gynhaliwyd yn ystod tymor diwethaf y Senedd.

## 4. Ymgynghoriad

### Yn gyffredinol

4.1 Mae'r newidiadau i'r system ardrethi annomestig a system y dreth gyngor sy'n cael eu rhoi ar waith gan y Bil hwn wedi cael eu datblygu dros sawl blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyngweithio â'r ystod lawn o randdeiliaid gan gynnal y ddwy system ar yr un pryd. Mae hyn wedi darparu gwybodaeth eang a manwl, gan ein galluogi i ddatblygu diwygiadau wedi'u targedu at ddiwallu anghenion trethdalwyr a'r rhai sy'n gweithio i gynnal y systemau, er mwyn sicrhau eu bod mor deg ac addas â phosibl mewn amgylchiadau sy'n newid drwy'r amser. Ymhlith y rhanddeiliaid y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â nhw, mewn perthynas â threthi lleol, mae:

- Trethdalwyr lleol yng Nghymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Y 22 o brif awdurdodau lleol (aelodau etholedig a swyddogion)
- Cyngorau Tref a Chymuned ac Un Llais Cymru
- Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a swyddogion yr heddlu
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Comisiynwyr Cymru: Pobl Hŷn, Plant, y Gymraeg a Chenedlaethau'r Dyfodol
- Cyrff cynrychioliadol a rhwydweithiau: Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol, Rhwydwaith Tlodi Plant, Anabledd Cymru, Chwarae Teg, Gyrfa Cymru, Age Cymru
- Asiantaeth y Swyddfa Brisio
- Thribiwnlys Prisio Cymru
- Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth
- Sefydliadau treth: Y Sefydliad Ardreth a Phrisio Refeniw, Sefydliad Siartredig Trethu, y Sefydliad Treth Eiddo Rhyngwladol
- Y sector cyngor a'r trydydd sector: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cyngor ar Bopeth Cymru, Rhwydwaith Cyngori Cymru, Money Advice Trust, y Gwasanaeth Cyngori Ariannol, MoneySavingExpert, Step Change
- Senedd Cymru a'i phwyllgorau perthnasol
- Adrannau Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig
- Academia, prifysgolion, cyrff ymchwil a melinau trafod, e.e. Sefydliad Bevan, Resolution Foundation, Canolfan Llywodraethiant Cymru
- Cyngres Undebau Llafur Cymru

4.2 Gan gydnabod bod angen i unrhyw gynigion ar gyfer newid gael eu llywio'n briodol gan asesiad trylwyr o'r trefniadau yr ydym wedi bod yn gweithredu o'u mewn, a'r opsiynau eraill, dechreuwyd rhaglen ymchwil gynhwysfawr yn 2017 a'i chwblhau ym mis Chwefror 2021 pan gyhoeddwyd [Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r Canfyddiadau](#). Canolbwyntiodd y rhaglen ymchwil ar oblygiadau ymarferol dulliau gweithredu amgen a hwylusodd fynediad unigryw at ddata ar sylfeini trethu Cymru. Er nad yw'n

rhestr yn hollgynhwysfawr, cynhaliwyd y prosiectau ymchwil canlynol fel rhan o'r rhaglen hon:

- Treth Gwerth Tir Leol – Prifysgol Bangor
- Ailbriso a Diwygio'r Dreth Gyngor – y Sefydliad Astudiaethau Cyllid
- Ailbriso'r Dreth Gyngor – Prifysgol Sheffield, gyda chymorth Canolfan Gydwethredol y DU ar gyfer Tystiolaeth Tai
- Trethi Lleol yn seiliedig ar Incwm – Prifysgol Caerdydd
- Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach: Dadansoddi'r Arolwg – Gwasanaeth Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru
- Deall Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Ôl-ddyledion Rhent yng Nghymru – Policy in Practice

4.3 Mae Cyngor Partneriaeth Cymru a'i is-grwpiau yn cynnig y fforwm ar gyfer ymgysylltu ar lefel gwleidyddion a swyddogion rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol ar nifer o faterion ariannol. At hynny, cynhaliwyd proses ymgysylltu barhaus â phartneriaid cyflawni drwy nifer o weithgorau o swyddogion ac arbenigwyr.

### **Ardrethi annomestig**

4.4 Lansiodd ymgynghoriad [Diwygio Ardrethi Annomestig yng Nghymru](#) ar amrywiaeth eang o welliannau ar 21 Medi 2022 a daeth i ben ar 14 Rhagfyr 2022. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar bob agwedd ar y newidiadau y bydd y Bil hwn yn helpu i'w cyflawni, gan gynnwys:

- cylchoedd ailbriso mwy aml;
- gwella llif gwybodaeth rhwng Asiantaeth y Swyddfa Briso a thalwyr ardrethi;
- rhoi mwy o gyfle i ddiwygio rhyddhadau ac esemptiadau;
- adolygiad o ryddhadau ac esemptiadau;
- rhoi mwy o gyfleoedd i amrywio'r lluosydd;
- gwella'r ffordd y gweinyddir swyddogaethau priso; a
- mesurau pellach i sicrhau y gallwn barhau i fynd i'r afael ag achosion o osgoi trethi.

4.5 Cafodd yr ymgynghoriad gyfanswm o 73 o ymatebion – gan gynnwys 23 gan gyrff sy'n cynrychioli sectorau o'r sylfaen drethu, 19 gan aelodau o'r cyhoedd a allai fod yn dalwyr ardrethi hefyd, 14 gan fusnesau unigol, naw gan lywodraeth leol ac wyth gan gynrychiolwyr proffesiynol ym maes ardrethu neu drethu.

4.6 Ar y cyfan roedd y safbwyntiau yn gefnogol i gynigion Llywodraeth Cymru. Yn benodol, roedd cefnogaeth eang ar gyfer cynnal ymarferion ailbriso bob tair blynedd a dyletswydd gwybodaeth newydd i helpu i fynd ati i gynnal ymarferion ailbriso yn fwy aml. Roedd cefnogaeth hefyd ar gyfer mwy o bwerau i Lywodraeth Cymru i newid y system ardrethi annomestig mewn perthynas â rhyddhadau, esemptiadau a'r lluosydd. Cafodd newidiadau

gweinyddol cyffredinol hefyd eu cefnogi, a chytunwyd hefyd y byddai pwerau ychwanegol i fynd i'r afael ag osgoi trethi yn fanteisiol.

- 4.7 Ymhlith y themâu cyson ehangach roedd cydnabyddiaeth bod cyfle i wella'r system ardrethi annomestig, a sylwadau am faich cyffredinol y dreth ymhlith y rheini a fydd yn atebol i'w thalu. Cyhoeddwyd [crynodeb o'r ymatebion](#) i'r ymgynghoriad hwn ar 9 Chwefror 2023.
- 4.8 O ran materion sy'n ymwneud â thwyll ac osgoi trethi, cafodd ymgynghoriad cynharach, sef [Mynd i'r afael ag Achosion o Osgoi Ardrethi Annomestig yng Nghymru](#) ei gynnal rhwng 4 Ebrill 2018 a 27 Mehefin 2018. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion. Cyhoeddwyd [crynodeb o'r ymatebion](#) i'r ymgynghoriad hwn ym mis Hydref 2018. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn sail ar gyfer ymgysylltu pellach yn y maes hwn a chafodd ddylanwad uniongyrchol ar yr agwedd a fabwysiadwyd tuag at dwyll ac osgoi trethi yn yr ymgynghoriad ar Ddiwygio Ardrethi Annomestig yng Nghymru.

### **Y Dreth gyngor**

- 4.9 Lanswyd ymgynghoriad (Cam 1) ar ddiwygiadau i'r dreth gyngor yng Nghymru, sef [Treth Gyngor Decach](#) ar 12 Gorffennaf 2022 a daeth i ben ar 4 Hydref 2022. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gwahodd aelodau o'r cyhoedd, rhanddeiliaid a sefydliadau cynrychioliadol i roi eu barn ar nodau rhaglen diwygio'r dreth gyngor - gan gynnwys yr agweddau y bydd y Bil hwn yn helpu i'w cyflawni:
- diweddarau prisiadau eiddo yn amlach er mwyn sicrhau bod y dreth gyngor yn parhau i gael ei dosbarthu'n deg yn fwy rheolaidd;
  - gwella'r fframwaith a rhoi hyblygrwydd o ran y trefniadau ar gyfer disgowntiau, personau a ddiystyrir, esemptiadau a phremiymau er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn cyd-fynd â'n nodau; a
  - gwella Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sy'n rhoi cymorth i aelwydydd incwm isel a rhoi mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer y cynllun hwnnw.
- 4.10 Mynegodd y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad amrywiaeth o safbwyntiau am y cynigion, ac roedd y cyrff sydd â diddordeb mewn gwneud y system yn fwy graddoledig yn gefnogol. Cyhoeddwyd [crynodeb o'r ymatebion](#) i'r ymgynghoriad ar 16 Rhagfyr 2022.
- 4.11 Cafwyd 1,024 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac roeddent yn cynrychioli sbectrwm eang o fuddiannau a safbwyntiau.
- 4.12 Amlygwyd yn yr ymgynghoriad mai cyfyngedig yw'r ymwybyddiaeth o fanteision codi cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol drwy drethi ar eiddo, ac roedd eraill yn cytuno nad oedd y gyfres bresennol o ddisgowntiau, diystyriadau ac esemptiadau yn addas ar gyfer y diben.



Lansiwyd [ymgyngoriad Cam 2](#) ar 14 Tachwedd 2023 a daeth i ben ar 6 Chwefror 2024. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gwahodd aelodau o'r cyhoedd, rhanddeiliaid a sefydliadau cynrychioliadol i roi eu barn ar raddfa a chyflymder y diwygio. Cyflwynodd ymgynghoriad Cam 2 dri dull posibl o ymdrin â'r strwythur bandio, a ddisgrifiwyd fel diwygio ar raddfa fach, diwygio cymedrol a diwygio ehangach, a oedd yn canolbwyntio ar 9 neu 12 o fandiau.

Roedd yr ymgynghoriad yn amlinellu mai'r dyddiad cynharaf y gallai system dreth gyngor wedi'i hailbriso a'i hail-lunio ddod i rym oedd 1 Ebrill 2025, yn seiliedig ar werthoedd eiddo ar 1 Ebrill 2023. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnig opsiwn ar gyfer amserlen arafach, gan weithredu newidiadau yn ystod tymor y Senedd nesaf (o 2028 ymlaen), neu amserlen fesul cam, gan wneud newid ar raddfa fach yn 2025 a newid ehangach yn ystod tymor y Senedd nesaf. Cafodd ymgynghoriad Cam 2 1,676 o ymatebion, gan adlewyrchu ystod eang o safbwyntiau. Er bod ymatebwyr yn gyffredinol yn cydnabod yr angen i ddiwygio, yr opsiwn mwyaf poblogaidd a ddewiswyd o ran cyflymder y diwygio oedd amserlen arafach, sef diwygio o 2028 ymlaen.

Cyhoeddwyd [datganiad](#) ynghyd â [chrynodeb o'r ymatebion](#) ar 15 Mai 2024, yn amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru. Eglurodd y datganiad ymhellach y byddai gwelliant i'r Bil yn cael ei gyflwyno i ddechrau prosesau ailbriso bob pum mlynedd o 2028 ymlaen. Byddai hyn yn cadw'r dreth gyngor yn deg ac yn ymatebol i amgylchiadau economaidd. Byddai hefyd yn rhoi cyfle rheolaidd i drethdalwyr ymwneud â'r broses ailbriso, gan wella'r tryloywder ynglŷn â sut y mae pethau'n gweithio. Bydd rhoi diweddariadau rheolaidd ar sail statudol yn rhoi'r eglurder y mae mawr ei angen i drethdalwyr ac awdurdodau lleol.

4.13 Ymhlith y gwaith ymchwil a wnaed i lywio'r broses o ddiwygio'r dreth gyngor yng Nghymru mae'r canlynol:

- Gwaith helaeth a wnaed gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) fel y'i cyflwynwyd yn ei adroddiad [Revaluation and reform of council tax in Wales](#) a gyhoeddwyd yn 2010 ac a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, a'n helpodd i ganolbwyntio ar y ffyrdd y gellid creu system dreth gyngor decach. Diweddarwyd y dadansoddiad hwn yn [2022](#). Cyhoeddwyd [adroddiad pellach gan IFS](#) i gyd-fynd â chyhoeddi ymgynghoriad Cam 2 ym mis Tachwedd 2023.
- Yng nghanam mis Mawrth 2022 Arolwg Omnibws Cymru, a gynhaliwyd gan Beaufort Research, comisiynodd Llywodraeth Cymru set o gwestiynau am wybodaeth pobl am y dreth gyngor a'u hagweddau ati. Roedd hyn yn cynnwys casglu barn sampl gynrychioliadol o 1,000 o drigolion 16 oed a throsodd yng Nghymru ar y system drethiant leol bresennol ar gyfer aelwydydd. Cyflwynwyd y canfyddiadau yn yr adroddiad [Arolwg o agweddau'r cyhoedd at y dreth gyngor](#). Gwnaethom gynnwys set debyg o gwestiynau yng nghanam [mis Mawrth 2023](#) yr arolwg er mwyn ystyried unrhyw newidiadau mewn agweddau at y dreth gyngor yng Nghymru ers mis Mawrth 2022, yn ogystal â chasglu sylwadau pellach ar gynigion diwygio. Roedd y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn hon yn dal yn gyson â rhai'r flwyddyn flaenorol, i raddau helaeth.

- Penodwyd Policy in Practice i wneud ymchwil fanwl i'r ffordd y gweithredir Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sy'n rhoi cymorth ariannol i aelwydydd incwm isel. Cyhoeddwyd yr [adroddiad](#) yn 2020 a defnyddiodd gyfuniad o arolygon, cyfweliadau lled-strwythuredig â threthdalwyr Cymreig a dadansoddiad ystadegol o setiau data gweinyddol. Cyfanswm maint y sampl ar gyfer yr arolygon a'r cyfweliadau oedd 959.
- Penodwyd Miller Research i gynnal cyfres o grwpiau ffocws rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2023. Roedd y rhain yn ystyried canfyddiadau'r cyhoedd o'r dreth gyngor yn gyffredinol a'r hyn y mae pobl yn ei wybod am gynlluniau diwygio Llywodraeth Cymru. Roedd meintiau'r sampl yn amrywio rhwng 40 a 50 o dalwyr y dreth gyngor o bob rhan o Gymru â chefnidiroedd amrywiol ac o grwpiau economaidd a chymdeithasol gwahanol. Mae'r canfyddiadau'n cael eu defnyddio i helpu i lunio deunyddiau cyfathrebu yn y dyfodol ar y dreth gyngor a diwygio'r dreth gyngor.

4.14 Buom yn ymgysylltu'n barhaus â phartneriaid cyflawni mewn perthynas â diwygio'r dreth gyngor, ac rydym yn parhau i wneud hynny, drwy weithgorau i gefnogi'r Adolygiad o Ddisgowntiau, Diystyriadau, Esemptiadau a Phremiymau a'r adolygiad o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

### **Rhagor o wybodaeth**

4.15 Ceir rhestr a luniwyd o'n tystiolaeth hyd yma ar wefan Llywodraeth Cymru: [Tystiolaeth ac ymchwil ar y dreth gyngor ac ardrethi annomestig | LLYW. CYMRU](#). Caiff y dudalen hon ei diweddarau'n rheolaidd.

### **Rhesymau dros beidio ag ymgynghori ar Fil drafft**

4.16 Mae'r darpariaethau yn y Bil yn cyd-fynd ar y cyfan â'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad a amlinellir uchod. O ystyried bod ymgysylltu eang a manwl wedi digwydd ynglŷn â'r cynigion dros gyfnod hir, nid ystyriwyd bod angen ymgynghori ar Fil drafft.

## 5. Y Pŵer i Wneud Is-Ddeddfwriaeth

5.1 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a dyroddi canllawiau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 5.2 (canllawiau) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:

- i. y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
- ii. ar ba ffurf y mae'r pŵer i gael ei arfer;
- iii. priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- iv. y weithdrefn a gymhwysir; hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol.

5.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir beth fydd union natur yr ymgynghori ar ôl i'r cynigion gael eu ffurfioli.

**Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
4	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae adran 4 o'r Bil yn mewnosod adran 54AB yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ('Deddf 1988'), gan roi pŵer i Weinidogion Cymru newid blwyddyn ailbriso ardrethi annomestig neu newid y cyfnod rhwng blynyddoedd ailbriso drwy reoliadau.</p> <p>Hyd yn hyn, dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gellid newid blwyddyn ailbriso. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni hyn sawl gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf drwy ddefnyddio deddfwriaeth Llywodraeth y DU.</p> <p>Bydd rhoi'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid blwyddyn ailbriso a'r cyfnod rhwng blynyddoedd ailbriso drwy reoliadau, ac i wneud diwygiadau canlyniadol neu gysylltiedig. Bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb i newidiadau economaidd neu ffactorau eraill mewn modd mwy</p>	Cadarnhaol Drafft	Mae'r pŵer yn galluogi i ddiwygiadau gael eu gwneud i ddarpariaethau penodedig mewn deddfwriaeth sylfaenol.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			amserol er budd rhanddeiliaid yng Nghymru.		
5	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A i Ddeddf 1988 yn nodi rhyddhadau rhag ardrethi annomestig. Mae adran 5 o'r Bil yn mewnosod pwerau ym mhob un o'r Atodlenni hyn er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i roi, amrywio neu dynnu rhyddhad yn ôl. Bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb i flaenoriaethau sy'n newid ac amgylchiadau sy'n esblygu.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae gallu Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau o'r fath drwy reoliadau yn anghyson. Mae Gweinidogion Cymru eisoes wedi cymryd pwerau ym Miliâu Llywodraeth y DU i sicrhau bod modd darparu rhyddhadau newydd i dalwyr ardrethi yng Nghymru. Mewn achosion eraill, gellir gwneud newidiadau drwy bwerau presennol i wneud rheoliadau.</p> <p>Bydd rhoi'r pwerau yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid tirwedd cynlluniau rhyddhad statudol yn ôl yr angen, heb orfod dibynnu ar gynlluniau grant neu ddisgresiwn yr</p>	Cadarnhaol Drafft	Mae'r pwerau yn galluogi i ddiwygiadau gael eu gwneud i ddarpariaethau penodedig mewn deddfwriaeth sylfaenol ac i atebolrwydd ardrethi annomestig gael ei addasu. Ni fydd testun y rheoliadau wedi'i gyfyngu i fanylion cymharol fach a bydd yn cynnwys goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru a thalwyr ardrethi.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			awdurdodau lleol ar adegau o argyfwng.		
9	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae Atodlen 5 i Ddeddf 1988 yn gwneud darpariaeth ynghylch hereditamentau sy'n esempt rhag ardrethi annomestig ac yn cynnwys pŵer cyfyngedig i Weinidogion Cymru roi esemptiad ychwanegol. Mewn amgylchiadau lle y bernir na ddylai math o hereditament fod yn atebol ar gyfer ardrethi annomestig ar sail hirdymor na pharhaol ac y gallai fod yn anodd ei ailbriso neu os na fyddai unrhyw fantais yn deillio o'i brisio, gallai esemptiad fod yn fwy priodol na rhyddhad llawn rhag yr atebolrwydd.</p> <p>Mae adran 9 o'r Bil yn disodli'r pŵer cyfyngedig presennol â phŵer newydd i Weinidogion Cymru roi ac amrywio esemptiadau neu eu tynnu'n ôl, drwy reoliadau. Bydd y pŵer yn darparu cysondeb rhwng systemau esemptiadau a rhyddhadau, mewn perthynas â'r ffordd y gellir gwneud newidiadau.</p>	Cadarnhaol Drafft	Mae'r pŵer yn galluogi i ddiwygiadau gael eu gwneud i ddarpariaethau penodedig mewn deddfwriaeth sylfaenol ac i atebolrwydd ardrethi annomestig gael ei osod neu ei ddileu. Ni fydd testun y rheoliadau wedi'i gyfyngu i fanylion cymharol fach a bydd yn cynnwys goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru a thalwyr ardrethi.
10	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae Atodlen 7 i Ddeddf 1988 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfrifo lluosyddion ardrethi annomestig. Mae	Cadarnhaol Drafft	Mae'r pŵer yn galluogi addasu atebolrwydd ardrethi annomestig. Ni

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			<p>adran 10 o'r Bil yn ailddatgan pwerau presennol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â lluosyddion ac yn mewnosod pŵer newydd i bennu lluosyddion gwahaniaethol ar sail gwerth ardrethol hereditament, ei leoliad neu'r disgrifiad ohono ar restr ardrethi leol, neu ar sail gwerth ardrethol hereditament ar y rhestr ardrethu ganolog.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae un lluosydd yn gymwys i'r holl hereditamentau annomestig yng Nghymru sy'n golygu bod mwy na 125,000 o eiddo'n cael eu trin yn union yr un ffordd mewn perthynas ag ef. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i bennu'r lluosydd presennol ar unrhyw lefel ond nid i ragnodi lluosyddion gwahaniaethol ar gyfer mathau gwahanol o eiddo.</p> <p>Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i drin mathau gwahanol o eiddo mewn ffordd fwy penodol ac mewn modd sy'n cyfrannu at uchelgeisiau polisi ehangach (er enghraifft, lluosydd is ar gyfer busnesau 'gwyrdd', hereditamentau â gwerth ardrethol is,</p>		<p>fydd testun y rheoliadau wedi'i gyfyngu i fanylion cymharol fach a gallai gynnwys goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru a/neu dalwyr ardrethi.</p>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			neu'r rhai sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd menter a chynlluniau adfywio'r stryd fawr).		
13	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae adran 13 o'r Bil yn mewnosod adrannau 63F i 63M yn Neddf 1988, gan ddarparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu'r math o drefniant sydd i'w drin fel un artiffisial ac a fydd trefniadau penodol yn peidio â chael eu trin fel rhai artiffisial os gwneir penderfyniad i'r perwyl hwnnw.</p> <p>Ar hyn o bryd, dim ond i helpu i nodi atebolrwydd ardrethi annomestig y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau. Bydd rhoi'r pŵer yn galluogi i drefniadau osgoi ardrethi annomestig artiffisial gael eu nodi fel y gellir gwrthweithio manteision sy'n deillio o'r trefniadau hynny. Rhoddir pwerau i Weinidogion Cymru i wneud y canlynol: pennu y gellir gosod cosb sifil am fethu â thalu swm sy'n ddyledus o ganlyniad i wneud trefniant osgoi artiffisial, diwygio'r gosb uchaf a gwneud darpariaeth bellach ar gyfer casglu a gorfodi cosbau.</p>	Cadarnhaol Drafft	Mae'r pŵer yn galluogi i atebolrwydd ardrethi annomestig gael ei addasu er mwyn gwrthweithio osgoi talu ac er mwyn darparu ar gyfer cosbau sifil. Bydd gan y rheoliadau oblygiadau ariannol i dalwyr ardrethi.



Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
17	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	<p>Pŵer i Weinidogion Cymru allu newid cyfeirbwynt neu labeli unrhyw strwythur bandio yn y dyfodol.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae Band D wedi'i bennu'n "gyfeirbwynt" i bennu cyfran y dreth gyngor mewn perthynas â phob band arall. Byddai'n fuddiol gallu pennu'r cyfeirbwynt ar gyfer 100% yn rhywbeth gwahanol i fand D os byddai angen a/neu allu newid y disgrifiadau o fandiau (er enghraifft o lythrennau A, B, C i rifau 1,2,3 etc).</p> <p>Bydd rhoi'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid dull labelu unrhyw strwythur bandio yn y dyfodol a ddatblygir fel rhan o ymarfer ailbriso.</p>	Cadarnhaol Drafft	Mae'r pŵer yn galluogi i ddiwygiadau gael eu gwneud i ddarpariaethau penodedig mewn deddfwriaeth sylfaenol.
18	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae adran 18(5) o'r Bil yn mewnosod adran 11E yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ('Deddf 1992'), gan roi pwerau i Weinidogion Cymru bennu'r lefelau a rhagnodi'r amodau neu'r meini prawf sy'n gorfod bodoli er mwyn i ddisgownt fod yn gymwys.</p> <p>Mae adran 11E hefyd yn ymestyn pwerau i Weinidogion Cymru wneud</p>	Cadarnhaol Drafft	Bydd y Rheoliadau yn gofyn am lefel briodol o graffu gan y Senedd oherwydd effeithiau ar ddinasyddion a'r goblygiadau ariannol i'r awdurdodau lleol.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			<p>rheoliadau i bennu categorïau o breswylwyr sy'n cael eu diystyru at ddibenion disgownt. Effaith hyn fydd gosod manylion sy'n ymwneud ag amodau a disgrifiadau person sy'n cael ei ddiystyru at ddibenion disgownt i gyd mewn un lle o fewn rheoliadau.</p> <p>Mae adran 18(5) o'r Bil yn mewnosod adran 11F yn Neddf 1992. Mae hyn yn cadw effaith Adran 12 (1) o Ddeddf 1992 i Weinidogion Cymru ragnodi drwy reoliadau ddsbarthiadau o anheddau y caiff awdurdod bilio drwy ddyfarniad naill ai ddatgymhwyso neu leihau disgownt mewn perthynas â hwy.</p> <p>Mae adran 18(2) o'r Bil yn diwygio adrannau 6 a 9 o Ddeddf 1992 ac yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer categorïau o berson y dylid eu diystyru at ddiben penderfynu ar atebolrwydd ar y cyd ac unigol mewn perthynas â'r dreth gyngor.</p> <p>Bydd rhoi'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i foderneiddio'r</p>		

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurfi	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			system o ddisgowntiau a diystyriadau – gan sicrhau ei bod yn fwy addas ar gyfer anghenion presennol ac yn symlach a'i bod yn haws iddi gymryd gofynion a disgwyliadau newidiol cymdeithas yng Nghymru i ystyriaeth.		
19	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu cynllun cenedlaethol ar gyfer gostyngiadau'r dreth gyngor sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud newidiadau yn ystod y flwyddyn os oes angen.</p> <p>Caiff y ddyletswydd ei harfer gan Weinidogion Cymru i nodi cynllun gostyngiadau cenedlaethol gyda dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i weinyddu'r cynllun ar lefel leol. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cyflwyno newidiadau yn ystod y flwyddyn i'r cynllun i ymateb i sefyllfaoedd sy'n dod i'r amlwg.</p>	Negyddol	Mae'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn gwneud cyfraniad ariannol sylweddol at fynd i'r afael â thlodi ledled Cymru. Ystyrir bod lefel y craffu a ddarperir gan y weithdrefn negyddol yn ddigonol.
21	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae rhoi'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio adran 22B(3B) o Ddeddf 1992 er mwyn newid blwyddyn ailbrizio'r dreth gyngor a diwygio adran 22B(3B) o Ddeddf 1992 er mwyn newid y cyfnod rhwng blynyddoedd ailbrizio'r dreth gyngor.	Cadarnhaol Drafft	Mae'r pŵer yn galluogi i ddiwygiadau gael eu gwneud i ddarpariaethau penodedig mewn deddfwriaeth sylfaenol.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			<p>Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cylch ailbrisiu rheolaidd i'r dreth gyngor yng Nghymru, gydag ailbrisiadau wedi'u trefnu yn cael eu cynnal bob pum mlynedd. Fodd bynnag, gallai fod amgylchiadau lle y byddai'n fuddiol i ddyddiad ailbrisiad wedi'i drefnu gael ei newid – er enghraifft, os bydd pandemig arall neu anwadalrwydd economaidd. Bydd ailbrisiadau amlach hefyd yn sicrhau bod prisiadau'n adlewyrchu gwerthoedd eiddo cyfoes yn agosach.</p>		
21	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	<p>Rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i gopïau o restrau prisio drafft ar gyfer eiddo sy'n atebol i dalu'r dreth gyngor gael eu hanfon i'r awdurdodau bilio.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid i gopi o'r rhestr brisio newydd ddrafft gael ei anfon i awdurdodau bilio o fewn saith mis i'r dyddiad y mae'r rhestr newydd yn cael ei chwblhau ac y daw i rym. Gydag ailbrisiadau amlach, gallai'r dyddiad cau hwn ddod yn anymarferol.</p>	Negyddol	Mae hwn yn newid technegol, felly bernir bod lefel y craffu a ddarperir gan y weithdrefn negyddol yn ddigonol.

<b>Adran</b>	<b>I bwy y rhoddir y pŵer</b>	<b>Ffurf</b>	<b>Priodoldeb y pŵer dirprwyedig</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>Rheswm dros y weithdrefn</b>
			Byddai'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y newid technegol hwn os bydd angen.		
23	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Rheoliadau yw'r cyfrwng deddfwriaethol priodol ar gyfer y diwygiadau canlyniadol technegol y bydd angen eu gwneud o ganlyniad i'r Bil.	Bydd yn negyddol lle mae'n ddiwygiad i is-ddeddfwriaeth, a bydd yn gadarnhaol lle mae'n ddiwygiad i ddeddfwriaeth sylfaenol.	Bernir nad yw lefel y craffu a roddir gan y weithdrefn gadarnhaol ond yn ofynnol pan wneir diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol.
24	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae cynsail cryf i'r defnydd o bwerau dirprwyedig ar gyfer cychwyn (a darpariaethau trosiannol neu arbed cysylltiedig).	Dim gweithdrefn	Bydd gorchmynion yn dod â darpariaethau'r Bil i rym ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth dechnegol briodol yn cael ei gwneud i sicrhau proses bontio drefnus.
Paragraff 13(2)(m) o'r Atodlen	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y diwygiad a wneir gan y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynglŷn â'r hysbysiadau y gellir eu dyroddi o dan baragraffau 4M a 5ZC o Atodlen 9 i Ddeddf 1988. Mae'n briodol dirprwyo'r pŵer hwn gan y bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i	Negyddol	Byddai testun y rheoliadau yn fanylion cymharol fach yng nghyd-destun y cynllun deddfwriaethol cyffredinol ar gyfer y gofynion i ddarparu gwybodaeth.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			Weinidogion Cymru gyflwyno gofynion pellach mewn modd amserol.		
Paragraff 13(2)(n) o'r Atodlen	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y diwygiad a wneir gan y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i gynyddu neu leihau swm unrhyw gosb a roddir o dan baragraffau 5ZC neu 5ZD o Atodlen 9 i Ddeddf 1988. Mae'n briodol dirprwyo'r pŵer hwn gan y bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru gyflwyno newidiadau, yn enwedig os oes angen hyn i sicrhau bod y drefn gosbi yn gyson â'r drefn gyfatebol yn Lloegr.	Cadarnhaol Drafft	Byddai'r rheoliadau'n newid lefel y gosb sifil a fyddai'n cael ei gosod.
Paragraff 13(3)(b) ac (c) o'r Atodlen	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y diwygiadau a wneir gan y darpariaethau hyn yn ehangu pŵer presennol Gweinidogion Cymru (ym mharagraff 11 o Atodlen 11 i Ddeddf 1988) i bennu'r amgylchiadau y caniateir i apeliadau gael eu gwneud i'r Uwch Dribiwnlys. Bydd y diwygiadau yn sicrhau y gallai Gweinidogion Cymru ddarparu ar gyfer apeliadau o'r fath yng nghyd-destun dyletswyddau ar dalwyr ardrethi i ddarparu gwybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, CThEF ac awdurdodau lleol. Mae'n briodol	Negyddol	Mae'r weithdrefn negyddol yn gymwys i'r rheoliadau y caniateir eu gwneud eisoes o dan baragraff 11 o Atodlen 11 i Ddeddf 1988.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffur	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			dirprwyo'r pŵer hwn gan fod hyn yn gyson â'r pŵer presennol.		
Paragraff 18(2)(b) o'r Atodlen	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y diwygiad a wneir gan y ddarpariaeth hon yn ehangu pŵer presennol Gweinidogion Cymru (ym mharagraff 11 o Atodlen 11 i Ddeddf 1988) i bennu'r amgylchiadau y caniateir i apeliadau gael eu gwneud i'r Uwch Dribiwnlys. Bydd y diwygiad yn sicrhau y gallai Gweinidogion Cymru ddarparu ar gyfer apeliadau o'r fath yng nghyd-destun trefniadau artiffisial er mwyn osgoi atebolrwydd o ran ardrethi annomestig. Mae'n briodol dirprwyo'r pŵer hwn gan fod hyn yn gyson â'r pŵer presennol.	Negyddol	Mae'r weithdrefn negyddol yn gymwys i'r rheoliadau y caniateir eu gwneud eisoes o dan baragraff 11 o Atodlen 11 i Ddeddf 1988.

**Tabl 5.2: Crynodeb o'r pwerau i ddyroddi canllawiau yn narpariaethau Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y driniaeth
19(2)(f)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	<p>Pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r awdurdodau bilio ar sut i gymhwyso'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cenedlaethol a'i roi ar waith.</p> <p>Bydd y gallu i ddyroddi canllawiau i'r awdurdodau lleol yn galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau cysondeb o ran y ffordd y caiff y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cenedlaethol ei rhoi ar waith.</p>	Dim gweithdrefn	Bernir bod canllawiau'n briodol gan mai'r bwriad yw hwyluso cymhwyso deddfwriaeth sylfaenol a'i rhoi ar waith.



## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Crynodeb o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1 Cwblhawyd aseiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y Bil ac mae'n dilyn isod.
- 6.2 Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.
- 6.3 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r costau a'r manteision amcangyfrifedig ar gyfer y Bil yn gyffredinol. Lluniwyd y tabl i gyflwyno'r wybodaeth sydd ei hangen o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

#### Crynodeb

<b>Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)</b>		
<p><b>Yr opsiwn a ffefrir:</b> Cyflwyno deddfwriaeth sy'n cynnwys darpariaethau sy'n cyfrannu at ddiwygio'r system o drethi lleol yng Nghymru, sef ardrethi annomestig a'r dreth gyngor. Yn ogystal â darparu ar gyfer newidiadau penodol i'r system drethu leol, mae'r Bil yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a drafftio is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol mewn meysydd penodol.</p> <p>Bydd y pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb mewn ffordd amserol i ddatblygiadau newydd a blaenoriaethau sy'n newid mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion Cymru.</p> <p>Pan wneir is-ddeddfwriaeth o dan y pwerau hyn, byddant yn destun ymgynghoriad a gweithdrefnau priodol y Senedd, gan gynnwys dadansoddiad manwl o'r effeithiau, y costau a'r manteision posibl. Mae'r aseiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiau, costau a manteision y darpariaethau yn y Bil ei hun. Mae llawer o'r manteision yn y Bil, er enghraifft gwella tegwch ac adlewyrchu'r amodau economaidd yn well drwy gynnal ymarferion prisio rheolaidd neu amlach, nad oes modd eu mesur. Nid yw'r rhain wedi'u hadlewyrchu yn y tablau felly ond maent wedi'u hamlinellu yn y naratif ar gyfer pob adran.</p>		
<b>Cyfnod: Cyfnod 2</b>	<b>Cyfnod arfarnu: 2024-25 i 2033-34</b>	<b>Blwyddyn sail brisiau: 2023-24</b>
<b>Cyfanswm y Costau Cyfanswm: £105.7m Gwerth presennol: £85.9m</b>	<b>Cyfanswm y Manteision Cyfanswm: £14.9m Gwerth presennol: £12.4m</b>	<b>Gwerth Presennol Net: £-73.5m</b>

## Costau Gweinyddol

### Costau:

Mae'r mwyafrif o'r costau gweinyddol amcangyfrifedig, sef £63.7m, wedi'u pennu i'r gwaith a wnaed gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio mewn perthynas â'r darpariaethau ar gyfer ardrethi annomestig a'r dreth gyngor.

Mae a wnelo costau gweinyddol eraill â chostau heb fod yn arian parod gwerth £5.2m sydd wedi'u pennu i awdurdodau lleol fel costau cyfle i dalu am adnoddau staff a gweithgarwch sy'n ymwneud â phrosesau ailbriso at ddibenion ardrethi annomestig a'r dreth gyngor.

Mae costau cyfalaf amcangyfrifedig gwerth £224,000 wedi'u pennu i awdurdodau lleol a Thribiwnlys Priso Cymru am ddiweddarau systemau TG mewn perthynas â chyflwyno ailbrisiadau rheolaidd at ddibenion y dreth gyngor.

Mae a wnelo gweddill y costau refeniw amcangyfrifedig â gweithgarwch a gynhelir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Priso Cymru.

Nid oes unrhyw gostau gweinyddol wedi'u pennu i Lywodraeth Cymru.

<b>Pontio: £224,000</b>	<b>Cylchol: £86m</b>	<b>Cyfanswm: £86.2m</b>	<b>Gwerth presennol: £70.1m</b>
-------------------------	----------------------	-------------------------	---------------------------------

**Arbedion cost:** Dileu'r gofyniad i awdurdodau lleol gyhoeddi manylion y dreth gyngor bob blwyddyn mewn o leiaf un papur newydd sydd mewn cylchrediad o fewn eu hawdurdod, yw'r arbediad arian parod cylchol mwyaf. Bydd hyn yn arbed swm amcangyfrifedig o **£39,000** y flwyddyn ar draws pob awdurdod lleol.

Rhagwelir y bydd arbedion nad ydynt yn arian parod i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn yr hirdymor o ganlyniad i'r darpariaethau yn y Bil. Bydd y prosesau a'r dull ailbriso newydd yn creu arbedion effeithlonrwydd ar gyfer Llywodraeth Cymru, Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac awdurdodau lleol sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd fel costau cyfle. Fodd bynnag, bydd y ffactorau sydd i'w hystyried yn amrywio'n fawr yn ôl yr amgylchiadau lleol ac, felly, nid yw'r arbedion cost yn hysbys.

<b>Pontio: £0</b>	<b>Cylchol: £390,000</b>	<b>Cyfanswm: £390,000</b>	<b>Gwerth presennol: £324,000</b>
-------------------	--------------------------	---------------------------	-----------------------------------

**Cost weinyddol net: £85.9m**

### Costau Cydymffurfio

Mae a wnelo'r costau amcangyfrifedig hyn nad ydynt yn arian parod â dyletswydd newydd i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i Asiantaeth y Swyddfa Brisiog ac maent wedi'u pennu i dalwyr ardrethi annomestig. Maent yn ymwneud â'r amser ychwanegol y gellid ei gymryd i dalwyr ardrethi gwblhau'r prosesau priodol ar-lein, y mae gwerth ariannol wedi'i roi iddo at ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol.

Mantais y ddyletswydd newydd yw ei bod yn helpu i sicrhau proses ailbrisiog fwy cywir ac effeithlon at ddibenion y dreth gyngor, gan leihau nifer yr apeliadau yn erbyn prisiadau ardrethi annomestig a sicrhau bod talwyr ardrethi yn cael biliau mwy cywir.

<b>Pontio: £0</b>	<b>Cylchol: £14.9m</b>	<b>Cyfanswm: £14.9m</b>	<b>Gwerth presennol: £12.1m</b>
-------------------	------------------------	-------------------------	---------------------------------

### Costau Eraill

Y costau amcangyfrifedig eraill yw'r cyfraniad ychwanegol mewn rhyddhad ardrethi annomestig, sydd hefyd yn fantais uniongyrchol i dalwyr ardrethi, a rennir rhwng Llywodraeth Cymru (£124m) ac awdurdodau lleol (£3.71m).

<b>Pontio: £0</b>	<b>Cylchol: £4.9m</b>	<b>Cyfanswm: £4.9m</b>	<b>Gwerth Presennol: £4.1m</b>
-------------------	-----------------------	------------------------	--------------------------------

### Costau heb eu Mesur ac Anfanteision

Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth mewn meysydd penodol sy'n ymwneud ag ardrethi annomestig a'r dreth gyngor.

Nid yw cynigion ar gyfer newidiadau gan ddefnyddio'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru, wedi'u costio. Nid yw'n bosibl amcangyfrif unrhyw gostau (na manteision) ariannol posibl, gan y byddai'r rhain yn dibynnu ar natur benodol y newidiadau a wneir gan reoliadau ar y pryd.

Byddai costau unrhyw newidiadau a gyflwynid drwy is-ddeddfwriaeth ddilynol yn cael eu nodi yn yr asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y ddeddfwriaeth berthnasol a byddent yn ddarostyngedig i drefniadau craffu yn ystod y broses honno.

## Manteision

Mae llawer o fanteision y Bil nad oes modd eu mesur. Mantais allweddol y Bil yw cyflwyno darpariaethau i alluogi gwelliannau i'r system trethi lleol yng Nghymru, gan sicrhau bod y system yn fwy ymatebol i anghenion sy'n esblygu'n gyson a newidiadau mewn amgylchiadau economaidd-gymdeithasol, ac y gellir ei siapio ar sail blaenoriaethau polisi Cymru. Mae'r Bil yn sicrhau y gellir parhau i fanteisio ar y referniw o drethi er mwyn ei fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan ddarparu manteision uniongyrchol i drethdalwyr ar yr un pryd.

Bydd y Bil yn sicrhau manteision yn y dyfodol drwy sicrhau cysondeb â systemau treth eraill, gan elwa ar ryngddibyniaethau a gwelliannau i brosesau, lleihau gwahaniaethau cenedlaethol mewn dulliau gweithredu a chynnal arbedion maint yng ngwaith Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Disgwylir arbedion maint ychwanegol i drethdalwyr, Asiantaeth y Swyddfa Brisio, Llywodraeth Cymru a Thriwlynlys Prasio Cymru ddod i'r amlwg yn ystod y broses o roi'r Bil ar waith, pan gaiff y diwygiadau hyn eu cyflwyno.

Mae'r Bil hefyd yn rhoi mwy o annibyniaeth i awdurdodau lleol mewn meysydd penodol sy'n cydnabod y rôl y mae swyddogion awdurdodau lleol yn ei chwarae drwy sicrhau y rhoddir sylw i wybodaeth ac arbenigedd lleol wrth ystyried materion fel rhyddhad ardrethi annomestig. Un o fanteision uniongyrchol ariannol y Bil i dalwyr trethi annomestig yw'r posibilrwydd o roi rhyddhad ychwanegol o £6.0m ar filiau ardrethi annomestig.

Mae Pennod 9 (Aseiad Effaith Integredig) o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r manteision cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y disgwylir iddynt ddeillio o'r diwygiadau a amlinellir yn y Bil.

**Cyfanswm: £14.9m**

**Gwerth presennol: £12.4m**

## Tystiolaeth, Tybiaethau ac Ansicrwydd Allweddol

Mae'r aseiad effaith rheoleiddiol hwn wedi'i lywio gan dystiolaeth a thrafodaethau â rhanddeiliaid allweddol e.e. Asiantaeth y Swyddfa Brisio, Triwlynlys Prasio Cymru ac awdurdodau lleol yn ogystal ag ymgynghoriadau cyhoeddus eang eu cwmpas ar y darpariaethau a gyflwynir gan y Bil. Mae amrywiaeth o ddata gweinyddol, ymchwil a thystiolaeth sy'n ymwneud â Chymru wedi'u defnyddio i lywio'r dadansoddiad.

Maes sy'n peri ansicrwydd yw'r rhaglen trawsnewid systemau busnes sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n gweithio'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, yn cefnogi'r system ardrethi annomestig a system y dreth gyngor, gan gynnwys pennu prisiau eiddo sy'n sail i'r gwaith o weinyddu'r ddwy dreth.

Bydd y rhaglen drawsnewid arfaethedig yn newid y ffordd y mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cyflawni ei chyfrifoldebau a gallai sicrhau manteision o ran effeithlonrwydd i Gymru, sy'n golygu ei bod yn anodd nodi costau manwl gywir ar gyfer ailbrisiadau at ddibenion ardrethi annomestig a'r dreth gyngor. Mae Triwlynlys Prasio Cymru hefyd yn destun rhaglen newid sefydliadol a gynlluniwyd, yn bennaf er

mwyn sicrhau y gall ymateb i'r cynnydd posibl mewn gweithgarwch a allai ddeillio o ddiwygiadau eraill i drethi lleol a rhaglen diwygio tribiwnlysoedd ehangach ledled Cymru. Felly, mae'n werth nodi bod nifer o'r costau hyn yn seiliedig ar dybiaethau sy'n ymwneud â phenderfyniadau nad ydynt wedi'u gwneud eto. Mae costau o'r fath yn rhai rhagarweiniol a gallent newid o ganlyniad i benderfyniadau cysylltiedig ar y pryd.

Cynhaliwyd proses ymgysylltu ag awdurdodau lleol drwy grwpiau ymgynghori ffurfiol, megis Is-Grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru, a thrwy grwpiau swyddogol, megis y Gweithgor Diwygio Trethi Lleol a sefydlwyd yn 2021, sydd hefyd yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli rhanddeiliaid eraill megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru.

Gan weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, defnyddiwyd arolwg i gasglu amcangyfrifon o gostau a gwybodaeth gan awdurdodau lleol am y ffordd y byddai darpariaethau penodol yn y Bil yn effeithio ar drefniadau awdurdodau lleol ar gyfer gweinyddu ardrethi annomestig a'r dreth gyngor. Gofynnwyd i bob awdurdod lleol ddarparu data: cafwyd ymateb gan chwech ohonynt. Rydym wedi sicrhau bod y sampl yn cynnwys awdurdodau trefol yn ogystal â rhai gwledig a bod ardaloedd daearyddol ar draws Cymru yn cael eu cynrychioli. Ystyrir bod y sampl yn ddigon cynrychioliadol i gyfrifo amcangyfrifon lefel uchel. Felly, mae costau sydd wedi'u dyrannu i awdurdodau lleol yn seiliedig ar waith dadansoddi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys adborth o'r arolwg fel y bo'n briodol. Er bod yr ymatebion gan yr awdurdodau lleol a ymatebodd yn rhoi adborth cyson a thebyg mewn perthynas â phob rhan o'r arolwg, mae risg y gallai fod amrywiadau rhwng awdurdodau lleol nad ydynt wedi'u hystyried.

## 7. Strwythur yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, Egwyddorion a Chafeatau

7.1 Mae'r aseiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y Bil wedi'i strwythuro ar sail dau faes polisi craidd, sef ardrethi annomestig a'r dreth gyngor. Cyflwynir y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn ym Mhennod 8 o'r Memorandwm Esboniadol hwn:

<b>Darpariaethau ar gyfer Ardrethi Annomestig</b>	<b>Tudalen</b>
• Rhestrau Ardrethu: Ailbrisiadau Mwy Rheolaidd	55
• Pwerau i Roi neu Amrywio Rhyddhadau ac Esemptiadau a'u Tynnu'n Ôl drwy Reoliadau	63
• Rhyddhad Elusennol ar gyfer Eiddo Gwag	66
• Hysbysiadau Cwblhau	69
• Symleiddio Rhyddhad Dewisol	72
• Pŵer i Ragnodi Lluosyddion Gwahaniaethol gan ddefnyddio Rheoliadau	75
• Darparu Gwybodaeth i Swyddogion Prisio	78
• Darpariaethau yn erbyn Osgoi Trethi	83
<b>Darpariaethau ar gyfer y Dreth gyngor</b>	
• Ailbrisiadau Rheolaidd	86
• Disgowntiau a Diystyriadau	96
• Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	100
• Gweinyddu	103
<b>Crynodeb o'r Costau a'r Manteision – Tablau</b>	<b>106</b>

7.2 Defnyddiwyd yr egwyddorion a'r cafeatau canlynol yn sail i'r aseuadau a gynhaliwyd ar gyfer yr aseiad effaith rheoleiddiol hwn.

- Ystyrir pob opsiwn a chost naill ai dros oes y prosiect neu broses neu dros gyfnod o 10 mlynedd (blynyddoedd cyllidol) gan ddechrau yn 2024-25.
- Mae pob opsiwn a'i gostau a'i fanteision yn benodol i'r darpariaethau deddfwriaethol a nodir yn y ddeddfwriaeth arfaethedig. Er enghraifft, nid yw'r aseiad effaith rheoleiddiol yn cynnwys costau ar gyfer y gwaith arferol o reoli a gweinyddu'r systemau treth lleol gan na fydd y darpariaethau yn y Bil yn effeithio arnynt, ar y cyfan. Dim ond costau ychwanegol sy'n deillio o'r Bil ac sy'n gwyro oddi wrth y llinell sylfaen sydd wedi'u hystyried.
- Rhaid i'r dadansoddiad cost a budd ar gyfer yr opsiynau ar gyfer y dreth gyngor sydd wedi'u hamlinellu, gael eu hystyried ar y cyd â'r rhaglen ddiwygio ehangach fel y nodir ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol, megis gwasanaethau gwybodaeth gwell a ddarperir gan

Asiantaeth y Swyddfa Brisio er mwyn gwella prosesau cyfathrebu â threthdalwyr a phroses apelio well. Gallai arbedion maint ychwanegol i drethdalwyr, Tribiwnlys Prisio Cymru, Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio ddod i'r amlwg yn ystod y broses o roi'r Bil ar waith, pan gaiff y diwygiadau hyn eu cyflwyno.

- Caiff y diwygiadau a amlinellir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol eu cyflawni mewn camau a gynlluniwyd. Mae'r adolygiad o ddisgowntiau, diystyriadau ac esemptiadau'r dreth gyngor yn mynd rhagddo ochr yn ochr â hynt y Bil drwy'r Senedd. Adlewyrchir y broses hon o gyflwyno'r darpariaethau fesul cam yn yr asesiad effaith rheoleiddiol drwy bennu costau a manteision i flynyddoedd penodol.
- Pan fydd diwygiadau yn creu deddfwriaeth neu weithgarwch gweithredu ychwanegol i swyddogion Llywodraeth Cymru, deuir o hyd i adnoddau o fewn nifer bresennol y staff yn y timau priodol. Efallai y bydd costau cyfle yn codi wrth i amser staff gael ei symud i feysydd â blaenoriaeth er mwyn canolbwyntio ar y gweithgareddau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r costau hyn wedi'u mesur am fod rheoli staff yn fewnol yn cael ei ystyried yn weithgaredd busnes fel arfer.
- Nid oes cost ychwanegol wedi'i phennu i'r gwaith o roi gwybod i drethdalwyr a rhanddeiliaid am y diwygiadau i drethi lleol am ei fod yn cael ei ystyried yn weithgaredd busnes fel arfer, sy'n defnyddio adnoddau sefydledig a fforymau rheolaidd presennol yn bennaf.
- Nid yw'r asesiad effaith rheoleiddiol yn nodi costau a manteision yr is-ddeddfwriaeth a allai gael ei chyflwyno gan ddefnyddio'r pwerau yn y Bil. Mae nifer o opsiynau'r polisi a amlinellir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol yn cynnwys elfennau lle y caiff pwerau eu creu er mwyn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb i amodau economaidd-gymdeithasol sy'n newid, teilwra'r trethi lleol er mwyn diwallu anghenion Cymru a chyflawni uchelgeisiau polisi newydd a thrawsbynciol. Byddai costau unrhyw newidiadau a gyflwynid drwy is-ddeddfwriaeth ddilynol yn cael eu nodi yn yr asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y deddfwriaeth berthnasol. Felly, nid yw'r asesiad effaith rheoleiddiol hwn yn cynnwys amcangyfrifon o gostau ar gyfer newidiadau deddfwriaethol posibl yn y dyfodol.

7.3 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd angen gwneud rhagor o waith asesu pan gaiff y Bil ei ddeddfu o ystyried y darpariaethau sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud newidiadau drwy is-ddeddfwriaeth. Bydd costau a briodolir i'r darpariaethau hyn yn codi pan gaiff unrhyw is-ddeddfwriaeth ei llunio a chânt eu hadlewyrchu yn eu hasesiadau effaith cysylltiedig.

7.4 Mae costau wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf. Yn unol â'r canllawiau yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF, cyflwynir yr holl gostau mewn prisiau cyson gyda 2023-24 fel y flwyddyn sylfaen. Defnyddiwyd cyfradd ddisgowntio ganolog Trysorlys EF, sef 3.5%, i gyfrifo gwerthoedd presennol.

## 8. Opsiynau, Costau a Manteision

### Nodau Cyffredinol y Polisi

- 8.1 Mae Pennod 3 yn y Memorandwm Esboniadol yn nodi'n fanwl sut mae'r Bil yn darparu fframwaith a strwythur cyfreithiol er mwyn helpu i gyflawni nodau cyffredinol ein polisi ar gyfer diwygio cyllid llywodraeth leol.
- 8.2 I grynhoi, bydd y newidiadau rydym yn eu cynnig yn sicrhau bod y fframwaith ar gyfer trethi lleol:
- yn cyd-fynd yn agosach â newidiadau yn amodau'r farchnad;
  - yn fwy ymatebol i'r cyd-destun sy'n datblygu ar gyfer aelwydydd, busnesau a thalwyr ardrethi eraill; ac
  - wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion Cymru drwy gael ei sefydlu a'i gynnal o fewn pŵerau a strwythurau datganoledig.

### Opsiynau Polisi a Dadansoddiad Cost a Budd

- 8.3 Mae'r rhan hon o'r asesiad effaith rheoleiddiol yn nodi'r gwahanol opsiynau sy'n gysylltiedig â'r polisi, gyda phob opsiwn yn adlewyrchu camau gweithredu gwahanol i Lywodraeth Cymru.
- 8.4 Mae hyn yn cynnwys 'busnes fel arfer', sef parhau â'r sefyllfa bresennol, a'r opsiynau a ystyriwyd fel ffyrdd o gyflawni prif nodau'r polisi.
- 8.5 Mae'r dadansoddiad o gostau a manteision y polisi, a gyflwynir ar gyfer pob opsiwn, yn seiliedig ar gymharu'r hyn a fydd yn digwydd os rhoddir y polisi ar waith â'r sefyllfa bresennol, er mwyn mesur maint yr effeithiau.
- 8.6 Esbonnir manylion pob opsiwn yn yr adrannau sy'n dilyn.
- 8.7 Nid yw'r asesiad effaith rheoleiddiol yn llwyr adlewyrchu strwythur y Bil, am fod rhai adrannau wedi'u grwpiau er mwyn cyflwyno costau a manteision darpariaethau sy'n ymwneud â'i gilydd mewn ffordd sy'n haws i'w deall.

### Darpariaethau ar gyfer Ardrethi Annomestig

- 8.8 Mae'r adran hon yn amlinellu opsiynau'r polisi ar gyfer y newidiadau arfaethedig i'r system ardrethi annomestig.

### Ardrethi Annomestig – Ailbrisiadau Amlach

**Disgrifiad:** Bydd y Bil yn cynyddu amllder ailbrisiadau at ddibenion ardrethi annomestig o bob pum mlynedd i bob tair blynedd.

- 8.9 Bydd cynnal ailbrisiadau yn amlach yn sicrhau bod y system ardrethi annomestig yn ymateb i newidiadau economaidd mewn modd amserol. Mae'n helpu i sicrhau bod newidiadau cymharol yn y sylfaen drethu yn cael eu



diweddarau'n amlach ac, o ganlyniad i hynny, fod yr atebolrwydd cyffredinol i dalu'r dreth yn cael ei ailddosbarthu'n amlach.

- 8.10 Yn gyffredinol, mae rhanddeiliaid o'r farn bod y cylch ailbrisiu presennol yn rhy hir ac maent wedi galw am i brisiadau eiddo gael eu diweddarau'n amlach er mwyn adlewyrchu amodau economaidd ac amodau'r farchnad sy'n newid. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae newidiadau i amseriad ailbrisiadau unigol, er mwyn cyflawni penderfyniadau polisi ac ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl, wedi gofyn am ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol. Bu'n rhaid gwneud hyn ddwywaith ers 2017 drwy gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer un o Filiau Senedd y DU, gan nad oedd dull deddfwriaethol addas ar gael yn y Senedd.
- 8.11 Mae newidiadau tebyg wedi'u cyflwyno yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn ddiweddar, deddfodd Llywodraeth y DU er mwyn cyflwyno cylch ailbrisiu tair blynedd ar gyfer Lloegr drwy Ddeddf Ardrethi Annomestig 2023.
- 8.12 Rhaid i effeithiau'r newidiadau gael eu hasesu ar y cyd â dwy ddibyniaeth allweddol. Yn gyntaf, heb y darpariaethau yn y Bil hwn ar gyfer dyletswydd ar dalwyr ardrethi i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf sy'n effeithio ar werth eu heiddo i Asiantaeth y Swyddfa Brisiu, byddai ailbrisiadau yn llawer drutach i'w cynnal. Yn ail, mae cysoni â'r dull gweithredu sydd wedi'i fabwysiadu yn Lloegr (mewn perthynas â chylchoedd ailbrisiu a darparu gwybodaeth) yn sicrhau arbedion maint ac arbedion effeithlonrwydd o ran prosesau gweinyddol ar gyfer darparu gwasanaethau Asiantaeth y Swyddfa Brisiu i Gymru.
- 8.13 Mae cylchoedd amgen eraill, gan gynnwys yr opsiwn i gynnal ailbrisiadau bob dwy flynedd, wedi'u hystyried. Byddai dull sy'n ymwahanu oddi wrth y dull a ddilyni'r yng ngwledydd eraill y DU yn creu ansicrwydd ar gyfer talwyr ardrethi sy'n gweithredu mewn rhannau eraill o'r DU. Ar hyn o bryd, ni fyddai modd i Asiantaeth y Swyddfa Brisiu gyflawni dull sy'n wahanol i'r gwledydd eraill, a byddai angen newidiadau ehangach megis gwella llif gwybodaeth a thrawsnewid systemau busnes cyn ystyried hwn yn opsiwn ymarferol ar gyfer y dyfodol. Roedd manteision arbedion maint a nodwyd uchod a gallu Asiantaeth y Swyddfa Brisiu i gyflawni cylchoedd ailbrisiu byrrach, yn golygu bod yr opsiwn hwn wedi'i ddiystyru gan na fyddai'n bosibl ei gyflawni. Gan fod y newidiadau a fyddai'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r opsiwn hwn yn sylfaenol eu natur, ni fu'n ymarferol cyfrifo amcangyfrifon o gostau mewn ffordd ystyrlon.
- 8.14 Felly, ystyriwyd dau opsiwn yn yr achos hwn gan nad oes unrhyw gam gweithredu ymarferol amgen a fyddai'n cyflawni'n canlyniadau sydd eu hangen.

**Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer:** Parhau â'r cylch ailbrisiu pum mlynedd presennol. Byddai unrhyw newid i'r cylch hwn yn gofyn am newid deddfwriaeth sylfaenol.

### **Costau**

- 8.15 Drwy gadw'r cylch ailbrisiu pum mlynedd presennol, ni fyddai Cymru yn cyd-daro â chylchoedd ailbrisiu gweddill y DU mwyach. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu ychwanegu'n sylweddol at waith Asiantaeth y Swyddfa Brisiu o ran

rheoli cylchoedd prisio ar wahân i Gymru a Lloegr. Gan y byddai eiddo yng Nghymru yn cael ei brisio ar adeg wahanol i'r sylfaen drethu fwy o lawer yn Lloegr, gallai hyn olygu bod y dystiolaeth sy'n sail i brisiadau eiddo yng Nghymru yn llai cadarn. Byddai hyn yn creu perygl o fwy o heriau ac apeliadau a fyddai, pe baent yn llwyddiannus, yn arwain at golli gwerth ardrethol. Gallai Cymru hefyd golli arbedion maint sy'n deillio o ddefnyddio'r un cylch prisio â Lloegr a mynd i gostau ychwanegol. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â hyn yn anodd eu mesur yn llawn. Byddent yn cynnwys cynnydd yn y gofynion o ran adnoddau ar draws pob maes prisio ac, yn benodol, mewn perthynas â datblygu cynlluniau Cymru yn unig ar gyfer dosbarthiadau eiddo arbenigol (gwerth uchel, cyfaint bach fel arfer). Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn amcangyfrif y byddai'r gofynion ychwanegol o ran adnoddau yn costio tua £1m fesul cylch ailbrisio (yn seiliedig ar ragdybio cylch ailbrisio tair blynedd a wrthbwysir gan Loegr). Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod agenda trawsnewid ehangach Asiantaeth y Swyddfa Brisio a diwygiadau cysylltiedig eraill (gan gynnwys y rhai a ddarperir gan adran 12 o'r Bil) ar waith.

- 8.16 Gallai'r gost bosibl i dalwyr ardrethi godi os bydd amodau economaidd ac amodau'r farchnad yn newid yn sylweddol yn ystod cyfnod o bum mlynedd. O dan y senario hwn, gallai cyfraddau barhau'n uwch ar gyfer sectorau penodol o gymharu â'r hyn a fyddai'n daladwy fel arall, tra byddai sectorau eraill yn talu cyfraddau is, na fyddent yn adlewyrchu eu hamodau presennol. Pan fyddai amodau economaidd yn anffafriol, gallai hyn effeithio ar sefydlogrwydd y sylfaen drethu ac arwain at newidiadau mwy o faint pan fyddai ailbrisiadau yn cael eu cynnal. Nid oes unrhyw amcangyfrif wedi'i wneud ar gyfer y costau hyn; mae nifer y newidynnau cysylltiedig yn golygu bod asesu senarios posibl yn anghymesur ac yn afrealistig. Gallai diffyg cysondeb rhwng cylchoedd ailbrisio ledled y DU ei gwneud yn anodd i fusnesau asesu costau cymharol sefydlu, ehangu neu redeg eu busnes.

### **Manteision**

- 8.17 Bydd parhau â'r sefyllfa bresennol yn fanteisiol i drethdalwyr ac awdurdodau lleol, drwy roi sicrwydd iddynt na fydd cyfraddau yn newid am bum mlynedd unwaith y bydd ailbrisiad wedi'i gynnal, a fydd yn cynorthwyo prosesau cynllunio busnes. Fodd bynnag, mae llawer o randdeiliaid wedi mynegi pryderon bod y cyfnod presennol o bum mlynedd yn golygu y gallai talwyr ardrethi wynebu newidiadau sylweddol pan gaiff ailbrisiadau eu cynnal ac maent o blaid cylch byrrach.

### **Crynodeb**

- 8.18 Er bod yr opsiwn hwn yn cynnig rhywfaint o sicrwydd i dalwyr ardrethi ac awdurdodau lleol, nis oes unrhyw hyblygrwydd yn y system bresennol i addasu i amodau economaidd nac amodau'r farchnad yn ystod y cyfnod o bum mlynedd. Drwy barhau â'r cylch presennol, gallai costau ac effeithiau anuniongyrchol godi dros amser o ganlyniad i ymwahanu oddi wrth y cylch ailbrisio yn Lloegr a cholli rhai arbedion maint.

**Opsiwn 2 – Y Dull Gweithredu a Ffefrir:** Lleihau'r cylch ailbrisiu i dair blynedd. Mae'r Bil hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid dyddiad ailbrisiad unigol neu hyd y cylch drwy reoliadau.

### **Costau**

- 8.19 Bydd lleihau'r bwlch rhwng prisiadau yn arwain at gostau gweithredol ychwanegol i Lywodraeth Cymru a phartneriaid cyflawni yn y byrdymor. Llywodraeth Cymru fydd yn talu costau'r ailbrisiad ei hun, a hynny drwy'r arian y mae'n ei roi i Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae costau ychwanegol i awdurdodau lleol, Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru yn seiliedig ar weithgareddau gweinyddol a allai fynd y tu hwnt i'r capasiti presennol i ddechrau.
- 8.20 Efallai y bydd atebolrwydd ardrethi yn newid o ganlyniad i ailbrisiad ond ni ellir costio hyn i sicrwydd nes i ymarfer ailbrisiu gael ei gynnal. Gan fod ailbrisiadau yn ymarfer niwtral o ran refeniw, bydd unrhyw newidiadau i atebolrwydd yn cael eu cydbwysu ar draws y sylfaen drethu.

### Costau Ymarferion Ailbrisiu

- 8.21 Llywodraeth Cymru fydd yn talu'r costau hyn, drwy roi arian i Asiantaeth y Swyddfa Brisio ailbrisiu mwy na 125,000 o eiddo annomestig yng Nghymru. Dengys Tabl 8.2 gost cylch ailbrisiu tair blynedd (mae'r lliw oren yn dynodi'r newid mewn prisiadau o ran amseriadau). Mae costau Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn seiliedig ar gost sefydledig cynnal un ailbrisiad yn codi'n amlach. Mae un ymarfer ailbrisiu yn costio tua £4.5m dros y tair blynedd hyd at y flwyddyn y caiff y rhestr ardrethu newydd ei llunio, a chan gynnwys y flwyddyn honno. Mae'r costau wedi'u dosbarthu fel hyn am fod Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn treulio'r ddwy flynedd cyn ymarfer ailbrisiu yn casglu'r dystiolaeth sydd ei hangen i brisiu pob eiddo yn y sylfaen drethu a llunio rhestr ardrethu ddrafft. Disgwylir i'r costau hyn leihau dros amser wrth i ddarpariaethau eraill yn y Bil, y bwriedir iddynt gefnogi gwelliannau i'r ffordd y mae talwyr ardrethi yn darparu gwybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, gael eu rhoi ar waith.
- 8.22 Mae dystiolaeth gan Dribiwnlys Prisio Cymru yn awgrymu bod nifer yr apeliadau a wneir gan dalwyr ardrethi bob blwyddyn yn aros yn gymharol gyson yn ystod y cyfnod ailbrisiu, gyda chynnydd bach yn y flwyddyn cyn yr ailbrisiad. Drwy leihau'r amser rhwng ailbrisiadau, rhagwelir y gallai patrwm apeliadau newid ac y gallai cyfanswm yr apeliadau ar gyfer pob rhestr ardrethu newydd leihau wrth i brisiadau adlewyrchu amodau'r farchnad yn agosach. Disgwylir i ganlyniad cyffredinol niwtral ddeillio o gydbwysedd rhwng cyfleoedd amlach i apelio yn erbyn prisiad newydd a llai o awydd i apelio yn erbyn prisiad sy'n fwy cyfredol ac sy'n cael ei adolygu'n aml. Felly, ni ragwelir y bydd unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â gweinyddu system apelio ardrethi annomestig o dan yr opsiwn hwn.

### Costau Llywodraeth Cymru

- 8.23 Fel y nodir ym mhennod 7 ar 'Strwythur yr asesiad effaith rheoleiddiol, Egwyddorion a Chafeatau', yn enwedig yn y pumed pwynt bwled ym

mharagraff 7.2, ni fydd newidiadau yn y Bil sy'n arwain at weithgarwch gan Lywodraeth Cymru o ran deddfwriaeth neu waith gweinyddol ychwanegol, yn cynyddu cyfanswm nifer y staff. Yn lle hynny, caiff adnoddau eu neilltuo o blith y staff presennol drwy symud staff dros dro o feysydd gwaith eraill. Nid yw'r costau cyfle hyn wedi'u mesur am fod rheoli staff yn fewnol yn cael ei ystyried yn weithgaredd busnes fel arfer.

### Costau Talwyr Ardrethi

8.24 Ni fydd newid i gylch ailbrisiu tair blynedd ynddo'i hun yn arwain at gostau i dalwyr ardrethi. Byddai costau a manteision i dalwyr ardrethi ond yn codi petai ailbrisiu'r sylfaen drethu yn golygu bod eiddo unigol yn cael gwerth ardrethol newydd. Nid yw'r costau na'r manteision hyn wedi'u mesur gan na fyddant yn hysbys nes i ailbrisiad gael ei gynnal a'i gydbwyso ar draws y sylfaen drethu gyfan.

### Costau Gweinyddol

8.25 Caiff y costau hyn eu talu'n bennaf gan awdurdodau lleol a fydd yn rhoi ymarfer ailbrisiu newydd ar waith. Mae ailbrisiadau yn newid atebolrwydd talwyr ardrethi, gydag awdurdodau lleol yn gorfod diweddarau eu systemau bilio er mwyn rhoi rhestr ardrethu newydd ar waith. Mae eisoes yn ofynnol i awdurdodau lleol anfon biliau bob blwyddyn. Felly, ystyrir bod y costau a amlinellir yma yn deillio'n uniongyrchol o'r ffaith bod ailbrisiadau yn cael eu cynnal yn amlach, mewn perthynas â chostau TG am unrhyw ddiweddariadau newydd i feddalwedd a gwelliannau i brosesau. Mae'r costau yn seiliedig ar ddadansoddiad gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys nifer bach o holiaduron a ddychwelwyd yn ymateb i arolwg a anfonwyd i bob awdurdod lleol, a oedd yn gofyn am amcangyfrifon o'r ffordd y byddai ymarfer ailbrisiu yn effeithio ar y ffordd y maent yn gweinyddu'r dreth gyngor. Dychwelodd chwe awdurdod lleol arolwg wedi'i gwblhau.

8.26 Nododd pob un o'r awdurdodau lleol hynny a gwblhaodd holiadur y byddai effeithiau ymarfer ailbrisiu ar eu prosesau gweinyddu ardrethi annomestig wedi'u cyfyngu i ddiweddariadau a phrofion ychwanegol ar gyfer TG, yn ogystal ag ychydig o weithgarwch ymgysylltu ychwanegol â thalwyr ardrethi. Mae amlinelliad o'r costau hyn wedi'i gynnwys yn Nhabl 8.1 isod ac yn y prif dabl 'ailbrisiu', sef Tabl 8.2, er mwyn dangos lle maent yn codi.

**Tabl 8.1 – Costau ychwanegol amcangyfrifedig i Awdurdodau Lleol sy'n gysylltiedig ag ymarfer ailbrisiu (£000)**

<b>Mathau o Gost</b>	<b>Pob Awdurdod Lleol</b>
Costau TG	110
Costau staff (TG)	81
Costau staff (ymgysylltu)	140
<b>Cyfanswm</b>	<b>331</b>

8.27 Tybiwyd na chaiff unrhyw staff parhaol ychwanegol eu recriwtio i awdurdodau lleol er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd bach mewn gweithgarwch

gweinyddol. Caiff adnoddau staff eu neilltuo o blith y timau gweinyddu ardrethi annomestig presennol yn ôl y blaenoriaethau ac, felly, ystyrir eu bod yn gost cyfle.

**Tabl 8.2 – Cyfanswm y costau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig ag Ymarfer Ailbriso at ddibenion Ardrethi Annomestig (£000)**

<b>Opswn 1 Busnes Fel Arfer – Cylch 5 Mlynedd</b>	<b>2024-25</b>	<b>2025-26</b>	<b>2026-27</b>	<b>2027-28</b>	<b>2028-29</b>	<b>2029-30</b>	<b>2030-31</b>	<b>2031-32</b>	<b>2032-33</b>	<b>2033-34</b>	<b>Cyfanswm</b>
Llywodraeth Cymru	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Costau Asiantaeth y Swyddfa Briso	0	0	1,500	1,500	1,500	0	0	1,500	1,500	1,500	9,000
Costau Tribiwnlys Prisio Cymru	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Costau Awdurdodau Lleol	0	0	0	0	331	0	0	0	0	331	662
<b>Cyfanswm</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>1,500</b>	<b>1,500</b>	<b>1,831</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>1,500</b>	<b>1,500</b>	<b>1,831</b>	<b>9,662</b>

<b>Opswn 2 – Cylch 3 Blynedd</b>	<b>2024-25</b>	<b>2025-26</b>	<b>2026-27</b>	<b>2027-28</b>	<b>2028-29</b>	<b>2029-30</b>	<b>2030-31</b>	<b>2031-32</b>	<b>2032-33</b>	<b>2033-34</b>	<b>Cyfanswm</b>
Llywodraeth Cymru	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Costau Asiantaeth y Swyddfa Briso	1,500	1,500	1,500	1,500	1,500	1,500	1,500	1,500	1,500	1,500	15,000
Costau Tribiwnlys Prisio Cymru	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Costau Awdurdodau Lleol	0	0	331	0	0	331	0	0	331	0	993
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,500</b>	<b>1,500</b>	<b>1,831</b>	<b>1,500</b>	<b>1,500</b>	<b>1,811</b>	<b>1,500</b>	<b>1,500</b>	<b>1,831</b>	<b>1,500</b>	<b>15,993</b>

<b>Cyfanswm Costau Newid</b>	<b>2024-25</b>	<b>2025-26</b>	<b>2026-27</b>	<b>2027-28</b>	<b>2028-29</b>	<b>2029-30</b>	<b>2030-31</b>	<b>2031-32</b>	<b>2032-33</b>	<b>2033-34</b>	<b>Cyfanswm</b>
Busnes Fel Arfer – Ailbrisiadau 5 Mlynedd	0	0	1,500	1,500	1,831	0	0	1,500	1,500	1,831	9,662
Opswn 2 – Ailbrisiadau 3 Blynedd	1,500	1,500	1,831	1,500	1,500	1,811	1,500	1,500	1,831	1,500	15,993
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,500</b>	<b>1,500</b>	<b>331</b>	<b>0</b>	<b>-331</b>	<b>1,811</b>	<b>1,500</b>	<b>0</b>	<b>331</b>	<b>-331</b>	<b>6,331</b>

## Manteision

- 8.28 Mae prif fanteision cylch ailbriso amlach i'r system ardrethi annomestig gyfan. Bydd ailbrisiadau amlach yn sicrhau bod y system yn decach ac yn fwy ymatebol i newidiadau economaidd, gan sicrhau cydbwysedd â sefydlogrwydd a sicrwydd i dalwyr ardrethi a sicrhau bod y prisiau sy'n pennu biliau i dalwyr ardrethi yn adlewyrchu amodau cyfredol y farchnad.
- 8.29 Yn yr [ymgyngoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2022](#) ar ddiwygiadau arfaethedig i ardrethi annomestig, o'r 68 o ymatebion a gafwyd, roedd tri chwarter o blaid y cynnig y dylai ailbrisiadau gael eu cynnal bob tair blynedd. O'r ymatebion, y rheswm cyffredinol a roddwyd dros ddewis yr opsiwn hwn oedd y byddai'n sicrhau bod y system ardrethi annomestig yn fwy ymatebol i newidiadau economaidd, gan roi rhywfaint o sicrwydd gan na fyddai atebolrwydd yn newid yn rhy aml. Roedd y farn hon yn cael ei harddel gan amrywiaeth o randdeiliaid o grwpiau gwahanol ac roedd cryn gefnogaeth iddo ymhlith ymatebwyr o lywodraeth leol.
- 8.30 Bydd talwyr ardrethi yn cael budd o newidiadau mwy graddol i werthoedd eiddo, oherwydd gall ailbrisiadau amlach gyfyngu ar effaith amrywiadau mewn amodau economaidd ac yn amodau'r farchnad sy'n cael eu gwaethygu gan gylchoedd ailbriso hwy. Er bod gwerthoedd eiddo ar gyfer sectorau o'r sylfaen drethu yn dangos tuedd ar i fyny, mae ailbrisiadau amlach yn debygol o helpu i leihau newidiadau dros amser, fel bod cynnydd mewn gwerthoedd o'r naill restr i'r llall yn llai sylweddol. Lle mae gwerthoedd eiddo yn lleihau, caiff mantais atebolrwydd llai o ran talu ardrethi annomestig ei gwireddu ynghynt.
- 8.31 Byddai talwyr ardrethi yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r un cylch ailbriso at ddibenion ardrethi annomestig â thalwyr ardrethi yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a fyddai'n lleihau'r gwahaniaethau cenedlaethol mewn dulliau gweithredu a chynnal arbedion maint yng ngwaith Asiantaeth y Swyddfa Briso.

## Crynodeb

- 8.32 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir. Cyfanswm y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag opsiwn 2 yw **£6.3m** dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd. Byddai cynnyddu amllder ailbrisiadau hefyd yn sicrhau gwelliant sylfaenol ac ystyrlon i'r system ardrethi annomestig ac yn helpu i sicrhau dosbarthiad tecach. Mae hefyd yn cyd-fynd â chylchoedd ailbriso ledled y DU.

## **Ardrethi Annomestig – Pwerau i Roi neu Amrywio Rhyddhadau ac Esemptiadau a'u Tynnu'n Ôl drwy Reoliadau**

**Disgrifiad:** Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar ddarpariaethau i wella'r ffordd y caiff rhyddhadau ac esemptiadau ar gyfer ardrethi annomestig eu gweithredu, gan gynnwys newidiadau a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau bod cymorth yn cael ei dargedu'n fwy effeithiol er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau'r llywodraeth.

- 8.33 Mae'r tirlun rhyddhadau ardrethi annomestig wedi cynyddu o ran maint a chymhlethdod dros amser. Ar hyn o bryd, mae'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r rhan fwyaf o gynlluniau rhyddhadau hirsefydlog wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol, ac mae rhywfaint o hyblygrwydd i ddiffinio rhai paramedrau penodol mewn is-ddeddfwriaeth. Mae nifer bach iawn o ryddhadau wedi'u diffinio'n gyfan gwbl mewn rheoliadau (e.e. rhyddhad trosiannol). O ganlyniad, mae anghysondeb o ran y graddau y gellir addasu'r pecyn o ryddhadau er mwyn ymateb i amgylchiadau a blaenoriaethau sy'n newid drwy is-ddeddfwriaeth.
- 8.34 Mewn achosion penodol, pan ystyrir na ddylai math o hereditament fod yn atebol i dalu ardrethi annomestig ar sail hirdymor na pharhaol ac y byddai'n anodd ei brisio neu pe na byddai unrhyw fantais yn deillio o'i brisio, gellir ystyried bod esemptiad yn fwy priodol na rhyddhad llawn rhag talu'r swm a godir. Nodir amrywiaeth o esemptiadau rhag talu ardrethi annomestig mewn deddfwriaeth sylfaenol bresennol. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer cyfyngedig i ragnodi esemptiadau mewn rheoliadau nad yw'n rhoi fawr ddim hyblygrwydd ymarferol.
- 8.35 Mae'r Bil yn creu pwerau a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi neu amrywio rhyddhadau ac esemptiadau a'u tynnu'n ôl drwy is-ddeddfwriaeth. Byddai'r pwerau yn sicrhau cysondeb rhwng rhyddhadau ac esemptiadau o ran y graddau y gall newidiadau gael eu gwneud.
- 8.36 Ni chyflwynir opsiwn amgen gan nad ystyriwyd bod unrhyw ddull gweithredu arall yn ymarferol i'w roi ar waith. Ceir manylion llawn y system o ryddhadau ac esemptiadau ym mharagraffau 3.35 i 3.38 a pharagraff 3.49 o'r Memorandwm Esboniadol.

**Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer:** Parhau â'r dull gweithredu presennol gyda phwerau cyfyngedig i Weinidogion Cymru newid rhyddhadau ac esemptiadau drwy is-ddeddfwriaeth, a lle mae newidiadau yn aml yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol.

### **Costau**

- 8.37 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus/preifat na thalwyr ardrethi yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.
- 8.38 Ni fyddai unrhyw gostau newydd i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn i ddechrau. Petai angen newid y tirlun rhyddhadau ac esemptiadau yn y dyfodol, byddai costau gweinyddol uwch i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r angen i wneud newidiadau drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Nid yw'r rhain



wedi'u nodi gan y byddent yn cael eu cynnwys o fewn cynlluniau adnoddau presennol Llywodraeth Cymru.

- 8.39 Byddai cadw'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn cyfyngu'n sylweddol ar allu Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r system ardrethi yn effeithiol i gefnogi blaenoriaethau polisi presennol neu newydd. Byddai cost gyfle o hyd i Lywodraeth Cymru a thalwyr ardrethi oherwydd y cyfyngiadau ar amseroldeb gwneud deddfwriaeth sylfaenol, yn ogystal â chostau gweinyddol.

### **Manteision**

- 8.40 Prif fantais cadw'r opsiwn hwn fyddai sicrhau parhad i dalwyr ardrethi ac awdurdodau lleol o ran eu rôl yn gweinyddu'r trefniadau presennol.

### **Crynodeb**

- 8.41 Er na fydd yr opsiwn hwn yn arwain at gostau ychwanegol ac er y bydd yn sicrhau rhywfaint o barhad, bydd yn cadw'r anhyblygrwydd i ymateb pan nodir bod angen newid y fframwaith o ryddhadau ac esemptiadau.

**Opsiwn 2 – Y Dull Gweithredu a Ffefrir:** Cyflwyno pwerau i Weinidogion Cymru roi neu amrywio rhyddhadau ac esemptiadau neu eu tynnu'n ôl.

### **Costau**

- 8.42 Ni fydd yr opsiwn hwn yn arwain at unrhyw wariant uwch neu lai uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus/preifat eraill na thalwyr ardrethi.
- 8.43 Nid yw'r Bil yn gwneud darpariaethau a fydd yn rhoi neu'n amrywio rhyddhadau ac esemptiadau penodol neu'n eu tynnu'n ôl. Mater i reoliadau a wneid o dan y pwerau a ddarperid gan y Bil fyddai hwn. Byddai dadansoddiad manwl o effeithiau disgwylidig yr is-ddeddfwriaeth yn cael ei gynnal pan fyddai'n pwerau yn cael eu defnyddio.
- 8.44 Byddai cynigion ar gyfer newid rhyddhadau ac esemptiadau gan ddefnyddio'r pwerau hyn yn destun ymgynghoriad a byddai'r Senedd yn craffu ar reoliadau. Nid yw'n bosibl amcangyfrif unrhyw gostau na'r manteision ariannol posibl, gan y byddai hyn yn dibynnu ar natur benodol y newidiadau a wneir gan reoliadau. Felly, nid yw'r costau ar gyfer yr opsiwn hwn wedi'u hamcangyfrif yn yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn.

### **Manteision**

- 8.45 Prif fuddiolwyr yr opsiwn hwn yw talwyr ardrethi a Llywodraeth Cymru.
- 8.46 Bydd mabwysiadu'r opsiwn hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i weithredu unrhyw newidiadau yr ystyrir eu bod yn briodol o ganlyniad i'r adolygiad arfaethedig o ryddhadau er mwyn rheoli'r tirlun rhyddhadau ac esemptiadau cyffredinol yn unol â'n hamcanion polisi ehangach yn barhaus, gan sicrhau bod cymorth i dalwyr ardrethi yn cael ei dargedu'n effeithiol.
- 8.47 Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn sicrhau bod y system ardrethi annomestig yn addas ar gyfer y dyfodol, a fydd yn fanteisiol i dalwyr ardrethi gan y bydd yn

galluogi dull mwy hyblyg ac ymatebol wrth ddylunio a gweithredu rhyddhadau ac esemptiadau wrth i amodau economaidd a blaenoriaethau newid. Bydd y pwerau yn darparu ar gyfer datblygu cymorth i dalwyr ardrethi ac addasiadau i gyd-fynd â pholisi ehangach y Llywodraeth mewn modd mwy amserol.

### **Crynodeb**

8.48 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir. Mae'r opsiwn hwn yn niwtral o ran costau nes i'r pwerau gael eu defnyddio, pan allai awdurdodau lleol wynebu rhai costau gweinyddol. Gallai hefyd fod costau i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â darparu cymorth ychwanegol neu arbedion os caiff rhyddhadau neu esemptiadau eu dileu. Mae'r opsiwn hwn yn cefnogi fframwaith mwy hyblyg ac ymatebol o ryddhadau ac esemptiadau.

## **Ardrethi Annomestig – Rhyddhad Elusennol ar gyfer Eiddo Gwag**

**Disgrifiad:** Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i leihau'r cyfleoedd i osgoi ardrethi annomestig. Er nad yw osgoi talu ardrethi annomestig yn anghyfreithlon, mae'n ymddygiad sy'n creu trefniadau artiffisial er mwyn sicrhau manteision treth gan rai talwyr ardrethi er anfantais talwyr ardrethi eraill ac mae'n lleihau'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau lleol. Eir i'r afael â dull hysbys o osgoi talu ardrethi annomestig drwy newid cymhwystra i gael rhyddhad llawn ar gyfer eiddo gwag pan ddisgwylir i'r defnydd nesaf a wneir ohonynt fod at ddibenion elusennol.

- 8.49 Gall perchennog neu lesddeiliad eiddo gwag geisio rhyddhad llawn rhag talu ardrethi annomestig ar ei eiddo tra bydd yn wag, drwy honno, pan gaiff ei ddefnyddio nesaf, y bydd yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n rhannol at ddiben elusennol. Mae hyn yn golygu ei fod wedi'i eithrio rhag talu ardrethi annomestig am gyfnod amhenodol.
- 8.50 Nid oes rhaid i'r eiddo gael ei ddefnyddio at ddiben elusennol yn y dyfodol er mwyn i'r perchennog neu lesddeiliad presennol gael budd o'r trefniadau hyn tra bydd yr eiddo yn wag. Fel y nodir yn aml gan awdurdodau lleol, mae pryder y gallai'r rheol hon gael ei chamddefnyddio ac y gallai ardrethi gael eu hosgoi.
- 8.51 Bwriedir i'r Bil liniaru'r risg hon drwy gryfhau'r meini prawf sydd angen eu bodloni er mwyn i eiddo gwag fod yn gymwys i gael rhyddhad llawn pan ddisgwylir i'r defnydd nesaf a wneir ohono fod yn gyfan gwbl neu'n rhannol at ddibenion elusennol.
- 8.52 Ystyriwyd dau opsiwn gan nad oes unrhyw gam gweithredu ymarferol amgen a fyddai'n cyflawni'n canlyniad a ddymunir. Ystyriwyd dileu rhyddhad elusennol ar gyfer eiddo gwag ond byddai'r dull hwn o weithredu yn cosbi elusennau dilys sydd â rheswm dilys dros hawlio'r rhyddhad mewn ffordd annheg.

**Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer:** Cadw'r meini prawf presennol ar gyfer rhyddhad.

### **Costau**

- 8.53 Yn 2017 amcangyfrifodd awdurdodau lleol fod yr holl achosion o osgoi ardrethi annomestig, ar y cyfan, yn arwain at golli referniw gwerth rhwng £10m ac £20m bob blwyddyn. Am fod yr ymarfer casglu data gwreiddiol yn gofyn am lawer o adnoddau, nid yw wedi'i ailgynnal ers hynny, er bod awdurdodau lleol wedi cadarnhau bod y math hwn o weithgarwch osgoi yn digwydd o hyd. Er bod nifer yr achosion yn parhau i fod yn fach, mae'r cynnydd i'w weld yn arwyddocaol, mewn rhai awdurdodau lleol, yn enwedig dros y 2-3 blynedd diwethaf.
- 8.54 Mae'r adborth diweddaraf gan sampl fach o awdurdodau lleol wedi rhoi darlun cymysg mewn perthynas â chyfanswm yr incwm sy'n cael ei ildio yn achos y math hwn o ryddhad. Mae'r incwm sy'n cael ei ildio yn amrywio gan ddibynnu ar faint yr awdurdod a gwerthoedd ardrethol unigol yr eiddo sy'n cael rhyddhad. O ganlyniad, mae cyfanswm yr ardrethi annomestig sy'n daladwy yr amcangyfrifir eu bod yn cael eu hosgoi drwy gamddefnyddio'r rhyddhad hwn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac ni ellir ei ragweld. Mae gwybodaeth gan

awdurdodau lleol wedi awgrymu yn flaenorol y disgwylir i leiafrif o'r achosion sy'n codi fod yn rhai dilys. Felly, amcangyfrifir y byddai'r opsiwn hwn yn costio o leiaf **£1m** y flwyddyn o ganlyniad i osgoi atebolrwydd i dalu ardrethi annomestig. Mae ansicrwydd yn gysylltiedig â'r amcangyfrif hwn, sy'n cydfynd, fwy neu lai, ag asesiadau blaenorol y gallai rhwng 5% a 10% o'r referniw o ardrethi annomestig a gollir bob blwyddyn, yr amcangyfrifir ei fod yn werth rhwng £10m ac £20m, gael ei briodoli i'r math hwn o weithgarwch osgoi. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

### **Manteision**

8.55 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar y talwyr ardrethi dan sylw a byddai'n sicrhau parhad i ymarferwyr awdurdodau lleol.

### **Crynodeb**

8.56 Nid yw'r opsiwn hwn yn cyflawni'r nod cyffredinol o leihau nifer yr achosion o osgoi ardrethi annomestig. Byddai awdurdodau lleol yn parhau i gollu referniw ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol hanfodol a byddai talwyr ardrethi nad ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgarwch osgoi yn parhau i fod yn atebol i dalu ardrethi annomestig.

**Opsiwn 2 – Y Dull Gweithredu a Ffefrir:** Cryfhau'r meini prawf i gael rhyddhad ar gyfer eiddo gwag pan ddisgwylir i'r defnydd nesaf a wneir ohono fod yn gyfan gwbl neu'n rhannol at ddibenion elusennol.

### **Costau**

8.57 Awdurdodau lleol fyddai'n talu costau gweinyddol ychwanegol yr opsiwn, a fyddai'n gysylltiedig â'r gwaith o adolygu'r dystiolaeth ar gyfer cydymffurfiaeth â'r meini prawf i gael rhyddhad mewn perthynas ag unrhyw achos penodol. Byddai cost i dalwyr ardrethi perthnasol hefyd a fyddai'n gysylltiedig â darparu'r dystiolaeth ofynnol.

8.58 Mae adborth gan awdurdodau lleol yn awgrymu, er y cymerir amser i sicrhau mai dim ond mewn achosion dilys y dyfernir rhyddhad, fod yr ymdrechion gweinyddol ychwanegol yn debygol o gael ei rheoli gan ddefnyddio eu hadnoddau presennol, oherwydd rhagwelir y bydd nifer yr achosion dilys a all fodloni'r meini prawf newydd yn fach, sy'n golygu y bydd angen craffu'n fanylach ar lai o achosion. Bwriedir i'r meini prawf ychwanegol adlewyrchu'r gofynion presennol sydd eisoes wedi'u gosod ar elusennau ac, felly, bydd yn hawdd i dalwyr ardrethi eu bodloni mewn achosion dilys.

8.59 Amcangyfrifwyd y costau i drethdalwyr sy'n gysylltiedig â darparu tystiolaeth ychwanegol gan ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion<sup>1</sup>. Tybiwyd y byddai 30 munud ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y broses o gwblhau cais am y math hwn o ryddhad. Gan ddefnyddio'r cyfraddau ar gyfer incwm wythnosol yng Nghymru, byddai hyn yn cyfateb i gost ychwanegol o **£7.52** fesul cais. Mae nifer y ceisiadau am y rhyddhad hwn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac nid yw llawer o'r achosion presennol yn ddilys, sy'n golygu ei bod

---

<sup>1</sup> [Enillion ac oriau gwaith – y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk)

yn anodd amcangyfrif faint o geisiadau a geir yn y dyfodol. Felly, nid yw'r gost flynyddol gyfanredol yn hysbys.

### **Manteision**

- 8.60 Mae awdurdodau lleol eisoes wedi nodi y disgwylir i leiafrif o'r achosion lle mae'r rhyddhad hwn wedi'i hawlio fod yn ddilys. Felly, gallai'r opsiwn hwn leihau faint o refeniw a gollir o leiaf **£1m** y flwyddyn (sy'n adlewyrchu'r gost amcangyfrifedig a nodwyd uchod mewn perthynas ag Opsiwn 1). Amcangyfrifir y gallai cyfanswm mantais yr opsiwn hwn dros 10 mlynedd gyfateb i **£10m**. Byddai'r arian hwn yn helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
- 8.61 Byddai'r meini prawf cryfach yn sicrhau y byddai rhyddhad llawn yn parhau i gael ei roi mewn achosion lle mae gan elusen ddilys fuddiant dilys mewn eiddo gwag.

### **Crynodeb**

- 8.62 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir. Er y byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am newidiadau i brosesau gweinyddol ymarferwyr awdurdodau lleol a thalwyr ardrethi, mae mantais arbed refeniw gwerth tua **£10m** sy'n cael ei golli ar hyn o bryd o ganlyniad i weithgarwch osgoi, yn golygu mai hwn yw'r dull gweithredu a ffefrir.
- 8.63 Mae'r opsiwn hwn hefyd yn helpu i gyflawni nod Llywodraeth Cymru o leihau nifer yr achosion o osgoi ardrethi ac yn cydnabod y rôl y mae swyddogion awdurdodau lleol yn ei chwarae drwy sicrhau bod sylw yn cael ei roi i wybodaeth ac arbenigedd lleol wrth ystyried achosion o'r fath.

## **Ardrethi Annomestig – Hysbysiadau Cwblhau**

**Disgrifiad:** Mae'r Bil yn cefnogi gwelliannau gweinyddol i effeithlonrwydd y system ardrethi annomestig yng Nghymru a'r ffordd y mae'n cael ei gweithredu. Un gwelliant gweinyddol a nodwyd ac a gynhwyswyd yn y Bil yw proses hysbysiadau cwblhau.

- 8.64 Nodwyd bwlch yn y weithdrefn hysbysiadau cwblhau, mewn perthynas ag adeiladau a gafodd eu dileu'n ddiweddar o'r rhestr ardrethu gan nad oes modd eu meddiannu am gyfnod dros dro (e.e. er mwyn eu hadnewyddu). Nid yw'r weithdrefn bresennol ar gyfer hysbysiadau cwblhau ar gyfer adeiladau newydd yn gymwys ar hyn o bryd i eiddo a oedd yn cael ei ddangos yn flaenorol ar restr ardrethu pan fydd modd ei feddiannu eto. Gall hyn beri oedi cyn iddynt gael eu dychwelyd i'r rhestr ardrethu unwaith y bydd yr addasiadau wedi'u cwblhau.
- 8.65 Mae'r ddarpariaeth hon yn ymestyn yr amgylchiadau pan all awdurdod lleol (ac, mewn rhai achosion, pan fo'n rhaid i awdurdod lleol) gyflwyno hysbysiad cwblhau, yn benodol i adeiladau nad oedd modd eu meddiannu dros dro, er nad oeddent yn newydd ynddynt eu hunain. Byddai hyn yn caniatáu iddynt gael eu dychwelyd at restr, gan ddefnyddio'r un broses ag ar gyfer adeiladau newydd. Wedyn, byddai'r newid hwn yn galluogi'r awdurdod lleol i hysbysu Asiantaeth y Swyddfa Briso y dylai adfer yr eiddo (hereditament) yr effeithir arno i'r rhestr ardrethu.
- 8.66 Mae gwelliant gweinyddol tebyg yn cael ei gyflwyno yn Lloegr o dan Ddeddf Ardrethi Annomestig 2023, a fydd yn sicrhau cysondeb i dalwyr ardrethi sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr.
- 8.67 Ystyriwyd dau opsiwn gan nad oes unrhyw gam gweithredu ymarferol amgen a fyddai'n cyflawni'r canlyniad sydd ei angen.

**Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer:** Mae awdurdodau lleol yn parhau i gyflwyno hysbysiad cwblhau dim ond ar gyfer adeilad cwbl newydd.

### **Costau**

- 8.68 Ni fydd cadw'r dull hwn o weithredu yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac unrhyw gyrff cyhoeddus/preifat eraill.
- 8.69 O dan y ddeddfwriaeth bresennol, gallai awdurdodau unigol golli symiau bach o refeniw oherwydd oedi cyn dychwelyd eiddo i'r rhestr ardrethu. Er nad yw swm cronol y refeniw a gollir wedi'i amcangyfrif, nodwyd ei bod yn risg barhaus bosibl i'r sylfaen drethu.

### **Manteision**

- 8.70 Byddai cadw'r broses bresennol yn sicrhau parhad gweinyddol ar gyfer awdurdodau lleol, mewn perthynas â'r amgylchiadau lle y gallant gyflwyno hysbysiad cwblhau.

## **Crynodeb**

8.71 Nid yw'r opsiwn hwn yn cyflawni'r nod cyffredinol o wella effeithlonrwydd y system ardrethi annomestig a'r ffordd y mae'n cael ei gweithredu. Byddai hefyd yn golygu nad yw Cymru yn cyd-fynd â newidiadau mewn rhannau eraill o'r DU. Efallai y bydd awdurdodau lleol yn parhau i golli symiau bach o refeniw ar gyfer gwasanaethau llywodraeth lleol hanfodol.

**Opsiwn 2 – Y Dull Gweithredu a Ffefrir:** Ymestyn y weithdrefn ar gyfer hysbysiadau cwblhau er mwyn iddynt fod yn gymwys i eiddo sy'n wag dros dro, a gaiff ei dynnu oddi ar y rhestr ardrethu ac, yna, a all gael ei feddiannu eto.

## **Costau**

8.72 Byddai'r opsiwn hwn ond yn arwain at gostau gweinyddol bach iawn i awdurdodau lleol, am fod nifer yr hysbysiadau cwblhau sydd i'w prosesu yn debygol o gynyddu. Mae cyfanswm yr hysbysiadau a gyflwynir bob blwyddyn yn amrywio yn ôl nifer yr eiddo unigol sy'n cael ei addasu neu ei adnewyddu. Mae amcangyfrifon gan awdurdodau lleol yn awgrymu na fydd y newid hwn yn cael fawr ddim effaith ar nifer yr hysbysiadau cwblhau yr ymdrinnir â nhw gan fod nifer yr eiddo sy'n cael ei adnewyddu yn amrywio. Nid oes unrhyw ffigur wedi'i ddarparu o ran nifer yr achosion, yn hytrach mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol wedi awgrymu y bydd cynnydd bach iawn. Felly, caiff y gweithgarwch hwn ei gyflawni gan ddefnyddio adnoddau busnes fel arfer presennol yr awdurdod lleol.

8.73 Mae awdurdodau lleol wedi awgrymu cost cyfle rhwng **£20 a £100** fesul hysbysiad ychwanegol. Fel yr esboniwyd uchod, ni fu'n bosibl amcangyfrif nifer yr hysbysiadau cydymffurfio ychwanegol a gaiff eu cyflwyno mewn unrhyw flwyddyn ac, felly, nid yw'r gost gyfanredol yn hysbys ar hyn o bryd.

8.74 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n gyfrifol am brisio'r holl eiddo annomestig. Gallai'r opsiwn hwn olygu bod yr angen i brisio rhai adeiladau yn cael ei ddwyn i sylw Asiantaeth y Swyddfa Brisio mewn modd mwy amserol, ond ni fydd nifer yr eiddo sydd angen ei brisio yn newid.

## **Manteision**

8.75 Mae'r opsiwn hwn yn helpu i gyflawni nod cyffredinol y polisi o symleiddio prosesau a sicrhau arbedion maint yn y system ardrethi annomestig. Mae hefyd yn sicrhau mwy o gysondeb i dalwyr ardrethi sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr.

8.76 Bydd awdurdodau lleol yn cael budd am fod yr opsiwn yn dileu unrhyw ffyrdd posibl o golli refeniw o ganlyniad i oedi cyn dychwelyd eiddo unigol i'r rhestr ardrethu a fydd, yn ei dro, yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol. Mae manteision i dalwyr ardrethi yn cynnwys cynnal y rhestr ardrethu mewn modd amserol a fydd yn rhoi mwy o sicrwydd ac eglurder iddynt ynghylch eu hatebolrwydd i dalu treth.

## **Crynodeb**

- 8.77 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir. Er bod yr opsiwn hwn yn cynyddu costau gweinyddol i awdurdodau lleol, mae'r newid yn atal refeniw rhag cael ei golli am nad yw eiddo wedi'i gofnodi ar y rhestrau ardrethi. Er bod awdurdodau lleol wedi awgrymu ei bod yn anodd amcangyfrif y cynnydd posibl yn nifer yr hysbysiadau cwblhau a gyflwynir o dan yr opsiwn hwn, disgwylir iddo fod yn fach iawn.
- 8.78 Mae cost cyfle bach rhwng **£20 a £100** wedi'i nodi fel cost weinyddol gysylltiedig i awdurdodau lleol. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn sicrhau y bydd y system ardrethi annomestig yng Nghymru yn cyd-fynd o hyd â'r un yn Lloegr a fydd, yn ei dro, yn sicrhau mwy o gysondeb i dalwyr ardrethi sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr.



## Ardrethi Annomestig – Symleiddio Rhyddhad Dewisol

**Disgrifiad:** Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i benderfynu i bwy y maent yn rhoi rhyddhad a faint o gymorth y dylid ei ddarparu (y tu hwnt i ryddhadau statudol), yn ddarostyngedig i gyfyngiad amser. Dim ond o fewn chwe mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol berthnasol y gellir gwneud penderfyniadau i ddyfarnu ac amrywio rhyddhad, sy'n anghyson â phwerau disgresiwn lleol sydd, fel arall, yn eang iawn.

- 8.79 Mae rhyddhad dewisol yn cynnwys mathau gwahanol o gymorth gan gynnwys gostyngiadau ychwanegol ar gyfer galwedigaethau elusennol a chlybiau chwaraeon amatur cymunedol (yn ogystal â rhyddhad rhannol statudol), cyrff nad ydynt yn gwneud elw a thalwyr ardrethi sy'n wynebu caledi, ochr yn ochr â rhyddhad hollol ddewisol (unrhyw bolisiâu lleol ar gyfer rhyddhadau). Telir canran o'r rhyddhad gan Lywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol yn dibynnu ar y rhyddhad a roddir. Os rhoddir rhyddhad dewisol ar fil talwr ardrethi mae'n lleihau'r cyfanswm sy'n daladwy, gan gael effaith uniongyrchol ar lefel y cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.
- 8.80 Caiff y cyfyngiad amser presennol o chwe mis ar ddyfarnu ac amrywio rhyddhad dewisol gan awdurdodau lleol ei ddileu.
- 8.81 Bydd hefyd yn adlewyrchu'r dull gweithredu sydd wedi'i fabwysiadu gan Lywodraeth y DU yn Neddff Ardrethi Annomestig 2023.
- 8.82 Ystyriwyd dau opsiwn gan nad oes unrhyw gam gweithredu ymarferol amgen a fyddai'n cyflawni'n canlyniad a ddymunir. Ystyriwyd ymestyn y cyfyngiad amser yn hytrach na'i ddileu ond byddai dull gweithredu o'r fath yn dal i fod yn anghydnaws â'r disgresiwn sydd gan awdurdodau lleol sydd, fel arall, yn eang.

**Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer:** Cadw'r cyfyngiad amser.

### Costau

- 8.83 Ni fydd cadw'r dull hwn o weithredu yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac unrhyw gorff cyhoeddus/preifat arall.
- 8.84 Er y gall symiau o ryddhad dewisol a roddir gan awdurdodau lleol amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn ôl amodau ehangach y farchnad a'r economi, ni fydd yr opsiwn hwn yn newid pryd y gellir dyfarnu rhyddhad dewisol. Mae awdurdodau lleol yn darparu data am faint o'r rhyddhad dewisol sy'n cael ei dalu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru ond gall rhyddhad dewisol ychwanegol gael ei roi a'i ariannu'n llawn gan yr awdurdod lleol, nad oes data ar gael ar ei gyfer ar hyn o bryd.
- 8.85 Dengys y data diweddaraf, ledled Cymru, mai cyfanswm y rhyddhad dewisol yn 2021-22<sup>2</sup> oedd **£12m**, wedi'i rannu rhwng cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, sef **£5.6m**, a chyllid a ddarparwyd gan awdurdodau lleol, sef **£6.4m**. Er mwyn cymharu, cyfanswm y ffigurau cyfartalog saith mlynedd ar

---

<sup>2</sup> [Ardrethu annomestig, yn ôl disgrifiad rhes NDR \(£ mil\) \(llyw.cymru\)](#)

gyfer Cymru gyfan oedd **£9.9m**, wedi'i rannu rhwng cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, sef **£3.8m**, a chyllid a ddarparwyd gan awdurdodau lleol, sef **£6.1m**.

- 8.86 Byddai cost cyfle bach i'r busnesau hynny y gellid dyfarnu rhyddhad iddynt pe na bai unrhyw gyfyngiad amser ar waith.

### **Manteision**

- 8.87 Prif fantais mabwysiadu'r opsiwn hwn yw ei fod yn sicrhau parhad i awdurdodau lleol, yn gyntaf, o ran gweinyddu rhyddhad ac, yn ail, o ran rhoi mwy o sicrwydd ariannol o ystyried y cyfyngiad amser ar gyfer rhyddhad ychwanegol.

### **Crynodeb**

- 8.88 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Er y bydd cyfanswm y rhyddhad dewisol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, nid yw'r opsiwn hwn yn gwneud unrhyw newidiadau i'r ffordd y caiff ei ddyfarnu. Mae'n sicrhau parhad gweinyddol ar gyfer awdurdodau lleol.

**Opsiwn 2 – Y Dull Gweithredu a Ffefrir:** Rhoi disgrisiwn llawn i awdurdodau lleol roi rhyddhad, gan ddileu'r cyfyngiad amser.

### **Costau**

- 8.89 Byddai dileu'r cyfyngiad amser o chwe mis (ar ôl diwedd blwyddyn ariannol) yn ei gwneud yn bosibl i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru fynd i gostau ychwanegol, pan fyddai mwy o ryddhad dewisol yn cael ei roi i dalwyr ardrethi. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn newid y ffordd y caiff rhyddhad dewisol ei gyfrifo na'i ariannu.
- 8.90 Mae gwybodaeth gan awdurdodau lleol yn awgrymu y bydd nifer y ceisiadau yn parhau ar y lefelau presennol. Felly, nid oes unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol o ran cyhoeddi unrhyw ganllawiau ychwanegol na gohebiaeth nac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ychwanegol nac unrhyw newidiadau ychwanegol i'r costau gweinyddol.
- 8.91 Mae tystiolaeth a gasglwyd gan awdurdodau lleol yn awgrymu y byddant yn dyrannu hyd at 5% ychwanegol o'r math hwn o ryddhad bob blwyddyn i dalwyr ardrethi. Gan ddefnyddio'r ganran ychwanegol a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a'r costau a amlinellwyd uchod, o 2021-22<sup>3</sup> a chan ddefnyddio cyfartaledd saith mlynedd, mae hyn yn awgrymu y bydd rhyddhad ychwanegol gwerth £495,000 yn cael ei roi i dalwyr ardrethi bob blwyddyn (gan ddechrau yn 2024-25). Mae rhaniad nominal o'r costau a bennwyd, sef 25% i Lywodraeth Cymru (£124,000 y.fl.) a 75% i awdurdodau lleol (£371,000 y.fl.) yn cyfrif am y gwahanol fathau o ryddhad y gellir eu rhoi a phwy sy'n gyfrifol am eu hariannu.
- 8.92 Dros 10 mlynedd, amcangyfrifir y byddai hyn yn cyfateb i gyfanswm costau o **£1.24m** i Lywodraeth Cymru a **£3.71m** i awdurdodau lleol.

---

<sup>3</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Local-Government/Finance/Non-Domestic-Rates>

### **Manteision**

- 8.93 Amcangyfrifir mai'r fantais i dalwyr ardrethi yw **£4.95m** o ryddhad ychwanegol a ddyrennir dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd, yn seiliedig ar y dull cyfrifo a amlinellwyd uchod.
- 8.94 Bydd awdurdodau lleol hefyd yn cael budd o'r opsiwn hwn, gyda mwy o ddisgresiwn a hyblygrwydd lleol wrth weithredu polisiau rhyddhad dewisol yn deg, yn ogystal â thalwyr ardrethi yr effeithir arnynt, a all gael rhyddhad na allai fod wedi cael ei ddyfarnu iddynt fel arall.
- 8.95 Mae'r opsiwn hwn hefyd yn sicrhau bod talwyr ardrethi ac awdurdodau lleol ledled Cymru yn cael budd o'r un paramedrau ar gyfer defnyddio disgresiwn â'u cymheiriaid yn Lloegr, gan sicrhau tegwch a chysondeb ym mhob rhan o'r system ardrethi annomestig.

### **Crynodeb**

- 8.96 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir. Cyfanswm y gost ychwanegol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yw **£4.95m** dros y cyfnod o 10 mlynedd, sy'n sicrhau mantais uniongyrchol i dalwyr ardrethi ar ffurf rhyddhad a ddyrennir. Mae rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol wrth ddyrannu rhyddhad dewisol yn deg, gan sicrhau ei fod yn cyrraedd y talwyr ardrethi sy'n gymwys i'w gael.

## **Ardrethi Annomestig - Pŵer i Ragnodi Lluosyddion Gwahaniaethol gan ddefnyddio Rheoliadau**

**Disgrifiad:** Caiff atebolrwydd am ardrethi annomestig ei bennu drwy gyfuno gwerth ardrethol hereditament (uned o eiddo ag asesiad ardrethu) â'r lluosydd, a gaiff ei bennu bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r lluosydd yn gweithredu fel elfen allweddol wrth bennu atebolrwydd talwyr ardrethi, gan ei fod yn berthnasol i'r sylfaen drethu gyfan. Mae'n cael ei gynyddu gan chwyddiant blynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr, oni fydd Llywodraeth Cymru yn ei bennu ar lefel wahanol drwy ragnodi ffigur amgen i'w ddefnyddio yn lle'r mynegai hwn.

- 8.97 Ar hyn o bryd, mae lluosydd unigol yn berthnasol i bob hereditament yng Nghymru ac nid oes unrhyw fecanwaith y gall Llywodraeth Cymru ei defnyddio i bennu gwahanol luosyddion ar gyfer gwahanol sectorau o'r sylfaen drethu. Ar hyn o bryd, byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i ragnodi lluosyddion amgen ar gyfer sectorau diffiniedig i'r sylfaen drethu, mewn ymateb i flaenoriaethau'r polisi. Ni ellir gwneud hyn yn ymarferol, oherwydd yr amser cyfyngedig sydd ar gael bob blwyddyn i bennu'r lluosydd.
- 8.98 Rhoddir pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn pennu lluosyddion gwahanol yn seiliedig ar werth ardrethol neu leoliad hereditament neu'r disgrifiad ohono ar restr leol neu werth ardrethol hereditament ar y rhestr ganolog.
- 8.99 Mae lluosyddion amgen eisoes i'w cael mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

**Opsiwn 1 - Busnes fel Arfer:** Cadw un lluosydd a ddefnyddir ledled Cymru, heb unrhyw hyblygrwydd ychwanegol mewn is-ddeddfwriaeth.

### **Costau**

- 8.100 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus/preifat eraill na thalwyr ardrethi o dan yr opsiwn hwn.
- 8.101 Ac ni fyddai unrhyw gostau newydd i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn i ddechrau. Pe bai angen newid y lluosydd yn y dyfodol, byddai costau gweinyddol uwch i Lywodraeth Cymru oherwydd yr angen i wneud deddfwriaeth sylfaenol. Nid yw'r rhain wedi'u nodi gan y byddent yn cael eu cynnwys o fewn adnoddau presennol Llywodraeth Cymru.
- 8.102 Byddai cadw'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn cyfyngu'n sylweddol ar allu Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r system ardrethi annomestig yn effeithiol i gefnogi blaenoriaethau polisi presennol neu newydd.

### **Manteision**

- 8.103 Prif fantais yr opsiwn hwn yw ei fod yn sicrhau parhad i dalwyr ardrethi ac awdurdodau lleol o ran eu rôl yn gweinyddu'r trefniadau presennol.

## **Crynodeb**

8.104 Er na fydd yr opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol ac er y bydd yn sicrhau rhywfaint o barhad, bydd yn cadw'r anhyblygrwydd i ymateb pan nodir bod angen newid y lluosydd.

**Opsiwn 2 – Y Dull Gweithredu a Ffefrir:** Hyblygrwydd i ragnodi lluosyddion amgen drwy reoliadau, yn seiliedig ar werth ardrethol neu leoliad daearyddol yr eiddo neu'r disgrifiad ohono.

## **Costau**

8.105 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw wariant uwch neu lai uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus/preifat eraill na thalwyr ardrethi.

8.106 Nid yw'r Bil yn gwneud darpariaethau penodol a fydd yn creu lluosyddion amgen. Mater i reoliadau a wneid o dan y pwerau a ddarperid gan y Bil fyddai hwn. Byddai dadansoddiad manwl o effeithiau disgwylidig unrhyw is-ddeddfwriaeth yn cael ei gynnal pan fyddai'r pwerau'n cael eu defnyddio.

8.107 Byddai cynigion ar gyfer cyflwyno lluosyddion amgen gan ddefnyddio'r pwerau hyn yn destun ymgynghoriad a byddai'r Senedd yn craffu ar reoliadau. Nid yw'n bosibl amcangyfrif unrhyw gostau na'r manteision ariannol posibl, gan y byddai hyn yn dibynnu ar natur benodol y newidiadau a wneir gan reoliadau. Gan fod y lluosydd yn benderfynydd allweddol o ran atebolrwydd talwyr ardrethi, byddai'n anorfod bod hyn yn cael effaith amrywiol ar wahanol dalwyr ardrethi gan ddibynnu ar bamedrau'r rheoliadau. Gallai'r effaith ar dalwyr ardrethi fod ar ffurf cynnydd neu ostyngiad yn eu hatebolrwydd. Felly, nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r pwerau ychwanegol hyn yn y dyfodol yn hysbys ar hyn o bryd ac nid ydynt wedi'u hystyried yn yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn. Byddai unrhyw oblygiadau o ran costau yn y dyfodol yn ffurfio rhan o asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y rheoliadau perthnasol.

## **Manteision**

8.108 Prif fuddiolwyr yr opsiwn hwn yw Llywodraeth Cymru a thalwyr ardrethi.

8.109 Byddai mabwysiadu'r opsiwn hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i weithredu newidiadau yr ystyrir eu bod yn briodol wrth gyflwyno lluosyddion amgen a'u rheoli yn unol ag amcanion polisi ehangach yn barhaus.

8.110 Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn sicrhau bod y system ardrethi annomestig yn addas ar gyfer y dyfodol, a fydd yn fanteisiol i dalwyr ardrethi gan y bydd yn galluogi dull mwy hyblyg ac ymatebol wrth ddylunio a gweithredu lluosyddion amgen.

8.111 Bydd y pwerau yn darparu ar gyfer datblygu cymorth i dalwyr ardrethi a gwneud newidiadau yn unol â pholisi ehangach y Llywodraeth mewn modd mwy amserol.

## **Crynodeb**

8.112 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir. Mae'r opsiwn hwn yn niwtral o ran costau nes i'r pwerau gael eu defnyddio, pan allai awdurdodau lleol wynebu rhai costau gweinyddol. Gallai fod costau i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â darparu cymorth ychwanegol neu arbedion pe bai lluosyddion amgen yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r opsiwn hwn yn cefnogi defnydd mwy hyblyg ac ymatebol o luosyddion a byddai'n fwy cyson â rhannau eraill o'r DU.

## **Ardrethi Annomestig – Darparu Gwybodaeth i Swyddogion Priso**

**Disgrifiad:** Ar hyn o bryd, mae Asiantaeth y Swyddfa Briso yn gofyn am wybodaeth gan bob talwr ardrethi yn ystod y cyfnod cyn ymarferion ailbriso at ddibenion ardrethi annomestig er mwyn i'r rhestrau ardrethi allu cael eu diweddarau. Nid yw'n ofynnol i dalwyr ardrethi fynd ati'n rhagweithiol i hysbysu Asiantaeth y Swyddfa Briso am newidiadau y disgwylir iddynt effeithio ar werthoedd ardrethol ac atebolrwydd eiddo yn ystod oes rhestr ardrethu. O ganlyniad, mae rhestrau ardrethi yn mynd yn fwyfwy anghywir dros amser. Mae hyn yn arwain at y sefyllfa lle na fydd rhai talwyr ardrethi yn talu'r swm cywir o ardrethi, am rai blynyddoedd o bosibl. Gall hefyd arwain at newidiadau mwy sylweddol i werthoedd ardrethol unigol pan gynhelir yr ailbrisiadau llawn cyfnodol.

- 8.113 Mae'r darpariaethau yn gosod dyletswyddau ar dalwyr ardrethi a'r rhai a fyddai'n dalwyr ardrethi pe bai eu hereditament yn cael ei ddangos ar restr ardrethu. Maent yn cynnwys dyletswydd gyffredinol i ddarparu gwybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Briso a allai effeithio ar werth ardrethol eiddo neu fanylion y person atebol. Byddai'n ofynnol i wybodaeth o'r fath gael ei darparu o fewn 60 diwrnod i'r newid.
- 8.114 Mae dyletswydd arall yn ei gwneud yn ofynnol i gadarnhad blynyddol gael ei gwblhau o fewn 60 diwrnod i 30 Ebrill bob blwyddyn, er mwyn cadarnhau bod yr wybodaeth a ddelir gan Asiantaeth y Swyddfa Briso yn gywir ac yn gyfredol. Caiff cyfundrefn cydymffurfio ac apelio ar gyfer achosion o fethu â chydymffurfio â'r dyletswyddau newydd ei chyflwyno hefyd.
- 8.115 Mae Llywodraeth y DU yn awyddus i gyflawni nodau tebyg mewn perthynas â Lloegr ac mae wedi cyflwyno dyletswydd ar dalwyr ardrethi i ddarparu gwybodaeth benodol i Asiantaeth y Swyddfa Briso yn Neddf Ardrethi Annomestig 2023.
- 8.116 Ystyriwyd dau opsiwn gan nad oes unrhyw gam gweithredu ymarferol amgen a fyddai'n cyflawni'r canlyniad sydd ei angen.
- 8.117 Nid yw'n bosibl gwahanu costau'r opsiynau hyn oddi wrth y ddwy ddibyniaeth allweddol. Yn gyntaf, byddai ailbrisiadau amlach, y bwriedir i'r dyletswyddau o ran darparu gwybodaeth eu cefnogi, yn rhy ddrud i'w cyflwyno heb y diwygiadau i'r ffordd y darperir gwybodaeth. Yn ail, mae cysondeb â'r dull gweithredu sy'n cael ei fabwysiadu ar gyfer Lloegr (mewn perthynas â chylchoedd ailbriso a darparu gwybodaeth) yn galluogi Cymru i gael budd o arbedion maint ac arbedion effeithlonrwydd gweinyddol a sicrhau bod talwyr ardrethi sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr yn ddarostyngedig i ofynion tebyg.

**Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer:** Mae Asiantaeth y Swyddfa Briso yn casglu gwybodaeth gan dalwyr ardrethi fel rhan o ymarferion ailbriso, heb unrhyw ofyniad i'r wybodaeth gael ei darparu'n rhagweithiol, er enghraifft pan fydd amgylchiadau yn newid, yn ystod oes y rhestr.

## Costau

- 8.118 Er na fyddai unrhyw gost ymlaen llaw yn gysylltiedig â rhoi system newydd ar gyfer darparu gwybodaeth ar waith, gellid disgwyl i'r opsiwn hwn arwain at gostau parhaus uwch i Asiantaeth y Swyddfa Brisio a fyddai'n gysylltiedig â chynnal ailbrisiadau bob tair blynedd. Ni fyddai unrhyw arbedion effeithlonrwydd yn y prosesau y mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn eu defnyddio i ofyn am wybodaeth wedi'i diweddarau a'i chael gan dalwyr ardrethi. Byddai Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn parhau â'r dull gweithredu presennol yn achos Cymru ac yn newid y ffordd y caiff gwybodaeth ei ddarparu yn achos Lloegr, gan arwain at ddulliau gwahanol o gasglu tystiolaeth brisio yng Nghymru o'u cymharu â Lloegr. Ni fyddai rhestrau ardrethu yng Nghymru yn cael eu diweddarau o hyd, a allai arwain o bosibl at newidiadau bach yn y refeniw a gesglir ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus: nid yw'n bosibl mesur yr amrywiadau hyn oherwydd byddai'r rhain yn amrywio gan ddibynnu i ba raddau y mae gwybodaeth yn anghywir a byddent hefyd yn amrywio rhwng cylchoedd. Gallai talwyr ardrethi y mae eu gwybodaeth yn gyfredol fod dan anfantais gymharol.
- 8.119 Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi amcangyfrif bod y costau i dalwr ardrethi sy'n gysylltiedig â darparu gwybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio o dan y dull hwn o weithredu yn cyfateb i **£15** y flwyddyn. Mae'r ffigur hwn yn ystyried yr amrywiaeth o sefyllfaoedd sy'n berthnasol i dalwyr ardrethi, o fusnesau mawr sydd â nifer o eiddo i fusnesau bach sydd ag un eiddo yn unig, yn ogystal â'r talwyr ardrethi hynny sy'n talu cyflogai neu drydydd parti (cyfrifydd, asiant) i ddarparu'r wybodaeth.
- 8.120 Mae cyfanswm y costau yn seiliedig ar y nifer presennol o dalwyr ardrethi, sef 85,000 (mae rhai talwyr ardrethi yn meddiannu sawl hereditament). Dros 10 mlynedd, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost cyfredol i dalwyr ardrethi yw **£12.7 miliwn**.

## Manteision

- 8.121 Prif fantais parhau â'r broses bresennol yw sefydlogrwydd i dalwyr ardrethi, sy'n cynnig sicrwydd o ran eu rhwymedigaethau a'u cyfrifoldebau.

## Crynodeb

- 8.122 Nid yw'n bosibl amcangyfrif y costau tymor canolig a hirdymor ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn ddibynadwy oherwydd y dibyniaethau a nodwyd uchod. Er ei fod yn sicrhau sefydlogrwydd i dalwyr ardrethi, nid yw'n cefnogi camau gweithredu i sicrhau bod y rhestrau ardrethi yn cael eu diweddarau'n rheolaidd nac yn helpu i wella prosesau ailbrisio.

**Opsiwn 2 – Y Dull Gweithredu a Ffefrir:** Byddai'n ofynnol i dalwyr ardrethi ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w manylion personol a'u heiddo i Asiantaeth y Swyddfa Brisio wrth i newidiadau sy'n effeithio ar eu heiddo ddigwydd. At hynny, bydd dyletswydd ar dalwyr ardrethi i gwblhau cadarnhad blynyddol bod yr wybodaeth a ddelir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn gywir. Byddai cyfundrefn gosbi ar gyfer methu â chydymffurfio, a system apelio gysylltiedig, yn cefnogi'r dyletswyddau hyn.



## Costau

- 8.123 Ar ôl iddi gael ei rhoi ar waith, byddai'r costau cychwynnol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth hon (ar ei phen ei hun) yn cael eu talu gan dalwyr ardrethi a Llywodraeth Cymru (a fyddai'n ariannu'r gwaith gweinyddol cysylltiedig gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r gwaith o brosesu unrhyw apeliadau gan Dribiwnlys Prasio Cymru). Er mwyn lleihau'r effaith ar dalwyr ardrethi, bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cyflwyno gwasanaeth ar-lein, a gynlluniwyd i fod yn hawdd i'w ddefnyddio gan bob talwr ardrethi, a fydd yn creu'r baich treth ychwanegol lleiaf posibl yn ogystal â bod yn ymarferol ac yn gosteffeithiol i dalwyr ardrethi ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio.
- 8.124 Bydd yr opsiwn hwn yn arwain at gost fyrdymor i Lywodraeth Cymru a fydd yn gysylltiedig â thalu am sefydlu'r gwasanaeth newydd ar-lein gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Yn y tymor canolig a'r tymor hwy, disgwylir i'r dull gweithredu sicrhau arbedion effeithlonrwydd o ran darparu gwybodaeth a lleihau'r costau sy'n gysylltiedig ag ailbrisiadau amlach. Yn ymarferol, byddai cynnal ailbrisiadau bob tair blynedd heb yr opsiwn hwn yn fwy costus.
- 8.125 Ar hyn o bryd, amcangyfrifir mai'r gost i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig ag ariannu Asiantaeth y Swyddfa Brisio i sefydlu a chynnal y gwasanaeth ar-lein yw **£15m** dros y cyfnod o 10 mlynedd a gwmpesir gan asesiad effaith rheoleiddiol y Bil, sy'n cyfateb i **£1.5m** y flwyddyn, ar gyfartaledd. Mae'r proffil cost wedi'i flaenlwytho, sy'n adlewyrchu'r gwaith o ddatblygu a lansio'r gwasanaeth dros yr ychydig flynyddoedd cyntaf fel y nodir yn Nhabl 8.3. Caiff y costau hyn eu hadolygu a'u mireinio yn ystod y broses o ddatblygu cylch oes y rhaglen a'r camau gweithredu cynnar. Mae rhagamcanion cost yn debygol o barhau ar yr un lefel ond gall costau blynyddol newid a gall gwahaniaethau godi o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r proffil cost yn seiliedig ar ragdybiaeth y bydd y gwasanaeth ar-lein yn lansio yn ystod 2026-27, ond mae hyn yn amodol ar gadarnhad wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen. Nid yw cwblhau ymarfer ailbrasio yn 2026 yn ddibynnol ar lansio'r gwasanaeth, gan fod Asiantaeth y Swyddfa Brisio eisoes yn paratoi i ymgymryd â'r ymarfer hwnnw o dan y trefniadau presennol. Bwriad yr opsiwn hwn yw sicrhau cynaliadwyedd ailbrisiadau amlach dros y tymor hwy.
- 8.126 Byddai'r baich cydymffurfio ar dalwyr ardrethi yn cynyddu o dan yr opsiwn hwn, gan y byddai'n ofynnol iddynt gyflawni dyletswydd newydd. Cost ychwanegol hyn, fel y'i hamcangyfrifwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, yw **£35** fesul talwr ardrethi ar gyfer blwyddyn gyntaf y system newydd (2026-27), a fydd yn gostwng i **£20** ar gyfer pob blwyddyn ddilynol. Dyma'r cynnydd cyfartalog yng nghost cydymffurfio o'i gymharu â'r system bresennol a ddisgrifir o dan Opsiwn 1. I rai talwyr ardrethi, ni fydd cost cydymffurfio â'r dull hwn yn cynrychioli costau newydd nac ychwanegol o'i gymharu â'r rhai yr eir iddynt ar hyn o bryd. Mae'r gost hon yn ystyried y ddyletswydd i hysbysu wrth i newidiadau ddigwydd yn ogystal â'r cadarnhad blynyddol, a fydd yn defnyddio'r un system TG. Mae'r costau is yn yr ail flwyddyn yn ystyried yr arbedion effeithlonrwydd a fydd yn deillio o'r ffaith bod talwyr ardrethi bellach yn gyfarwydd â'r broses a'r systemau. Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost i dalwyr ardrethi fydd £2.975m yn 2026-27 ac £1.7m mewn blynyddoedd dilynol. Fel y nodwyd yn Opsiwn 1, mae'r ffigur hwn yn ystyried y lefelau

gwahanol o berchenogaeth eiddo a strwythurau busnes/sefydliadol. Mae hefyd yn ystyried unrhyw addasiad cychwynol y bydd angen i dalwyr ardrethi ei wneud wrth drosglwyddo o un system casglu gwybodaeth i system arall (ar-lein). Amlinellir y gost hon yn Nhabl 8.3.

- 8.127 Nid oes unrhyw risg i dalwyr ardrethi sy'n gysylltiedig ag amseriad lansio'r gwasanaeth ar-lein a'u gallu i gydymffurfio â'r dyletswyddau. Y bwriad yw cyflwyno'r gwasanaeth yn ystod oes rhestrau ardrethu 2026 (yn amodol ar basio'r Bil), ond ni fydd y dyletswyddau yn cael eu cychwyn gan Lywodraeth Cymru hyd nes y byddwn ni ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn fodlon y gellir disgwyl yn rhesymol i dalwyr ardrethi gydymffurfio. Yr ystyriaeth bwysicaf yn hynny o beth fydd i ba raddau y mae'r gwasanaeth ar-lein yn barod, a bydd proses profi defnyddwyr yn llywio hynny. Ar ôl ei rhoi ar waith, gallai'r ddarpariaeth hon newid yr atebolrwydd ar gyfer rhai talwyr ardrethi wrth i newidiadau sy'n effeithio ar eu heiddo gael eu diweddarau wrth iddynt ddigwydd, yn hytrach nag ar adeg pob ailbrisiad. Mae'n anodd mesur maint y newid hwn gan y byddai'n dibynnu ar natur newidiadau i eiddo, a allai gynyddu neu leihau'r gwerthoedd ardrethol.
- 8.128 Bydd Tribiwnlys Prasio Cymru yn gwrandao unrhyw achosion apêl a gaiff eu dwyn yn erbyn y gyfundrefn gydymffurfio newydd. Gan ddefnyddio ffigurau hanesyddol tribiwnlysoedd, mae Tribiwnlys Prasio Cymru wedi amcangyfrif y bydd 10 achos newydd ychwanegol y flwyddyn o 2026-27 ymlaen, gyda chyfanswm cost amcangyfrifedig o **£600** y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar amcangyfrif Tribiwnlys Prasio Cymru o'r gost fesul achos, sef **£60**. Cyfanswm y gost amcangyfrifedig ar gyfer apeliadau ychwanegol i Dribiwnlys Prasio Cymru fyddai **£4,000**.
- 8.129 Nid oes unrhyw gostau i awdurdodau lleol yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth hon. Mae unrhyw gostau ymylol i dalwyr ardrethi o ran cymryd rhan mewn apeliadau (ar y cam adolygu apêl) wedi'u hystyried yn y costau a ddarparwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.
- 8.130 Amlinellir cyfanswm y costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn Nhabl 8.3.

**Tabl 8.3 – Cyfanswm y costau amcangyfrifedig ar gyfer darparu gwybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio (£000)**

Y Ddyletswydd i Hysbysu	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	2033-34	Cyfanswm
Costau Llywodraeth Cymru	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	<b>0</b>
Costau Asiantaeth y Swyddfa Brisio	2,500	2,000	4,000	500	1,500	1,500	0	1,500	1,500	0	<b>15,000</b>
Costau Tribiwnlys Priso Cymru	0	0	0	0	0.6	0.6	0.6	0.6	0.6	0.6	<b>4</b>
Costau Awdurdodau Lleol	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	<b>0</b>
Costau Talwyr Ardrethi (rhwng pob talwr ardrethi)	0	0	2,975	1,700	1,700	1,700	1,700	1,700	1,700	1,700	<b>14,875</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,500</b>	<b>2,000</b>	<b>6,975</b>	<b>2,200</b>	<b>3,201</b>	<b>3,201</b>	<b>1,701</b>	<b>3,201</b>	<b>3,201</b>	<b>1,701</b>	<b>29,879</b>

### Manteision

8.131 Mantais yr opsiwn hwn yw y byddai'n gwella amseroldeb a chywirdeb ac, felly, degwch pob rhestr ardrethu, gan sicrhau bod pob rhestr yn adlewyrchu amodau'r farchnad yn agosach. Bydd gwella cywirdeb rhestrau ardrethu yn atgyfnerthu'r system ailbriso, gan sicrhau y caiff prisiadau eu hasesu gan ddefnyddio tystiolaeth well, fwy amserol, a chan leihau, o bosibl, yr angen i dalwyr ardrethi herio prisiadau. Bydd yn helpu i sicrhau bod talwyr ardrethi yn talu'r dreth gywir ar yr adeg gywir ac yn rhoi mwy o sicrwydd iddynt o ran faint o dreth sy'n daladwy ganddynt. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn sicrhau bod y gofynion ar dalwyr ardrethi yng Nghymru a Lloegr yn gyson a galluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i roi systemau tebyg ar waith yn y ddwy wlad, gan gynnal arbedion maint a galluogi arbedion effeithlonrwydd wrth ddiwygio ardrethi, yn enwedig ailbrisiadau amlach.

### Crynodeb

8.132 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir. Bydd yr opsiwn hwn yn hwyluso system newydd a mwy amserol i dalwyr ardrethi ddarparu gwybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio y disgwylir iddynt ei darparu eisoes. Bydd y ffaith bod gwybodaeth gyfredol am eiddo ar gael iddi hefyd yn galluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i wneud prisiadau mwy cywir ac yn ei helpu i sicrhau arbedion o ran amser a chostau wrth i brosesau ddatblygu ac aeddfedu. Un o fanteision eraill yr opsiwn hwn yw ei fod yn sicrhau dull gweithredu cyson ar gyfer talwyr ardrethi yng Nghymru a Lloegr.

## **Ardrethi Annomestig - Darpariaethau ar gyfer Gwrthweithio Osgoi**

**Disgrifiad:** Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i leihau'r cyfleoedd i osgoi atebolrwydd o ran ardrethi annomestig. Er nad yw osgoi yn anghyfreithlon, mae'n ymddygiad sy'n creu trefniadau artiffisial er mwyn sicrhau manteision treth. Mae'n bwysig na chaiff ymdrechion y mwyafrif sylweddol i dalu'r hyn sy'n ddyledus eu tanseilio gan leiafrif sy'n benderfynol o gamfanteisio ar y system neu ei chamddefnyddio.

8.133 Mae ymddygiadau osgoi trethi yn datblygu mewn ffyrdd na ellir eu rhagweld ac nid yw ardrethi annomestig yn eithriad. Mae darpariaethau i fynd i'r afael â dulliau osgoi sy'n dod i'r amlwg yn aml yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol, sy'n cyfyngu ar y gallu i wrthweithio ymddygiadau osgoi mewn modd amserol.

8.134 Bydd y ddarpariaeth hon yn ei gwneud yn bosibl i fanteision sy'n deillio o drefniadau osgoi artiffisial gael eu gwrthweithio, yn amodol ar roi pŵer i Weinidogion Cymru ddiffinio mewn rheoliadau, y trefniadau osgoi penodol a gwmpesir gan y darpariaethau. Gallai cosbau hefyd gael eu rhoi i bobl atebol nad ydynt yn talu'r swm sy'n ddyledus am eu bod wedi gwneud trefniant osgoi artiffisial. Bydd y darpariaethau yn helpu Llywodraeth Cymru i ymdrin ag achosion o osgoi ardrethi annomestig, gan gynnwys mathau o ymddygiad na chânt eu defnyddio neu nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd, ond a all ddod i'r amlwg neu gael eu nodi yn y dyfodol.

8.135 Ystyriwyd dau opsiwn posibl yn yr achos hwn.

**Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer:** Parhau â'r dull presennol o aros am gyfle i ymdrin â materion drwy is-ddeddfwriaeth.

### **Costau**

8.136 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus/preifat na thalwyr ardrethi yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

8.137 Ni fyddai unrhyw gostau newydd i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn i ddechrau. Petai angen newid y tirlun yn y dyfodol, byddai costau gweinyddol uwch i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â gwneud deddfwriaeth sylfaenol. Nid yw'r rhain wedi'u nodi gan y byddent yn cael eu cynnwys o fewn adnoddau presennol Llywodraeth Cymru.

8.138 Drwy gadw'r fframwaith deddfwriaethol presennol, mae'n cyfyngu'n sylweddol ar allu Llywodraeth Cymru i ymateb yn amserol i ymddygiadau osgoi ardrethi annomestig sydd newydd eu nodi.

### **Manteision**

8.139 Mae cadw'r opsiwn hwn yn sicrhau parhad i awdurdodau lleol o ran eu rôl yn gweinyddu'r trefniadau presennol.

## **Crynodeb**

8.140 Er na fydd yr opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol ac er y bydd yn sicrhau rhywfaint o barhad, bydd yn cadw'r anhyblygrwydd i ymateb pan nodir trefniadau osgoi newydd.

**Opsiwn 2 – Y Dull Gweithredu a Ffefrir:** Darparu ar gyfer gwrthweithio manteision sy'n deillio o drefniadau osgoi ardrethi annomestig sy'n artiffisial.

## **Costau**

8.141 Yn 2017, amcangyfrifodd yr awdurdodau lleol fod graddfa gweithgarwch osgoi talu ardrethi annomestig, yn gyffredinol, yn golygu colled o rhwng £10m i £20m o refeniw bob blwyddyn (sy'n 1-2% o refeniw ardrethi annomestig). Gan fod cynnal yr ymarfer casglu data gwreiddiol wedi galw am ddefnyddio llawer o adnoddau, nid yw wedi'i gynnal eto wedi hynny, er bod yr awdurdodau lleol wedi cadarnhau bod gweithgarwch osgoi trethi yn dal i ddigwydd a bod dulliau yn esblygu dros amser.

8.142 Ni fydd yr opsiwn hwn yn arwain at unrhyw gynnydd na gostyngiad uniongyrchol mewn gwariant ar gyfer awdurdodau lleol, nac ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill na chyrrff preifat, nac ar gyfer talwyr ardrethi.

8.143 Nid yw'r Bil yn nodi unrhyw ymddygiadau penodol sy'n gyfystyr â threfniadau osgoi trethi. Mater i'r rheoliadau a wneir o dan y pwerau a ddarperir gan y Bil fydd hwn. Cynhelir dadansoddiad manwl o'r effeithiau disgwylidig pan gaiff unrhyw reoliadau eu gwneud o dan y pwerau.

8.144 Felly, nid yw'r costau ar gyfer yr opsiwn hwn wedi'u hystyried yn yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn.

## **Manteision**

8.145 Mae'r ddarpariaeth hon yn darparu i Weinidogion Cymru bŵer sy'n paratoi at y dyfodol fel bod modd ymdrin â threfniadau osgoi trethi, sy'n dod i'r amlwg ac sy'n esblygu yn barhaus, mewn modd amserol.

8.146 Byddai cynigion ar gyfer rheoliadau gwrthweithio osgoi trethi gan ddefnyddio'r pwerau hyn yn destun ymgynghoriad a bydd y Senedd yn craffu ar y rheoliadau. Nod unrhyw reoliadau gwrthweithio osgoi trethi a gyflwynid fyddai lleihau'r swm o refeniw a gollid drwy weithgarwch osgoi trethi. Byddai graddfa unrhyw ostyngiadau o'r fath yn dibynnu ar natur benodol y newidiadau a fyddai'n cael eu gwneud drwy reoliadau. Byddai'r rheoliadau yn ceisio mynd i'r afael â materion a nodwyd gan yr awdurdodau lleol a chyrrff eraill gyda'r bwriad o sicrhau na chaiff refeniw ei gollu. Gan fod natur gweithgarwch osgoi trethi yn newid yn barhaus, mae graddfa'r gweithgarwch osgoi trethi a manteision unrhyw ymyriadau yn debygol o amrywio.

## **Crynodeb**

8.147 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir. Mae'r opsiwn hwn yn niwtral o ran costau nes i'r pwerau gael eu defnyddio, pan allai arwain at rai costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn ogystal â mwy o refeniw ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus drwy leihau nifer yr achosion o osgoi ardrethi

annomestig. Mae'r opsiwn hwn yn cefnogi fframwaith mwy hyblyg ac ymatebol ar gyfer ymateb i ddulliau osgoi sy'n dod i'r amlwg.

## Darpariaethau ar gyfer y Dreth Gyngor

8.148 Mae'r adran hon yn amlinellu opsiynau'r polisi ar gyfer y newidiadau arfaethedig i system y dreth gyngor.

### Y Dreth Gyngor – Ailbrisiadau Rheolaidd

**Disgrifiad:** Rhoi cylchoedd ailbrisiu rheolaidd ar waith, sydd â'r hyblygrwydd i ddiwygio, gohirio a chanslo ymarfer ailbrisiu eiddo domestig.

- 8.149 Mae ymarferion ailbrisiu eiddo domestig rheolaidd yn hanfodol i gyflawni'r ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a'r ymrwymiad blaenorol yn y Cytundeb Cydweithio i sicrhau bod system y dreth gyngor yn decach ac yn fwy graddoledig.
- 8.150 Ar hyn o bryd, gall ymarfer ailbrisiu eiddo domestig gael ei gychwyn yng Nghymru yn ôl disgrisiwn Gweinidogion Cymru gan ddefnyddio pwerau is-ddeddfwriaethol ond nid oes unrhyw amserlen sefydlog na phendant ar gyfer ailbrisiadau. Dim ond un ymarfer ailbrisiu sydd wedi'i gynnal yng Nghymru ers i system y dreth gyngor gael ei chyflwyno yn 1993, sef ymarfer ailbrisiu 2005. Dros amser, mae'r marchnadoedd eiddo yn newid yn sylweddol ac yn profi amrywiadau daearyddol ac mae eiddo ei hun yn cael ei addasu.
- 8.151 Dengys ystadegau swyddogol ar [ddangosyddion prisiau tai](#) nad yw gwerthoedd eiddo domestig mewn gwahanol rannau o Gymru yn symud i'r un cyfeiriad yr un mor gyflym, sy'n ystumio dosbarthiad teg o'r dreth gyngor os na fydd yn dal i fyny â mesurau cyfoeth asedau. Nododd ymchwil a wnaed gan [y Sefydliad Astudiaethau Cyllid](#) anfanteision defnyddio gwerthoedd eiddo anghyfredol fel sail i system y dreth gyngor a'r effaith negyddol y gall hyn ei chael ar uniondeb y system drethu leol ac amodau economaidd-gymdeithasol.
- 8.152 Byddai cyflwyno amserlen sefydlog a chdir o gylchoedd ailbrisiu rheolaidd bob pum mlynedd yn sicrhau bod y sylfaen drethu yn cael ei diweddarau'n rheolaidd a bod y dreth yn cael ei dosbarthu'n fwy cywir ac yn decach yn rheolaidd, gydag atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor yn cael ei ailddosbarthu'n rheolaidd ymhlith aelwydydd yn seiliedig ar werth eiddo, sef mesur allweddol o gyfoeth, fforddiadwyedd ac amodau economaidd-gymdeithasol ehangach. Mae'r darpariaethau hefyd yn cyflwyno hyblygrwydd cysylltiedig er mwyn darparu ar gyfer newidiadau i hyd y cylch ailbrisiu yn y dyfodol.
- 8.153 Nododd y Resolution Foundation yn ei adroddiad [The Economy 2030 Enquiry: Tax Planning](#), a gyhoeddwyd yn 2023, fod ailbrisiadau rheolaidd yn golygu y gallai newidiadau mewn biliau dros amser fod yn llai, yn raddol ac yn arferol, gydag ailbrisiadau rheolaidd hefyd yn darparu ar gyfer system lle y gellid cysylltu atebolrwydd i dalu treth yn haws â gwerthoedd eiddo.
- 8.154 Bydd y newidiadau a roddir ar waith yn y Bil:
- yn ei gwneud yn ofynnol i restr ardrethu newydd ar gyfer y dreth gyngor gael ei llunio ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru bob pum mlynedd o 1 Ebrill 2028 ymlaen;

- yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud y cylch yn hirach neu'n fyrrach drwy is-ddeddfwriaeth;
- yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru symud ymarfer ailbriso a drefnwyd i ddyddiad newydd drwy is-ddeddfwriaeth;
- yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r dyddiad y mae'n rhaid i Asiantaeth y Swyddfa Briso gyhoeddi Rhestr Ardrethu Ddrafft;
- yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru newid cyfeiriadau at Fand D os bydd angen newid strwythur bandiau'r dreth gyngor.

**Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer:** Gall ymarferion ailbriso at ddibenion y dreth gyngor gael eu cychwyn yn ôl disgrisiwn Gweinidogion Cymru gan ddefnyddio pwerau is-ddeddfwriaethol presennol.

### Costau

8.155 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol na chyrrff cyhoeddus na phreifat o ganlyniad i'r opsiwn hwn. Dim ond pe bai is-ddeddfwriaeth yn cael ei defnyddio i gychwyn ymarfer ailbriso y byddai costau yn codi. Fel y nodwyd gan ymchwil y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, gallai fod costau heb eu mesur i drethdalwyr pe bai prisiadau eiddo yn anghyfredol, am y gallai rhai trethdalwyr fod yn talu swm anghymesur o dreth gyngor o gymharu ag eraill. Yn yr un modd, gallai fod costau cyfle i ardaloedd awdurdod lleol a allai gynhyrchu mwy o refeniw o'r dreth gyngor ar gyfer gwasanaethau lleol pe bai'r sylfaen drethu yn gyfredol.

### Manteision

8.156 Drwy gynnal sylfaen drethu sefydlog ac, o ganlyniad, fandiau'r dreth gyngor, am gyfnodau hir gydag ailbrisiadau anghylchol anfynych, mae trethdalwyr ac awdurdodau lleol yn cadw rhywfaint o sefydlogrwydd a pharhad rhwng ailbrisiadau ad hoc.

### Crynodeb

8.157 Gallai ailbrisiadau ad hoc gael eu cynnal yn ôl disgrisiwn Gweinidogion gan ddefnyddio pwerau is-ddeddfwriaethol. Er y gallai cadw'r system bresennol, heb ailbrisiadau rheolaidd at ddibenion y dreth gyngor, sicrhau rhywfaint o barhad i drethdalwyr ac awdurdodau lleol, byddai system y dreth gyngor yn dal i fod yn anghyfredol ac yn annheg.

**Opsiwn 2 – Y Dull Gweithredu a Ffefrir:** Cyflwyno cylchoedd ailbriso rheolaidd statudol ar gyfer y dreth gyngor, gydag ailbrisiadau yn cael eu cynnal o leiaf bob pum mlynedd er mwyn diweddarau'r sylfaen drethu yn rheolaidd. Yn gysylltiedig â hyn, mae angen pwerau cysylltiedig i Weinidogion Cymru newid hyd cylch, er mwyn gohirio neu ganslo ymarfer ailbriso a drefnwyd os bydd angen; newid y terfyn amser i Asiantaeth y Swyddfa Briso gyhoeddi Rhestr Ardrethu Ddrafft; a newid cyfeiriadau at Fand D.

### Costau

8.158 Nodwyd bod y costau ar gyfer cylchoedd ailbriso rheolaidd yn perthyn i dri chategori penodol, sef:



- y gost uniongyrchol sy'n gysylltiedig â chynnal ymarferion ailbrisiu ar gyfer y 1.5 miliwn o eiddo domestig yng Nghymru;
- rhoi canlyniadau ailbrisiadau ar waith o ran gweinyddu'r dreth gyngor;
- y cynnydd cychwynnol yn dilyn ailbrisiadau mewn amser ac ymdrech i helpu trethdalwyr gydag ymholiadau ac apeliadau.

8.159 Llywodraeth Cymru, Asiantaeth y Swyddfa Brisiu, Tribiwnlys Prisiu Cymru ac awdurdodau lleol fydd yn talu'r costau uniongyrchol a amlinellwyd uchod, gyda Llywodraeth Cymru yn ariannu'r mwyafrif o gostau'r cyrff eraill. Efallai y bydd biliau treth gyngor trethdalwyr yn newid o ganlyniad i ailbrisiad ond bydd yr effeithiau hyn yn unigryw i bob ymarfer pum mlynedd yn dibynnu ar amodau'r farchnad ac ni ellir eu mesur. Ar y cyfan, nod pob ailbrisiad fyddai ailddosbarthu atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor a byddai disgwyl i'r ymarferion fod yn niwtral o ran refeniw.

### Costau Ymarferion Ailbrisiu

8.160 Llywodraeth Cymru fydd yn cwrdd â'r costau hyn, drwy dalu arian i Asiantaeth y Swyddfa Brisiu, sy'n gorff annibynnol a'r unig gorff â swyddogaethau statudol i wneud gwaith ailbrisiu. Mae'r costau yn seiliedig ar ailbrisiad o tua 1.5 miliwn o eiddo domestig yng Nghymru ac mae Asiantaeth y Swyddfa Brisiu wedi rhoi amcangyfrifon o dan gyfres o dybiaethau a chafeatau, gan weithio o waith datblygu ailbrisiadau hanesyddol a phresennol.

8.161 Mae'r costau amcangyfrifedig i Asiantaeth y Swyddfa Brisiu sy'n gysylltiedig â chynnal ymarfer ailbrisiu yn y dyfodol, yn dibynnu i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn dewis diwygio System y Dreth Gyngor. Felly, mae'r amcangyfrifon a ddarperir yn seiliedig ar brofiad blaenorol o gynnal ymarferion ailbrisiu. Hefyd, nid yw'r amcangyfrifon yn ystyried unrhyw fanteision o ran ailddylunio modelau, arbedion effeithlonrwydd o ganlyniad i newidiadau busnes neu welliannau i brosesau, sy'n deillio o waith datblygu presennol Asiantaeth y Swyddfa Brisiu. Felly, gall costau amrywio wrth i'r rhaglen waith a'r manylion gael eu deall yn well.

8.162 O ystyried yr uchod, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisiu yn amcangyfrif mai cyfanswm y costau ailbrisiu ar gyfer cyfnod yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yw £25.7m. Dengys Tabl 8.4 pryd mae'r costau amcangyfrifedig hyn yn debygol o godi. Yn unol â'r ddarpariaeth yn y Bil, rhagdybiwyd y bydd yr ymarfer ailbrisiu dilynol ar ôl 2028 yn digwydd yn 2033, ac adlewyrchir rhai o gostau'r gwaith paratoi ar gyfer 2033.

8.163 Mae'r amcangyfrifon yn cynnwys costau cyflawni gweithredol a chostau corfforaethol cysylltiedig, yn ogystal â chostau buddsoddi. Fodd bynnag, nid yw'r amcangyfrifon hyn yn ystyried unrhyw gostau gorbenion cysylltiedig, megis unrhyw gapasiti ystadau ychwanegol neu unrhyw gyfarpar ymylol i gefnogi ein systemau TG angenrheidiol. Byddai gorbenion yn cael eu cymhwyso yn unol â'r canllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus gyda chyfeiriad penodol at sail gostau Asiantaeth y Swyddfa Brisiu. Byddai hyn yn cael ei gyfrifo ar sail flynyddol ac fel rhan o'r cytundeb lefel gwasanaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth y Swyddfa Brisiu. Mae cyllidebau'r dyfodol

yn cael eu hadolygu, ac nid yw'n bosibl rhagweld nac amcangyfrif ar hyn o bryd faint fydd y costau gorbenion cysylltiedig. Mae costau cyflawni gweithredol yn cynnwys staffio gyda gweithgareddau allweddol yn cwmpasu gwaith ymchwil a dadansoddi, gwella data ac ychwanegu at ddata yn barhaus, dilysu gwerthiannau yn barhaus, prasio, bandio ac ymdrin â chyswllt cwsmeriaid. Mae costau buddsoddi yn cynnwys adnewyddu, profi a chynnal a chadw TG.

**Tabl 8.4: Cost amcangyfrifedig ymarfer ailbriso'r dreth gyngor i Asiantaeth y Swyddfa Brisio (£000)**

<b>Costau Ailbriso</b>	<b>2024-25</b>	<b>2025-26</b>	<b>2026-27</b>	<b>2027-28</b>	<b>2028-29</b>	<b>2029-30</b>	<b>2030-31</b>	<b>2031-32</b>	<b>2032-33</b>	<b>2033-34</b>	<b>Cyfanswm</b>
Asiantaeth y Swyddfa Brisio	0	0	2,900	7,500	1,300	1,300	1,300	3,200	6,800	1,400	<b>25,700</b>

Costau Gweinyddu'r Dreth Gyngor

8.164 Awdurdodau lleol fydd yn talu'r costau hyn a fydd yn gysylltiedig â rhoi canlyniadau'r ymarfer ailbriso ar waith, mewn perthynas â chostau TG ar gyfer unrhyw ddiweddariadau newydd i feddalwedd a gwelliannau i brosesau. Mae'r costau yn seiliedig ar ddadansoddiad gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys nifer bach o holiaduron a ddychwelwyd yn ymateb i arolwg a anfonwyd i bob awdurdod lleol, a oedd yn gofyn am amcangyfrifon o'r ffordd y byddai ymarfer ailbriso yn effeithio ar y ffordd y maent yn gweinyddu'r dreth gyngor. Dychwelodd chwe awdurdod lleol arolwg wedi'i gwblhau.

8.165 Nododd pob un o'r awdurdodau lleol hynny a gwblhaodd holiadur y byddai effeithiau ymarfer ailbriso ar eu prosesau ar gyfer gweinyddu'r dreth wedi'u cyfyngu i ddiweddariadau a phroffion ychwanegol ar gyfer seilwaith TG, a fydd yn digwydd flwyddyn cyn y flwyddyn ailbriso, ac yn ystod y flwyddyn honno (yn 2027-28 a 2028-29, ac yn 2032-33 a 2033-34). Mae'r costau hyn wedi'u cynnwys yn Nhabl 8.5.

Costau mwy o Ymgysylltu â Threthdalwyr

8.166 Yn dilyn ymarfer ailbriso, mae'n debygol y bydd gweithgarwch ymgysylltu â threthdalwyr yn cynyddu i ddechrau o ran amser a nifer y cysylltiadau. Dros amser, dylai ailbrisiadau amlach greu sylfaen drethu fwy cyfredol a chywir sy'n denu llai o ymholiadau. Wrth asesu costau'r gweithgarwch ymgysylltu hwn, mae dau faes posibl lle y gellid gweld cynnydd wedi'u nodi, sef: lefelau cyfathrebu ag awdurdodau lleol ynghylch biliau treth gyngor neu gymorth i dalu'r dreth gyngor; a chysylltiadau ychwanegol ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru mewn perthynas ag apeliadau ynghylch prisiadau eiddo.

## Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol

- 8.167 Gallai cyswllt ag awdurdodau lleol fod ar ffurf ymweliadau â gwefannau, galwadau ffôn i dîm neu ganolfan gyswllt, hysbysu drwy e-bost neu'r cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â chyswllt wyneb yn wyneb yn adeilad awdurdod lleol. Fel y nodwyd yn yr adran 'Tystiolaeth, Tybiaethau ac Ansicrwydd Allweddol' ym Mhennod 6, mae'r costau amcangyfrifedig i awdurdodau lleol yn seiliedig ar waith dadansoddi Llywodraeth Cymru, a lywiwyd gan ymatebion gan nifer bach o awdurdodau lleol.
- 8.168 Mae amcangyfrif lefel y gweithgarwch ymgysylltu ychwanegol wedi bod yn heriol i awdurdodau lleol gan y gallai gynnwys ymholiadau ynghylch y dreth gyngor yn ogystal ag unigolion sydd am herio eu bil neu fand eu treth gyngor. Er mwyn darparu nifer posibl i gysylltiadau ag awdurdod lleol, ystyriwyd canran o aelwydydd ym mhob awdurdod lleol. Mae Tabl 8.6 yn amlinellu'r amrywiaeth o apeliadau posibl fel canran o eiddo. Mae ychwanegu 10%-15% arall at y ffigur hwn, er mwyn ystyried ymholiadau mwy cyffredinol ynglŷn â biliau neu ailfandio, yn rhoi rhwng 211,662 a 282,216 o ymholiadau neu gysylltiadau ychwanegol gan drethdalwyr o ganlyniad i ymarfer ailbriso yn 2028 ac a ailadroddir yn 2033.
- 8.169 Mae'r costau a amlinellir yn Nhabl 8.5 yn cynnwys costau staffio ychwanegol, gwaith rheoli gwefannau, digwyddiadau ymgysylltu, cyfathrebu a deunydd cyhoeddusrwydd. Ni nodir sut yr ymdrinnid â'r adnoddau staff, naill ai drwy recriwtio staff ychwanegol ar gontractau parhaol neu dros dro neu drwy ddefnyddio staff presennol a fyddai'n cael eu symud dros dro o feysydd gwaith eraill.

**Tabl 8.5 – Costau mwy o weithgarwch ymgysylltu â threthdalwyr (£000)**

<b>Costau a briodolir i</b>	<b>2024-25</b>	<b>2025-26</b>	<b>2026-27</b>	<b>2027-28</b>	<b>2028-29</b>	<b>2029-30</b>	<b>2030-31</b>	<b>2031-32</b>	<b>2032-33</b>	<b>2033-34</b>	<b>Cyfanswm</b>
Awdurdodau lleol	0	0	0	1,316	1,261	0	0	0	1,316	1,261	<b>5,154</b>
Asiantaeth y Swyddfa Briso (apeliadau)	0	0	0	0	10,700	9,700	0	0	0	11,600	<b>32,000</b>
Tribiwnlys Priso Cymru	0	0	0	323	281	281	281	281	323	281	<b>2,051</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>1,639</b>	<b>12,242</b>	<b>9,981</b>	<b>281</b>	<b>281</b>	<b>1,639</b>	<b>13,142</b>	<b>39,205</b>

Ymgysylltu ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thriwlynlys Prasio Cymru mewn perthynas ag ymholiadau ynghylch Prisiadau Eiddo

- 8.170 Caiff trethdalwyr gyfle i herio prisiad eu heiddo o dan amgylchiadau penodol. Mae hyn yn cyrraedd Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar ffurf cynnig a all gael ei drosglwyddo i Driwlynlys Prasio Cymru fel apêl. Dengys tystiolaeth o'r ymarfer ailbrasio blaenorol yn 2005 a'r broses o greu'r dreth gyngor yn 1993, yn dilyn ymarfer prasio, fod nifer y cynigion a'r apeliadau yn cynyddu. Ar gyfer 1993, y ffigur ar gyfer cynigion i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, fel canran o gyfanswm yr eiddo yng Nghymru ar y pryd, oedd 7.4%, ac ar gyfer 2005, cyfradd y cynigion oedd 3.9%.
- 8.171 Mae nifer yr achosion apêl yn y dyfodol wedi'u hamcangyfrif fel yr amlinellir yn Nhabl 8.6 gan ddefnyddio [ystadegau](#) cyhoeddedig Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar y stoc o eiddo'r dreth gyngor yn 2023, sef 1,470,580 o eiddo. At ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol, mae tystiolaeth o ymarferion prasio blaenorol, a thystiolaeth ychwanegol a gasglwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thriwlynlys Prasio Cymru, mae amcangyfrifon o nifer yr achosion apêl yn y dyfodol yn seiliedig ar gyfradd apelio yn amrywio o 2% i 5%, gyda chyfartaledd o 3.15%. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth na fydd y broses bresennol ar gyfer cynigion ac apeliadau yn newid.
- 8.172 Mae tystiolaeth a gafwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thriwlynlys Prasio Cymru yn awgrymu y gallai nifer yr apeliadau aros yn gymharol gyson o ymarfer ailbrasio 2033 ymlaen oherwydd y cyfnod byrrach o amser a fyddai wedi mynd heibio rhwng ailbrisiadau yn y dyfodol. Amcangyfrifwyd y costau ychwanegol a briodolir i brosesu mwy o apeliadau yn seiliedig ar gynnydd yn y gyfradd apelio o rhwng 2% a 5%.
- 8.173 Mae tystiolaeth a gasglwyd gan Driwlynlys Prasio Cymru yn awgrymu y gallai nifer yr apeliadau fod ym mhen uchaf yr ystod pe bai amodau'r farchnad eiddo a'r argyfwng costau byw yn para dros nifer o flynyddoedd i 2028. Fodd bynnag, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi awgrymu y gallai nifer yr apeliadau fod ym mhen isaf yr ystod, yn seiliedig ar ffigurau ymarfer ailbrasio blaenorol o 2005.
- 8.174 Fodd bynnag, mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cyflwyno cafeat bod llawer o ddibyniaethau a allai effeithio ar nifer yr apeliadau e.e., unrhyw newidiadau i ymddygiadau trethdalwyr, yr amodau economaidd ehangach ar y pryd ac unrhyw newidiadau posibl i'r cynnig a rheoliadau apelio. Bwriedir gwella argaeledd data a fydd yn ei gwneud yn haws i dalwyr y dreth gyngor weld eu prisiadau.
- 8.175 Er mwyn gallu ymdrin â'r nifer cynyddol o apeliadau, mae Tribiwnlys Prasio Cymru wedi amcangyfrif y bydd angen iddo gynyddu adnoddau staff. Mae'r costau yn Nhabl 8.5 yn cynnwys cynnydd amcangyfrifedig o bedwar clerwr llawn amser ac un aelod o staff gweinyddol llawn amser y byddai eu hangen er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd yn llwyth gwaith Tribiwnlys Prasio Cymru. Mae'r costau hefyd yn cynnwys yr hyfforddiant staff a'r cyfarpar TG ychwanegol y byddai eu hangen i ddarparu ar gyfer y cynnydd mewn capasiti.

**Tabl 8.6 – Nifer amcangyfrifedig yr apeliadau yn dilyn ailbrisiadau yn 2028**

Apeliadau fel canran o eiddo	2028
Cyfartaledd yr achosion apêl y flwyddyn (rhwng 12/13 a 22/23)	1,970
Cyfartaledd 3.15%	44,007
Ystod – Lleiaf 2%	27,941
Ystod – Mwyaf 5%	69,853

8.176 Byddai angen cynnal tribiwnlysoedd ychwanegol er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd yn nifer yr achosion apêl, sy'n golygu y byddai angen recriwtio mwy o aelodau gwirfoddol o dribiwnlysoedd. Mae'r costau ar gyfer cynnal tribiwnlysoedd ychwanegol yn cynnwys treuliau, hyfforddiant a chyfarpar TG aelodau ychwanegol o dribiwnlysoedd. Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost i Dribiwnlys Priso Cymru yw **£2.1m**, fel y dangosir yn Nhabl 8.5. Mae'r gost hon wedi'i rhannu dros y cyfnod 2027-28 i 2033-34.

8.177 Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi amcangyfrif y byddai'n costio **£32m** dros gyfnod yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, i ddelio â'r cynnydd yn nifer yr achosion posibl ar y cam cynnig ac apelio a'r gwaith ymgysylltu dilynol â chwsmeriaid. Mae'r costau yr eir iddynt i dalu am y llwyth gwaith cynyddol yn cynnwys meithrin gallu, hyfforddiant a seilwaith/rheolaeth TG.

#### Costau i Lywodraeth Cymru

8.178 Fel y nodir ym mhennod 7 ar 'Strwythur yr asesiad effaith rheoleiddiol, Egwyddorion a Chafeatau', yn enwedig yn y pumed pwynt bwled yn adran 7.2, ni fydd newidiadau yn y Bil sy'n arwain at weithgarwch gan Lywodraeth Cymru o ran deddfwriaeth neu waith gweinyddol ychwanegol, yn cynyddu cyfanswm nifer y staff. Yn lle hynny, caiff adnoddau eu neilltuo o blith y staff presennol drwy symud staff dros dro o feysydd gwaith eraill. Nid yw'r costau cyfle hyn wedi'u mesur am fod rheoli staff yn fewnol yn cael ei ystyried yn weithgaredd busnes fel arfer.

#### Costau i Drethdalwyr

8.179 Ni fydd cyflwyno cylchoedd ailbrisiu rheolaidd ynddo'i hun yn arwain at gostau i drethdalwyr. Byddai costau a manteision i drethdalwyr ond yn codi petai ailbrisiu'r sylfaen drethu yn golygu bod newidiadau i systemau'r dreth gyngor hefyd yn cael eu datblygu. Nid yw'r costau na'r manteision hyn wedi'u mesur gan y byddant yn anhysbys nes i ailbrisiad gael ei gynnal. Byddai unrhyw newidiadau i system y dreth gyngor ar adeg ymarfer ailbrisiu yn destun ymgynghoriad a gweithdrefnau priodol y Senedd a byddent yn cael eu hategu gan asesiad effaith manwl.

8.180 Amlinellir cyfanswm y costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn Nhabl 8.7.

**Tabl 8.7: Cyfanswm costau amcangyfrifedig Opsiwn 2 – Cyflwyno cylchoedd ailbrisiu rheolaidd statudol ar gyfer y dreth gyngor (£000)**

Costau a briodolir i	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	2033-34	Cyfanswm
Awdurdodau lleol	0	0	0	1,316	1,261	0	0	0	1,316	1,261	5,154
Asiantaeth y Swyddfa Brisiu (ailbrisiu)	0	0	2,900	7,500	1,300	1,300	1,300	3,200	6,800	1,400	25,700
Asiantaeth y Swyddfa Brisiu (apeliadau)	0	0	0	0	10,700	9,700	0	0	0	11,600	32,000
Tribiwnlys Prisiu Cymru	0	0	0	323	281	281	281	281	323	281	2,051
Llywodraeth Cymru	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Trethdalwyr	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>2,900</b>	<b>9,139</b>	<b>13,542</b>	<b>11,281</b>	<b>1,581</b>	<b>3,481</b>	<b>8,439</b>	<b>14,542</b>	<b>64,905</b>

### Manteision

8.181 Bydd yr opsiwn hwn yn sicrhau bod system y dreth gyngor yn decach ac yn fwy cywir drwy gyflwyno cylchoedd ailbrisiu rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr atebolrwydd i dalu treth yn parhau i gael ei ddsbarthu'n deg ymhlith trethdalwyr yn fwy rheolaidd. Byddai'n rhoi eglurder a sicrwydd i drethdalwyr a chynghorau, a fyddai, o ganlyniad, yn disgwyl i filiau'r dreth gyngor gael eu hadolygu'n rheolaidd. Byddai'r dull hwn o weithredu hefyd yn osgoi ystumiadau a all godi pan fydd cyfnodau hir rhwng ailbrisiadau.

8.182 Byddai hefyd yn egluro'r gofynion gweithredol ar gyfer Asiantaeth y Swyddfa Brisiu, Tribiwnlys Prisiu Cymru, awdurdodau lleol a chyrrff cynghori.

8.183 Byddai nodi ailbrisiadau rheolaidd mewn deddfwriaeth sylfaenol yn sicrhau tryloywder ychwanegol. Byddai rhoi ailbrisiadau rheolaidd at ddibenion y dreth gyngor ar waith, sy'n effeithio ar y mwyafrif helaeth o bobl yng Nghymru, hefyd yn fwy democrataidd, gan na fyddai amseriad ailbrisiadau yn y dyfodol yn cael ei bennu gan Weinidogion, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Byddai ailbrisiadau rheolaidd hefyd yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i Lywodraeth Cymru barhau i gyflawni'r ymrwymiad yn ei Rhaglen Lywodraethu i sicrhau bod system y dreth gyngor yn decach ac yn fwy graddoledig. Gall opsiynau bandio a chyfraddau treth gael eu diwygio a'u newid mewn cynyddrannau er mwyn helpu i leihau unrhyw effeithiau andwyol ar drethdalwyr ac, ar yr un pryd, gyflawni'r newid sydd ei angen.

### **Crynodeb**

8.184 Opsiwn 2 yw'r dull gweithredu a ffefrir. Llywodraeth Cymru fyddai'n talu'r costau a nodwyd, drwy ei chyllid i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, Tribiwnlys Prisio Cymru ac awdurdodau lleol. Byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio sicrhau bod ymarfer ailbrisio at ddibenion y dreth gyngor yn cael ei gynnal a bod rhestrau newydd yn cael eu llunio bob pum mlynedd yng Nghymru. Byddai hyn yn sicrhau bod yr atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor yn cael ei ddsbarthu'n deg ac yn gywir ac yn rhoi eglurder a sicrwydd i drethdalwyr, Asiantaeth y Swyddfa Brisio, Tribiwnlys Prisio Cymru, awdurdodau lleol a chyrrff cynghori.

8.185 Bydd ailbrisiadau rheolaidd yn cyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu drwy gynnal system treth gyngor decach a mwy graddoledig. Ystyrir bod cyfanswm y costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2 yn gymesur mewn perthynas â'r refeniw blynyddol gwerth £2.4 biliwn a gynhyrchir o system y dreth gyngor sy'n helpu i ariannu gwasanaethau lleol hanfodol i gymunedau yng Nghymru.



## Y Dreth Gyngor – Disgowntiau a Diystyriadau

8.186 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n rhoi pwerau estynedig i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â disgowntiau a'r categorïau o bobl sy'n cael eu diystyru. Mae'r darpariaethau yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru greu a phennu disgowntiau a diystyriadau'r dreth gyngor gan ddefnyddio pwerau is-ddeddfwriaethol. Bydd gan Weinidogion Cymru bŵer hefyd i ganiatáu i gynghorau amrywio disgowntiau yn eu hardal o dan amgylchiadau penodol.

**Pwerau i Weinidogion Cymru bennu disgowntiau ar gyfer y dreth gyngor a rhagnodi'r meini prawf i unigolion gael eu diystyru at ddibenion disgownt y dreth gyngor. Pwerau i Weinidogion Cymru ganiatáu i gynghorau ddatgymhwyso neu leihau disgowntiau yn eu hardal, o dan amgylchiadau penodol.**

**Disgrifiad:** Byddai'r Bil yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru greu a newid disgowntiau a chategorïau o ddiystyriadau gan ddefnyddio pwerau is-ddeddfwriaethol newydd.

8.187 Mae'r trefniadau presennol sy'n ymwneud â disgowntiau, diystyriadau, esemptiadau a phremiymau yn gymhleth ac wedi tyfu'n raddol ers cyflwyno'r dreth gyngor yn 1993. Maent yn cynnwys y canlynol:

- 24 o gategorïau o esemptiadau rhag atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor;
- 16 o gategorïau o bersonau a ddiystyrir, h.y. pobl nad ydynt yn cael eu cynnwys wrth gyfrifo nifer y bobl sy'n byw mewn eiddo er mwyn penderfynu ar swm y dreth gyngor sy'n daladwy;
- disgowntiau o 25% neu 50% a gymhwysir at swm y dreth gyngor sy'n daladwy, gan gynnwys dau gategori statudol (oedolion sengl sy'n agored i dalu ac eiddo gwag) a thri dosbarth o eiddo gwag lle y caniateir disgresiwn lleol;
- gostyngiad Band Anabl, lle mae'r atebolrwydd ar gyfer anheddau sydd wedi'u haddasu i'w defnyddio gan berson anabl yn cael ei ostwng i'r band sy'n union o dan y band sydd i'w weld ar y rhestr ardrethu;
- premiymau a gymhwysir at swm y dreth gyngor sy'n daladwy ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi yn ôl disgresiwn lleol; a
- phŵer disgresiwn cyffredinol i gynghorau leihau biliau.

8.188 Mae'r fframwaith presennol wedi mynd yn anodd i aelwydydd ei ddeall ac i awdurdodau lleol ei weithredu. Mae'r trefniadau deddfwriaethol sy'n sail i'r fframwaith hefyd yn gymysgedd cymhleth o bwerau deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, yn ogystal â phwerau i awdurdodau lleol wneud newidiadau lleol. Mae gallu Llywodraeth Cymru i newid rhai o'r disgowntiau a chategorïau o ddiystyriadau drwy is-ddeddfwriaeth hefyd wedi'i gyfyngu. Yn hanesyddol, mae hyn wedi cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau mewn ymateb i amgylchiadau newydd.

8.189 Rydym ran o'r ffordd drwy adolygiad o bob categori o ddisgownt treth gyngor, person a ddiystyrir, eithriad a phremiwm er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn

dal i fod yn berthnasol i uchelgeisiau polisi heddiw a helpu i greu system decach.

8.190 Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda llywodraeth leol, sefydliadau lleol a rhwydweithiau sy'n cynrychioli pobl Cymru er mwyn ystyried ac adolygu pob categori. Yn ogystal â nifer o drafodaethau amrywiol, mae hyn wedi cynnwys gweithgor â ffocws o ymarferwyr cyngor. O'r adolygiad lefel uchel cychwynnol hwn, rydym wedi nodi pedwar categori y dylid eu blaenoriaethu i'w hystyried ar unwaith.

8.191 Nodwyd 11 o gategoriâu eraill ar gyfer adolygiad manwl pellach dros weddill tymor y Senedd hon gyda'r nod o ddiwygio deddfwriaeth lle y bo angen, gan gynnwys drwy ddefnyddio'r pwerau newydd arfaethedig yn y Bil. Byddwn hefyd yn ystyried a oes angen categorïau newydd o ddisgowntiau neu ddiystyriadau.

8.192 Bydd y darpariaethau yn y Bil yn gwneud y canlynol:

- cadw'r disgownt un oedolyn a disgowntiau lle mae'n rhaid i drigolion gael eu diystyru, dileu'r disgownt eiddo gwag, gan ddileu'r cysylltiad fel na fydd yn rhaid i'r disgownt eiddo gwag fod ddwywaith canran y disgownt un oedolyn;
- rhoi pwerau i Weinidogion Cymru greu disgowntiau newydd;
- rhoi pwerau i Weinidogion Cymru bennu lefel ac amodau a rhagnodi'r meini prawf i unigolion gael eu diystyru at ddibenion cyfrifo atebolrwydd o ran y dreth gyngor; a
- rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ganiatáu i gynghorau ddatgymhwyso neu leihau disgowntiau o dan amgylchiadau penodol.

8.193 Bydd angen rheoli'r pwerau newydd arfaethedig yn ofalus o ran amseriad ac mae'r system o ddisgowntiau, diystyriadau ac esemptiadau wrthi'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Bydd y pwerau yn cynnig cyfle deddfwriaethol ychwanegol i roi unrhyw newidiadau a gynigir fel rhan o'r broses adolygu ar waith a bwriad y polisi fydd cyflwyno unrhyw ddiwygiadau fesul cam. Felly, ni fyddai'r is-ddeddfwriaeth gyntaf a gyflwynid o dan y pwerau hyn yn cael ei chyflwyno tan 2025 a byddai'n dod i rym yn 2026.

**Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer:** Cadw'r system gymhleth bresennol o ddisgowntiau a diystyriadau.

### **Costau**

8.194 Ni fyddai unrhyw gostau newydd i Lywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Efallai y bydd costau na ellir eu mesur i drethdalwyr oherwydd yr amser y gall ei gymryd i newidiadau deddfwriaethol gael eu gwneud i'r system bresennol, sy'n golygu y gallai trethdalwyr cymwys dalu biliau uwch rhwng yr adeg y bydd newid yn cael ei nodi a'r adeg y daw i rym. Efallai y bydd costau cyfle hefyd yn deillio o'r anallu i deilwra disgowntiau at anghenion penodol.

8.195 Er enghraifft, daeth is-ddeddfwriaeth i rym yn 2019 er mwyn eithrio pobl ifanc cymwys dan 24 oed sy'n gadael gofal yng Nghymru rhag atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor. Fodd bynnag, nid oedd y pwerau galluogi wedi galluogi Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth er mwyn lleihau atebolrwydd ar y cyd ac unigol pobl sy'n gadael gofal (na phobl eraill) i dalu'r dreth gyngor. Gwnaed darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i alluogi Gweinidogion i ddileu atebolrwydd ar y cyd ac unigol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal mewn rheoliadau: gwnaed y newidiadau hyn wedyn yn 2022, gan ymestyn yr amser roedd ei angen i gyflawni amcan y polisi yn llawn ac arwain at gostau posibl yn gysylltiedig â'r dreth gyngor i rai pobl gymwys sy'n gadael gofal yn y cyfamser.

### **Manteision**

8.196 Prif fantais yr opsiwn hwn yw parhad. Mae llawer o'r disgowntiau a'r diystyriadau wedi aros yr un peth neu'n debyg iawn ers 1993. Deëllir y gyfundrefn gan awdurdodau lleol sy'n gweinyddu'r trefniadau presennol.

### **Crynodeb**

8.197 Er nad oes unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn ar ei fod yn cynnig rhywfaint o barhad i ymarferwyr awdurdodau lleol a threthdalwyr, mae'n parhau â'r sefyllfa bresennol. Mae'n cadw'r anallu i ymateb yn brydlon pan nodir bod angen newid y fframwaith presennol. Mae cymhlethdod y fframwaith hefyd yn rhwysr i drethdalwyr cymwys posibl na fyddant, o bosibl, yn gwneud cais am ddisgownt na diystyriad am nad ydynt yn deall y system. Mae Opsiwn 1 hefyd yn cadw'r sail ddeddfwriaethol gymhleth, sy'n cynnwys cymysgedd o bwerau deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n anodd eu deall ac sy'n creu amwysedd mewn rhai o'r darpariaethau presennol.

**Opsiwn 2 – Y Dull Gweithredu a Ffefrir:** Rhoi mwy o hyblygrwydd deddfwriaethol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â disgowntiau a diystyriadau i'w galluogi i bennu, diwygio, creu a rhagnodi amodau ar gyfer disgowntiau a diystyriadau. Mae'r Bil yn cadw'r disgowntiau i aelwydydd sydd ag ond un oedolyn atebol yn unig, gan roi pwerau i Weinidogion Cymru bennu'r lefel, pennu disgowntiau eraill ar gyfer y dreth gyngor a phennu'r meini prawf i unigolion gael eu diystyru at ddibenion cyfrifo disgownt yn y dreth gyngor. Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ganiatáu i gynghorau ddatgymhwyso neu leihau disgownt o dan amgylchiadau penodol.

### **Costau**

8.198 Ni fyddai mabwysiadu'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw wariant cychwynnol i Lywodraeth Cymru nac unrhyw sector/sefydliad arall nes i'r pwerau gael eu defnyddio. Felly, nid yw'r costau ar gyfer yr opsiwn hwn wedi'u hystyried yn yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn. Felly, nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi'r pwerau ychwanegol hyn i Weinidogion Cymru yn hysbys ar hyn o bryd.

8.199 Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru bennu lefel y disgownt ar gyfer eiddo ag un oedolyn atebol yn unig, pennu disgowntiau eraill ar gyfer y dreth gyngor a rhagnodi'r meini prawf i unigolion gael eu diystyru at ddibenion cyfrifo disgownt yn y dreth gyngor. Nid yw'n nodi ymyriadau eraill y gallai'r opsiwn hwn gael ei ddefnyddio ar eu cyfer yn y dyfodol. Byddai unrhyw

gynigion penodol yn dilyn hynt y Bil drwy'r Senedd yn cael eu datblygu drwy is-ddeddfwriaeth. Caiff dadansoddiad manwl o effeithiau disgwylidig is-ddeddfwriaeth o'r fath, gan gynnwys costau a manteisio, ei gynnal wrth iddi gael ei datblygu pan fydd y cynigion penodol wedi'u nodi.

- 8.200 Byddai unrhyw newidiadau i ddisgowntiau a diystiriadau gan ddefnyddio'r pwerau hyn yn destun ymgynghoriad a gweithdrefnau priodol y Senedd a byddent yn cael eu hategu gan yr asesiadau effaith

### **Manteision**

- 8.201 Bydd yr opsiwn hwn yn ei gwneud yn haws i'r gyfraith gael ei haddasu i amgylchiadau sy'n newid. Byddai'r gallu i ddiwygio neu newid y fframwaith o ddisgowntiau a diystiriadau fel y bo'n briodol ac yn fwy prydlon, gan alluogi Gweinidogion i ymateb i amodau economaidd-gymdeithasol ehangach sy'n newid, yn fuddiol i drethdalwyr sy'n dod yn gymwys i gael disgowntiau a diystiriadau, gan leihau eu bil treth gyngor.

- 8.202 Un o fanteision eraill yr opsiwn yw ei fod yn symleiddio'r llyfr statud, gan symud i ffwrdd o'r gweithdrefnau cyfansawdd cymhleth sydd ar waith ar hyn o bryd, sy'n defnyddio cymysgedd o bwerau deddfwriaeth sylfaenol a phwerau is-ddeddfwriaeth.

### **Crynodeb**

- 8.203 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir gan y bydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd deddfwriaethol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â disgowntiau a diystiriadau. Mae'n cynnig cyfle i symleiddio'r trefniadau mewn perthynas â Chymru, gan roi eglurder a dileu'r amwysedd a geir mewn rhai o'r darpariaethau presennol. Bydd hefyd yn symleiddio'r deddfwriaeth berthnasol.
- 8.204 Mae'r opsiwn hwn yn niwtral o ran costau gan na fydd unrhyw newid i'r system bresennol nes i'r pwerau gael eu defnyddio drwy is-ddeddfwriaeth. Caiff unrhyw newid i fframwaith o ddisgowntiau a diystiriadau ei lywio drwy ymgynghori â rhanddeiliaid a threthdalwyr ac asesiad effaith manwl unwaith y penderfynir yn derfynol ar y manylion penodol.

## Y Dreth Gyngor – Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

8.205 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar ddarpariaeth a fydd yn gwneud y gwaith o weinyddu'r cynllun yn haws ac yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol wrth ymdrin â newidiadau yn ystod y flwyddyn.

**Disgrifiad:** Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wella Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sy'n rhoi cymorth i aelwydydd incwm isel. Ein nod yn y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) yw cyflwyno newidiadau i'r ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod y cynllun yn haws i'w weinyddu ac yn gliriach ac yn un sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i ymdrin â newidiadau yn ystod y flwyddyn.

8.206 Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol fabwysiadu ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor lleol ei hun yn seiliedig ar ofynion rhagnodedig cenedlaethol a nodir mewn rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru. Er bod nifer bach o feysydd lle y gellir arfer disgrisiwn lleol, yn ymarferol mae hyn yn arwain at gynlluniau sydd fwy neu lai yr un peth ledled Cymru.

8.207 Yn yr ymgynghoriad Cam 1, gwnaethom ymgynghori ynghylch cynnig i gyflwyno darpariaethau er mwyn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sefydlu un cynllun cenedlaethol, a weinyddir yn lleol gan gynghorau lleol. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid y cynnig hwn.

8.208 Bydd y newidiadau a roddir ar waith gan y Bil yn gwneud y canlynol:

- gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i nodi cynllun gostyngiadau cenedlaethol drwy is-ddeddfwriaeth gyda dyletswydd ar awdurdodau lleol i weinyddu'r cynllun yn lleol;
- ei gwneud yn bosibl i newidiadau gael eu gwneud yn ystod y flwyddyn, gan alluogi Gweinidogion Cymru i newid y cynllun er mwyn ymateb i unrhyw ddiwyddiadau annisgwyl sy'n deillio o newidiadau yn yr economi neu gymdeithas, megis yr argyfwng costau byw; a
- galluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau i awdurdodau lleol ar y ffordd y dylid rhoi'r cynllun ar waith.

8.209 Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi £244m i awdurdodau lleol bob blwyddyn er mwyn ariannu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Ni fydd y newidiadau a ddisgrifir yn y Bil yn effeithio ar hyn. Ochr yn ochr â'r gwaith o ddatblygu'r Bil a'i hynt drwy'r Senedd, mae Llywodraeth Cymru yn adolygu cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor sydd ar waith ar hyn o bryd er mwyn nodi ffyrdd y gellid ei wella. Disgwylir mai yn ystod 2025 y byddai rheoliadau i ddiwygio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cael eu cyflwyno gyntaf, ac nid cyn hynny.

**Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer:** Cadw'r ddeddfwriaeth fel y mae, gydag awdurdodau lleol yn llunio cynlluniau blynyddol lleol yn unol â rheoliadau a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru.

### **Costau**

8.210 Byddai'r opsiwn hwn yn cadw'r sefyllfa bresennol ac ni fyddai unrhyw gostau newydd i Lywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol.

### **Manteision**

8.211 Mae'r ddeddfwriaeth bresennol wedi'i gwneud yn bosibl i'r cynllun gael ei weinyddu'n llwyddiannus ers 2013.

8.212 Er yr ymddengys, o bosibl, y byddai cynllun cenedlaethol yn golygu na ellid gwneud penderfyniadau yn lleol, byddai'r ddyletswydd i lunio cynllun cenedlaethol yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn ymarferol.

### **Crynodeb**

8.213 Mae'r opsiwn hwn yn parhau â'r sefyllfa bresennol. Er na fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, ni fyddai'n helpu i gyflawni nod cyffredinol y polisi i gyflwyno newidiadau i'r ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau bod y cynllun yn haws i'w weinyddu ac yn gliriach ac yn un sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i ymdrin â newidiadau yn ystod y flwyddyn.

**Opsiwn 2 – Y Dull Gweithredu a Ffefrir:** Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i nodi cynllun gostyngiadau cenedlaethol drwy is-ddeddfwriaeth a gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i weinyddu'r cynllun hwnnw yn lleol. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl i newidiadau gael eu gwneud i'r cynllun yn ystod y flwyddyn, gan alluogi Llywodraeth Cymru i addasu'r cynllun er mwyn ymateb i unrhyw anghenion annisgwyl sy'n deillio o newidiadau yn ein heconomi neu ein cymdeithas, megis yr argyfwng costau byw. Byddai hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau i awdurdodau lleol ar y ffordd y dylid rhoi'r cynllun ar waith.

### **Costau**

8.214 Bydd y newid hwn yn niwtral o ran costau gan na fyddai'r darpariaethau yn y Bil yn newid y gofyniad i gyngor lunio cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor ac, felly, ni fyddai'n arwain at wariant ychwanegol i Lywodraeth Cymru na chynghorau lleol.

8.215 Nid yw'r Bil yn cynnwys y gofynion penodol sy'n ymwneud â'r cynllun. Fel y mae ar hyn o bryd, byddai'r cynllun yn cael ei ddiweddarau gan ddefnyddio pwerau presennol i wneud is-ddeddfwriaeth. Disgwylir i'r rheoliadau a fyddai'n nodi'r cynllun cenedlaethol gael eu diweddarau'n rheolaidd a byddai dadansoddiad manwl o'r effeithiau disgwyliedig yn cael ei gynnal pan fyddai'r pwerau yn cael eu defnyddio.

### **Manteision**

8.216 Mae'r dull hwn o weithredu yn haws i'w weinyddu, mae'n gliriach ac mae'n galluogi dull mwy hyblyg o ymdrin â newidiadau yn ystod y flwyddyn.

### **Crynodeb**

8.217 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir am ei fod yn cynnig ateb sy'n symleiddio'r fframwaith deddfwriaethol presennol ac yn sicrhau y gellir mabwysiadu cynllun cenedlaethol. Mae hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd bwriadedig i ymdrin â newidiadau yn ystod y flwyddyn yn ôl yr angen.

8.218 Mae'r opsiwn yn niwtral o ran costau gan na fydd cynnwys y cynllun yn newid. Byddai iddo fanteision o ran dileu rhywfaint o'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol a'i gwneud yn bosibl i'r cynllun gael ei fabwysiadu yn fwy prydlon pan fyddai angen gwneud newidiadau yn y dyfodol.

## Y Dreth Gyngor – Gweinyddu

8.219 Mae a wnelo'r ddarpariaeth hon â dileu'r gofyniad i awdurdodau lleol gyhoeddi manylion y dreth gyngor a hysbysiadau sy'n ymwneud â phremiymau'r dreth gyngor mewn papurau newydd lleol.

**Disgrifiad:** O dan y ddeddfwriaeth bresennol mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad o gyfradd y dreth gyngor mewn o leiaf un papur newydd sydd mewn cylchrediad yn ardal yr awdurdod o fewn 21 diwrnod i bennu cyfradd y dreth gyngor. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi hysbysiad hefyd os byddant yn cyflwyno neu'n amrywio premiwm treth gyngor.

8.220 Mae cylchrediad papurau newydd wedi gostwng ers i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ddod i rym. Mae ffyrdd newydd o rannu a chyhoeddi gwybodaeth yn dibynnu'n fwy ar ddefnyddio ffynonellau electronig neu blatfformau megis y cyfryngau cymdeithasol, gwefannau ac apiau. Nododd 'News Consumption Survey 2020'<sup>4</sup>, a gynhaliwyd gan Ofcom, fod y defnydd o bapurau newydd yng Nghymru wedi gostwng o 42% i 33% yn 2020, pan mai'r cyfryngau cymdeithasol oedd yr ail blatfform a ddefnyddiwyd fwyaf ar gyfer newyddion yng Nghymru.

8.221 Mae tystiolaeth o Arolwg Omnibws Beaufort 2023<sup>5</sup> yn awgrymu, wrth chwilio am wybodaeth am y dreth gyngor, fod 43% o'r cyhoedd yn mynd i wefan eu hawdurdod lleol gyntaf. Mae newid i ddarparu gwybodaeth awdurdodau lleol ar-lein hefyd yn gyson â'r broses o foderneiddio hysbysiadau electronig a'u defnyddio ymhellach, gan adeiladu ar y dull gweithredu sydd wedi'i fabwysiadu'n fwy cyffredinol mewn deddfwriaeth ddiweddar megis Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'n werth nodi bod awdurdodau fel arfer yn darparu mwy o wybodaeth am eu cyllidebau a lefelau eu treth gyngor nag sy'n ofynnol o dan y gyfraith ar hyn o bryd, er enghraifft gan gyhoeddi deunydd ar wefannau neu blatfformau digidol neu gynnwys gwybodaeth mewn biliau.

8.222 Ystyriwyd dulliau gweithredu amgen, megis ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi manylion ar-lein ac mewn papurau newydd oherwydd gallai dileu'r gofyniad i awdurdodau lleol gyhoeddi manylion y dreth gyngor mewn papurau newydd lleol yn llwyr ei gwneud yn fwy anodd i grwpiau oedran hŷn neu'r rhai heb fynediad i'r rhyngwrwd gael gafael ar wybodaeth. Fodd bynnag, nid yw'r system bresennol o gyhoeddi manylion y dreth gyngor mewn papurau newydd yn rhoi unrhyw adborth i gynghorau ac mae'n anwybyddu'r ffaith bod y gynulleidfa yn symud i ffwrdd oddi wrth bapurau newydd print i dirwedd cyfryngau digidol amrywiol.

8.223 Gan fod awdurdodau lleol eisoes yn darparu gwybodaeth drwy amrywiaeth gyfryngau fel mater o drefn, ystyriwyd y gallai'r costau sy'n gysylltiedig â hysbysebion mewn papurau newydd gael eu defnyddio orau ar gyfer amrywiaeth o ddeunyddiau cyhoeddi eraill, megis gyda biliau, yn adeiladau

---

<sup>4</sup> [News Consumption Survey 2020: Wales \(ofcom.org.uk\)](https://www.ofcom.gov.uk/news-consumption-survey-2020-wales)

<sup>5</sup> <https://www.gov.wales/public-attitudes-council-tax-2023>



awdurdodau lleol neu mewn llyfrgelloedd, a allai helpu i leihau unrhyw broblemau o ran hygyrchedd.

8.224 Ceir manylion llawn yr effeithiau ar unigolion ym mhennod 8, yr asesiad effaith integredig.

**Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer:** Cadw'r gofyniad presennol i awdurdodau lleol gyhoeddi manylion y dreth gyngor mewn o leiaf un papur newydd sydd mewn cylchrediad yn ardal yr awdurdod.

### **Costau**

8.225 Awdurdodau lleol fydd yn talu'r costau o dan y ddarpariaeth hon. Mae'r gost ar gyfer cyhoeddi newid i gyfradd y dreth yn seiliedig ar 22 o awdurdodau lleol yn cyhoeddi hysbysiadau blynyddol.

8.226 Maent yn seiliedig ar gost gyfartalog un hysbyseb yn un o'r pum prif bapur cenedlaethol yng Nghymru sydd â'r cylchrediad mwyaf ac sydd hefyd yn sicrhau bod pob rhan o Gymru yn cael ei chwmpasu. Y papurau newydd hyn yw'r Daily Mail, The Sun, Western Mail, Daily Post a South Wales Echo. Amcangyfrifwyd y bydd yr hysbysiad o faint tudalen llawn, gyda chost o **£1,500** fel hysbyseb, ar gyfartaledd. Amcangyfrifwyd mai cyfanswm y costau sy'n gysylltiedig â rhoi hysbysebion mewn papurau newydd cenedlaethol dros gyfnod yr asesiad effaith rheoleiddiol, sef 10 mlynedd, yw **£330,000**.

8.227 Er mwyn sicrhau cylchrediad lleol, rhoddir hysbysebion mewn papurau newydd rhanbarthol hefyd, megis y Cambrian News. Amcangyfrifwyd mai cost rhoi hysbyseb tudalen llawn mewn papur newydd rhanbarthol yw £250 fesul hysbyseb, ar gyfartaledd. Amcangyfrifwyd mai cyfanswm y costau sy'n gysylltiedig â rhoi hysbysebion mewn papurau newydd lleol dros gyfnod yr asesiad effaith rheoleiddiol, sef 10 mlynedd, yw £55,000.

8.228 Mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu a ddylid cyflwyno a diwygio premiymau'r dreth gyngor ac mae'r defnydd a wneir ohonynt yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Felly, mae'r costau canlynol wedi'u darparu fel enghraifft er mwyn dangos y gost bosibl i awdurdodau lleol. Amcangyfrifwyd y costau gan ddefnyddio nifer y premiymau a gyflwynwyd a'r lefelau a amrywiwyd yn 2023-24, sef naw (cyflwynodd pedwar y premiymau a gwaeth pump amrywio'r lefelau)

8.229 Gan ddefnyddio'r un costau ar gyfer hysbysebion ag a nodwyd uchod, mae naw hysbyseb mewn papurau newydd cenedlaethol yn costio £13,500 ac mae naw mewn papurau newydd lleol yn costio £2,250, sy'n rhoi cyfanswm costau rhwng **£13,500** a **£15,750** ar gyfer un flwyddyn (2022-23).

### **Manteision**

8.230 Un o fanteision cadw'r gofyniad i gyhoeddi manylion y dreth gyngor mewn papurau newydd yw parhad a chynefindra i drethdalwyr, o ran ble i gael yr wybodaeth hon. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn o weithredu yn rhoi unrhyw adborth i gynghorau ac mae'n anwybyddu'r ffaith bod y gynulleidfa yn symud i ffwrdd oddi wrth bapurau newydd print i dirwedd cyfryngau digidol amrywiol.

## **Crynodeb**

8.231 Er bod yr opsiwn hwn yn sicrhau rhywfaint o barhad a chynefindra i drethdalwyr, nid yw'n ymateb i'r lleihad yng nghylchrediad papurau newydd a'r defnydd a wneir ohonynt fel ffynhonnell gwybodaeth a'r newid i ddefnyddio platfformau digidol er mwyn cael gwybodaeth.

**Opsiwn 2 – Y Dull Gweithredu a Ffefrir:** Dileu'r gofyniad i gyhoeddi manylion sy'n ymwneud â symiau'r dreth gyngor 'mewn o leiaf un papur newydd sydd mewn cylchrediad yn ardal yr awdurdod' ac, yn ei le, cyflwyno gofyniad i gyhoeddi'r manylion 'ar wefan y cyngor'.

## **Costau**

8.232 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae awdurdodau lleol eisoes yn darparu gwybodaeth ychwanegol am y dreth gyngor ar eu gwefannau gyda'r costau yn cael eu talu o'u cyllidebau blynyddol.

## **Manteision**

8.233 Drwy newid i ddarparu gwybodaeth gan ddefnyddio platfformau digidol, amcangyfrifwyd y byddai awdurdodau lleol, dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd, yn arbed rhwng **£330,000** ar gyfer hysbysebu mewn papurau newydd cenedlaethol yn unig neu **£385,000** ar gyfer hysbysebu mewn papurau newydd lleol a chenedlaethol. Mae adborth gan awdurdodau lleol yn awgrymu mai'r amcangyfrif gorau i'w ddefnyddio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddio hwn yw **£385,000**.

8.234 Gellid sicrhau arbedion ychwanegol hefyd mewn perthynas â chyhoeddi premiymau'r dreth gyngor. O ystyried natur ddewisol y premiymau, nid oes cyfanswm cost wedi'i ddarparu ond, er enghraifft, gallai costau hysbysebu rhwng **£13,500** a **£15,250** fod wedi cael eu harbed yn 2023-24.

8.235 Un o fanteision eraill yr opsiwn yw ei fod yn moderneiddio arferion gwaith, gan sicrhau parhad yn unol â gofynion deddfwriaethol eraill sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth awdurdodau lleol.

## **Crynodeb**

8.236 Mae newid ffynonellau gwybodaeth i blatfformau, ynghyd â'r lleihad yn y defnydd o bapurau newydd print a'r arbedion cost amcangyfrifedig o **£385,000** a fyddai'n deillio o ddileu'r ddyletswydd i hysbysebu manylion y dreth gyngor mewn papurau newydd lleol a newid i wefannau awdurdodau lleol, yn golygu mai Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

## Crynodeb o'r Costau a'r Manteision – Tablau

Mae'r adran hon yn cynnwys tablau sy'n amlinellu'r costau a'r manteision y rhoddwyd gwerth ariannol iddynt a drafodwyd yn y bennod hon.

**Tabl 8.8: Cyfanswm amcangyfrifedig y costau ar gyfer y darpariaethau ynglŷn ag ardrethi annomestig (£000)**

Darpariaeth yn y Bil	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	2033-34	Cyfanswm
Cyfanswm Ailbrisió	1,500	1,500	0	0	0	1,500	1,500	0	331	0	<b>6,331</b>
Cyfanswm y Ddyletswydd i Hysbysu	2,500	2,000	6,975	2,200	3,201	3,201	1,701	3,201	3,201	1,701	<b>29,879</b>
Cyfanswm Rhyddhad Dewisol	495	495	495	495	495	495	495	495	495	495	<b>4,950</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>4,495</b>	<b>3,995</b>	<b>7,470</b>	<b>2,695</b>	<b>3,696</b>	<b>5,196</b>	<b>3,696</b>	<b>3,696</b>	<b>4,027</b>	<b>2,196</b>	<b>41,160</b>

**Tabl 8.9: Cyfanswm amcangyfrifedig y costau ar gyfer y darpariaethau ynglŷn â'r dreth gyngor (£000)**

Y Dreth Gyngor	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	2033-34	Cyfanswm
Ailbrisiadau Rheolaidd	0	0	2,900	9,139	13,542	11,281	1,581	3,481	8,439	14,542	<b>64,905</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>2,900</b>	<b>9,139</b>	<b>13,542</b>	<b>11,281</b>	<b>1,581</b>	<b>3,481</b>	<b>8,439</b>	<b>14,542</b>	<b>64,905</b>

**Tabl 8.10: Cyfanswm amcangyfrifedig y costau ar gyfer y Bil yn gyffredinol (£000)**

Cyfanswm Costau'r Bil	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	2033-34	Cyfanswm
Y Gost ar gyfer Ardrethi Annomestig	4,495	3,995	7,801	2,695	3,365	5,527	3,696	3,696	4,027	1,865	<b>41,160</b>
Y Gost ar gyfer y Dreth Gyngor	0	0	2,900	9,139	13,542	11,281	1,581	3,481	8,439	14,542	<b>64,905</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>4,495</b>	<b>3,995</b>	<b>10,701</b>	<b>11,834</b>	<b>16,907</b>	<b>16,808</b>	<b>5,277</b>	<b>7,177</b>	<b>12,466</b>	<b>16,407</b>	<b>106,065</b>

**Tablau 8.11 i 8.15: Costau amcangyfrifedig a briodolir i randdeiliaid unigol (£000)**

<b>Llywodraeth Cymru</b>	<b>2024-25</b>	<b>2025-26</b>	<b>2026-27</b>	<b>2027-28</b>	<b>2028-29</b>	<b>2029-30</b>	<b>2030-31</b>	<b>2031-32</b>	<b>2032-33</b>	<b>2033-34</b>	<b>Cyfanswm</b>
Ailbriso at ddibenion ardrethi annomestig	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	<b>0</b>
Y ddyletswydd i hysbysu	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	<b>0</b>
Rhyddhad Ardrethi Annomestig Dewisol	124	124	124	124	124	124	124	124	124	124	<b>1,240</b>
Costau yn gysylltiedig â'r Dreth Gyngor	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	<b>0</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>124</b>	<b>124</b>	<b>124</b>	<b>124</b>	<b>124</b>	<b>124</b>	<b>124</b>	<b>124</b>	<b>124</b>	<b>124</b>	<b>1,240</b>

<b>Costau Asiantaeth y Swyddfa Briso</b>	<b>2024-25</b>	<b>2025-26</b>	<b>2026-27</b>	<b>2027-28</b>	<b>2028-29</b>	<b>2029-30</b>	<b>2030-31</b>	<b>2031-32</b>	<b>2032-33</b>	<b>2033-34</b>	<b>Cyfanswm</b>
Ailbriso at ddibenion ardrethi annomestig	1,500	1,500	0	0	0	1,500	1,500	0	0	0	<b>6,000</b>
Ardrethi Annomestig - y Ddyletswydd i Hysbysu	2,500	2,000	4,000	500	1,500	1,500	0	1,500	1,500	0	<b>15,000</b>
Ymarfer Ailbriso Rheolaidd at ddibenion y Dreth Gyngor	0	0	2,900	7,500	12,000	11,000	1,300	3,200	6,800	13,000	<b>57,700</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>4,000</b>	<b>3,500</b>	<b>6,900</b>	<b>8,000</b>	<b>13,500</b>	<b>14,000</b>	<b>2,800</b>	<b>4,700</b>	<b>8,300</b>	<b>13,000</b>	<b>78,700</b>

<b>Costau Tribiwnlys Priso Cymru</b>	<b>2024-25</b>	<b>2025-26</b>	<b>2026-27</b>	<b>2027-28</b>	<b>2028-29</b>	<b>2029-30</b>	<b>2030-31</b>	<b>2031-32</b>	<b>2032-33</b>	<b>2033-34</b>	<b>Cyfanswm</b>
Ardrethi Annomestig - y Ddyletswydd i Hysbysu	0	0	0	0.6	0.6	0.6	0.6	0.6	0.6	0.6	<b>4</b>
Ymarfer Ailbriso Rheolaidd at ddibenion y Dreth Gyngor	0	0	0	323	281	281	281	281	323	281	<b>2,051</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>323.6</b>	<b>281.6</b>	<b>281.6</b>	<b>281.6</b>	<b>281.6</b>	<b>323.6</b>	<b>281.6</b>	<b>2,055</b>

<b>Costau Awdurdodau Lleol</b>	<b>2024-25</b>	<b>2025-26</b>	<b>2026-27</b>	<b>2027-28</b>	<b>2028-29</b>	<b>2029-30</b>	<b>2030-31</b>	<b>2031-32</b>	<b>2032-33</b>	<b>2033-34</b>	<b>Cyfanswm</b>
Ailbriso at ddibenion ardrethi annomestig	0	0	0	0	0	0	0	0	331	0	<b>331</b>
Rhyddhad Ardrethi Annomestig Dewisol	371	371	371	371	371	371	371	371	371	371	<b>3,710</b>
Ymarfer Ailbriso Rheolaidd at ddibenion y Dreth Gyngor	0	0	0	1,316	1,261	0	0	0	1,316	1,261	<b>5,154</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>371</b>	<b>371</b>	<b>702</b>	<b>1,687</b>	<b>1,632</b>	<b>371</b>	<b>371</b>	<b>371</b>	<b>2,018</b>	<b>1,632</b>	<b>9,195</b>

<b>Costau Cydymffurfio i Dalwyr Ardrethi</b>	<b>2024-25</b>	<b>2025-26</b>	<b>2026-27</b>	<b>2027-28</b>	<b>2028-29</b>	<b>2029-30</b>	<b>2030-31</b>	<b>2031-32</b>	<b>2032-33</b>	<b>2033-34</b>	<b>Cyfanswm</b>
Ddyletswydd i Hysbysu (heb fod yn arian parod)	0	0	2,975	1,700	1,700	1,700	1,700	1,700	1,700	1,700	<b>14,875</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>2,975</b>	<b>1,700</b>	<b>1,700</b>	<b>1,700</b>	<b>1,700</b>	<b>1,700</b>	<b>1,700</b>	<b>1,700</b>	<b>14,875</b>

**Tabl 8.16: Cyfanswm amcangyfrifedig y manteision ar gyfer y darpariaethau ynglŷn ag Ardrethi Annomestig (£000)**

<b>Cyfanswm y Manteision ar gyfer Ardrethi Annomestig</b>	<b>2024-25</b>	<b>2025-26</b>	<b>2026-27</b>	<b>2027-28</b>	<b>2028-29</b>	<b>2029-30</b>	<b>2030-31</b>	<b>2031-32</b>	<b>2032-33</b>	<b>2033-34</b>	<b>Cyfanswm</b>
Rhyddhad Eiddo Gwag	1,000	1,000	1,000	1,000	1,000	1,000	1,000	1,000	1,000	1,000	<b>10,000</b>
Rhyddhad Dewisol	495	495	495	495	495	495	495	495	495	495	<b>4,950</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,495</b>	<b>1,495</b>	<b>1,495</b>	<b>1,495</b>	<b>1,495</b>	<b>1,495</b>	<b>1,495</b>	<b>1,495</b>	<b>1,495</b>	<b>1,495</b>	<b>14,950</b>

**Tabl 8.17: Cyfanswm amcangyfrifedig y manteision ar gyfer y darpariaethau ynglŷn â'r dreth gyngor (£000)**

Cyfanswm y Manteision ar gyfer y Dreth Gyngor	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	2033-34	Cyfanswm
Cyhoeddi	39	39	39	39	39	39	39	39	39	39	<b>390</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>39</b>	<b>39</b>	<b>39</b>	<b>39</b>	<b>39</b>	<b>39</b>	<b>39</b>	<b>39</b>	<b>39</b>	<b>39</b>	<b>390</b>

**Tablau 8.18: Manteision amcangyfrifedig a briodolir i randdeiliaid unigol (£000)**

Awdurdodau Lleol	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	2033-34	Cyfanswm
Rhyddhad Ardrethi Annomestig ar gyfer Eiddo Gwag	1,000	1,000	1,000	1,000	1,000	1,000	1,000	1,000	1,000	1,000	<b>10,000</b>
Cyhoeddi	39	39	39	39	39	39	39	39	39	39	<b>390</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,039</b>	<b>1,039</b>	<b>1,039</b>	<b>1,039</b>	<b>1,039</b>	<b>1,039</b>	<b>1,039</b>	<b>1,039</b>	<b>1,039</b>	<b>1,039</b>	<b>10,390</b>

Manteision i Dalwyr Ardrethi	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	2033-34	Cyfanswm
Rhyddhad Dewisol	495	495	495	495	495	495	495	495	495	495	<b>4,950</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>495</b>	<b>495</b>	<b>495</b>	<b>495</b>	<b>495</b>	<b>495</b>	<b>495</b>	<b>495</b>	<b>495</b>	<b>495</b>	<b>4,950</b>

## 9. Asesiad Effaith Integredig

- 9.1 Mae'r Bil yn darparu fframwaith a strwythur cyfreithiol er mwyn helpu i gyflawni nodau cyffredinol ein polisi ar gyfer diwygio cyllid llywodraeth leol.
- 9.2 I grynhoi, bydd y newidiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynnig yn sicrhau bod y fframwaith ar gyfer trethi lleol:
- yn cyd-fynd yn agosach â newidiadau yn amodau'r farchnad;
  - yn fwy ymatebol i'r cyd-destyn sy'n datblygu ar gyfer aelwydydd, busnesau a thalwyr ardrethi; ac
  - wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion Cymru drwy gael ei sefydlu a'i gynnal o fewn pwerau a strwythurau datganoledig.

### **Ardrethi Annomestig**

- 9.3 Mae ardrethi annomestig yn rhan bwysig o'r ffordd rydym yn ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Caiff yr holl refereniw a gynhyrchir o [fwy na 125,000 o eiddo annomestig](#) yng Nghymru – sef [dros £1 biliwn bob blwyddyn](#) – ei ddsbarthu i lywodraeth leol er mwyn helpu i ariannu gwasanaethau lleol hanfodol a thalu am tua 10% o gyfanswm cost y gwasanaethau hynny. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys llawer sy'n hanfodol er mwyn i fusnesau a thalwyr ardrethi eraill allu gweithredu'n effeithiol ac yn gynaliadwy yng Nghymru.

### **Beth mae'r Bil yn ei wneud a sut mae hynny'n cyd-fynd â'r Rhaglen Lywodraethu?**

- 9.4 Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi uchelgeisiau ar gyfer economi wyrddach a chymdeithas decach, fwy cyfartal. Cefnogir y nodau hyn gan y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud ag ardrethi annomestig. Mae'r darpariaethau hyn, a ystyriwyd yn yr Asesiad Effaith Integredig ar gyfer ardrethi annomestig, yn cynnwys:
- cylchoedd ailbriso amlach, ynghyd â mesurau ychwanegol i ategu hyn;
  - gwella'r llif gwybodaeth rhwng Asiantaeth y Swyddfa Briso a thalwyr ardrethi, gan fanteisio ar wasanaethau digidol modern;
  - rhoi deddfwriaeth fwy hyblyg i Lywodraeth Cymru i ddiwygio rhyddhadau ac esemptiadau yn y dyfodol;
  - cynnal adolygiad o ryddhadau ac esemptiadau er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn gydnaws â'n Rhaglen Lywodraethu ac y caiff unrhyw gymorth sydd ar gael ei dargedu yn y ffordd fwyaf effeithiol;
  - rhoi mwy o gyfleoedd i Lywodraeth Cymru amrywio'r lluosydd er mwyn helpu i sicrhau bod codiadau blynyddol yn gydnaws â'n blaenoriaethau datblygu economaidd;
  - gwella'r broses o weinyddu swyddogaethau prisio a rhestrau ardrethi er mwyn symleiddio prosesau a lleihau'r baich ar y llywodraeth a thalwyr ardrethi; a

- mesurau pellach i sicrhau y gallwn barhau i fynd i'r afael ag achosion o osgoi talu ardrethi.

### **Sut mae'n cyd-fynd â'r nodau llesiant?**

- 9.5 Er mwyn helpu i gyflawni ein hymrwymiaidau i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, drwy ddiogelu cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol yn y dyfodol drwy ddiwygio'r dreth gyngor, gall Llywodraeth Cymru helpu partneriaid mewn llywodraeth leol i gyflawni ein saith nod llesiant a rennir. Drwy atgyfnerthu system gyllid llywodraeth leol yng Nghymru, bydd llywodraeth leol mewn sefyllfa gryfach a mwy cynaliadwy i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a all gefnogi'r cymunedau a wasanaethir ganddi.

### **Cydweithio a chynnwys – pwy a gafodd ei gynnwys er mwyn helpu i nodi effeithiau?**

- 9.6 Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos yn ceisio sylwadau ar ddiwygio ardrethi annomestig yng Nghymru rhwng 21 Medi 2022 a 14 Rhagfyr 2022. Adeiladodd yr ymgynghoriad hwn ar y [datganiad](#) dyddiedig 29 Mawrth 2022. Cyhoeddwyd [crynodeb o'r ymatebion](#) ar 9 Chwefror 2023. Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddatblygu cynigion diwygio ac mae'n parhau'n ymrwymedig i gyflwyno ailbrisiadau tair blynedd a'r newidiadau sydd eu hangen i'w hategu.
- 9.7 Mae'r rôl a chwaraeir gan lywodraeth leol yn agwedd hanfodol ar drethiant lleol yng Nghymru. Mae ei phrofiad a'i hymroddiad yn hanfodol i gasglu a gweinyddu trethi lleol yn effeithiol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth agos â llywodraeth leol er mwyn diwygio'r system ardrethi, gan ddefnyddio ei phrofiad a'i gwybodaeth leol helaeth.

### **Mae asesiadau effaith penodol wedi'u cynnal ar gyfer y pynciau canlynol:**

#### **Hawliau plant**

- 9.8 Mae ardrethi annomestig yn ofyniad busnes neu sefydliadol sy'n gysylltiedig â meddiannu a defnyddio llety, yn hytrach na threth uniongyrchol ar ddinasyddion unigol. Felly, mae'r cysylltiad rhwng ardrethi annomestig a phlant yn llawer llai uniongyrchol o gymharu â mathau eraill o drethiant lleol (e.e. y dreth gyngor) neu dreth ehangach (e.e. treth incwm).
- 9.9 Bydd y newidiadau arfaethedig i ardrethi annomestig yn cefnogi erthyglau 18, 19, 20, 22, 27, 29 a 31 o [Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#). Byddant yn helpu i sicrhau cadernid cyllid ar gyfer gwasanaethau megis drwy raglenni ymyriadau wedi'u targedu a arweinir gan awdurdodau lleol, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau amddiffyn plant a weithredir gan awdurdodau lleol, ysgolion a darpariaeth addysg arall a arweinir gan awdurdodau lleol, a pharciau a chyfleusterau hamdden eraill. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.



## **Cydraddoldeb**

9.10 Oherwydd natur ardrethi annomestig, mae'r effeithiau ar unigolion yn tueddu i fod yn anuniongyrchol. Gall unrhyw sgil-effeithiau gynnwys newidiadau i wasanaethau oherwydd sefyllfa ariannol sefydliad (e.e. gallai newid i'r atebolrwydd i dalu ardrethi annomestig neu, yn achos gwasanaethau cyhoeddus, gallai faint o gyllid a gafwyd, ddylanwadu ar y ffordd y mae talwyr ardrethi neu fusnesau yn darparu gwasanaethau) neu effeithiau economaidd ehangach (e.e. newidiadau i gyflogaeth oherwydd newidiadau i gostau busnes). Er mwyn lliniaru'r effeithiau ar ddefnyddwyr gwasanaeth â nodweddion gwarchoddedig, ar hyn o bryd mae rhyddhad elusennol wedi'i bennu ar 80% ar gyfer elusennau a sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau sy'n helpu i ddileu rhwystrau. Bydd y newidiadau arfaethedig hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i adolygu rhyddhad ac esemptiadau a'u targedu at feysydd sydd eu hangen ac er mwyn ymateb yn well i amgylchiadau economaidd ehangach.

## **Prawfesur gwledig**

9.11 Caiff yr holl gyllid a gynhyrchir gan ardrethi annomestig ei ddsbarthu i awdurdodau lleol er mwyn helpu i ariannu gwasanaethau lleol. Er ei bod yn bosibl y gall effeithiau anuniongyrchol newidiadau i ardrethi annomestig, o ran unrhyw newidiadau i wasanaethau, gael eu teimlo mewn ffordd wahanol mewn ardaloedd gwledig, bydd effeithiau uniongyrchol y newidiadau arfaethedig yn deg ac yn gyson waeth beth fo'r lleoliad ac yn adlewyrchu amodau economaidd sy'n newid ledled Cymru. Bydd mwy o hyblygrwydd deddfwriaethol yn galluogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i addasu'n well i newidiadau economaidd cenedlaethol a lleol, gyda mwy o hyblygrwydd i dargedu ardaloedd penodol (e.e. mathau gwahanol o gymorth).

## **Diogelu data**

9.12 Mae newidiadau sy'n effeithio ar drefniadau prosesu data yn canolbwyntio'n bennaf ar y darpariaethau yn y Bil sy'n galluogi ailbrisiadau amlach at ddibenion ardrethi annomestig. Cynhelir ailbrisiadau ar adeg benodol, gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn asesu pob eiddo yn y sylfaen drethu er mwyn pennu gwerth cyfredol y bydd yr atebolrwydd i dalu treth yn seiliedig arno. Cynigir y dylid cyflwyno dyletswydd i'w gwneud yn ofynnol i dalwyr ardrethi (talwyr ardrethi annomestig) ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w heiddo, drwy system wahanol ac mewn modd mwy amserol nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd, er mwyn helpu Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gyflawni ei swyddogaethau. Bydd yr wybodaeth a ddarperir i Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn unol â'r hyn sydd eisoes yn cael ei gasglu ond bydd angen diweddariadau mewn modd amserol pan fydd y wybodaeth honno yn newid. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig trefniadau rhannu data newydd a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddi brosesu data personol y tu allan i'r trefniadau presennol.

## **Y Gymraeg**

9.13 Caiff yr holl gyllid a gynhyrchir gan ardrethi annomestig ei ddsbarthu i awdurdodau lleol er mwyn helpu i ariannu gwasanaethau lleol. Bydd diogelu system gyllid llywodraeth leol drwy'r darpariaethau yn y Bil yn sicrhau bod gan awdurdodau lleol adnoddau i gynnig gwasanaethau cyhoeddus priodol, gan

gynnwys darparu gwasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog a gweithredu ysgolion a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yr effeithiau a'r canlyniadau anuniongyrchol hyn yn parhau i gefnogi ein huchelgeisiau i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru.

- 9.14 Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyflawni holl amcanion ein polisi drwy'r ddwy iaith yng Nghymru. Mae partneriaid cyflawni megis Asiantaeth y Swyddfa Brisio hefyd yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau a chyfathrebu â threthdalwyr a phartion â diddordeb yn ddwyieithog, fel y nodir yn ei [chynllun Cymraeg](#).

### **Bioamrywiaeth**

- 9.15 Mae ardrethi annomestig yn dreth leol ar berchennog neu feddiannydd (talwr ardrethi) eiddo annomestig, sef busnes neu dalwr ardrethi arall fel arfer. Mae'n seiliedig ar werthoedd eiddo ac fe'i cymhwysir mewn ffordd gyson ar draws eiddo. Felly, nid yw bioamrywiaeth yn rhan annatod o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae parciau, mannau agored, y rhan fwyaf o dir heb ei ddatblygu a'r rhan fwyaf o gyrsiau dŵr wedi'u heithrio rhag atebolrwydd i dalu ardrethi annomestig.

### **Dyletswydd economaidd-gymdeithasol**

- 9.16 Ni ddisgwylir i'r cynigion ar gyfer diwygio ardrethi annomestig waethygu, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol na gwella canlyniadau pobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol mewn ffordd uniongyrchol. Fodd bynnag, gan fod ardrethi annomestig yn cyfrannu refeniw gwerth mwy nag £1 biliwn y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gallai camau gweithredu i sicrhau bod y system yn decach ac yn fwy effeithlon gefnogi sefydlogrwydd economïau a gwasanaethau cyhoeddus lleol. Gallai hyn gael effaith anuniongyrchol drwy wella canlyniadau pobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, pobl a all fod yn cael eu cyflogi gan fusnesau neu dalwyr ardrethi eraill o fewn y sylfaen drethu a phobl sy'n cael budd o'r gwasanaethau cyhoeddus y mae'n helpu i'w cefnogi.

### **Cyfiawnder**

- 9.17 Gallai'r diwygiadau arfaethedig i ardrethi annomestig, gan gynnwys cylchoedd ailbriso byrrach, effeithio ar nifer yr apeliadau a wrandewir gan Dribiwnlys Prisio Cymru, yr Uwch Dribiwnlys, y Llys Ynadon a Llys y Goron. Gallai ailbrisiadau amlach yng Nghymru leihau nifer yr apeliadau sy'n ymwneud ag ardrethi annomestig dros amser. Gan y bydd hereditamentau annomestig (unedau eiddo ag asesiad ardrethu) yn cael eu prisio'n amlach yn unol ag amodau presennol y farchnad a'r economi, efallai y bydd llai o apeliadau yn erbyn gwerthoedd ardrethol.
- 9.18 Gallai cynigion penodol sy'n cyflwyno dyletswydd ar dalwyr ardrethi i hysbysu Asiantaeth y Swyddfa Brisio am newidiadau penodol gynyddu effaith y system ardrethi annomestig ar y system gyfiawnder. Byddai rhoi cosb sifil a chosbau troseddol newydd ar waith, fel rhan o gyfundrefn gydymffurfio ar gyfer y ddyletswydd i hysbysu, yn effeithio ar y ffordd y mae'r system gyfiawnder yn gweithio. Fodd bynnag, disgwylir i'r effaith ar y system gyfiawnder fod yn fach,

am fod y newidiadau polisi yn ymwneud â diffyg cydymffurfio ac na ddisgwylir iddynt gael eu defnyddio'n aml. Byddai cosbau yn gymwys o dan amgylchiadau cyfyngedig a byddent yn cael eu gorfodi ar sail ddewisol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisió, gydag apeliadau yn erbyn cosbau yn cael eu gwrando gan Dribiwnlys Prisió Cymru (a'r Uwch Dribiwnlys, ar ôl i'r diwygiadau canlyniadol angenrheidiol gael eu gwneud). Ystyrir ei bod yn annhebygol iawn y byddai unigolion yn cael eu herlyn o ganlyniad i'r dyletswyddau newydd.

- 9.19 Mae gan y darpariaethau ar gyfer gwrthweithio osgoi ardrethi annomestig y gallu i effeithio ar y ffordd y mae'r system gyfiawnder yn gweithio yn y dyfodol, er na fydd unrhyw effeithiau uniongyrchol. Byddai'r effaith yn cael ei hasesu pan fyddai rheoliadau sy'n nodi'r math o ymddygiad sy'n gyfystyr â threfniant osgoi artiffisial yn cael eu gwneud.

### **Y Dreth gyngor**

- 9.20 Mae'r dreth gyngor yn darparu tua £2.6 biliwn y flwyddyn tuag at y £10 biliwn y mae'n ei gostio i ddarparu gwasanaethau lleol hanfodol ledled Cymru. Mae cannoedd o wasanaethau lleol a ariennir yn rhannol drwy'r dreth gyngor, nid dim ond gwasanaethau cynghorau, ond gwasanaethau'r heddlu a gwasanaethau tân hefyd.

### **Beth mae'r Bil yn ei wneud a sut mae hynny'n cyd-fynd â'r Rhaglen Lywodraethu?**

- 9.21 Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i greu treth gyngor decach a mwy graddoledig yn ei Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 ac yn y Cytundeb Cydweithio: 2021 blaenorol. Mae'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer y dreth gyngor yn canolbwyntio ar rannau o'r rhaglen ddiwygio sy'n ffurfio darpariaethau sy'n ymwneud â'r dreth gyngor yn y Bil. Mae'r darpariaethau hyn yn cynnwys:

- cyflwyno cylchoedd ailbrisió rheolaidd statudol ar gyfer y sylfaen drethu (o leiaf bob pum mlynedd);
- adolygu'r rhestr bresennol o ddisgowntiau a diystiriadau yn ogystal â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio, creu, dileu a newid disgowntiau a diystiriadau;
- adolygu cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor presennol a rhoi hyblygrwydd i newid y cynllun yn ystod y flwyddyn;
- dileu'r gofyniad i awdurdodau lleol gyhoeddi manylion sy'n ymwneud am y dreth gyngor mewn papurau newydd lleol; a
- rhoi pŵer i Weinidogion Cymru newid cyfeiriadau at Fand D os bydd angen newid strwythur bandiau'r dreth gyngor.

- 9.22 Diben y darpariaethau ar gyfer y dreth gyngor yn y Bil yw helpu i sicrhau y caiff y baich treth ei ddsbarthu'n decach ac, ar yr un pryd, fod gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i gael eu darparu wedi'u hariannu gan refeniw o'r dreth gyngor.

## Sut mae'n cyd-fynd â'r nodau llesiant?

9.23 Mae gwneud y dreth gyngor yn decach yn un o'r camau y gall Llywodraeth Cymru ei gymryd tuag at sicrhau bod Cymru yn wlad fwy cyfartal. Dengys gwaith dadansoddi a wnaed gan y [Sefydliad Astudiaethau Cyllid](#) y ffordd y gall diwygio'r dreth gyngor gael effeithiau cadarnhaol ar gymunedau a lleihau anghydraddoldebau o ran cyfoeth. Er mwyn helpu i gyflawni ein hymrwymadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, drwy ddiogelu cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol yn y dyfodol drwy ddiwygio'r dreth gyngor, gallwn helpu ein partneriaid mewn llywodraeth leol i gyflawni ein saith nod llesiant a rennir. Drwy atgyfnerthu system gyllid llywodraeth leol yng Nghymru, bydd llywodraeth leol mewn sefyllfa gryfach a mwy cynaliadwy i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a datblygu eu gwasanaethau er mwyn cefnogi'r cymunedau a wasanaethir ganddi.

## Cydweithio a chynnwys – pwy a gafodd ei gynnwys er mwyn helpu i nodi effeithiau?

9.24 Wrth greu treth gyngor decach a mwy graddoledig, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis cynnal gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu fesul cam dros gyfnod o amser, er mwyn sicrhau y caiff newidiadau i system y dreth gyngor eu gwneud mewn cydweithrediad â sefydliadau cynrychioliadol.

9.25 Roedd [ymgyngoriad Cam 1](#), a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2022, yn ceisio barn y cyhoedd a rhanddeiliaid ar yr uchelgeisiau ar gyfer creu system decach a mwy graddoledig, gan gynnwys y darpariaethau yn y Bil. Cafwyd 1,024 o ymatebion. Cyhoeddwyd [crynodeb o'r ymatebion](#) i'r ymgynghoriad hwn ym mis Rhagfyr 2022.

9.26 Yn dilyn ymgynghoriad Cam 1, lanswyd [ymgyngoriad Cam 2](#) ym mis Tachwedd 2023 i ofyn am farn ar raddfa a chyflymder diwygio'r dreth gyngor. Cafwyd 1,676 o ymatebion. Cyhoeddwyd [datganiad](#) gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ar 15 Mai 2024 yn amlinellu'r ffordd ymlaen, gan dynnu sylw at welliant i'r Bil i ddechrau prosesau ailbriso bob pum mlynedd o 2028 ymlaen. Cyhoeddwyd [crynodeb o'r ymatebion](#) ar y dyddiad hwn hefyd.

9.27 Rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r ddau ymgynghoriad yn y Senedd, ar sianeli cyfryngau cymdeithasol, mewn erthyglau yn y wasg, eitemau ar y teledu a'r radio yn genedlaethol ac ar lefel y DU a thrwy nifer o sefydliadau rhanddeiliaid.

9.28 Mae'r cynigion hefyd yn cael eu llywio gan weithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu parhaus â sefydliadau partner a sefydliadau rhanddeiliaid. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ac ymgysylltu'n barhaus ag amrywiaeth o grwpiau ffurfiol gyda llywodraeth leol ac is-grwpiau ynghylch pynciau penodol. Mae ein gweithgarwch ymgysylltu yn cwmpasu aelodau etholedig sy'n cynrychioli cymunedau, yn ogystal â swyddogion ac ymarferwyr arbenigaethau penodol.

## **Mae asesiadau effaith penodol wedi'u cynnal ar gyfer y pynciau canlynol:**

### **Hawliau plant**

9.29 Mae'r gwasanaethau cyhoeddus a ariennir gan refeniw o'r dreth gyngor yn helpu plant i ddatblygu ac yn gwella ansawdd eu bywyd, gan gynnal neu wella darpariaeth addysg a gofal, ochr yn ochr â channoedd o wasanaethau cyngor eraill y mae teuluoedd yn cael budd ohonynt, gan gynnwys gwasanaethau hamdden a thai. Nod y darpariaethau yn y Bil yw cynnal ffrwd gyllido bwysig ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy system dreth gyngor raddoledig gyfredol. Mae gwasanaethau o'r fath yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall plant a phobl ifanc barhau i fyw mewn amgylchedd diogel sy'n eu meithrin a helpu plant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gan awdurdodau. Caiff erthyglau canlynol [Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#) eu cefnogi, neu eu datblygu ymhellach, gan y sicrwydd a rydd incwm llywodraeth leol, sef: 18, 19, 20, 23, 26, 27, 29 a 31.

### **Cydraddoldeb**

9.30 Diben y darpariaethau yn y Bil yw helpu i sicrhau y caiff y baich dreth ei dosbarthu'n decach ac, ar yr un pryd, fod gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i gael eu darparu wedi'u hariannu gan refeniw o'r dreth gyngor. Bydd y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, creu, dileu a newid disgowntiau a diystiriadau a gwneud newidiadau yn ystod y flwyddyn i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor er mwyn ymateb i amodau ehangach, gan dargedu mesurau lliniaru lle mae eu hangen fwyaf. Gallai canlyniad o'r fath wella profiadau pob dinesydd, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig.

### **Prawfesur gwledig**

9.31 Nod diwygio'r dreth gyngor yw lleihau'r atebolrwydd i dalu treth a osodir ar aelwydydd sydd â lefelau is o gyfoeth neu sydd dan anfantais economaidd. Caiff y diwygiadau eu rhoi ar waith yn gyson ledled Cymru ond gallent gael effaith wahanol mewn cymunedau gwledig o gymharu ag ardaloedd eraill. Mewn ardaloedd gwledig, gall argaeledd tai fforddiadwy a'r potensial i gymunedau Cymraeg gael eu gwasgaru, fod yn broblemau mwy difrifol nag mewn ardaloedd eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r effaith y gallai ailbrisiadau rheolaidd ei chael ar aelwydydd â statws economaidd-gymdeithasol isel os bydd eu biliau treth gyngor yn cynyddu o ganlyniad i hynny. Mae'r adolygiadau o'n Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'r amrywiaeth o ddisgowntiau, diystiriadau, esemptiadau a phremiymau, yn sicrhau y gall aelwydydd sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol gael cymorth ariannol priodol.

### **Diogelu data**

9.32 Nid yw'r darpariaethau yn y Bil hwn yn ceisio newid y trefniadau rhannu data a'r trefniadau llywodraethu presennol rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ac unrhyw sefydliadau eraill sydd eu hangen i gynnal a chadw'r system.

## **Y Gymraeg**

- 9.33 Bydd diogelu system gyllid llywodraeth leol, drwy'r darpariaethau yn y Bil, yn sicrhau bod gan awdurdodau lleol yr adnoddau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus priodol, gan gynnwys darparu gwasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog a gweithredu ysgolion a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yr effeithiau a'r canlyniadau anuniongyrchol hyn yn parhau i gefnogi ein huchelgeisiau i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru.
- 9.34 Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyflawni effeithiau'r Bil drwy'r ddwy iaith. Mae ein partneriaid yn Asiantaeth y Swyddfa Brisió, sy'n allweddol i gynnal yr ailbrisiadau rheolaidd at ddibenion y dreth gyngor, hefyd yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau a chyfathrebu â threthdalwyr a phartïon â diddordeb yn ddwyieithog, fel y nodir yn ei chynllun Cymraeg.

## **Bioamrywiaeth**

- 9.35 Mae'r dreth gyngor yn dreth leol ar berchennog neu feddiannydd eiddo domestig (eiddo a ddefnyddir fel llety byw). Mae'n seiliedig ar werthoedd eiddo ac fe'i cymhwysir mewn ffordd gyson ar draws eiddo. Felly, nid yw bioamrywiaeth yn agwedd annatod ar y broses gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r darpariaethau yn y Bil. Fodd bynnag, bydd y diwygiadau yn helpu i gynnal system sefydlog o ran cyllid llywodraeth leol ac efallai y bydd awdurdodau lleol yn dewis defnyddio rhai o'u hadnoddau i gefnogi bioamrywiaeth.

## **Dyletswydd economaidd-gymdeithasol**

- 9.36 Nod y Bil yw diogelu cadernid system gyllid llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn parhau i fod yn gynaliadwy, yn effeithiol ac yn gadarn ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Gallai canlyniad o'r fath wella profiadau defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig.
- 9.37 Bydd system ag ailbrisiadau rheolaidd a gynhelir bob pum mlynedd, sydd â'r hyblygrwydd i ddiwygio, aildrefnu neu ganslo ymarfer ailbrisió eiddo, yn helpu i liniaru effaith newidiadau sylweddol mewn biliau treth gyngor yn y dyfodol.
- 9.38 Fodd bynnag, er bod gwerth eiddo yn dal i fod yn ddangosydd da o gyfoeth cymharol a'r gallu i dalu'r dreth gyngor, nid yw'n berffaith. Mae'r adolygiadau o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'r amrywiaeth o ddisgowntiau, diystyriadau, esemptiadau a phremiymau, yn sicrhau y gall aelwydydd sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol gael cymorth ariannol priodol.

## **Cyfiawnder**

- 9.39 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer mabwysiadu cylch ailbrisió pum mlynedd ar gyfer anheddau domestig yng Nghymru; gallai hyn effeithio ar nifer yr apeliadau a wrandewir gan Dribiwnlys Prisio Cymru. Rhagwelir y bydd yn bosibl rheoli'r effaith ar y system gyfiawnder am fod y Bil yn ymwneud â gweithdrefnau barnwrol presennol a hirsefydlog. Nid yw Llywodraeth Cymru yn creu troseddau newydd nac yn gwneud newidiadau mawr i'r system apelio.

- 9.40 Gallai rhoi cylch ailbriso pum mlynedd at ddibenion y dreth gyngor ar waith yng Nghymru sefydlogi nifer yr apeliadau sy'n ymwneud â bandiau'r dreth gyngor (ac apeliadau eraill) dros amser. Gan y bydd anheddau domestig yn cael eu hailbriso a'u ailfandio yn unol â'r farchnad ar y pryd, efallai y bydd llai o eiddo yn symud rhwng bandiau ac, felly, byddai'n llai tebygol y byddai talwyr y dreth gyngor yn apelio.
- 9.41 Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd cynnydd yn nifer yr apeliadau sy'n ymwneud â'r dreth gyngor a wrandewir gan Dribiwnlys Prisio Cymru yn ystod y 12 mis yn dilyn ymarfer ailbriso. Mae Tribiwnlys Prisio Cymru wedi nodi y byddai angen staff ychwanegol (a darpariaeth TGCh/hyfforddiant ychwanegol) er mwyn rheoli'r cynnydd cyfatebol yn nifer y tribiwnlysoedd y byddai eu hangen er mwyn ateb y galw. Byddai hefyd angen recriwtio aelodau ychwanegol o dribiwnlysoedd er mwyn sicrhau bod gan bob tribiwnlys gronfa gynaliadwy a chyson o wirfoddolwyr i asesu achosion apêl. Mae'r goblygiadau cost posibl a amlinellwyd gan Dribiwnlys Prisio Cymru mewn perthynas â chynnydd yn nifer yr apeliadau wedi'u hasesu fel rhan o'r asesiad effaith rheoleiddiol.
- 9.42 Mae newidiadau mewn perthynas â Chynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn ailddatgan darpariaethau presennol sy'n wneud ag Adolygiad Barnwrol mewn perthynas â Chymru.

## 10. Asesu'r Gystadleuaeth

- 10.1 Mae'r system trethiant lleol presennol yn gweithredu ar sail hereditamentau (unedau eiddo ag asesiad prisio) sy'n cael eu diffinio'n rhai domestig neu annomestig. Mae hereditamentau domestig yn destun treth gyngor ac, felly, nid ydynt wedi'u hystyried fel rhan o'r asesiad hwn o'r gystadleuaeth.
- 10.2 Codir ardrethi annomestig, y cyfeirir atynt yn aml fel ardrethi busnes, ar berchenogion neu feddianwyr hereditamentau annomestig (uned o eiddo ag asesiad ardrethu sydd, yn gyffredinol, yn adlewyrchu'r gwerth rhentu blynyddol. Mae dros 125,000 o hereditamentau yng Nghymru sy'n agored i dalu ardrethi annomestig.
- 10.3 Mae'r rhestr ardrethu yn cynnwys hereditamentau megis seilwaith trafndiaeth a chyfleustodau mawr (e.e. meysydd awyr, rhwydweithiau telathrebu, seilwaith ar gyfer cyflenwi nwy, trydan a dŵr). Nid yw pob talwr ardrethi yn fusnes. Ceir mathau eraill o dalwyr ardrethi a sefydliadau sydd hefyd yn atebol i dalu ardrethi annomestig, ond mae pob sector busnes yn destun ardrethi annomestig os oes ganddo eiddo masnachol. O ystyried yr amrywiaeth o sectorau busnes a mathau o dalwyr ardrethi sy'n atebol i dalu ardrethi annomestig, mae'r system wedi'i chynllunio i gael ei defnyddio'n gyson ar gyfer pob hereditament. Mae'r dadansoddiad ar gyfer prawf hidlo'r gystadleuaeth yn adlewyrchu'r defnydd hwn.
- 10.4 Ni ddisgwylir i'r Bil ei hun newid y gofynion sylfaenol ar fusnesau.

### Prawf Hidlo'r Gystadleuaeth

Cwestiwn	Atebwch: $\surd$ neu X
<b>C1:</b> Yn y farchnad (marchnadoedd) yr effeithir arni (arnynt) gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad?	X
<b>C2:</b> Yn y farchnad (marchnadoedd) yr effeithir arni (arnynt) gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 20% o gyfran y farchnad?	X
<b>C3:</b> Yn y farchnad (marchnadoedd) yr effeithir arni (arnynt) gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad?	X
<b>C4:</b> A fyddai costau'r rheoliad yn cael effaith lawer mwy sylweddol ar rai cwmnïau nag ar eraill?	X
<b>C5:</b> A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau?	X
<b>C6:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	X



<b>Cwestiwn</b>	<b>Atebwch: ✓ neu X</b>
<b>C7:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	X
<b>C8:</b> A yw'r sector yn cael ei nodweddu gan newid technolegol cyflym?	X
<b>C9:</b> A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd neu leoliad eu cynhyrchion neu'r amrywiaeth o gynhyrchion a gynigir ganddynt?	X

### **Casgliad ar sail canlyniadau prawf hidlo'r gystadleuaeth**

- 10.5 Mae asesiad o'r gystadleuaeth wedi'i gynnal a daeth i'r casgliad na chaiff y Bil unrhyw effeithiau uniongyrchol ar gynhyrchion na gwasanaethau a fyddai'n effeithio ar gystadleuaeth o fewn y farchnad.
- 10.6 Caiff y darpariaethau ar gyfer ardrethi annomestig eu cymhwyso'n gyffredinol at amrywiaeth eang o wasanaethau mewn ffordd gyson. Caiff manteision y darpariaethau eu teimlo hefyd gan bob sector busnes. Bwriedir i'r Bil gefnogi diwygiadau ehangach i gyllid llywodraeth leol drwy ei nod o sicrhau bod y system yn decach, yn fwy effeithlon ac yn fwy ymatebol i amodau economaidd-gymdeithasol sy'n newid.
- 10.7 Rhoddir ystyriaeth ddyledus i asesiadau o'r gystadleuaeth ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth ddilynol wrth iddi gael ei nodi ac os bydd angen. Os daw gwybodaeth newydd i'r amlwg, dylid gwirio ac ailgadarnhau canlyniadau'r prawf hwn drwy ailgynnal y prawf hidlo.

## 11. Adolygu ar ôl gweithredu

- 11.1 Mae'r Bil yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol a fydd yn helpu i gyflwyno pecyn mawr o ddiwygiadau i gyllid llywodraeth leol, yn benodol ardrethi annomestig a'r dreth gyngor.
- 11.2 Mae'r rhaglen o ddiwygiadau, y mae'r Bil hwn yn rhan ohoni, yn seiliedig ar ymchwil helaeth a gynhaliwyd dros Dymor y Bumed Senedd ac mae'n defnyddio canlyniadau sawl ymgynghoriad. Defnyddiwyd mewnbwn arbenigol gan sefydliadau o fri i ystyried effeithiau gwahanol opsiynau'r polisi yn llawn. Caiff trefniadau manwl ar gyfer rhoi'r polisi ar waith eu datblygu gydag ymarferwyr a gweithgorau er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben, gan ddefnyddio profiad ymarferol a gwybodaeth leol.
- 11.3 Mae'r Bil yn atgyfnerthu'r pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru, drwy roi amrywiaeth o bwerau iddynt, gan gynnwys mesurau i sicrhau y caiff atebolrwydd ei ddsbarthu'n barhaus ac yn deg ac y gellir ymateb yn well i amodau economaidd ehangach sy'n newid.
- 11.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n helaeth â nifer o randdeiliaid a fu'n rhan o'r dystiolaeth sydd wedi llywio'r Bil. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid ac awdurdodau lleol er mwyn monitro a gwerthuso effaith y diwygiadau i gyllid llywodraeth leol.
- 11.5 Ar gyfer pob un o'r darpariaethau yn y Bil, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y cynhelir asesiadau parhaus o'r ffordd y mae'r ddeddfwriaeth wedi cael ei rhoi ar waith ac wedi dylanwadu ar fwriad y polisi. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o weithrediad ac effaith y Bil cyn diwedd Tymor y Seithfed Senedd. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y pwerau perthnasol i wneud is-ddeddfwriaeth.

### Data gweinyddol

- 11.6 Lle y bo'n bosibl, caiff gweithgarwch i fonitro'r ffordd y mae'r Bil yn cael ei roi ar waith ei alinio â gwaith perthnasol arall. Defnyddir data gweinyddol helaeth a perthnasol a gesglir fel mater o drefn gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid eu defnyddio i fonitro a gwerthuso'r ddeddfwriaeth.
- 11.7 O ran y pynciau yr ymdrinnir â nhw yn y Bil, mae rhai enghreifftiau o ffynonellau data presennol yn cynnwys data eiddo Asiantaeth y Swyddfa Briso, cofnodion awdurdodau lleol, data gweinyddol a data perfformiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, arolygon o agweddau'r cyhoedd a chasgliadau ystadegol). Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adeiladu ar yr asedau data hyn a dadansoddi effaith newidiadau wrth iddynt ddod i'r amlwg.

## 12. Aseiad Fforddiadwyedd

### Dull gweithredu

- 12.1 Er bod yr aseiad effaith rheoleiddiol yn asesu gwerth cymdeithasol ac yn cynnwys effeithiau diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr â chostau a manteision economaidd, aseiad ariannol yn unig yw'r aseiad fforddiadwyedd hwn. O'r herwydd, dim ond costau arian parod a manteision sy'n rhyddhau arian sy'n cael eu cynnwys. Mae unrhyw gostau a manteision amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach a nodwyd yn aseiad effaith rheoleiddiol y Bil wedi'u dileu o'r aseiad fforddiadwyedd hwn.
- 12.2 Mae'r aseiad fforddiadwyedd yn ystyried yr un cyfnod â'r aseiad effaith rheoleiddiol, sef 2024-25 i 2033-34.
- 12.3 Nododd yr aseiad effaith rheoleiddiol nifer o gostau cyfle sy'n gysylltiedig â'r amser a dreulir gan aelodau presennol o staff ar weithgareddau sy'n ymwneud â gweithredu'r Bil. Gan nad yw'r costau cyfle hyn yn golygu gwariant ariannol ychwanegol i'r sefydliadau o dan sylw, nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr aseiad fforddiadwyedd hwn.
- 12.4 Mae'r costau arian parod a'r manteision sy'n rhyddhau arian parod yn yr aseiad hwn wedi cael eu haddasu i adlewyrchu chwyddiant disgwylidig yn ystod y cyfnod gwerthuso. Mae'r addasiad hwn wedi cael ei wneud ar sail amcanestyniadau'r datchwyddydd GDP sydd wedi'u cynnwys yn Rhagolygon Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR)<sup>6</sup> a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023. Nid oedd amcanestyniadau'r OBR yn ymestyn ond i 2027-28 ac felly mae cyfartaledd amcanestyniadau'r OBR wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer gweddill y cyfnod gwerthuso. Er bod chwyddiant yn gostwng ar hyn o bryd, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch ei lwybr yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith chwyddiant ar gostau ariannol y Bil.
- 12.5 Oni nodir yn wahanol, mae'r holl gostau wedi cael eu talgrynnu i'r £1,000 agosaf. Efallai na fydd rhai o'r cyfansymiau mewn tablau yn cyfateb oherwydd y talgrynnu hwn.
- 12.6 Er bod costau wedi'u dyrannu i sefydliadau unigol a phartneriaid cyflenwi, dylid nodi y bydd Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ariannu unrhyw ofynion cyllidebol ychwanegol, yn enwedig o ran Asiantaeth y Swyddfa Brisió a Thribiwnlys Prisio Cymru.
- 12.7 Dylid ystyried y costau yng nghyd-destun graddfa'r trethi lleol sy'n cynhyrchu dros £3 biliwn y flwyddyn tuag at ariannu gwasanaethau cyhoeddus lleol yng Nghymru.

---

<sup>6</sup> [Rhagolwg economaidd a chyllidol - Mawrth 2023 \(obr.uk\)](https://obr.uk)

12.8 Mae manteision ariannol y Bil hefyd wedi'u hasesu ac mae'r gost net, ar ôl i fanteision gael eu cymryd i ystyriaeth, yn cael ei chynnwys i roi darlun llawn o ofynion terfynol y gyllideb.

## Cyrff

### Gwasanaethau Asiantaeth y Swyddfa Brisio

12.9 Amcangyfrifon o gostau Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o oblygiadau ariannol sy'n codi o ganlyniad i'r Bil. Rhoddir crynodeb yn y tabl canlynol.

**Tabl 12.1 – Costau Amcangyfrifedig Asiantaeth y Swyddfa Brisio (£000)**

Costau Asiantaeth y Swyddfa Brisio	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	2033-34	Cyfanswm
Cyfanswm Costau	4,000	3,500	6,900	8,000	13,500	14,000	2,800	4,700	8,300	13,000	<b>78,700</b>
<b>Cyfanswm wedi'i Addasu ar gyfer Chwyddiant</b>	<b>4,064</b>	<b>3,592</b>	<b>7,165</b>	<b>8,449</b>	<b>14,485</b>	<b>15,263</b>	<b>3,101</b>	<b>5,289</b>	<b>9,490</b>	<b>15,102</b>	<b>86,001</b>

12.10 Mae'r costau a nodwyd yn yr asesiad effaith rheoleiddiol yn cael eu gyrru'n bennaf gan y gofynion i gyflwyno cylchoedd prisio rheolaidd ar gyfer y dreth gyngor ac i gefnogi ailbrisiadau ardrethi annomestig amlach. Bydd y Bil yn creu dyletswydd i sicrhau ailbrisiadau rheolaidd yn y dreth gyngor o 2028 ymlaen ac ailbrisiadau ardrethi annomestig amlach, bob tair blynedd o 2026 ymlaen. Bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio hefyd yn darparu'r prosesau TGCh i oruchwylio a rheoli'r ddyletswydd a roddir ar dalwyr ardrethi i hysbysu Asiantaeth y Swyddfa Brisio am newidiadau perthnasol i eiddo ardrethol.

12.11 Rheolir trafodaethau cyllido rhwng Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Llywodraeth Cymru drwy gyfarfodydd chwarterol o dan y cytundeb lefel gwasanaeth. Wrth i raglen Llywodraeth Cymru o ddiwygio trethi lleol fynd yn ei blaen, mae gofynion Asiantaeth y Swyddfa Brisio mewn perthynas â phrisio wedi dod yn gliriach.

12.12 Er mwyn sicrhau bod cyllid digonol i fodloni'r gofynion prisio ac i ganiatáu i Asiantaeth y Swyddfa Brisio gynllunio a rheoli ei gweithgareddau, cytunwyd ar gyllideb sylfaenol flynyddol ar gyfer rhaglen o weithgareddau allweddol i reoli'r sylfaen drethu allweddol a'r gweinyddu cysylltiedig y bydd yr Asiantaeth yn ei wneud, gan gynnwys y costau a briodolir i'r Bil.

12.13 Mae rhagolygon Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cynnwys lefel o ansicrwydd, gydag amrywiadau yn cael eu gyrru gan gylchoedd ailbrisio, gwaith diwygio ehangach a datblygiadau busnes yn y dyfodol. Er hynny, er y gall costau prisio amrywio o flwyddyn i flwyddyn, mae sefydlu lefel sylfaenol o gyllid yn

darparu sylfaen realistig a sefydlog at ddibenion cynllunio ac at ddibenion trafod y cytundeb lefel gwasanaeth yn y tymor byr i ganolig.

- 12.14 Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi ymrwymo i weithio'n agos â Llywodraeth Cymru i reoli costau bob blwyddyn, gyda chyfarfodydd cynllunio ariannol blynyddol yn cael eu cynnal ymhell cyn prosesau i bennu cyllidebau'r dyfodol.
- 12.15 Fel y disgrifir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol, Rhan 2, Pennod 8 [8.25 a 8.181], mae'r costau'n cael eu gosod yn erbyn ystod o fanteision, yn enwedig i dalwyr y dreth gyngor a thalwyr ardrethi, drwy ddarparu biliau mwy cywir a lliniaru effeithiau amrywiadau ehangach yn y farchnad. Mae cyd-ddibyniaethau rhwng diwygiadau a gyflwynwyd yn y Bil, ee, mwy o ailbrisiadau, rhannu gwybodaeth a gwella prosesau, hefyd yn caniatáu ar gyfer arbedion effeithlonrwydd, a gaiff eu hadlewyrchu yn nhrefodaethau cytundeb lefel gwasanaeth Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn y dyfodol wrth iddynt ddod i'r amlwg.
- 12.16 Mae'r manteision a ddisgrifir, ynghyd â rheolaeth ofalus barhaus ar gyllideb Asiantaeth y Swyddfa Brisio gan Lywodraeth Cymru a thrafodaethau mewnol i ystyried trefniadau cyllido yn y dyfodol yn golygu, yn ein hasesiad, fod y costau cyffredinol yn fforddiadwy.

#### *Tribiwnlys Prisio Cymru*

- 12.17 Mae'r costau a briodolir i Dribiwnlys Prisio Cymru a nodwyd yn yr asesiad effaith rheoleiddiol yn cael eu gyrru i raddau helaeth gan ofynion ailbrisio'r dreth gyngor, ymgysylltu â threthdalwyr a rheoli tribiwnlysoedd apêl. Fel mae Tabl 12.2 yn dangos, mae'r rhan fwyaf o'r costau'n digwydd ar ôl 2028-29, o ganlyniad i'r ddarpariaeth i gyflwyno cylch ailbrisio pum mlynedd rheolaidd ar gyfer y dreth gyngor yn 2028.

**Tabl 12.2 – Costau Amcangyfrifedig Tribiwnlys Prisio Cymru (£000)**

Costau Tribiwnlys Prisio Cymru	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	2033-34	Cyfanswm
Cyfanswm Costau	0	0	0	324	282	282	282	282	324	282	<b>2,055</b>
<b>Cyfanswm wedi'i Addasu ar gyfer Chwyddiant</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>324</b>	<b>282</b>	<b>307</b>	<b>312</b>	<b>317</b>	<b>370</b>	<b>327</b>	<b>2,277</b>

- 12.18 O gofio'r cynnydd posibl mewn rhyngweithio ar ran trethdalwyr a allai ddeillio o ailbrisio'r dreth gyngor, mae Tribiwnlys Prisio Cymru wedi ystyried ei anghenion i sicrhau ei fod wedi'i gyfarparu'n ddigonol i gyflawni'r

swyddogaethau barnwrol ychwanegol ac i ganiatáu ar gyfer ehangu ei weithrediadau.

- 12.19 Mae'r costau'n deillio'n bennaf o gynnydd disgwylidig yn apelïadau'r dreth gyngor a'r costau staffio, hyfforddiant a TGCh cynyddol sy'n gysylltiedig â'r llwyth gwaith hwn. Mae'n cynnwys hefyd reoli a threfnu tribiwnlysoedd apêl ychwanegol a chostau cysylltiedig aelodau tribiwnlysoedd.
- 12.20 Fel Asiantaeth y Swyddfa Brisio, mae gan Dribiwnlys Prisio Cymru gyllideb sylfaenol flynyddol y cytunwyd arni â Llywodraeth Cymru sy'n cymryd i ystyriaeth cyfrifoldebau allweddol y Tribiwnlys a'r gweinyddu cysylltiedig y mae'n ymgymryd ag ef, gan gynnwys y costau a briodolir i'r Bil. Mae'r Tribiwnlys yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i reoli costau bob blwyddyn, gyda chyfarfodydd cynllunio ariannol blynyddol yn cael eu cynnal ymhell cyn y prosesau i bennu cyllidebau yn y dyfodol.
- 12.21 Fel y disgrifir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol, Rhan 2, Pennod 8 [8.28 a 8.181], gosodir y costau yn erbyn ystod o fanteision, yn enwedig y manteision i dalwyr y dreth gyngor o ganlyniad i ailbrisiadau rheolaidd. Mae'r manteision a ddisgrifiwyd, ynghyd â rheolaeth ofalus barhaus ar gyllideb Tribiwnlys Prisio Cymru gan Lywodraeth Cymru a thrafodaethau mewnol i ystyried trefniadau cyllido yn y dyfodol yn golygu, yn ein hasesiad, fod y costau cyffredinol yn fforddiadwy.

#### *Awdurdodau Lleol*

- 12.22 Mae costau'r awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar weinyddu biliau ardrethi annomestig a'r dreth gyngor a chynnydd posibl mewn adnoddau staff oherwydd cynnydd mewn ymgysylltiad â thalwyr y dreth gyngor cyngor a thalwyr ardrethi. Bernir bod y rhan fwyaf o'r costau a amlinellir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol a ddyrennir i'r awdurdodau lleol yn gostau cyfle, oherwydd y tebygolrwydd y bydd capasiti staff yn cael ei symud i feysydd blaenoriaeth o fannau eraill ar adegau o weithgarwch uchel. Nid yw'r rhain yn cael eu hadlewyrchu, felly, yn Nhabl 12.3.
- 12.23 Mae arbedion wedi'u nodi hefyd sy'n helpu i wrthbwysu'r costau ac mae'n debygol y caiff arbedion pellach eu nodi pan fydd talwyr ardrethi a thalwyr y dreth gyngor yn dod yn fwy cyfarwydd â'r newidiadau i ardrethi annomestig a systemau'r dreth gyngor, sy'n golygu y bydd angen llai o ymgysylltu.

**Tabl 12.3 – Costau Amcangyfrifedig Awdurdodau Lleol (£000)**

<b>Costau Awdurdodau Lleol</b>	<b>2024-25</b>	<b>2025-26</b>	<b>2026-27</b>	<b>2027-28</b>	<b>2028-29</b>	<b>2029-30</b>	<b>2030-31</b>	<b>2031-32</b>	<b>2032-33</b>	<b>2033-34</b>	<b>Cyfanswm</b>
Cyfanswm Costau	371	371	371	371	371	371	371	371	371	371	<b>3,710</b>
<b>Cyfanswm wedi'i Addasu ar gyfer Chwyddiant</b>	<b>377</b>	<b>381</b>	<b>385</b>	<b>392</b>	<b>398</b>	<b>404</b>	<b>411</b>	<b>418</b>	<b>424</b>	<b>431</b>	<b>4,021</b>

12.24 Mae cyfanswm y costau a ddyrennir i'r awdurdodau lleol yn yr asesiad effaith rheoleiddiol yn ymwneud ag amcangyfrif o'r rhyddhad dewisol ychwanegol ar gyfer ardrethi annomestig y bydd yr awdurdodau lleol yn gallu ei ddyfarnu o ganlyniad i bwerau yn y Bil. Byddai elfen yr awdurdod lleol o ryddhad o'r fath yn cael ei hariannu o'u cyllidebau eu hunain a byddai'n cael ei rheoli gan awdurdodau unigol. Bydd union swm y rhyddhad a roddir yn amrywio ar draws yr awdurdodau lleol o ran symiau ac o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar ddewisiadau pob awdurdod. Mae'r costau hyn yn fantais uniongyrchol i dalwyr ardrethi.

#### *Llywodraeth Cymru*

12.25 Fel yr amlinellwyd uchod, bydd cynnydd mewn unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru sy'n ofynnol o ganlyniad i'r Bil yn cael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru a chrynhair y costau yn y cofnodion ar gyfer pob sefydliad. Mae'r adran hon yn ymdrin â'r costau a briodolir yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn unig.

12.26 Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ariannu Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru gael eu talu o'r cyllidebau presennol a ddyrannwyd gyda chodiadau o bryd i'w gilydd sy'n gysylltiedig â chylchoedd ailbrisio yn cael eu hariannu drwy ailflaenoriaethu.

12.27 Mae'r costau a grynhoir yn Nhabl 12.4 yn ymwneud â chyfraniad Llywodraeth Cymru at yr amcangyfrif o ryddhad dewisol ychwanegol ar gyfer ardrethi annomestig y bydd yr awdurdodau lleol yn gallu ei ddyfarnu o ganlyniad i bwerau yn y Bil. Bydd union swm y rhyddhad a ddyfarnir yn amrywio ar draws yr awdurdodau lleol o ran symiau ac o flwyddyn i flwyddyn.

**Tabl 12.4 Costau Amcangyfrifedig Llywodraeth Cymru (£000)**

Llywodraeth Cymru	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	2033-34	Cyfanswm
Cyfanswm Costau	124	124	124	124	124	124	124	124	124	124	1,240
<b>Cyfanswm wedi'i Addasu ar gyfer Chwyddiant</b>	<b>126</b>	<b>127</b>	<b>129</b>	<b>131</b>	<b>133</b>	<b>135</b>	<b>137</b>	<b>140</b>	<b>142</b>	<b>144</b>	<b>1,344</b>

12.28 Mae'r costau hyn yn fantais uniongyrchol i dalwyr ardrethi a byddant yn cael eu rheoli mewn ffordd debyg i'r rhyddhad dewisol presennol. Maent yn gymedrol o'u cymharu â maint y gronfa ardrethu annomestig a bernir eu bod yn fforddiadwy.

### Manteision

12.29 Dylid ystyried costau'r awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yng nghydestun y manteision ariannol a wireddir gan y Bil. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn y tabl canlynol.

**Tabl 12.5 Cyfanswm Amcangyfrifedig y Manteision Ariannol (£000)**

Cyfanswm y Manteision	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	2033-34	Cyfanswm
Ardrethi Annomestig	1,495	1,495	1,495	1,495	1,495	1,495	1,495	1,495	1,495	1,495	14,950
Y Dreth Gyngor	39	39	39	39	39	39	39	39	39	39	390
Cyfanswm y Manteision	1,534	1,534	1,534	1,534	1,534	1,534	1,534	1,534	1,534	1,534	15,340
<b>Cyfanswm wedi'i Addasu ar gyfer Chwyddiant</b>	<b>1,559</b>	<b>1,574</b>	<b>1,593</b>	<b>1,620</b>	<b>1,646</b>	<b>1,672</b>	<b>1,699</b>	<b>1,726</b>	<b>1,754</b>	<b>1,782</b>	<b>16,625</b>

12.30 Mae'r manteision ariannol yn cynnwys arbedion cost i'r awdurdodau lleol (£385,000), manteision uniongyrchol i dalwyr ardrethi (£4.95m) a refeniw a arbedir oherwydd gostyngiad mewn osgoi ardrethi annomestig (£10m).

### Crynodeb

12.31 Mae ardrethi annomestig a'r dreth gyngor yn cynhyrchu dros £3 biliwn y flwyddyn mewn refeniw sy'n helpu i ariannu gwasanaethau lleol hanfodol i gymunedau yng Nghymru. Crynhoir cyfanswm costau gweithredu'r Bil a'r costau net ar ôl i fanteision gael eu gwrthbwyso yn Nhabl 12.5. Fel yr amlinellwyd yn yr asesiad effaith rheoleiddiol, bydd y newidiadau i'w



gweithredu yn sicrhau bod y ddwy system yn dal i fod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, yn ogystal â gwella tegwch i dalwyr y dreth gyngor a thalwyr ardrethi.

12.32 Rhagwelir y bydd arbedion hirdymor i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil, a ddaw i'r amlwg dros y cyfnod gwerthuso deng mlynedd.

12.33 Rydym yn cydnabod bod rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynghylch gwariant cyhoeddus yn erbyn y cefndir economaidd presennol. Caiff y rhan fwyaf o'r costau eu cefnogi drwy gyllidebau presennol ac, yn seiliedig ar yr wybodaeth a nodir yma, ein hasesiad ni yw y bydd y Bil yn fforddiadwy dros y cyfnod gwerthuso.

**Tabl 12.6 - Costau Amcangyfrifedig: cyfanswm costau a chostau net gweithredu'r Bil (£000)**

	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	2033-34	Cyfanswm
Costau Ardrethi annomestig	4,495	3,995	7,801	2,695	3,365	5,527	3,696	3,696	4,027	1,865	41,160
Costau'r Dreth Gyngor	0	0	2,900	9,139	13,542	11,281	1,581	3,481	8,439	14,542	64,905
Cyfanswm Costau	4,495	3,995	10,701	11,834	16,907	16,808	5,277	7,177	12,466	16,407	106,065
<b>Cyfanswm Costau wedi'u Haddasu ar gyfer Chwyddiant</b>	<b>4,567</b>	<b>4,100</b>	<b>11,113</b>	<b>12,498</b>	<b>18,141</b>	<b>18,324</b>	<b>5,845</b>	<b>8,076</b>	<b>14,253</b>	<b>19,059</b>	<b>115,975</b>
Cyfanswm y Manteision	1,534	1,534	1,534	1,534	1,534	1,534	1,534	1,534	1,534	1,534	15,340
<b>Manteision wedi'u Haddasu ar gyfer Chwyddiant</b>	<b>1,559</b>	<b>1,574</b>	<b>1,593</b>	<b>1,620</b>	<b>1,646</b>	<b>1,672</b>	<b>1,699</b>	<b>1,726</b>	<b>1,754</b>	<b>1,782</b>	<b>16,625</b>
Costau Net y Bil	2,961	2,461	9,167	10,300	15,373	15,274	3,743	5,643	10,932	14,873	90,725
<b>Costau Net wedi'u Haddasu ar gyfer Chwyddiant</b>	<b>3,008</b>	<b>2,525</b>	<b>9,520</b>	<b>10,878</b>	<b>16,495</b>	<b>16,651</b>	<b>4,145</b>	<b>6,350</b>	<b>12,499</b>	<b>17,277</b>	<b>99,349</b>

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

## **ATODIAD 1: Nodiadau Esboniadol**

### **BIL CYLLID LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)**

---

#### **NODIADAU ESBONIADOL**

##### **CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023. Fe'u lluniwyd gan Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono. Os ymddengys nad oes angen rhoi unrhyw esboniad neu sylw ar ddarpariaeth yn y Bil, nis rhoddir.

##### **CRYNODEB A CHEFNDIR**

2. Yn y Bil ceir tair Rhan ac Atodlen. Mae'r Rhan gyntaf yn ymwneud ag ardrethu annomestig, mae'r ail Ran yn ymwneud â'r dreth gyngor ac mae'r drydedd Ran yn cynnwys darpariaethau cyffredinol. Mae'r Atodlen yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

##### **SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU**

##### **RHAN 1 - ARDRETHU ANNOMESTIG**

###### **Adran 1 - Trosolwg o Ran 1**

3. Mae adran 1 yn rhoi trosolwg o'r adrannau yn Rhan 1.

###### **Adran 2 - Rhestrau ardrethu lleol**

4. Mae'r adran hon yn mewnosod adran 41ZA (Rhestrau ardrethu lleol: Cymru) yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988"). Mae adran 41ZA yn nodi'r trefniadau ar gyfer llunio rhestrau ardrethu annomestig lleol, gan gadw effaith adran 41 o Ddeddf 1988 i raddau helaeth o ran Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhestrau hynny gael eu llunio bob tair blynedd (yn hytrach na phob pum mlynedd). Felly gan fod rhestr leol wedi ei llunio ddiwethaf ar 1 Ebrill 2023, bydd y rhestr nesaf yn cael ei llunio ar 1 Ebrill 2026 (yn hytrach nag ar 1 Ebrill 2028).
5. Cedwir y gofynion presennol ar y swyddog prasio i baratoi rhestrau arfaethedig a rhestrau wedi eu llunio. Rhaid i'r awdurdod bilio gadw copi ar ffurf electronig o'r rhestrau arfaethedig a'r rhestrau wedi eu llunio. Mae'r gofynion hyn wedi eu moderneiddio, gan ei bod yn ofynnol yn flaenorol i awdurdod bilio adnewo copi o'r rhestr yn ei brif swyddfa.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

6. Rhaid i'r swyddog prisio gynnal rhestr a lunnir o dan adran 41ZA neu a lunnir ar y dyddiadau a grybwyllir yn adran 41ZA(11)(b) o Ddeddf 1988 cyhyd ag sy'n angenrheidiol at ddibenion Rhan 3 o Ddeddf 1988. Y dyddiadau yw'r rhai yr oedd yn ofynnol i restrau gael eu llunio arnynt o dan adran 41 o Ddeddf 1988 (fel y'i haddaswyd gan adran 54A). Mae'r cofnod hwn o ddyddiadau ailbriso blaenorol yn sicrhau eglurder ynghylch y gofyniad parhaus i gynnal y rhestrau a luniwyd o dan adran 41 o Ddeddf 1988. Ni chyfeirir at restrau lleol a luniwyd ar 1 Ebrill 1995, gan fod y rhestrau a luniwyd ar 1 Ebrill 1996 yn aildrefnu rhestrau 1995 ac yn cael eu trin fel y rhestrau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 1995.

### **Adran 3 – Rhestrau ardrethu canolog**

7. Mae'r adran hon yn mewnosod adran 52ZA (Rhestrau ardrethu canolog Cymru) yn Neddf 1988. Mae adran 52ZA yn nodi'r trefniadau ar gyfer llunio rhestrau ardrethu annomestig canolog, gan gadw effaith adran 52 o Ddeddf 1988 i raddau helaeth o ran Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhestrau hynny gael eu llunio bob tair blynedd (yn hytrach na phob pum mlynedd). Felly, gan fod rhestr ganolog wedi ei llunio ddiwethaf ar 1 Ebrill 2023, bydd y rhestr nesaf yn cael ei llunio ar 1 Ebrill 2026 (yn hytrach nag ar 1 Ebrill 2028).
8. Cedwir y trefniadau presennol i'r swyddog prisio canolog baratoi rhestrau arfaethedig a rhestrau wedi eu llunio. Rhaid i Weinidogion Cymru gadw copi ar ffurf electronig o'r rhestrau arfaethedig a'r rhestrau wedi eu llunio. Mae'r gofynion hyn wedi eu moderneiddio, gan ei bod yn ofynnol yn flaenorol i Weinidogion Cymru adneuo copi o'r rhestr yn eu prif swyddfa.
9. Rhaid i'r swyddog prisio canolog gynnal rhestr a luniwyd o dan adran 52ZA neu a luniwyd ar y dyddiadau a grybwyllir yn adran 52ZA(11)(b) o Ddeddf 1988, cyhyd ag sy'n angenrheidiol at ddibenion Rhan 3 o Ddeddf 1988. Bwriad y cofnod o ddyddiadau ailbriso blaenorol a ddarperir gan adran 52ZA(11)(b) o Ddeddf 1988 yw sicrhau eglurder ynghylch y gofyniad parhaus i gynnal y rhestrau a luniwyd o dan adran 52 o Ddeddf 1988. Yn wahanol i adran 41ZA(11)(b), cyfeirir at y rhestr yr oedd yn ofynnol ei llunio yn 1995 (ac nid yn 1996), gan nad oedd yn angenrheidiol llunio rhestr ganolog newydd yn 1996.

### **Adran 4 – Pŵer i ddiwygio'r flwyddyn ailbriso**

10. Mae'r adran hon yn mewnosod adran 54AB (Pŵer i ddiwygio'r flwyddyn ailbriso: Cymru) yn Neddf 1988, gan roi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n diwygio blwyddyn ailbriso a'r cyfnod rhwng blynyddoedd ailbriso. Rhaid llunio rhestrau ardrethu lleol a chanolog newydd ar 1 Ebrill mewn blwyddyn ailbriso. Rhaid i reoliadau a wneir o dan y pŵer hwn nodi'r un flwyddyn neu'r un cyfnod mewn perthynas â rhestrau ardrethu lleol a chanolog, er mwyn sicrhau bod ailbrisiadau'n parhau i ddigwydd ar yr un pryd. Ni chaniateir gwneud rheoliadau o'r fath oni bai bod drafft wedi cael ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi (gweithdrefn gadarnhaol ddrafft.)
11. Mae adran 58 o Ddeddf 1988 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ragnodi rheolau gwahanol ar gyfer cyfrifo'r swm a godir yn ystod cyfnod perthnasol

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff rhestrau ardrethu newydd eu llunio. Mae'r cyfnod perthnasol yn gyfnod o flynyddoedd sy'n adlewyrchu'r cyfnod rhwng ailbrisiadau. Mae rheoliadau o dan y pŵer hwn wedi darparu ar gyfer rhyddhad trosiannol yn dilyn ailbrisiadau. Mae adran 54AB(3) o Ddeddf 1988 yn sicrhau, os caiff y cyfnod rhwng blynyddoedd ailbrisio ei ddiwygio, bod rhaid gwneud diwygiad fel bod y pŵer yn adran 58 yn gweithredu mewn perthynas â'r un cyfnod.

## **Adran 5 - Pwerau i roi ac amrywio rhyddhadau, a'u tynnu'n ôl**

12. Mae'r adran hon yn diwygio Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A i Ddeddf 1988. Mae'r Atodlenni hyn yn darparu ar gyfer cyfrifo'r swm o ardrethu annomestig a godir am ddiwrnod y codir swm ynglŷn ag ef, mewn cysylltiad â hereditament, ac yn darparu ar gyfer cymhwyso rhyddhadau rhannol a rhyddhadau llawn rhag ardrethu annomestig. Mae Atodlen 4ZA yn gwneud y ddarpariaeth hon mewn perthynas â hereditamentau a feddiennir ar restr ardrethu leol, mae Atodlen 4ZB yn gwneud y ddarpariaeth hon mewn cysylltiad â hereditamentau heb eu meddiannu ar restr ardrethu leol, ac mae Atodlen 5A yn gwneud y ddarpariaeth hon mewn perthynas â hereditamentau ar restr ardrethu ganolog.
13. Mae is-adran (2) yn mewnosod Rhan 3A yn Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988, mae is-adran (3) yn mewnosod Rhannau 2A a 2B yn Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988, ac mae is-adran (4) yn mewnosod Rhan 2A yn Atodlen 5A i Ddeddf 1988. Mae pob un o'r Rhannau newydd hyn yn cynnwys pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n rhoi ac amrywio rhyddhadau, neu'n eu tynnu'n ôl, mewn cysylltiad â'r hereditamentau y mae pob Atodlen yn gymwys iddynt. Ni chaniateir gwneud rheoliadau o'r fath oni bai bod drafft wedi cael ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi (gweithdrefn gadarnhaol ddrafft.)
14. Ym mhob achos, caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer i ragnodi sawl rhyddhad rhannol (gweler paragraffau newydd 8A, 2A a 4A o Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A i Ddeddf 1988, yn y drefn honno). Caiff pob rhyddhad rhannol fod yn gymwys pan fodlonir yr amodau a ragnodir yn y rheoliadau a rhaid eu gosod ar lefel a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau gan ddefnyddio'r fformiwla "AxM/C - F", lle y mae "F" yn dynodi swm y rhyddhad.
15. O dan y pwerau newydd hyn, caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud darpariaeth o ran cyfrifo'r swm a godir mewn achosion pan fo mwy nag un rhyddhad a ragnodir yn y rheoliadau yn gymwys mewn perthynas â hereditament. Caiff darpariaeth o'r fath ei gwneud yn ofynnol i gyfrifo'r swm a godir gan ystyried un neu ragor o'r rhyddhadau cymwys.
16. Yn yr un modd, caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer i ragnodi sawl rhyddhad llawn a chaiff rhyddhadau o'r fath fod yn gymwys pan fodlonir yr amodau a ragnodir yn y rheoliadau (gweler paragraffau newydd 8B, 2B a 4B o Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A i Ddeddf 1988, yn y drefn honno).

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

17. Mae Atodlenni 4ZA a 5A i Ddeddf 1988 yn gwneud darpariaeth ynghylch achosion pan fo mwy nag un o'r rhyddhadau a nodir ym mhob un o'r Atodlenni hynny yn gymwys mewn cysylltiad â hereditament. Mae'r adran hon yn diwygio'r darpariaethau hyn er mwyn cynnwys rhyddhadau llawn a rhannol a roddir o dan y pwerau newydd i wneud rheoliadau ac yn mewnosod Rhan newydd 2B sy'n gwneud darpariaeth gyfatebol yn Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988. Ym mhob achos, mae'r adran hefyd yn mewnosod pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r ddarpariaeth bresennol hon neu wneud darpariaeth bellach drwy reoliadau.
18. Nid yw darpariaethau Atodlenni 4ZA a 5A i Ddeddf 1988 sy'n egluro pa baragraff i'w ddefnyddio i gyfrifo'r swm a godir mewn achosion lle mae mwy nag un rhyddhad yn gymwys yn cyfeirio at baragraffau 3 o'r Atodlenni hynny yn eu tro, sy'n ymwneud â rhyddhad ardrethi gwelliannau. Mae hyn oherwydd y gall y rhyddhad hwnnw fod yn gymwys yn ychwanegol at unrhyw ryddhad arall a'i fod yn gweithredu mewn ffordd neilltuol, fel addasiad i werth ardrethol yr hereditament cyn cymhwyso'r lluosogydd ac unrhyw ryddhad arall. Caiff paragraffau 3 o Atodlenni 4ZA a 5A, felly, fod yn gymwys yn ychwanegol at unrhyw baragraff arall yn yr Atodlenni hynny, ac nid ydynt yn anghymhwys, nac yn cael eu hanghymhwys gan, unrhyw baragraff arall.
19. Caniateir hefyd i unrhyw ryddhadau a roddir drwy'r rheoliadau gael eu hamrywio neu eu tynnu'n ôl drwy reoliadau diwygio. Yn ychwanegol, mae'r adran hon yn mewnosod pŵer newydd ym mhob un o Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A i Ddeddf 1988 i Weinidogion Cymru i amrywio unrhyw un o'r rhyddhadau a nodir yn yr Atodlenni hynny eu hunain, neu i'w tynnu'n ôl (gweler paragraffau newydd 8C, 2C a 4C o Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A i Ddeddf 1988, yn y drefn honno).

## **Adran 6 - Hereditamentau heb eu meddiannu: rhyddhad ardrethi elusennol**

20. Mae'r adran hon yn diwygio paragraff 2 o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988, sy'n rhagnodi achosion pan fo'r swm a godir am ddiwrnod y codir swm ynglŷn ag ef yn sero (rhyddhad llawn) ar gyfer hereditamentau heb eu meddiannu. Mae paragraff 2(2)(a) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988 yn gyfyngedig i Loegr. Mae'n rhagnodi'r achos pan fo'r talwr ardrethi yn sefydliad elusennol ac yr ymddengys y bydd y defnydd nesaf o'r hereditament yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol.
21. Mae is-adran (3) yn mewnosod paragraff 2(3) i (8) newydd yn Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988, gan ailddatgan, gyda diwygiadau, yr achosion a ragnodir ym mharagraff 2(2) o ran Cymru. Mae paragraff 2(3) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988 yn rhagnodi'r achos pan fo'r talwr ardrethi yn sefydliad elusennol ac mae'n cynnwys amodau ychwanegol ar gyfer rhyddhadau. Rhaid i'r awdurdod bilio fod wedi ei fodloni mai rheswm yn ymwneud â dibenion elusennol yr elusen yw'r rheswm pam nad yw'r hereditament wedi ei feddiannu, ac y bydd defnydd nesaf yr hereditament yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol.
22. Mae paragraff 2(3)(c) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i elusen ddarparu i'r awdurdod bilio gopi o'i chyfrifon diweddaraf a'i hadroddiad blynyddol diweddaraf, os yw'n ofynnol paratoi un o dan adran 162(1) neu 168(3) o Ddeddf Elusennau 2011. Mae paragraffau 2(4), (5) a (7) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988 yn darparu'r diffiniad ar gyfer cyfrifon elusen, gan adlewyrchu'r gofynion gwahanol a

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

osodir ar gwmnïau elusennol, elusennau esempt ac unrhyw elusen arall, fel y'u nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol.

23. Mae paragraff 2(2)(b) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988 yn gyfyngedig i Loegr. Mae'n rhagnodi'r achos ar gyfer rhyddhad llawn pan oedd y talwr ardrethi yn glwb chwaraeon amatur cymunedol a phan fo'n ymddangos y bydd y defnydd nesaf o'r hereditament yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion y clwb (neu ddau neu ragor o glybiau chwaraeon amatur cymunedol sy'n cynnwys y clwb hwnnw). Mae paragraff 2(8) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988 yn ailddatgan y ddarpariaeth hon o ran Cymru, ond wedi ei diwygio er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod bilio fod wedi ei fodloni mewn cysylltiad â'r defnydd nesaf o'r hereditament. Ni fewnosodir unrhyw amodau ychwanegol mewn cysylltiad â'r achos hwn.

### **Adran 7 - Hysbysiadau cwblhau ar gyfer adeiladau newydd**

24. Mae'r adran hon yn ehangu'r diffiniad o adeilad newydd, at ddiben cyflwyno hysbysiad cwblhau gan awdurdod bilio, drwy ddiwygio adran 46A o Ddeddf 1988. Mae adran 46A o Ddeddf 1988 ac Atodlen 4A iddi yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno hysbysiad cwblhau mewn cysylltiad ag adeilad newydd. Mae'n nodi'r diwrnod y mae adeilad newydd i gael ei drin fel pe bai wedi ei gwblhau, gyda'r effaith y gellir wedi hynny ei ychwanegu at y rhestr ardrethu. Mewn nosodir is-baragraff newydd (iv), yn adran 46A(6)(b) i gymhwyso'r un weithdrefn i adeilad sydd wedi ei addasu ac sydd, er ei fod yn cynnwys hereditament neu wedi ei gynnwys mewn hereditament a ddangoswyd yn flaenorol mewn rhestr ardrethu, wedi ei dynnu oddi ar y rhestr. Bydd hyn yn gymwys i adeiladau sy'n methu dros dro â bod yn destun meddiannaeth lesiannol wrth i'r addasiadau gael eu gwneud.

### **Adran 8 - Rhyddhad yn ôl disgrisiwn: terfyn amser**

25. Mae'r adran hon yn diwygio adran 47 o Ddeddf 1988, sy'n nodi'r sefyllfaoedd lle y caiff awdurdodau bilio ddyfarnu ac amrywio rhyddhad yn ôl disgrisiwn rhag ardrethu annomestig. Mae adran 47(7) o Ddeddf 1988, sy'n darparu na all awdurdod bilio wneud penderfyniad i ddyfarnu nac amrywio rhyddhad o'r fath fwy na chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, yn cael ei hepgor. Mewn nosodir adran newydd 47(6B), fel bod penderfyniad i ddyfarnu neu amrywio rhyddhad yn ôl disgrisiwn mewn cysylltiad â hereditament yn benderfyniad annilys, o ran diwrnod, os yw'r diwrnod yn digwydd cyn 31 Mawrth 2024 a bod y penderfyniad yn cael ei wneud fwy na chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r diwrnod yn digwydd ynddi.
26. Yr effaith yw mai blwyddyn ariannol 2023-24 yw'r flwyddyn olaf y bydd y cyfyngiad chwe mis presennol ar ddyfarnu rhyddhad yn ôl disgrisiwn ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben yn gymwys. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i benderfynu dyfarnu neu amrywio rhyddhad yn ôl disgrisiwn rhag y swm a godir fwy na chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r penderfyniad yn ymwneud â hi, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2024-25 ymlaen.

### **Adran 9 - Pwerau i roi ac amrywio esemptiad, a'i dynnu'n ôl**

27. Mae'r adran hon yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf 1988, sy'n darparu ar gyfer esemptiadau rhag ardrethu annomestig. Mewn nosodir paragraff newydd 20A newydd

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

(Pwerau i roi ac amrywio esemptiad, a'i dynnu'n ôl: Cymru) yn Atodlen 5, sy'n darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, roi eithriadau newydd ac amrywio unrhyw eithriadau sydd yn yr Atodlen honno, neu eu tynnu'n ôl. Ni chaniateir gwneud rheoliadau o'r fath oni bai bod drafft wedi cael ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi (gweithdrefn gadarnhaol ddrafft.)

## **Adran 10 - Cyfrifo lluosyddion ardrethu annomestig**

28. Mae Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 yn darparu ar gyfer cyfrifo lluosyddion ardrethu annomestig o ran Cymru. Mae'r adran hon yn mewnosod Rhan newydd sy'n ailddatgan y darpariaethau a oedd wedi eu cynnwys yn flaenorol yn Rhan 1 ynghyd â darpariaeth newydd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru osod lluosyddion gwahaniaethol drwy reoliadau. Mae adran 11 yn gwneud darpariaeth atodol.
29. Mae Rhan newydd A2 (Lluosyddion ardrethu annomestig: Cymru) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 yn cynnwys paragraffau A13 i A20. Mae'r Rhan hon yn nodi fformiwlâu cyffredinol ar gyfer cyfrifo'r lluosydd ardrethu annomestig o ran blynyddoedd ailbriso a blynyddoedd eraill (gweler paragraffau A14 ac A15). Yn y ddau achos mae'r lluosydd ardrethu annomestig yn parhau i fod yn gysylltiedig â'r mynegai prisiau defnyddwyr ond mae Gweinidogion Cymru yn cadw'r pŵer i gysylltu'r lluosydd â mynegai gwahanol neu newid cyfrifiad y lluosydd fel arall drwy reoliadau (gweler paragraff A18).
30. Pan fo rheoliadau a wneir o dan baragraff newydd A16 (Cyfrifo lluosyddion gwahaniaethol) yn gymwys mewn cysylltiad â hereditament, mae lluosydd gwahaniaethol a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau yn gymwys mewn cysylltiad â'r hereditament hwnnw. Rhaid i luosyddion o'r fath fod yn gyfran o'r lluosydd am y flwyddyn yn gyffredinol (fel y'i cyfrifir o dan baragraff A14 neu A15, yn ôl y digwydd) ond cânt fod yn fwy na 100% o'r lluosydd hwnnw. Caiff rheoliadau a wneir o dan baragraff A16 bennu lluosyddion gwahaniaethol gwahanol mewn perthynas â disgrifiadau gwahanol o hereditamentau ar y rhestrau lleol neu symiau gwahanol o werth ardrethol a ddangosir yn erbyn enwau personau dynodedig ar y rhestr ganolog. Ni chaniateir gwneud rheoliadau o'r fath oni bai bod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru, a'i gymeradwyo drwy benderfyniad (gweithdrefn gadarnhaol ddrafft).
31. Mae paragraff A17 yn cadw effaith rhyddhad ardrethi gwelliannau yn achos yr hereditamentau hynny y mae'r rhyddhad hwn a lluosydd gwahaniaethol yn gymwys iddynt. Mae'r paragraff hwn hefyd yn nodi'r egwyddor mai'r lluosydd a chanddo'r gwerth isaf (o blith y rhai sy'n gymwys) sydd i'w ddefnyddio ar gyfer cyfrifo'r swm a godir ar gyfer yr hereditament, pan fo mwy nag un lluosydd gwahaniaethol yn gymwys mewn cysylltiad â hereditament.
32. Mae paragraffau A18 i A20 yn ailddatgan y gofynion presennol a osodir ar Weinidogion Cymru o ran gwneud a rhoi hysbysiad o gyfrifiadau'r lluosydd ardrethu annomestig ar gyfer blwyddyn ariannol y codir swm ynglŷn â hi (cymhwysir y gofynion hyn hefyd i unrhyw luosyddion gwahaniaethol a ragnodir o dan baragraff A16).

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

### **Adran 11 - Cyfrifo lluosyddion ardrethu annomestig: darpariaeth atodol**

33. Mae adran 11 yn diwygio darpariaethau yn Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A i Ddeddf 1988 er mwyn adlewyrchu'r pwerau newydd i Weinidogion Cymru i osod lluosyddion gwahaniaethol (gweler adran 10) yn y fformiwlâu ar gyfer cyfrifo'r swm a godir mewn perthynas â hereditamentau ar y rhestrau lleol a chanolog.

### **Adran 12 - Yr wybodaeth i'w darparu i'r swyddog priso**

34. Mae'r adran hon yn cymhwyso i Gymru, gyda diwygiadau, y dyletswyddau darparu gwybodaeth a'r gyfundrefn gydymffurfio gysylltiedig a ddarperir gan baragraffau 4I i 4M, 5ZC i 5ZF a 5BD i 5BF o Atodlen 9 i Ddeddf 1988. Mae'r darpariaethau yn gosod dyletswyddau ar dalwyr ardrethi (neu bersonau a fyddai'n dalwyr ardrethi pe bai eu hereditamentau'n cael eu dangos mewn rhestr ardrethu) i ddarparu gwybodaeth hysbysadwy i Asiantaeth y Swyddfa Briso, system o gosbau am fethu â chydymffurfio, a gweithdrefnau ar gyfer adolygu cosbau ac apelio yn eu herbyn.
35. Mae is-adrannau (2), (3) a (5) yn diwygio paragraffau 4I a 4M(1) o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 er mwyn dileu geiriau sy'n cyfyngu effaith y darpariaethau i Loegr.
36. Mae paragraffau 4I i 4M o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 yn nodi'r dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth hysbysadwy i Asiantaeth y Swyddfa Briso:
- Mae paragraff 4I yn darparu bod y dyletswyddau'n gymwys i bersonau sy'n dalwyr ardrethi ar gyfer hereditament (neu a fyddai'n dalwyr ardrethi pe bai'r hereditament yn cael ei ddangos mewn rhestr ardrethu). Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n derbyn rhyddhad o 100% rhag y swm a godir.
  - Mae paragraff 4J yn darparu dyletswydd ar y person hwnnw i ddarparu gwybodaeth hysbysadwy o fewn cyfnod hysbysadwy. Mae gwybodaeth yn hysbysadwy os yw'n ymwneud â hunaniaeth y talwr ardrethi (neu'r sawl a fyddai'n dalwr ardrethi), neu fodolaeth, maint neu werth ardrethol yr hereditament, ond dim ond pe gellid disgwyl yn rhesymol i'r person hwnnw wybod y byddai hynny'n cynorthwyo Asiantaeth y Swyddfa Briso i gyflawni ei swyddogaethau. Y cyfnod hysbysadwy yw'r cyfnod o fewn 60 o ddiwrnodau i'r newid mewn gwybodaeth hysbysadwy, neu unrhyw gyfnod hirach y gellir ei bennu gan Asiantaeth y Swyddfa Briso mewn hysbysiad. Mae is-adran (4) yn diwygio paragraff 4J(4) i ddarparu, mewn perthynas â hereditament yng Nghymru, y caniateir i'r cyfnod hysbysadwy hefyd fod yn unrhyw gyfnod hirach a gytunir gydag Asiantaeth y Swyddfa Briso. Bydd hyn yn caniatáu i berson ofyn i Asiantaeth y Swyddfa Briso roi estyniad i'r cyfnod hysbysadwy.
  - Mae paragraff 4K yn datgan bod rhaid i'r person baratoi cadarnhad blynyddol, o fewn 60 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar 30 Ebrill bob blwyddyn, ei fod naill ai wedi darparu gwybodaeth hysbysadwy neu nad oedd yn ofynnol iddo ddarparu gwybodaeth o'r fath.



Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

- d. Mae paragraff 4L yn darparu i'r wybodaeth gael ei chyflwyno gan ddefnyddio cyfleuster ar-lein a ddarperir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio neu mewn modd arall y cytunir arno.
  - e. Mae paragraff 4M yn ailddatgan pwerau presennol ym mharagraff 5 o Atodlen 9 i Ddeddf 1988, sy'n caniatáu i Asiantaeth y Swyddfa Brisio hefyd ofyn am wybodaeth a fydd yn ei barn hithau yn ei chynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau. Efallai y bydd angen i Asiantaeth y Swyddfa Brisio ofyn am wybodaeth o hyd gan ddefnyddio'r pŵer hwn, gan gynnwys ar gyfer eiddo arbenigol a mathau penodol iawn o wybodaeth.
37. Mae is-adrannau (7) ac (8) yn diwygio paragraffau 5A(1) a 5C(2), yn y drefn honno, o Atodlen 9 i Ddeddf 1988, i estyn y dyddiad cau i dalwyr ardrethi ymateb i hysbysiad gwybodaeth a ddyroddir gan awdurdodau bilio (o 56 i 60 o ddiwrnodau) ac apelio yn erbyn hysbysiad cosb am fethu â chydymffurfio (o 28 i 30 o ddiwrnodau). Mae'r newidiadau hyn yn cynnal amserlenni cyson ar gyfer darparu gwybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r awdurdodau bilio.
38. Mae paragraffau 5ZC i 5ZF o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 yn nodi system o gosbau am fethiannau i gydymffurfio â'r dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth hysbysadwy:
- a. Mae paragraff 5ZC yn darparu ar gyfer y canlynol:
    - i. Cosb sifil pan fo person yn methu â chydymffurfio â'r dyletswyddau. Pennir y gosb o dan baragraff 5ZD(1).
    - ii. Trosedd pan fo person yn gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid wrth honni ei fod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau. Mae person yn agored ar euogfarn ddiannod i garchar am gyfnod nad yw'n fwy na 3 mis neu i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol neu i'r ddau. Er mwyn gosod atebolrwydd troseddol, mae'r prawf arferol yn gymwys; rhaid iddi fod y tu hwnt i amheuaeth resymol fod y drosedd wedi ei chyflawni. Fel arall, gellir dal y person yn atebol am gosb sifil am wneud datganiad ffug o'r un natur (er bod rhaid iddi fod y tu hwnt i amheuaeth resymol o hyd bod y drosedd wedi ei chyflawni). Pennir y gosb sifil o dan baragraff 5ZD(2).
    - iii. Y trefniadau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb, a chynnwys yr hysbysiadau hynny, pan fo person yn atebol am gosb sifil. Rhaid talu cosb o fewn 30 o ddiwrnodau i ddyddiad yr hysbysiad cosb (oni bai bod y cyfnod hwn yn cael ei estyn gan yr amser a gymerir i gwblhau unrhyw adolygiad neu apêl). Os cyflwynir hysbysiad cosb sifil i berson mewn cysylltiad â gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid, ni chaniateir cychwyn achos troseddol am yr un drosedd cyn y dyddiad cau ar gyfer talu'r gosb. Os caiff yr atebolrwydd hwnnw ei ryddhau, yna ni all unrhyw achos troseddol nac euogfarn ddilyn ac ni ellir cyflwyno hysbysiad cosb arall, mewn perthynas â gwneud y datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid. Os yw person yn ei ryddhau ei hun rhag atebolrwydd sy'n codi o hysbysiad cosb am fethu â chydymffurfio â'r dyletswyddau hysbysu ac wedi hynny yn cael ei euogfarnu o drosedd neu yn cael hysbysiad cosb arall wedi ei gyflwyno iddo mewn

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

cysylltiad â datganiad ffug, yna rhaid i'r ddedfryd neu swm y gosb adlewyrchu swm y gosb a ryddhawyd eisoes.

- b. Mae paragraff 5ZD yn darparu ar gyfer lefel cosb sifil:
- i. Pan fo'r person wedi methu â chydymffurfio â gofyniad hysbysu, y gosb uchaf yw 2% o'r gwerth ardrethol perthnasol neu £900, pa un bynnag yw'r mwyaf.
  - ii. Pan fo'r person wedi gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid wrth honni ei fod yn cydymffurfio â gofyniad hysbysu, y gosb uchaf yw cyfanswm 3% o'r gwerth ardrethol perthnasol a £500.
  - iii. Pan fo'r person yn atebol am fethu â chydymffurfio â gofyniad hysbysu, byddai'n agored i gosb bellach o £60 y dydd pe bai'n methu â chydymffurfio â'r gofyniad o fewn 30 o ddiwrnodau i gael hysbysiad cosb cysylltiedig. Ni chaiff cyfanswm yr atebolrwydd am gosbau dyddiol pellach fod yn fwy na £1,800.
- c. Mae paragraff 5ZE yn darparu ar gyfer pennu gwerthoedd ardrethol, at ddibenion cyfrifo cosbau pan fo mater sy'n effeithio ar y gwerth ardrethol wedi newid rhwng y diwrnod y dylai'r wybodaeth hysbysadwy fod wedi ei darparu a diwrnod yr hysbysiad cosb. Mae'r darpariaethau hyn yn sicrhau nad yw'r gosb yn cael ei chynyddu na'i lleihau oherwydd newidiadau i'r hereditament ar ôl i'r atebolrwydd i'r gosb godi gyntaf.
- d. Mae paragraff 5ZF yn darparu y caiff y swyddog prisio liniaru neu ddileu unrhyw un o'r cosbau uchod. Bydd hyn yn caniatáu i Asiantaeth y Swyddfa Brisio weithredu'r dyletswyddau a'r cosbau yn deg a chyda sylw dyladwy i amgylchiadau unigol.
39. Mae paragraffau 5BD i 5BF o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer adolygu ac apelio yn erbyn cosbau am fethu â chydymffurfio â'r dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth hysbysadwy:
- a. Mae paragraff 5BD yn rhoi 30 o ddiwrnodau i berson i ofyn am adolygiad o hysbysiad cosb. Mae'r adolygiad yn cael ei wneud gan swyddog adolygu o Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n swyddog gwahanol i'r un a osododd y gosb. Mae natur a maint yr adolygiad yn unol â'r hyn a ymddengys yn briodol i'r swyddog adolygu. Rhaid cwblhau'r adolygiad o fewn 45 o ddiwrnodau, neu fel arall trinnir y gosb fel pe bai wedi ei chadarnhau.
  - b. Mae paragraff 5BE yn darparu ar gyfer yr hawl i apelio i'r tribiwnlys prisio yn erbyn casgliadau'r adolygiad, o fewn 30 o ddiwrnodau i'r hysbysiad (neu'r hysbysiad tybiedig) ynghylch casgliadau'r adolygiad.
  - c. Mae paragraff 5BF yn estyn y cyfnod ar gyfer talu cosb ac yn darparu nad yw achosion o adolygiad neu apêl yn atal rhoi cosb arall, pan fo'r person yn parhau i fethu â chydymffurfio â'r gofyniad hysbysu. Mae hefyd yn sicrhau y byddai adolygiad neu apêl yn ystyried unrhyw gosb ddyddiol a osodir o dan baragraff 5ZD(3) yn ychwanegol at y gosb a osodir o dan baragraff 5ZC(1).

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

40. Mae is-adran (6) yn mewnosod is-baragraff newydd (4A) ym mharagraff 5ZC o Ddeddf 1988, i ddarparu bod rhaid i hysbysiad cosb a gyflwynir mewn perthynas â hereditament yng Nghymru gynnwys esboniad o effaith paragraff 5BD(9). O ganlyniad, bydd yr hysbysiad yn egluro y dylid trin y gosb fel pe bai wedi ei chadarnhau, pe bai'r person yn gofyn am adolygiad, os nad yw'r swyddog adolygu wedi rhoi hysbysiad o'i benderfyniad o fewn 45 o ddiwrnodau. Bwriad hyn yw sicrhau ei bod yn eglur i'r person pryd y bydd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau, y caniateir apelio yn erbyn yr hysbysiad cosb yn ystod y cyfnod hwnnw, yn dechrau.

### **Adran 13 – Trefniadau artiffisial i osgoi ardrethu annomestig**

41. Mae'r adran hon yn mewnosod adrannau 63F i 63M (Gwrthweithio osgoi trethi: Cymru) yn Neddf 1988. Maent yn gwneud darpariaeth ynghylch gwrthweithio manteision sy'n deillio o drefniadau artiffisial i osgoi atebolrwydd am dalu ardrethi annomestig.
42. At ddibenion adrannau 63F i 63M, mae i drefniant artiffisial i osgoi ardrethu annomestig yr ystyr a roddir yn adrannau 63F i 63H.
43. O ran y cysyniad allweddol o artiffisial ("artificial"), mae adran 63H o Ddeddf 1988 yn darparu bod trefniant yn artiffisial os yw o fath sy'n cael ei bennu gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau (a, phan fo Gweinidogion wedi gwneud darpariaeth ar gyfer hyn o dan is-adran (3), na phennwyd i'r gwrthwyneb). Dim ond os na fyddai gwneud trefniant o'r fath yn gam rhesymol mewn perthynas â darpariaethau deddfwriaethol ar gyfer ardrethu annomestig, ar ôl ystyried yn benodol y materion a restrir ym mharagraffau (a), (b) ac (c) o is-adran (2), y caiff Gweinidogion Cymru bennu bod math o drefniant yn artiffisial. Mae'r materion hyn yn ymdrin â thechnegau sydd wedi eu cynllunio i fanteisio ar 'fylchau' canfyddedig yn y ddeddfwriaeth i sicrhau'r fantais.
44. Bydd rheoliadau a wneir o dan adran 63H(1)(a) o Ddeddf 1988 yn disgrifio'r technegau neu'r ymddygiadau osgoi penodol y bydd y broses a nodir yn yr adrannau canlynol yn mynd i'r afael â hwy. Caiff y rheoliadau hefyd (gweler adran 63H(3)), ddarparu nad yw trefniant penodedig yn artiffisial mewn achos penodol os gwneir penderfyniad i'r perwyl hwnnw gan yr awdurdod bilio perthnasol neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd), wedi ystyried yr holl amgylchiadau. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru, pan fyddant yn gwneud y rheoliadau, i nodi mathau o drefniant y mae'n bosibl nad ydynt yn artiffisial ym mhob achos ac, ar gyfer y mathau hynny o drefniant, i roi disgrisiwn i awdurdodau bilio (neu Weinidogion Cymru yn ôl y digwydd) i benderfynu, yn yr amgylchiadau penodol, nad yw'r math hwnnw o drefniant yn artiffisial.
45. Mae adrannau 63I (Atebolrwydd am ardrethi annomestig: rhestrau lleol) a 63J (Atebolrwydd am ardrethi annomestig: rhestrau canolog) yn darparu ar gyfer cymhwyso'r darpariaethau gwrthweithio osgoi gan awdurdodau bilio a Gweinidogion Cymru, mewn perthynas â hereditamentau a ddangosir mewn rhestr ardrethu leol neu ganolog, yn y drefn honno. Pan fo trefniant artiffisial i osgoi wedi ei wneud mewn perthynas â hereditament, rhaid i'r awdurdod bilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) drin y talwr ardrethi (neu berson arall os mai'r person hwnnw a fyddai wedi bod y talwr ardrethi yn absenoldeb y trefniant) fel pe bai'n atebol am dalu'r swm a godir a fyddai wedi bod yn gymwys i'r

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

hereditament yn absenoldeb y trefniant. Mae hyn yn cael yr effaith, pan fo ymddygiad osgoi penodedig yn parhau ar ôl i reoliadau gael eu gwneud, y bydd yn ofynnol i'r person dalu'r diffyg mewn atebolrwydd ers yr hwyraf o'r canlynol: y diwrnod y gwneir y trefniant; y diwrnod y daw'r rheoliadau i rym; neu ddiwrnod a bennir yn y rheoliadau.

46. Mae adran 63K (Atebolrwydd am ardrethu annomestig: hysbysu) o Ddeddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod bilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) gyflwyno hysbysiad i'r person sydd i gael ei drin fel pe bai'n atebol pan fo trefniant osgoi trethi artiffisial wedi ei nodi, ac yn galluogi'r person i ofyn i'r hysbysiad gael ei adolygu. Bydd yr awdurdod bilio (neu Weinidogion Cymru) naill ai'n cadarnhau'r hysbysiad neu'n ei dynnu'n ôl (os tynnir yr hysbysiad yn ôl ystyrir nad yw'r trefniant a oedd yn destun yr hysbysiad yn drefniant artiffisial i osgoi ardrethi annomestig).
47. Mae adran 63L (Apelau i'r tribiwnlys prisio) yn galluogi person i apelio yn erbyn hysbysiad a gadarnheir yn dilyn adolygiad. Caiff y tribiwnlys gadarnhau'r hysbysiad neu ofyn iddo gael ei dynnu'n ôl.
48. Mae adran 63M (Cosbau) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau'n darparu ar gyfer gosod cosb ariannol pan fo person yr ymdrinnir ag ef fel pe bai'n atebol am dalu ardreth ym methu â thalu swm sy'n ddyledus.

#### **Adran 14 - Gorchmynion a rheoliadau o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988**

49. Mae'r adran hon yn mewnosod adran newydd 143A (Gorchmynion a rheoliadau Gweinidogion Cymru) yn Neddf 1988. Mae adran 143A yn ailddatgan adran 143 o Ddeddf 1988, i nodi sut y mae pwerau a roddir i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf 1988 i gael eu harfer a'r weithdrefn berthnasol sydd i'w dilyn.
50. Bydd pwerau a roddir i unrhyw bersonau eraill i wneud is-ddeddfwriaeth a all fod yn gymwys i Gymru yn parhau i gael eu harfer yn unol ag adran 143 o Ddeddf 1988. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, y pwerau a roddwyd i Gomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi gan baragraffau 4F(2), 4G, 5F(1A) a 5FA(1) o Atodlen 9 i Ddeddf 1988, mewn perthynas â'r gofynion darparu gwybodaeth berthnasol.

#### **Adran 15 - Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol yn ymwneud â Rhan 1**

51. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r Atodlen, sy'n gwneud newidiadau canlyniadol ar adrannau 2, 3, 4, 8, 9, 10, 12, 13 a 14.
52. Mae Rhan 1 (paragraffau 1 i 5) o'r Atodlen yn gwneud diwygiadau sy'n ymwneud ag adrannau 2 i 4 (Rhestrau ardrethu). Mae paragraff 1 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf 1988. Mae nifer o'r diwygiadau yn newid cyfeiriadau at "Secretary of State" yn "appropriate national authority", pan fo'r ddarpariaeth berthnasol yn gymwys i Gymru a Lloegr. Pan fo ddarpariaethau'n gymwys i Gymru yn unig, mae cyfeiriadau at "Secretary of State" yn cael eu newid yn "Welsh Ministers". Mae'r diwygiadau hyn

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

yn adlewyrchu'r trosglwyddiad swyddogaethau a gafodd effaith yn rhinwedd erthygl 2(1) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Mae adran newydd 67(12A) o Ddeddf 1988 yn diffinio "the appropriate national authority", gan ailddatgan y diffiniadau (sy'n cael eu hepgor) o Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A.

53. Mae paragraff 1(2) ac (8) yn hepgor adrannau 41A a 54A o Ddeddf 1988. Mae'r adrannau hyn wedi eu disbyddu a rhoddir cyfrif am eu heffeithiau mewn darpariaethau a gyflwynir gan y Bil hwn.
54. Mae paragraff 1(9)(a) yn ailddatgan adran 55(1) o Ddeddf 1988 o ran Cymru drwy fewnosod adran newydd 55(1A). Mae'r ailddatganiad yn ystyried y darpariaethau a gyflwynir gan y Bil hwn.
55. Mae paragraff 1(9)(c) a (d) yn diwygio adran 55(7A) o Ddeddf 1988 fel ei bod yn gymwys o ran Lloegr yn unig ac yn ailddatgan ei heffaith o ran Cymru yn adran newydd 55(7AA). Mae'r ailddatganiad yn ystyried y darpariaethau a gyflwynir gan y Bil hwn.
56. Mae paragraff 1(10)(d) yn diwygio adran 58(10)(a) o Ddeddf 1988 i adlewyrchu'r newid yn y cyfnod rhwng blynnyddoedd ailbrisio a ddarperir gan y Bil hwn.
57. Mae paragraff 1(23)(c) yn diwygio paragraff 8 o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 fel ei fod yn gymwys o ran Lloegr yn unig. Mae paragraff 1(23)(d) yn mewnosod paragraff newydd 8A yn Atodlen 9, sy'n ailddatgan paragraff 8 o ran Cymru, gan ystyried y darpariaethau a gyflwynir gan y Bil hwn.
58. Mae paragraff 2 yn hepgor adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a pharagraffau 84 a 86 o Atodlen 16 iddi, a oedd yn mewnosod adran 41A o Ddeddf 1988 (a hepgorir gan y Bil hwn) a diwygiadau canlyniadol ar yr adran honno, yn y drefn honno.
59. Mae paragraff 3 yn diwygio adran 30(2) o Ddeddf Taliadau Atodol Ardrethi Busnes 2009 i gynnwys cyfeiriad at restrau ardrethu annomestig lleol ar gyfer Cymru a lunnir o dan adran 41ZA(1) newydd o Ddeddf 1988.
60. Mae paragraff 4 yn hepgor adran 30 o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013, a oedd yn mewnosod adran 54A o Ddeddf 1988 (a hepgorir gan y Bil hwn).
61. Mae paragraff 5 yn hepgor adran 1(4) o Ddeddf Ardrethu Annomestig (Rhestrau) 2021, a oedd yn diwygio adran 54A o Ddeddf 1988 (a hepgorir gan y Bil hwn).
62. Mae Rhan 2 (paragraffau 6 a 7) o'r Atodlen yn gwneud diwygiadau sy'n ymwneud ag adran 8 (Rhyddhad yn ôl disgresiwn: terfyn amser). Mae paragraff 6 yn hepgor paragraff 23 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997, gan fod y diwygiad i Ddeddf 1988 yr oedd yn darparu ar ei gyfer wedi ei hepgor gan y Bil hwn. Mae paragraff 7 yn hepgor adran 4(3) o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023, gan fod yr adran o Ddeddf 1988 yr oedd yn ei diwygio o ran Cymru wedi ei hepgor gan y Bil hwn.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

63. Mae Rhan 3 (paragraff 8) o'r Atodlen yn gwneud diwygiadau sy'n ymwneud ag adran 9 (Pwerau i roi ac amrywio esemptiad, a'i dynnu'n ôl). Mae paragraff 8 yn diwygio paragraff 20 o Atodlen 5 i Ddeddf 1988 fel ei fod yn gymwys o ran Lloegr yn unig.
64. Mae Rhan 4 (paragraffau 9 i 12) o'r Atodlen yn gwneud diwygiadau sy'n ymwneud ag adran 10 (Cyfrifo lluosyddion ardrethu annomestig). Mae paragraffau 9(2) i (4) yn diwygio darpariaethau penodedig o fewn Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A o Ddeddf 1988 fel eu bod yn gymwys o ran Lloegr yn unig, gan fod y Bil hwn yn ailddatgan darpariaethau cyfatebol ar gyfer Cymru. Mae paragraff 9(5) yn hepgor Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 1988, gan ei bod yn cael ei hailddatgan gan y Bil hwn.
65. Mae paragraff 10 yn hepgor adran 62(2) i (10) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, a oedd yn diwygio darpariaethau yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 sy'n cael eu hepgor gan y Bil hwn.
66. Mae paragraff 11 yn hepgor adran 154(2) a (3)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd adran 154(2) yn diwygio darpariaethau yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 sy'n cael eu hepgor gan y Bil hwn. Mewnosododd adran 154(3)(a) gyfeiriad at Weinidogion Cymru yn adran 143(2) o Ddeddf 1988, ac mae'r cyfeiriad hwnnw yn cael ei ddileu gan y Bil hwn.
67. Mae paragraff 12 yn hepgor adran 15(3) a (4) o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023, a oedd yn diwygio darpariaethau yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 sy'n cael eu hepgor gan y Bil hwn.
68. Mae Rhan 5 (paragraffau 13 i 17) o'r Atodlen yn gwneud diwygiadau sy'n ymwneud ag adran 12 (Yr wybodaeth i'w darparu i'r swyddog prisio). Mae paragraff 13(2)(a), (b), (d) i (f), a (i) i (k) yn diwygio paragraffau 5, 5A, 5B, 5C a 5D o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 o ran darparu gwybodaeth i swyddogion prisio, er mwyn hepgor hynny o'u cwmpas. Mae'r paragraffau diwygiedig yn parhau i ymdrin â darparu gwybodaeth i awdurdod bilio yng Nghymru a'r gyfundrefn gosbi gysylltiedig.
69. Mae paragraff 13(2)(c) a (g) yn diwygio'r penawdau o flaen paragraffau 5ZC a 5BD o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 er mwyn dangos bod y gofynion i ddarparu gwybodaeth i swyddogion prisio, a'r gyfundrefn gydymffurfio gysylltiedig, yn gymwys i Gymru.
70. Mae paragraff 13(2)(h) yn amnewid paragraff 5BE(4) o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 i gynnwys cyfeiriad sy'n gymwys i Gymru yn y diffiniad o "valuation tribunal", mewn cysylltiad ag apelau yn erbyn hysbysiad cosb am fethu â chydymffurfio â'r gofynion i ddarparu gwybodaeth i swyddogion prisio.
71. Mae paragraff 13(2)(l) yn diwygio paragraff 5E(1) o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 fel ei fod yn gymwys o ran Lloegr yn unig, ac yn mewnosod paragraff newydd 5E(1A) o ran Cymru. Mae hyn yn darparu bod unrhyw symiau a dderbynnir gan swyddog prisio drwy gosb o dan y gofynion darparu gwybodaeth o ran Cymru yn cael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru.
72. Mae paragraff 13(2)(o) yn diwygio paragraff 5H o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 fel nad yw'n cyfeirio ond at baragraffau sy'n berthnasol i ddarparu gwybodaeth i Cyllid a

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

Thollau Ei Fawrhydi (gan gynnwys swyddog prisio). Mae cyfeiriadau at baragraffau 5 a 5A, a ddiwygir gan y Bil hwn fel nad ydynt ond yn ymdrin â darparu gwybodaeth i awdurdodau bilio yng Nghymru, yn cael eu heithrio.

73. Mae paragraff 13(3)(a) yn diwygio paragraff 2 o Atodlen 11 i Ddeddf 1988 i gynnwys paragraffau 5BB a 5BE o Atodlen 9 o fewn awdurdodaeth tribiwnlysoedd prisio yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau y gall Tribiwnlys Prisio Cymru ymdrin ag apelau yn erbyn hysbysiadau cosb am fethu â chydymffurfio â'r gofynion i ddarparu gwybodaeth i swyddogion prisio a swyddogion Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi a gymhwysir i Gymru gan y Bil hwn.
74. Mae paragraff 13(3)(b) ac (c) yn mewnosod paragraff newydd 11(1A) yn Atodlen 11 i Ddeddf 1988 er mwyn caniatáu i reoliadau bennu y caniateir gwneud apêl i'r Uwch Dribiwnlys yn dilyn penderfyniad neu orchymyn gan dribiwnlys prisio ynglŷn ag apêl o dan baragraff 5BB, 5BE, 5C neu 6AA o Atodlen 9 i Ddeddf 1988. Mae'r paragraffau hynny yn ymwneud â chydymffurfio â dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi ac awdurdodau lleol.
75. Mae paragraff 14 yn hepgor paragraff 46 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a oedd yn diwygio darpariaethau ym mharagraff 5 o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 a hepgorir gan y Bil hwn.
76. Mae paragraff 15 yn hepgor adran 72(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, a oedd yn diwygio darpariaethau ym mharagraff 5 o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 a hepgorir gan y Bil hwn.
77. Mae paragraff 16 yn hepgor adran 151(2)(a), (c) ac (e), (3)(b)(i) a (6) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a oedd yn diwygio darpariaethau ym mharagraffau 5, 5A a 5D(1) o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 a ddiwygir ymhellach neu a hepgorir gan y Bil hwn.
78. Mae paragraff 17 yn hepgor paragraffau 42, 48 a 53(b) o'r Atodlen i Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023, a oedd yn diwygio darpariaethau yn Atodlen 9 i Ddeddf 1988 a hepgorir neu a ddiwygir ymhellach gan y Bil hwn.
79. Mae Rhan 6 (paragraff 18) o'r Atodlen yn gwneud diwygiadau sy'n ymwneud ag adran 13 (Trefniadau artiffisial i osgoi ardrethu annomestig). Mae paragraff 18(2)(a) yn mewnosod is-baragraff (ba) ym mharagraff 2 o Atodlen 11 i Ddeddf 1988, i gynnwys apelau o dan adran 63L o fewn awdurdodaeth unrhyw dribiwnlys a sefydlir o ran Cymru drwy reoliadau a wneir o dan baragraff 1 o'r Atodlen honno. Mae paragraff 18(2)(b) yn mewnosod cyfeiriad at adran 63L o Ddeddf 1988 ym mharagraff 11(1A) o Atodlen 11 i Ddeddf 1988 (fel y'i mewnosodir gan baragraff 13(3)(b) o'r Atodlen i'r Bil hwn), er mwyn caniatáu i reoliadau bennu y caniateir gwneud apêl i'r Uwch Dribiwnlys yn dilyn penderfyniad neu orchymyn gan dribiwnlys prisio ynglŷn ag apêl o dan adran 63L.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

80. Mae Rhan 7 (paragraffau 19 i 21) o'r Atodlen yn gwneud diwygiadau sy'n ymwneud ag adran 14 (Gorchmynion a rheoliadau o dan Ddeddf 1988). Mae paragraff 15 yn diwygio Deddf 1988 mewn sawl man i gynnwys neu amnewid cyfeiriadau at bwerau Gweinidogion Cymru o dan adran newydd 143A, a fewnosodir gan y Bil hwn. Diwygir adran 143 o Ddeddf 1988 fel nad yw'n ymdrin ond â phwerau nad ydynt yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru, gan gynnwys y rhai y gellir eu harfer o ran Cymru.
81. Mae paragraff 20 yn hepgor adran 84(4)(a) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a wnaeth ddiwygiad i adran 143(3) o Ddeddf 1988 sy'n cael ei wrthweithio gan y Bil hwn.
82. Mae paragraff 21 yn hepgor adrannau 151(10) a 152(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a oedd yn mewnosod adran 143(9AZA) a (9AB) (a hepgorir gan y Bil hwn).

## **RHAN 2 - Y DRETH GYNGOR**

### **Adran 16 - Trosolwg o Ran 2**

83. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r adrannau yn Rhan 2.

### **Adran 17 - Cyfrifo'r dreth ar gyfer bandiau prisio gwahanol**

84. Mae'r adran hon yn diwygio adran 5 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") drwy fewnosod is-adrannau newydd (4B) a (4C). Mae adran 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gosod y symiau o dreth gyngor sy'n daladwy mewn perthynas ag annedd drwy gyfeirio at fandiau'r dreth gyngor, yn unol â chyfrannau a neilltuir i bob band (yng Nghymru) gan is-adran (1A). Mae adrannau 36 a 47 o Ddeddf 1992 yn darparu bod y swm sy'n daladwy ar gyfer pob band i'w gyfrifo drwy gymhwyso fformiwla sy'n cynnwys y gyfran berthnasol ar gyfer y band hwnnw, fel y'i rhennir â "D".
85. Cyn y diwygiad, mae ystyr y llythyren "D" yn y ddwy fformiwla wedi ei osod fel y gyfran ar gyfer Band D.
86. Ar ôl y diwygiad, mae is-adran newydd (4B) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i newid y band prisio y cyfeirir ato yn yr ystyr a roddir i "D" gan adrannau 36 a 47. Mae is-adran newydd (4B) hefyd yn ailddatgan, ar gyfer Gweinidogion Cymru, y pwerau presennol o dan is-adran (4) i amnewid cyfran arall mewn perthynas ag is-adran (1A), a bandiau prisio eraill mewn perthynas ag is-adran (3) (sy'n cynnwys y rhestr o fandiau prisio ar gyfer anheddau yng Nghymru). Ac mae is-adran newydd (4C) yn ailadrodd, ar gyfer is-adran newydd (4B), yr eglurhad cyfatebol, mewn cysylltiad ag is-adran (4)(b), yn is-adran (4A).

### **Adran 18 - Disgowntiau**

87. Mae'r adran hon yn datgymhwyso darpariaethau presennol yn Neddf 1992 ynghylch disgowntiau i'r dreth gyngor mewn perthynas ag anheddau trethadwy yng Nghymru,



Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

ac mae'n mewnosod darpariaeth newydd ynghylch disgowntiau o'r fath sy'n gymwys o ran Cymru yn unig.

88. Mae adrannau 6 a 9 o Ddeddf 1992 yn cynnwys darpariaeth ynghylch atebolrwydd am dalu'r dreth gyngor o dan wahanol amgylchiadau. Mae adran 18(2) a (3) yn diwygio'r adrannau hyn i'r graddau y maent yn darparu ar gyfer diystyru personau penodol at ddibenion penderfynu pwy sy'n atebol pan fyddai'r personau hynny fel arall yn atebol ar y cyd ac yn unigol. O dan adrannau 6 a 9 fel y'u diwygir gan adran 18(2) a (3), diystyrir personau at y dibenion hyn os ydynt yn cael eu diystyru at ddibenion disgownt mewn perthynas ag annedd yng Nghymru o dan adran newydd 11E(5) (gweler isod) ac os ydynt yn cael eu cynnwys mewn disgrifiad a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. Mae adran 18(4) yn diwygio adran 11 o Ddeddf 1992 fel ei bod yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr yn unig, ac mae adran 18(5) yn mewnosod adran 11E newydd sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer disgowntiau mewn perthynas â Chymru.
89. Mae adran 11E(1) yn darparu pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru i ragnodi drwy reoliadau swm y disgownt y gall annedd drethadwy fod yn ddarostyngedig iddo (neu'r dull ar gyfer cyfrifo'r swm hwnnw) pan fo naill ai'r meini prawf a nodir yn adran 11E(2), neu feini prawf eraill a nodir gan reoliadau o dan 11E(3), yn cael eu bodloni mewn cysylltiad â'r annedd honno. Mae adran 11E(4) yn egluro y caiff y rheoliadau o dan adran 11E(1) ragnodi swm gwahanol o ddisgownt (neu ddarpariaeth wahanol ar gyfer cyfrifo swm disgownt) mewn perthynas â meini prawf gwahanol. Mae hefyd yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i wneud darpariaeth ynghylch swm y dreth gyngor sy'n daladwy mewn perthynas ag annedd y mae mwy nag un disgownt yn gymwys mewn cysylltiad â hi.
90. Mae'r meini prawf a nodir yn adran 11E(2)(a) yn cyfateb i'r rhai a nodir yn adran 11(1) a (2)(b) o Ddeddf 1992, ond mae adran 11E(2)(b) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu drwy reoliadau ar gyfer amodau neu feini prawf eraill y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i swm y dreth gyngor sy'n daladwy ar annedd drethadwy fod yn ddarostyngedig i ddisgownt o dan adran 11E(1). Mae adran 11E(6) yn darparu y caniateir rhagnodi'r amodau neu'r meini prawf hyn, a hefyd unrhyw amodau neu feini prawf a ragnodir o dan adran 11E(3), drwy gyfeirio at:
- y math o anheddau neu eu nodweddion ffisegol, neu faterion eraill sy'n ymwneud ag anheddau;
  - amgylchiadau unrhyw berson sy'n atebol am dalu swm y dreth gyngor dan sylw, neu faterion eraill sy'n ymwneud â'r person hwnnw.
91. Mae adran 11E(5) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ragnodi drwy reoliadau pwy sy'n cael eu diystyru at ddibenion y disgowntiau a nodir yn adran 11E(2) o Ddeddf 1992. Mae'r pŵer hwn yn disodli'r pŵer yn adran 11(5) o Ddeddf 1992 a fydd yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr yn unig.
92. Mae adran 18(5) hefyd yn mewnosod adran 11F newydd yn Neddf 1992. Mae'r adran hon yn disodli adran 12 o Ddeddf 1992, sy'n cael ei hepgor gan adran 18(6). O dan adran 11F(1) a (3), caiff Gweinidogion Cymru, mewn cysylltiad â blwyddyn ariannol, ragnodi dosbarthau o anheddau y mae disgownt o dan adran 11E yn gymwys iddynt drwy gyfeirio at:
- y math o anheddau neu eu nodweddion ffisegol, neu faterion eraill sy'n ymwneud ag anheddau;

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

- b. amgylchiadau unrhyw berson sy'n atebol am dalu swm y dreth gyngor dan sylw, neu faterion eraill sy'n ymwneud â'r person hwnnw.
93. O dan adran 11F(2), ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol y mae dosbarth o anheddau o'r fath yn cael ei ragnodi mewn cysylltiad â hi, caiff awdurdod bilio benderfynu datgymhwyso neu leihau'r disgownt o dan sylw mewn perthynas ag anheddau yn ei ardal (neu ran o'i ardal a bennir gan yr awdurdod).
94. Mae adran 11F(4) i (7) yn gwneud darpariaeth atodol, gan gynnwys gofyniad i unrhyw benderfyniad a wneir gan awdurdod o dan yr adran hon gael ei gyhoeddi'n electronig.
95. Mae adran 12A ac adran 12B o Ddeddf 1992 yn rhoi pwerau yn ôl eu disgrisiwn i awdurdodau bilio i godi symiau uwch o'r dreth gyngor yn achos anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol.
96. Mae adran 18(7) yn diwygio adran 12A o Ddeddf 1992, sy'n gwneud darpariaeth i awdurdodau bilio bennu bod swm y dreth gyngor sy'n daladwy yn cael ei gynyddu hyd at 300 y cant. Fel y'i diwygiwyd, ni fydd adran 12A bellach yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod bilio ddatgymhwyso'r disgownt pan nad oes preswlydd yn yr annedd fel rhan o'i benderfyniad i gynyddu'r dreth gyngor o dan adran 12A (oherwydd bod y disgownt pan nad oes preswlydd yn yr annedd wedi cael ei ddiddymu yng Nghymru). Yn hytrach, mae adran 12A yn cael ei diwygio fel bod rhaid i'r awdurdod gyfrifo swm y dreth gyngor sy'n daladwy drwy, yn gyntaf, ychwanegu'r cynnydd ar ffurf canran, ac wedyn tynnu unrhyw ddisgownt sy'n gymwys (gweler adran 12A(1)). Bydd disgownt ym gymwys at y dibenion hyn os yw wedi cael ei ragnodi gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir yn unol ag adran 11E(3), ac nad yw wedi cael ei ddatgymhwyso gan yr awdurdod bilio o dan adran 11F(2)(a). Swm y disgownt y mae'r awdurdod bilio yn ei dynnu fydd swm y disgownt a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir o dan adran 11E(1) neu, os yw'n llai, y swm a bennir gan yr awdurdod bilio o dan adran 11F(2)(b). Mae adran 18(8) yn gwneud yr un diwygiad i adran 12B o Ddeddf 1992 mewn perthynas ag anheddau a feddiennir yn gyfnodol.
97. Mae is-adrannau (9) i (11) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau eraill yn Neddf 1992.

## **Adran 19 - Symiau gostyngedig**

98. Mae adran 19(2) o'r Bil yn diwygio adran 13 o Ddeddf 1992, o ran pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n rhagnodi o dan ba amodau ac amgylchiadau y mae person yn gymwys ar gyfer gostyngiad i'r dreth gyngor, drwy ei newid yn ddyletswydd i wneud rheoliadau o'r fath.
99. Mae adran 19 hefyd yn dileu pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan adran 13A o Ddeddf 1992 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bilio wneud cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor, ac yn gwneud amryw ddiwygiadau canlyniadol - gan gynnwys hepgor Atodlen 1B i Ddeddf 1992, a oedd yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â chynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor yn unol â rheoliadau o dan adran 13A.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

100. Mae adran 19(6) yn diwygio adran 66(2) o Ddeddf 1992, sy'n rhestru materion yn y Ddeddf honno na chaniateir eu cwestiynu ond drwy adolygiad barnwrol, drwy ychwanegu materion mewn rheoliadau a wneir o dan adran 13 at y rhestr hon.

## **Adran 20 - Cyhoeddi hysbysiadau**

101. Mae'r adran hon yn newid y trefniadau yn adrannau 12A, 12B a 38 o Ddeddf 1992 ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau gan awdurdodau bilio.
102. Cyn y diwygiad, mae'n ofynnol i awdurdodau bilio gyhoeddi hysbysiadau sy'n ymwneud â lefelau'r dreth gyngor neu bremymau'r dreth gyngor mewn papurau newydd. Mae adran 20 o'r Bil yn disodli'r gofynion hynny â gofyniad i gyhoeddi'r un wybodaeth yn electronig ac i wneud trefniadau eraill addas ar gyfer unigolion na allant gyrchu gwybodaeth ar-lein.

## **Adran 21 - Y weithdrefn ar gyfer llunio rhestrau prisio**

103. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer llunio rhestrau prisio newydd bob pum mlynedd ar gyfer y dreth gyngor, gan ddechrau yn 2028, drwy ddiwygio adran 22B o Ddeddf 1992.
104. Cyn y diwygiad, caiff Gweinidogion Cymru bennu, drwy orchymyn, y flwyddyn y mae rhestr brisio treth gyngor newydd i gael ei llunio. Nid oes gofyniad i lunio rhestr newydd ar gyfnodau rheolaidd.
105. Diwygir adran 22B(3) o Ddeddf 1992 fel na all Gweinidogion Cymru ond arfer eu pŵer i wneud gorchymyn i bennu blwyddyn heb fod yn hwyrach na 2027. Mae adran 21(1)(b) o'r Bil yn mewnosod is-adrannau newydd (3A) i (3C) yn adran 22B. Mae'r rhain yn nodi'r trefniadau newydd ar gyfer llunio rhestrau prisio'r dreth gyngor ar ôl 2029:
- mae adran 22B(3A) yn darparu bod rhaid i swyddog rhestru mewn awdurdod bilio yng Nghymru lunio rhestr newydd ar 1 Ebrill yn y flwyddyn ailbrisio;
  - mae adran 22B(3B) yn pennu 2028 a phob pumed flwyddyn wedyn yn flwyddyn ailbrisio;
  - mae adran 22B(3C) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru drwy orchymyn i ddiwygio blwyddyn ailbrisio, neu'r cyfnod rhwng blynyddoedd prisio.
106. Mae adran 21(1)(d) o'r Bil yn mewnosod is-adran (7A) yn adran 22B o Ddeddf 1992. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, mewn gorchymyn, y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i swyddogion rhestru anfon copi o'r rhestr brisio arfaethedig at eu hawdurdodau bilio. Os na fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn o'r fath, y dyddiad cau fydd 1 Medi cyn y dyddiad y mae'r rhestr i gael ei llunio arno.
107. Mae adran 21(1)(e), (f) ac (g) yn newid y system o adneuo rhestrau prisio yng Nghymru, ar gyfer rhestrau yn y dyfodol, drwy ddatgymhwyso adran 22B(10) o Ddeddf 1992 a mewnosod is-adrannau newydd (8) a (10A). Ar ôl y diwygiad, rhaid i awdurdod bilio yng Nghymru:
- gadw, yn electronig, gopi o restr a gynigir gan swyddog prisio a chymryd camau i roi hysbysiad ohoni;

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

- adneuo, yn ei brif swyddfa, gopi o restr a lunnir o dan adran 22B(3);
- cadw, yn electronig, gopi o restr a lunnir o dan adran 22B(3A).

108. Mae is-adran (10) o adran 22B o Ddeddf 1992 yn parhau i gael effaith ar ôl y diwygiad mewn perthynas ag unrhyw restr ar gyfer Cymru a adneuwyd cyn i adran 19 ddod i rym (yn sgil adrannau 34 a 37 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019). Mae hyn yn golygu bod cyfeiriadau at restr a adneuwyd o dan is-adran (10) ("a list deposited under subsection (10)") sy'n ymddangos mewn lleoedd eraill yn Neddf 1992 (er enghraifft, yn adran 24(9)) yn parhau i gynnwys rhestrau ar gyfer Cymru a adneuwyd yn flaenorol o dan yr is-adran honno.

## **RHAN 3 - CYFFREDINOL**

### **Adran 22 – Dehongli**

109. Mae'r adran hon yn diffinio cyfeiriadau at y Deddfau sy'n cael eu diwygio gan y Bil.

### **Adran 23 – Darpariaeth ganlyniadol a throsiannol**

110. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaethau deilliadol, atodol, canlyniadol, trosiannol neu ddarpariaethau arbed mewn perthynas â'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Bil hwn.

### **Adran 24 – Dod i rym**

111. Mae'r adran hon yn nodi sut y bydd darpariaethau'r Bil hwn yn dod i rym. Daw adrannau 1, 16, 22, 23 a 25 a pharagraff 13(3)(b) o'r Atodlen (ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 13(3)(b)) i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Bil hwn y Cydsyniad Brenhinol.

112. Daw adrannau 2, 3, 4 a Rhan 1 o'r Atodlen (ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno o'r Atodlen), 5, 7, 8 a Rhan 2 o'r Atodlen (ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno o'r Atodlen), 9 a Rhan 3 o'r Atodlen (ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno o'r Atodlen), 13 a Rhan 6 o'r Atodlen (ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno o'r Atodlen), 14 a Rhan 7 o'r Atodlen (ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno o'r Atodlen) 17, 20 a 21 i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddeufis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol.

113. Daw adrannau 6, 10, 11 a Rhan 4 o'r Atodlen (ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno o'r Atodlen) i rym ar 1 Ebrill 2025.

114. Daw adran 18(2)(c) a (5) i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol at ddiben gwneud rheoliadau o dan adrannau 6(4C)(b)(ii) a (4D) ac adran 11E(1), (2)(b), (3), (5) a (7) ac adran 11F(1) a (7) o Ddeddf 1992 (fel y'i diwygiwyd). At bob diben arall deuant i rym ar y diwrnod (neu'r diwrnodau) a bennir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 20 Tachwedd 2023.

115. Daw darpariaethau eraill y Bil i rym ar ddiwrnod (neu ddiwrnodau) a bennir gan Weinidogion Cymru. Caiff gorchymyn yn hyn o beth wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

## ATODIAD 2: Mynegai o Ofynion y Rheolau Sefydlog

Rheol sefydlog		Adran	Tudalennau/ paragraffau
26.6(i)	Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd	Datganiad yr Aelod	Tudalen 1.
26.6(ii)	Nodi amcanion polisi y Bil	Rhan 1, Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	Tudalennau 6 - 28.
26.6(iii)	Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu	Rhan 1, Pennod 3	<p>Paragraffau 3.4 – 3.12 (ar gyfer opsiynau amgen â ystyriwyd i gyflawni nodau polisi).</p> <p>Paragraff 3.4 ar gyfer yr opsiynau amgen â ystyriwyd fel rhan o'r rhaglen ymchwil gynhwysfawr yn 2017 a arweiniodd at gyhoeddi <a href="#">Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r Canfyddiadau</a> ym mis Chwefror 2021.</p> <p>Paragraff 3.8 ar gyfer y rhaglen ymchwil â ystyriodd fathau amgen o drethi lleol megis</p>

Rheol sefydlog		Adran	Tudalennau/ paragraffau
			treth gwerth tir leol, trethi lleol sy'n seiliedig ar incwm, neu foderneiddio'r systemau presennol ar gyfer ardrethi annomestig a'r dreth gyngor.
		Rhan 2, Pennod 8 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Tudalennau 55-109
26.6(iv)	Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;</li> <li>(b) manylion y Bil, a</li> <li>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau)</li> </ul>	Rhan 1, Pennod 4 – Ymgynghori	Tudalennau 29-33. Paragraff 4.1 ar gyfer crynodeb o'r ymgynghori â rhanddeiliaid allanol. Paragraff 4.2 ar gyfer crynodeb o brosiectau ymchwil â gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid allanol. Paragraff 4.3 ar gyfer ymgysylltiad gyda Cyngor Partneriaeth Cymru a'i is-grwpiau. Paragraffau 4.4 - 4.8 ar gyfer crynodeb o ymgynghoriadau ar ardrethi annomestig.

Rheol sefydlog	Adran	Tudalennau/ paragraffau
		<p>Paragraffau 4.9 - 4.14 ar gyfer crynodeb o ymgynghoriadau ar y dreth gyngor.</p> <p>Tudalennau 111 a 115: paragraff 9.6 ar gyfer ardrethi annomestig a pharagraffau 9.25 a 9.26 ar gyfer y dreth gyngor.</p>
26.6(v)	Nodi crynodeb o ddeiliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio	Rhan 1, Pennod 4 – Ymgynghori Tudalennau 29 -33 ar gyfer crynodeb o'r ymgynghoriadau blaenorol a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Bil.
26.6(vi)	Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Rhan1, Pennod 4 – Ymgynghori Paragraff 4.16 ar gyfer y rhesymeg.
26.6(vii)	Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil	Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol Tudalennau 129 – 148.



Rheol sefydlog	Adran	Tudalennau/ paragraffau
26.6(viii)	<p>Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:</p> <p>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;</p> <p>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;</p> <p>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;</p> <p>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac</p> <p>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio</p>	<p>Rhan 2, Penodau 6 a 8 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol</p>
26.6(ix)	<p>Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol</p>	<p>Rhan 2, Pennod 9 – Aseiad Effaith Integredig</p>
		<p>Tudalennau 48 – 52 ar gyfer y crynodeb.</p> <p>Tudalennau 55 – 109 ar gyfer opsiynau manwl a chostau a manteision.</p> <p>Paragraffau 9.5, 9.11, 9.15 a 9.16 ar gyfer ardrethi annomestig.</p> <p>Paragraffau 9.23, 9.29, 9.33 a 9.34 ar gyfer y dreth gyngor.</p>

Rheol sefydlog		Adran	Tudalennau/ paragraffau
26.6(x)	<p>Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:</p> <p>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;</p> <p>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac</p> <p>(c) Gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall);</p>	Pennod 5 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	Tudalennau 34 – 46.
26.6(xi)	Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio	Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn	

Rheol sefydlog		Adran	Tudalennau/ paragraffau
26.6(xii)	Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf.	Rhan 2, Pennod 9 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Tudalennau 110 – 114 ar gyfer ardrethi annomestig, paragraffau 9.17 – 9.19.  Tudalennau 114 a 116 ar gyfer y dreth gyngor, paragraffau 9.37 – 9.40.
26.6B	Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol.	Atodiad 3 – Tabl tarddiadau	Tudalennau 155 – 156.
26.6C	Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil.	Atodiad 4 – Atodlen o ddiwygiadau	Tudalennau 157 – 318.

## ATODIAD 3: Tabl tarddiadau

Bwriedir i'r tabl canlynol ddarparu gwybodaeth ynghylch tarddiad y darpariaethau ym Mil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) ("y Bil"). Nid yw'r tabl yn darparu canllawiau diffiniol na chyflawn, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil a'r Nodiadau Esboniadol ar y Bil. Er bod gofal wedi ei gymryd i sicrhau bod y ddogfen mor gywir ag y bo'n rhesymol ymarferol, nid yw'n honni bod yn awdurdodol, ac ni ddylid dibynnu arni fel pe bai'n awdurdodol.

### YR ALLWEDD I'R BYRFODDAU

DCLIL 1988                      Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988  
DCLIL 1992                      Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

ADRAN/PARAGRAFF	CYFEIRIAD CYFATEBOL MEWN DEDDFWRIAETH SY'N BODOLI EISOES	NEWID SYLWEDDOL
<b>Rhan 1: Ardrethu Annomestig</b>		
1	Newydd	Dd/G
2	Mae adran 41ZA o DCLIL 1988 yn tarddu i raddau helaeth o adran 41 o'r Ddeddf honno, a hefyd, yn rhannol, o adran 41A o'r Ddeddf honno, ond mae'n lleihau'r cyfnod ar gyfer llunio rhestrau ardrethu annomestig lleol o 5 mlynedd i 3 blynedd ac mae'n cyflwyno gofyniad i awdurdodau bilio storio rhestrau drafft, a rhestrau sydd wedi eu llunio, ar ffurf electronig	Oes
3	Mae adran 52ZA o DCLIL 1988 yn tarddu i raddau helaeth o adran 52 o'r Ddeddf honno ond mae'n lleihau'r cyfnod ar gyfer llunio rhestrau ardrethu annomestig canolog o 5 mlynedd i 3 blynedd ac mae'n cyflwyno gofyniad i awdurdodau bilio storio rhestrau drafft, a rhestrau sydd wedi eu llunio, ar ffurf electronig	Oes
4 a 5	Newydd	Dd/G
6	Mae paragraff 2(3) o Atodlen 4ZB i DCLIL 1988 yn tarddu o baragraff 2(2) o'r Atodlen honno, ond mae'n darparu ar gyfer amodau ychwanegol sydd	Oes

	i'w bodloni gan y talwr ardrethi perthnasol	
7 i 9	Newydd	Dd/G
10	Yn tarddu'n rhannol o Atodlen 7 i DCLIL 1988 ond mae hefyd yn cyflwyno pwerau dirprwyedig newydd mewn perthynas â lluosyddion ardrethu annomestig	Oes
11	Mae diwygiadau i Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A i DCLIL 1988 yn tarddu'n rhannol o ddarpariaethau presennol yn yr Atodlenni hynny	Nac oes
12 a 13	Newydd	Dd/G
14	Mae adran 143A o DCLIL 1988 yn tarddu i raddau helaeth o adran 143 o'r Ddeddf honno ond mae hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at y pwerau newydd a gyflwynir yn adrannau 4, 5, 9, 10 a 13 o'r Bil	Nac oes
15	Newydd	Dd/G
<b>Rhan 2: Y Dreth Gyngor</b>		
16	Newydd	Dd/G
17	Mae adran 5(4B) a (4C) o DCLIL 1992 yn tarddu o adran 5(4) a (4A), yn y drefn honno	Nac oes
18 i 20	Newydd	Dd/G
21	Mae adran 22B(10A) o DCLIL 1992 yn tarddu'n rhannol o adran 22B(10) o DCLIL 1992	Nac oes
<b>Rhan 3: Cyffredinol</b>		
22 i 25	Newydd	Dd/G
Yr Atodlen	Darpariaethau newydd ar wahân i ddiwygiadau a gynhwysir ym mharagraff 1(9) sy'n tarddu i raddau helaeth o adran 55(1) a (7A) o DCLIL 1988, a diwygiadau a gynhwysir ym mharagraff 1(24)(d) sy'n tarddu i raddau helaeth o baragraff 8 o Atodlen 9 i DCLIL 1988	Nac oes

## ATODIAD 4: Atodlen o ddiwygiadau

### GWELLIANNAU I'W GWNEUD GAN Y BIL CYLLID LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)

